

**BBC**

**Adroddiad Blynyddol a  
Chyfrifon y Grŵp 2019/20**





# **BBC**

## **Adroddiad Blynyddol a**

### **Chyfrifon y Grŵp 2019/20**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Orchymyn ei Mawrhydi

#### **(h) Hawlfraint y BBC 2020**

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) y BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhychu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o [bbc.co.uk/annualreport](http://bbc.co.uk/annualreport)

Dyluniwyd gan Emperor emperor.works

Cyfieithwyd gan Prysg prysg.cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erthygl 37)



# Cynnwys

## Y BBC

- 02 Hysbysu, addysgu a diddannu'r DU yn 2019/20
- 04 Y coronafeirws: hysbysu, addysgu a diddannu yn ystod y cyfyngiadau symud

## Adroddiad strategol


- 06 Datganiad gan y Cadeirydd
- 08 Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 09 Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2019/20
- 16 – *Perfformiad cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad*
- 18 Cyflawni ein dibenion cyhoeddus
- 20 – *Newyddion a gwybodaeth ddiuuedd*
- 22 – *Dysgu i bobl o bob oedran*
- 24 – *Allbwn creadigol a nodedig o ansawdd*
- 30 – *Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU*
- 40 – *Cyflwyno'r DU i'r byd*
- 42 Cyllid a gweithrediadau
- 51 Gweithrediadau masnachol
- 52 – *BBC Studios*
- 56 – *BBC Global News*
- 57 – *BBC Studioworks*
- 58 Sut rydym yn gweithredu
- 59 – *Ein pobl*
- 64 – *Ymgynghoriadau*
- 65 – *Adroddiad ymgysylltu â chynulleidfaoedd*
- 66 – *Cynaliadwyedd amgylcheddol*
- 67 – *Gwaith elusennol*
- 68 – *Partneriaethau a mentrau cydweithredol*

## Adroddiad Llywodraethu

- 70 Bwrdd y BBC
- 71 Pwyllgor Gweithredol
- 71 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 72 Adroddiad Cydymffurfiaeth Gorfforaethol
- 74 Adroddiad Cydnabyddiaeth
- 81 Datgeliadau cyflogau
- 89 Barn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ddatgeliadau cyflogau
- 90 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
- 91 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 95 Risgiau a chyfleoedd
- 103 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 104 Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol
- 105 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 107 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 109 Adroddiad Masnachu Teg
- 111 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
- 112 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 113 Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus
- 136 Pecynnau data perfformiad
- 157 Barn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar becynnau data'r Gwledydd

## Datganiadau ariannol (yn Saesneg)


- 159 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
- 171 Datganiad incwm cyfunol
- 171 Datganiad incwm (colled) cyfunol cynhwysfawr
- 172 Mantolen gyfunol
- 173 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
- 173 Datganiad lliw arian parod cyfunol
- 174 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
- 175 Nodiadau i'r cyfrifon
- Gwybodaeth ychwanegol**
- 222 Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
- 263 Mynegai
- 264 Hawlfraint a chredydau ffotograffwyr
- 265 Gwybodaeth gyswllt ac adborth



Chwith: *Seven Worlds, One Planet* ar BBC One  
 Uchod: *Ellie Bamber yn The Trial of Christine Keeler* BBC One

# Hysbysu, addysgu a diddanu'r DU yn 2019/20

Bu'n flwyddyn eithriadol a digynsail i BBC News; denwyd y cynulleidfaedd uchaf erioed i BBC iPlayer a BBC Sounds; a chafodd BBC Studios flwyddyn eithriadol yn cyflwyno creadigrwydd Prydeinig i gynulleidfaedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r tudalennau hyn yn nodi rhai o'r prif ffyrdd yr aeth y BBC ati i gyflawni ei genhadaeth – sef hysbysu, addysgu a diddanu – yn 2019/20.



## 38%

cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn y munudau gwylio wythnosol cyfartalog ar iPlayer

## Trawsnewid iPlayer

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd BBC iPlayer yn denu'r cynulleidfaedd uchaf erioed, gyda 4.8 biliwn o geisiadau i ffrydio rhaglenni yn 2019/20. Mae rhaglenni bellach ar gael am o leiaf 12 mis (gweler tudalennau 11-12 a 25 am ragor o wybodaeth am y ffordd y mae iPlayer wedi trawsnewid y flwyddyn hon).

## 3.6m

Cyfrifon defnyddwyr sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar ddiwedd 2019/20

## Datblygu BBC Sounds

Mae BBC Sounds wedi cael blwyddyn lwyddiannus eleni, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd wedi rhagori'n sylweddol ar ein targedau pob cynulleidfa ar gyfer defnyddwyr. Mae defnyddwyr wedi manteisio ar orsafoedd byw, cymysgeddau cerddoriaeth a chynnydd wrth wrando ar bodlediadau ansawdd uchel y BBC, gan gynnwys rhai poblogaidd fel *The Missing Cryptoqueen*, *That Peter Crouch Podcast* a *Tunnel 29* (gweler tudalennau 13 a 25 am ragor o wybodaeth am ein rhaglennu nodedig eleni).

## 74%

Cyfran yr oedolion yn y DU sy'n nodi bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu pobl yn y DU (aneffeithiol 9%)

## Hysbysu cynulleidfaedd yn ystod cyfnod cymhleth

Bu'n flwyddyn eithriadol a digynsail i BBC News, wrth ddarlledu yn ystod misoedd olaf cyfnod Theresa May yn ei swydd, ethol Boris Johnson, Etholiad Cyffredinol y DU, dadl Brexit a'r trefniadau i ni adael yr UE. Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaethom roi sylw i'r llyfogydd ym mis Chwefror ac yna i'r achosion byd-eang o'r coronareifws. Y BBC a gaiff ei enwi amlaf yn sicr pan fydd defnyddwyr newyddion yn nodi'r ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati i gael cynnwys newyddion diduedd. (gweler tudalennau 13 a 20 am farn cynulleidfaedd ar ein cynnwys newyddion).

# 55:45

Cymhareb y dynion i'r menywod a gofnodwyd yn ein datgeliadau cyflogau ar dudalen 81, o 76:24 yn 2016/17.

## BBC amrywiol a chynhwysol

Eleni, mabwysiadwyd ein prosiect 50:50 arloesol i sicrhau bod dynion a menywod wedi'u cynrychioli'n gyfartal ar y sgrin gan fwy na 60 o sefydliadau mewn 20 o wledydd. Penodwyd June Sarpong fel ein Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol cyntaf erioed a gwnaethom ymrwymo i'r buddsoddiad ariannol mwyaf yn y diwydiant mewn cynhwysiant ar yr awyr – gan flaenoriaethu £100 miliwn o'n cyllideb gomisiynu bresennol ar gyfer cynnwys newydd dros dair blynedd (o 2021/22-2023/24) at raglennu amrywiol a chynhwysol (gweler o dudalennau 30-39 a 59 am ragor o wybodaeth am yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud i sicrhau bod ein gweithleoedd mor amrywiol a chynhwysol â phosibl).

# 18.5<sup>m</sup>

### Gavin & Stacey

Y gynulleidfa ar gyfer bennod arbennig o Gavin & Stacey adeg y Nadolig ar draws pob sgrin. Hon oedd rhaglen wedi'i sgrïptio fwyaf y degawd.

# Rhif 1

### am newyddion diduedd

Mae 51% o ddefnyddwyr newyddion yn enwi'r BBC fel y ffynhonnell maent fwyaf tebygol o droi ati ar gyfer newyddion diduedd – i fyny o 44% yn 2018/19 ac ymhell ar y blaen i'r darparwr nesaf agosaf (Sky News, 7%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 9%

twf o un flwyddyn i'r llall mewn EBITDA ar gyfer BBC Commercial Holdings

## BBC Studios – y gorau ym Mhrydain

Buddsoddodd BBC Studios y swm uchaf erioed mewn cynnwys a chafodd ei flwyddyn orau o ran gwerthu cynnwys. Ynghyd â chaffael UKTV, llwyddodd BBC Studios i gyflawni ei werthiannau a'i elw uchaf erioed. Yn ei ail flwyddyn fel busnes a unwyd, sy'n darparu'r goreuon o blith creadigrwydd Prydeinig i gynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd, mae'r canlyniadau hyn yn dangos llwyddiant wrth drawsnewid diwylliant a gweithrediadau BBC Studios, gan gyflawni sefyllfa gref ochr yn ochr â sefydliadau byd-eang eraill. Ac yn dilyn ei llwyddiant yng Ngogledd America,



# 468<sup>m</sup>

Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang Yn cynnwys BBC News a BBC Studios. Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC.

Travelling Blind ar BBC Two

gwnaethom lansio BritBox ar y cyd ag ITV yn y DU ym mis Tachwedd – gwasanaeth ffrydio newydd, sy'n cynnig y casgliad mwyaf o focs-sets Prydeinig (gweler tudalennau 51 i 57 am ragor o wybodaeth am ein gweithrediadau masnachol).

## BBC byd-eang

Eleni, cynyddodd cyfanswm ein cynulleidfa fyd-eang 11% i gyrraedd 468 miliwn ar draws ein gwasanaethau newyddion, Saesneg, ieithoedd tramor a masnachol. Ac mae ein brand yn parhau i dyfu'n rhyngwladol, fel y gwelir yn sgil llwyddiant BritBox yng Ngogledd America a pherfformiad sioeau poblogaidd fel *Seven Worlds, One Planet* ledled y byd (gweler tudalennau 13 a 40 am ragor o wybodaeth am ein gweithrediadau byd-eang).

# 91%

### Cyrhaeddiad oedolion y DU

Canran yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. 2018/19: 91%

# 07:30<sup>o:m</sup>

Treuliodd bobl 16-34 oed yn y DU fwy o amser gyda gwasanaethau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2019/20 nag unrhyw frand cyfryngau arall

# 1<sup>o</sup> bob 6

cyfran poblogaeth yr Alban sy'n gwyltio sianel BBC Scotland bob wythnos ar gyfartaledd

## Datblygu sianel BBC Scotland

Yn ystod ei blwyddyn lawn gyntaf o weithredu, mae sianel newydd BBC Scotland wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cyrhaeddodd fwy o wylwyr yn yr Alban nag unrhyw sianel ac eithrio BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5 bob wythnos ar gyfartaledd (gweler tudalennau 33 a 144 am ragor o wybodaeth am ein perfformiad ledled y DU)



# Y coronafeirws: hysbysu, addysgu a diddanu yn ystod y cyfyngiadau symud

Fel y darlledwr cenedlaethol, rydym wedi chwarae rhan hanfodol yn ystod argyfwng y coronafeirws. Mae'r adroddiad arbennig hwn yn dangos, yn ystod adeg o angen cenedlaethol, sut y gwnaethom ddefnyddio pob un o'n hadnoddau – sianelau, gorsafoedd ac allbwn – er mwyn diwallu anghenion mwyaf dybryd ein cynulleidfa oedd. O newyddion a gwybodaeth yr ymddiriedir ynddynt i gymorth addysgol, o'r celfyddydau a diwylliant i gynnwys i dynnu sylw ac i ddianc drwyddo, gwnaeth y cyhoedd dyrru atom mewn ymateb i hynny.

## 94%

**Cyrhaeddiad y BBC cyfan ymhlith oedolion y DU yn ystod yr wythnos y dechreuodd y drefn ar gyfer cadw pellter cymdeithasol**

Bu ymateb y cyhoedd i'r BBC yn ystod y cyfnod hwn yn eithriadol. Wrth i'r drefn ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ddechrau yn y DU yn ystod trydydd wythnos mis Mawrth, cyrhaeddodd cyrhaeddiad y BBC cyfan ymhlith oedolion yn y DU uchafbwynt o 94% – ac 86% o unigolion 16-34 oed.

## Rhif 1

**Prif ffynhonnell newyddion ar gyfer gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi am y coronafeirws**

Mae 48% o ddefnyddwyr newyddion yn enwi'r BBC fel y ffynhonnell newyddion y gellir ymddiried ynddi fwyaf ar gyfer gwybodaeth am y pandemig, ac mae ymhell ar y blaen i'r ffynhonnell agosaf nesaf (Sky News ar 8%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**Menter fyd-eang i drechu twyllwbyodaeth yn ystod yr argyfwng**

Cydweithiodd rhai o brif sefydliadau newyddion a thechnoleg y diwydiant i roi system rhybuddio gyffredin ar waith er mwyn nodi twyllwbyodaeth niweidiol am y coronafeirws yn gyflym a'i hatal rhag lledaenu.

**Hysbysu cynulleidfa oedd**

Chwaraeodd BBC News ran allweddol wrth ddarparu gwybodaeth gywir y gellir ymddiried ynddi i gynulleidfa oedd, gan aillfocysu ei allbwn er mwyn darparu gwasanaeth newyddion parhaus ar deledu, radio ac ar-lein. Yn ystod wythnos gyntaf y drefn ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, gwnaeth naw o bob deg oedolyn yn y DU droi at BBC News ar bob llwyfan. Roedd yr un peth yn wir am wyth o bob deg oedolyn ifanc (16-34 oed).

**Y Frenhines yn darlledu i'r genedl**

Gwylodd 14.1 miliwn anerchiad teledu'r Frenhines i'r genedl ar BBC One ar y diwrnod ar 5 Ebrill ac fe'i gwylwyd gan 756,000 ychwanegol ar sianel BBC News.

➔ Am ragor o wybodaeth am sut y gwnaethom reoli'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r coronafeirws, ewch i dudalen 95



## 81m

**Y nifer uchaf erioed o borwyr â BBC News Online yn y DU**

Daeth 81 miliwn o borwyr yn y DU, sef record newydd, at BBC News Online yn yr wythnos a ddechreuodd 16 Mawrth.

## 84%

**Trodd 84% o oedolion yn y DU at y BBC ar y diwrnod y cyhoeddodd y Prif Weinidog y cyfyngiadau symud, sef bron i 45 miliwn o bobl.**

Yn ystod y cyfyngiadau symud o fis Ebrill i fis Mehefin, cafodd tua 24% o'r holl amser a dreuliodd oedolyn cyffredin yn ystod wythnos ar ddeunydd fideo, sain ac ar-lein yn y DU ei dreulio gyda'r BBC. Er mwyn cymharu, cafodd tua 4% o'r amser hwnnw ei dreulio gyda Netflix.





Syr Lenny Henry yn cyflwyno The Big Night In ar BBC One

## Daeth Plant mewn Angen a Comic Relief ynghyd ar gyfer The Big Night In

Llwyddodd *The Big Night In* ar BBC One (a *The Big Day In* ar draws gorsafoedd radio rhwydwaith a radio lleol y BBC) i godi dros £70 miliwn ar ddiwedd mis Ebrill, gan gynnwys cyfraniad arian cyfatebol y Llywodraeth, a gaiff ei rannu rhwng BBC Plant mewn Angen, Comic Relief a'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol newydd. Cafodd sengl elusennol arbennig, *Times Like These*, a oedd yn cynnwys talent gerddorol newydd, ei rhyddhau ar y diwrnod, a chyrraeddodd Rif 1 yn Siart Senglau'r DU ym mis Ebrill, gyda'r holl elw net yn y DU yn mynd tuag at apêl *The Big Night In*.

**55<sup>m</sup>**

**o geisiadau ar BBC iPlayer i wylio Normal People rhwng diwedd mis Ebrill a dechrau mis Gorffennaf.**


Cafwyd 16.2 miliwn o geisiadau dros yr wyth diwrnod cyntaf yn unig, sy'n golygu mai dyma'r lansiad drama mwyaf ar BBC iPlayer erioed.

**2<sup>bn</sup>**

**Y ffigurau uchaf erioed i iPlayer**  
Cafodd BBC iPlayer bron i ddau biliwn o geisiadau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud rhwng diwedd mis Mawrth a dechrau mis Gorffennaf ac mae wedi torri sawl record am y diwrnodau gorau erioed un ar ôl y llall. Mae'r gwasanaeth wedi chwarae rhan hanfodol yn ystod y cyfnod digysail hwn, gan roi cyfle nid yn unig i bobl ddal i fyny â'r newyddion diweddaraf ond gan roi cyfle iddynt hefyd ddianc i gyfres o'u dewis.

## Cyflwyno'r celfyddydau a diwylliant i gartrefi drwy Culture in Quarantine

Aeth BBC Arts ati'n gyflym iawn i greu Culture in Quarantine gyda chefnogaeth Arts Council England a nifer o gyrff ariannu a chynhyrchu eraill, er mwyn cynnig llwyfan bywiog i'r celfyddydau yn ystod yr argyfwng. Ar adeg lle y bu'n rhaid i ddiwylliant ym Mhrydain gau ei ddrysau, helpodd Culture in Quarantine i barhau i gyflwyno'r celfyddydau i bobl yn eu cartrefi a chyflwynodd gynulleidfa i ddiwylliant Prydain na allai fod yn bresennol yn bersonol.



The Swan a oedd yn rhan o Culture in Quarantine

**37.7<sup>m</sup>**

**Y nifer uchaf erioed o geisiadau iPlayer mewn wythnos ar gyfer CBeebies a CBBC**

Yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl cau'r ysgolion (23-29 Mawrth), cafwyd y nifer uchaf erioed o geisiadau am raglennu CBBC, sef 10.6 miliwn, a nifer anhygoel am CBeebies, sef 27.1 miliwn. Mae hynny 93% yn fwy o geisiadau nag a gafodd CBBC yn ystod unrhyw wythnos gyffredin yn ystod y 12 mis diwethaf, a 49% yn fwy i CBeebies.

**1.1<sup>m</sup>**

Nifer yr achosion o gysylltu â llinell gymorth radio lleol y BBC ar y coronafeirws erbyn diwedd mis Mehefin 2020


### Cysylltu cymunedau

Lansiwyd ymgyrch *Make a Difference* er mwyn cysylltu'r rheini yr oedd angen help arnynt â'r rheini a allai ddarparu'r help hwnnw. Dyma'r ymateb mwyaf a gafodd y BBC erioed i ymgyrch radio leol.

Yn y gyfamser, daeth y rhaglenni newyddion lleol gyda'r nos am 18:30 i'r brig o ran ffigurau gwranddo yn rheolaidd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ar unrhyw ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

### Helpu pobl i deimlo eu bod wedi'u cysylltu ac i deimlo'n bositif

O ddiwedd mis Mawrth hyd at ganol mis Mai, darparodd y rhaglen *HealthCheck UK Live* a ddarlledwyd yn ystod y dydd ar BBC One wybodaeth a chwmni, er mwyn codi calonnau gwylwyr a oedd yn ynysu. Gwylodd cyfartaledd o dros filiwn o bobl bob dydd.



## Addysgu pobl ifanc y genedl

Fel rhan o'n hymgyrch addysg fwyaf erioed, cyflwynwyd 14 wythnos o raglenni a gwersi addysgol i bob aelwyd yn y DU – ni waeth beth oedd oedran y plentyn.

# Datganiad gan y Cadeirydd

**Bu'n adeg anodd ond, unwaith yn rhagor, mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r rôl ganolog y mae'r BBC yn ei chwarae ym mywyd y genedl ym Mhrydain.**

**Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn crisialu blwyddyn a ddaeth i ben wrth i argyfwng iechyd y coronafeirws ddod i'r amlwg. Ar ran holl aelodau Bwrdd y BBC, hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am yr hyblygrwydd, yr ymroddiad a'r gwydnwch anhygoel maent wedi'u dangos drwy gydol y cyfnod hwn. Mae pob un ohonynt wedi goresgyn heriau golygyddol a gweithredol sylweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r BBC yn parhau i gael eu darparu. Maent wedi sicrhau ein bod wedi parhau i gyflawni pob agwedd ar ein cenhadaeth a chwarae rôl hanfodol i gynulleidfaoedd ar adeg pan fo angen hynny'n ddifrifawr. Mae'r cyfraniad a wnaed gan y BBC yn ystod argyfwng y coronafeirws wedi'i grynhoi ar dudalennau 4-5.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn hefyd yn cwmpasu'r holl gyfnod pan mai Tony Hall oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch yn fawr i Tony am ei arweinyddiaeth gloddiw dros y saith mlynedd diwethaf, ac yn arbennig dros yr ychydig fisoedd diwethaf wrth inni wynebu argyfwng cenedlaethol. Cyraeddodd sefydliad yr oedd angen sefydlogrwydd a diwygio sylweddol arno, ac mae'n gadael gyda'r BBC wedi dangos y rôl hanfodol y gall ei chwarae yn ganolbwynt i'n bywyd cenedlaethol. Mae Tony yn personol i'r gonestrwydd, y gwedduster a'r creadigrwydd sy'n gwneud y BBC yn arbennig a bydd colled fawr ar ei ôl.

Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, mae Tony wedi goruchwylio proses o ail-greu'r BBC sy'n golygu ei fod mewn sefylla dda i lwyddo

yn yr oes ddigidol. Mae ei gyflawniadau yn ein hatgoffa, unwaith yn rhagor, fod y dasg o arwain y BBC yn gofyn am sgiliau a rhinweddau nad ydynt i'w gweld gan bawb, yn ogystal ag ymrwymiad cadarn i egwyddorion gwasanaethu'r cyhoedd. Dyna pam mae wedi bod yn fraint gan y Bwrdd benodi Tim Davie sydd, fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios, wedi dangos ei fod yn olynnydd teilwng.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yn etifeddu BBC sy'n parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion beunyddiol cynulleidfaoedd. Rhaid i'r hyn rydym wedi ei gyflawni dros y chwe mis diwethaf barhau, o ddarparu newyddion a gwybodaeth hanfodol, y gellir ymddiried ynddynt, i helpu i addysgu ein plant, i gynnig dihangfa werthfawr i gynulleidfaoedd.

Mae ein cenhadaeth addysgol yn arbennig wedi dod i'r amlwg. Mewn ychydig wythnosau yn unig, llwyddodd y BBC i gynnig yr arlwy addysgol fwyaf yn ein hanes: pecyn *Bitesize Daily* o wersi a rhaglenni gwreiddiol er mwyn sicrhau bod pob aelwyd, ni waeth beth fo oedran y plentyn, wedi gallu cael gafael ar ddeunydd i ategu'r cwricwlwm. Yn ystod wythnos gyntaf tymor yr haf yn unig, cafwyd dros bum miliwn o borwyr yn ymweld â BBC Bitesize ar-lein, deirgwaith y ffigur cyfatebol y flwyddyn flaenorol.

Ond, yn ogystal â rhoi hwb i gynulleidfaoedd gwasanaethau'r BBC, mae'r argyfwng wedi cyflymu llawer o dueddiadau'r farchnad fyd-eang a'r heriau technolegol rydym yn eu hwynebu. Rhaid inni ymateb yn gyflymach hefyd.

Dengys yr adroddiad hwn y cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud i ail-greu'r BBC a datblygu ein strategaeth ddigidol. Mae tudalennau 9-15 yn dangos sut rydym wedi parhau i wella ein gwasanaethau i gynulleidfaoedd. Er enghraifft, rydym wedi trawsnewid iPlayer, gyda newidiadau a gymeradwywyd gan y Bwrdd y flwyddyn hon yn golygu bod rhaglenni bellach

ar gael am 12 mis o leiaf. Torrwyd sawl record eleni, gyda mwy o bobl nag erioed yn mewngofnodi, a chyfanswm o 4.8 biliwn o geisiadau i ffrydio rhaglenni.

Yn y cyfamser, mae BBC Sounds wedi hawlio ei le fel cartref holl gynnwys radio a sain y BBC, gan ragori ar bob targed yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf, gan gynnwys y rhai i gynulleidfaoedd iau. Ac, ar ddiwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer BBC News i foderneiddio ein gwasanaethau newyddion er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Mae'r holl ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, o Etholiad Cyffredinol y DU i lifogydd mis Chwefror i argyfwng y coronafeirws, wedi tanlinellu pa mor bwysig yw newyddion a gwybodaeth ddiuedd, y gellir ymddiried ynddynt, ond maent hefyd wedi dangos pa mor gyflym y mae cynulleidfaoedd yn croesawu'r byd digidol.

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn diffinio dyfodol hirdymor y BBC. Mae hyn yn rhannol oherwydd twf parhaus cystadleuwyr cefnog yn y farchnad fyd-eang. Mae hefyd yn rhannol oherwydd bod cerrig milltir pwysig o'n blaenau: adolygiad Ofcom o Ddarledu Cyhoeddus; pennu ffi'r drwydded ar gyfer ail hanner y Siarter, yn weithredol o fis Ebrill 2022; yr adolygiad canol tymor o systemau llywodraethu a rheoleiddio; a'r Siarter ei hun yn dod i ben yn 2027.

Mae angen mynd i'r afael â materion ar unwaith hefyd, yn enwedig mewn perthynas â ffi'r drwydded. Yn 2015, nododd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau i ariannu'r consesiwn ar gyfer trwydded deledu i bobl dros 75 oed. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros bennu'r polisi, ac yna dalu amdano, i'r BBC. Ar adeg cytuno ar y trefniant hwn rhwng Gweinidogion y Llywodraeth a'r BBC, cafwyd cydnabyddiaeth gyhoeddus gan y ddwy ochr bod proses ddiwygio yn debygol o ddigwydd.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang lle roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid diwygio, gwnaethom gyhoeddi ein polisi arfaethedig ym mis Mehefin 2019. Mae'r polisi, a gyflwynwyd y mis diwethaf, yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelwyd dalu; ond mae'n cynnig consesiwn i bobl dros 75 oed sydd ar gredyd pensiwn. Credwn fod y polisi hwn yn deg: mae'n helpu'r rheini dros 75 oed sydd dlotaf yn ein cymuned, a'r rheini y mae ynysu cymdeithasol yn aml yn problem iddynt, ynghyd ag osgoi'r toriad sylweddol i wasanaethau'r BBC a fyddai wedi bod yn ofynnol pe byddem wedi ehangu'r consesiwn i bawb, p'un a allent fforddio talu ai peidio. Wrth gwrs, byddwn yn cymryd gofal mawr wrth roi'r polisi hwn ar waith.

## Rhaid i'r BBC bob amser fod yn agored i drafod ei ddyfodol, ond rhaid iddo fod yn rhan o sgwrs briodol â chynulleidfaoedd.



Mae ail fater ynghylch ffi'r drwydded yn ymwneud ag ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddad-droseddoli achosion o beidio â thalu. Rydym wedi tynnu sylw'r Llywodraeth at yr adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Weinidogion yn y cyfnod cyn Siarter 2017, a luniwyd gan David Perry QC, lle ystyriodd ystod lawn o opsiynau a chanfod yn y pen draw mai'r system bresennol yw'r system decaf a mwyaf effeithiol, ac felly argymhellodd y dylid ei chadw. Cyfrifodd Perry hefyd fod cost dad-droseddoli i'r BBC yn debygol o fod yn £200 miliwn y flwyddyn o leiaf.

Rhaid i'r BBC bob amser fod yn agored i drafod ei ddyfodol, ond rhaid iddo fod yn rhan o sgwrs briodol â chynulleidfaoedd. Rhaid i unrhyw drafodaeth ddechrau drwy ofyn pa fath o BBC y mae ein cynulleidfaoedd yn dymuno ei weld, cyn gofyn beth yw'r ffordd orau o gyflawni ac ariannu hynny.

Mae hyn oll yn digwydd yn wyneb pwysau ariannol sylweddol ar y BBC. Cyn argyfwng y coronafeirws, roedd y BBC eisoes wedi gweld gostyngiad o 31% yn yr hyn roedd ganddo i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y DU na phetai ffi'r drwydded wedi codi yn unol â chwyddiant ers 2010.

Nawr mae effaith ddifrifol argyfwng y coronafeirws ar ein gweithrediadau masnachol, ynghyd â'r oedi cyn cyflwyno ein cynllun newydd i bobl dros 75 oed a'r effaith ar ein hincwm o ffi'r drwydded, wedi arwain at ddiffyg sylweddol. Mae'n golygu ein bod wedi gorfod gosod targed ychwanegol newydd o ran gwneud

arbedion ar gyfer y flwyddyn hon o £125 miliwn, gyda mwy i ddod y flwyddyn nesaf. Mae hynny ar ben yr her o gyflawni'r arbedion sylweddol a oedd eisoes yn rhan o'n cynlluniau ariannol ar gyfer 2020/21, mewn marchnad anoddach nag erioed.

Yn y cyd-destun hwn, rhaid ystyried o ddifrif sut y gall y BBC gynyddu ei refeniw masnachol i'r eithaf. Bydd gan BBC Studios rôl gynyddol bwysig i'w chwarae. Y flwyddyn hon, gwelwyd ei lefel uchaf o fuddsoddi mewn cynnwys a'i flwyddyn orau am werthiannau cynnwys. Ynghyd â chaffael UKTV, mae hyn wedi golygu bod Studios wedi cyflawni'r gwerthiannau a'r elw mwyaf erioed. Yn y cyfamsar, cafwyd moment nodedig arall i'r BBC pan lansiodd wasanaeth ffrydio tanysgrifio newydd, sef Britbox, ar y cyd ag ITV.

Blaenoriaeth bwysig arall dros y misoedd i ddod fydd cefnogi adferiad y diwydiannau creadigol ledled y DU yn dilyn cyfnod o amharu a her nas gwelwyd o'r blaen. Y BBC fu conglfaen cryfder creadigol Prydain erioed, a hynny fel y prif fuddsoddwr mewn lleisiau a thalent Brydeinig ledled y DU, yn ogystal â rhoi llwyfan i'r doniau hynny. Gwnaethom weithredu'n gyflym i gefnogi'r sector gyda phrecyn cynhwysfawr o fesurau yn ystod y cyfyngiadau symud. Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i helpu i gynnal iechyd a hyfywedd ein cynhyrchwyr clodwiw ledled y DU.

Bu'n adeg anodd ond, unwaith yn rhagor, mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r rôl ganolog y mae'r BBC yn ei chwarae ym mywyd y genedl ym Mhrydain. Ni yw'r

sefydliad yn y cyfryngau a ddefnyddir fwyaf yn y DU, gan gyrraedd dros 90% o oedolion bob wythnos a thros 80% o blant yn y DU ar gyfartaledd bob wythnos. Ni yw'r ffynhonnell newyddion a gwybodaeth yr ymddiriedir ynddi fwyaf o hyd o bell ffordd. Mae ein hymateb i argyfwng y coronafeirws wedi atgyfnerthu ymhellach ein cydberthynas â'n cynulleidfaoedd, gan gynnwys pobl ifanc, sy'n troi atom am bopeth o wybodaeth i addysg i adloniant.

Yn y cyfamsar, mae ein cynulleidfa dramor wedi tyfu i 468 miliwn o bobl y tu allan i'r DU bob wythnos, sef y nifer uchaf erioed. Mae cyrhaeddiad BBC World Service i fyny 11% o gymharu â 2019 ac, yn gyffredinol, mae'r sgoriau ar gyfer ein gwasanaethau newyddion rhyngwladol ymysg yr uchaf ar gyfer ymddiriedaeth a dibynadwyedd. Mae hyn yn ein hatgoffa mai'r BBC heb os yw un o frandiau cryfaf ac amlycaf Prydain, sy'n cael ei gysylltu ag ansawdd a chywirdeb ledled y byd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd hanes BBC sy'n wynebu heriau sylweddol ond sy'n parhau i fod yn amhrisiadwy i'r DU, gartref a thramor, ac sydd mewn sefyllfa dda i lwyddo yn y dyfodol.

**Syr David Clementi**  
Cadeirydd  
2 Medi 2020



# Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



**Mae'n bleser gennyf ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Mae'n anrhydedd fawr cael arwain sefydliad sy'n ennyn y fath edmygedd a pharch ledled y byd, ac sy'n chwarae rhan mor ganolog yn niwylliant a democratiaeth Prydain.**

**Rydym wedi cael ein hatgoffa dros yr ychydig o fisoedd diwethaf o faint mae'r BBC yn ei olygu i bob un ohonom, ac i'n teuluoedd. Mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau a ddarparwn i gynulleidfaoedd mor berthnasol, mor bwysig ac mor angenrheidiol ag erioed.**

Rwy'n falch o'r modd y diwallodd y BBC anghenion y genedl mor gyflym ac effeithiol pan ddigwyddodd argyfwng y coronafeirws. Mae ein timau wedi cynnal ein gwasanaethau ar adeg anodd, gan ddangos ymroddiad, hybygrwydd a chreadigrwydd hynod wrth eu hail-lunio i fodloni gofynion mwyaf dybryd ein cynulleidfaoedd.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'n amlwg y bydd angen i'r BBC ganolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar ffyrdd o barhau i wasanaethu pob cynulleidfa yn y byd newidiol hwn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos faint o waith gwych sydd wedi cael ei wneud, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen i ni gynnal momentwm o ran diwygio. Mewn amgylchedd ariannol cynyddol anodd, gwyddom fod angen i ni bennu amcan i'n hunain o sicrhau ein bod yn sefydliad mor effeithlon ag y bo modd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo eisoes a bydd yn golygu y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd, ond rwy'n hyderus iawn y byddwn yn cyflawni hyn, yn bennaf diolch i'r timau anhygoel o bobl sy'n gweithio yma ac ansawdd y gwaith a wnant, sydd o'r radd flaenaf.

Hoffwn dalu teyrnged i'r hyn y mae ein Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tony Hall, sy'n ymadael â ni, wedi'i gyflawni dros y saith blynedd diwethaf. Mae wedi arwain y sefydliad drwy gyfnod uchelgeisiol o ailwampio, o fewn y sefydliad a thu hwnt. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi rhai o'r cyflawniadau mwyaf sylweddol, ynghyd â manylion ein perfformiad yn ystod blwyddyn olaf arweinyddiaeth Tony. Fel mae'r adroddiad yn ei ddangos, mae'r BBC heddiw yn fwy addas ac yn cynrychioli'r wlad a wasanaethir ganddo

yn well, ac mae mewn sefyllfa dda i lwyddo yn yr oes ddigidol o ganlyniad i hynny.

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hanfodol o ran diffinio dyfodol y BBC. Mae llawer o heriau o'n blaenau, ac mae'r farchnad o'n cwmpas yn mynd yn anoddach o hyd, ond rwyf yn hyderus iawn y byddwn yn llwyddo. Mae angen newyddion a gwybodaeth ddiudedd y gellir ymddiried ynddynt fwy nag erioed. Mae cynnwys Prydeinig gwych sy'n cefnogi ac yn adlewyrchu pob rhan o'r DU mor werthfawr ag erioed. Mae'r gallu i rannu llais a dylanwad Prydain â'r byd mor bwysig ag erioed.

Rwy'n sicr y gall y BBC wneud hyd yn oed mwy i'r DU, gartref a thramor, yn y blynyddoedd i ddod.

**Tim Davie CBE**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol  
2 Medi 2020




# Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2019/20

**Y flwyddyn hon, mae'r BBC wedi dangos ei werth unigryw fel prif ddarlledwr cyhoeddus y byd.**

Yn ystod blwyddyn o newid gwleidyddol, newidiadau cyflym mewn marchnadoedd a thechnolegau, ac yna argyfwng byd-eang pandemig y coronafeirws, sydd wedi effeithio ar bopeth, mae cenhadaeth y BBC i hysbysu, addysgu a diddanu pob cynulleidfa wedi profi i fod mor hanfodol ag erioed.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gyflwyno ein pedair prif flaenoriaeth yn ein Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2019/20. Gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i sicrhau bod creadigwydd o'r radd flaenaf wrth wraidd y BBC, gan gynnig y rhaglenni a'r gwasanaethau gwych y mae cynulleidfaoedd wrth eu boddau â nhw. Gwnaethom ddweud y byddem yn canolbwyntio ar ddatblygu BBC iPlayer a BBC Sounds wrth i ymddygiad a disgwyliadau cynulleidfaoedd ddatblygu. Gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu newyddion diduedd yr ymddiriedir ynddo ar adeg dyngedfennol i'r DU a'r byd. A gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i weithio'n galed i foderneiddio ein sefydliad a sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio ynddo.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'n fanylach sut rydym wedi llwyddo



i gyflawni'r nodau hyn yn ystod y flwyddyn, ac wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol wrth i'r byd o'n cwmpas newid mewn ffyrdd anhygoel.

Dengys, drwy gydol 2019, mai'r BBC oedd brand y cyfryngau a ddefnyddiwyd fwyaf yn y DU yn 2019: gwelwyd 41 miliwn o bobl yn y DU yn ei ddefnyddio bob dydd ar gyfartaledd. Ni sy'n cyrraedd y nifer mwyaf o bobl: 91% o oedolion yn y DU ar gyfartaledd bob wythnos, ac 81% o blant. Ni a ddefnyddir am yr amser cyfryngau mwyaf, gan gynnwys ymhlith cynulleidfaoedd ifanc: ymhell dros 17 awr ar gyfartaledd bob wythnos i oedolion, a dros saith awr yr wythnos i oedolion ifanc yn 2019/20. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf o hyd.

Yn ôl yn 2013, gwnaethom osod yr her o ddyblu cynulleidfa fyd-eang y BBC i gyrraedd 500 miliwn o bobl erbyn ein canmlwyddiant yn 2022. Heddiw, rydym



## 41m

Yn ystod 2019, y BBC oedd sefydliad y cyfryngau a ddefnyddiwyd fwyaf yn y DU: gwelwyd 41 miliwn o bobl yn y DU yn ei ddefnyddio bob dydd ar gyfartaledd.

*Gohebydd y BBC, Emma Simpson yn cynnal cyfweiliad o bell.*

yn cyrraedd 468 miliwn o bobl y tu allan i'r DU bob wythnos, sef y nifer uchaf erioedd, sy'n golygu ein bod yn sicr ar y trywydd cywir i gyflawni'r nod hwnnw. Mae gennym gynlluniau ar waith, sy'n dibynnu ar gyllid gan y Llywodraeth, i gynyddu ein huchelgais a rhannu llais, gwerthoedd a dylanwad diwylliannol y DU â chynulleidfya fyd-eang o un biliwn o bobl erbyn diwedd y degawd.

Yn 2017, gwnaethom uno'r BBC cyfan i weithio tuag at nod strategol clir: i ail-greu darlledu cyhoeddus ar gyfer cenedlaeth newydd. Diolch i'r gwaith hwn rydym wedi sicrhau lle cadarn yn y byd ar-lein heddiw. Mae gwasanaethau Ar-lein y BBC yn cyrraedd bron 29 miliwn o oedolion yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd. BBC iPlayer yw'r gwasanaeth teledu ar alw mwyaf ond un yn y DU, gyda ffigurau gwyllo 38% yn uwch flwyddyn ar ôl blwyddyn yn 2019/20 gan gynyddu ymhellach eto ers y cyfyngiadau symud. Defnyddiwyd BBC News Online gan 15 miliwn o oedolion yr wythnos ar gyfartaledd, a phan oedd y cyfyngiadau symud ar eu hanterth defnyddiodd 22 miliwn y gwasanaeth bob wythnos.

Wrth i'r flwyddyn adrodd dynnu at ei therfyn, digwyddodd argyfwng iechyd y coronafeirws. Wynebodd y wlad un o'r argyfyngau mwyaf yn ei hanes ers yr Ail Ryfel Byd.

Credaf fod argyfwng cenedlaethol bob amser yn dangos pa mor bwysig yw rôl y BBC. Darparwn newyddion a gwybodaeth ddiudedd y gellir ymddiried ynddynt i'r cyhoedd, a hynny mewn niferoedd mawr, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Helpwn i ddwyn y genedl ynghyd, i rannu, i ddeall ac i gofio. Archwiliwn y penderfyniadau mawr a wneir gan y rhai sy'n gyfrifol am faterion sy'n effeithio ar ein bywydau, gan egluro'r dewisiadau a wneir a gwneud synnwyr o'r heriau. Cysylltwn bobl sydd wedi'u hynysu, gan gynnig cwmni iddynt a chyswllt â'r byd.

Wrth i'r argyfwng ddod i'r amlwg, aethom ati i wneud popeth posibl i ad-drefnu gwasanaethau'r BBC ar sail yr angen cenedlaethol. Heidiodd miliynau o bobl atom o ganlyniad, ar y sgrin, ar yr awyr ac ar-lein. Fodd bynnag, er bod pwysigrwydd cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn gwbl glir, ni welwyd y tueddiadau tymor hwy mewn perthynas ag amharu byd-eang ac a arweinir gan dechnoleg yn gostegu. Mewn gwirionedd, ymddengys y bydd yr argyfwng yn eu cyflymu. Rhaid i ni sicrhau y bydd ein strategaeth i ymateb iddynt yn cyflymu yn unol â hynny.

**Ym mis Mai, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Blynyddol a gyflwynodd ein cynlluniau ar gyfer y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae'n adeiladu ar yr hyn rydym wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf drwy nodi pedair blaenoriaeth strategol bwysig, a gynlluniwyd i greu BBC sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r tudalennau hyn yn trafod pob un o'r blaenoriaethau hyn yn eu tro, a rhoddir mwy o fanylion am ein cynlluniau parhaus i sicrhau mai'r BBC yw'r lle gorau i weithio ynddo yn ein hadran 'Pobl' ar dudalennau 59-63.**

## 1. Pŵer y portffolio

Un o gryfderau unigryw'r BBC yw ein gallu i ddwyn ynghyd y byd oedd byw ac ar alw, a ddarllidir ac a gyflwynir ar y rhyngrywyd, a hynny drwy fideo, sain a thestun.

Tanlinella'r adroddiad hwn pa mor wych yw'r gydbertynas rhwng darlledu ac ar-lein. Ar y teledu, er enghraifft, mae cyswllt annatod rhwng ein sianelau ac iPlayer. Nid ydym yn ceisio llenwi un slot, un sianel, un noson – yn hytrach

canolbwyntiwn ar ecosystem lawer mwy o faint, lle gwelir rhaglenni mewn sawl ffordd ac mewn sawl man.

Ein sianelau byw yw un o'n prif fanteision. Mewn tirwedd fideo ar alw (VOD) fyd-eang, dyma sy'n gwneud y BBC yn wahanol, ac yn destun cenfigen y byd ffrydio. Maent yn cyrraedd degau o filiynau bob wythnos, ac maent yn hanfodol i'n llwyddiant. Drwy ein sianelau, gallwn siarad â phobl yn fyw ac yn y foment gyda chynnwys sy'n teimlo'n gwbl berthnasol iddynt. Nhw yw'r ffordd orau o farchnata iPlayer.

Mae argyfwng y coronafeirws wedi tynnu sylw at werth darlledu ac ar-lein unwaith eto. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o newyddion ar y teledu ac ar-lein, a bu cynnydd mewn ffigurau gwyllo teledu cyffredinol a'r defnydd o iPlayer hefyd.

Wrth edrych ymlaen, ein blaenoriaeth strategol gyntaf yw sicrhau bod ein portffolio cyfan yn gweithio hyd yn oed yn galetach fel un BBC. Mae hynny'n golygu defnyddio pob rhan o'r BBC er mwyn annog cynulleidfaoedd i'n defnyddio'n amlach



*Line of Duty ar BBC One*



# 13.2<sup>m</sup>

Roedd y bumed gyfres o *Line of Duty* yn enghraifft o deledu a gaiff ei wyllo ar adeg benodol na ellid ei golli, gyda chynulleidfa o 13.2 miliwn ar gyfer y bennod gyntaf.



ac am fwy o amser, a helpu i'n gwneud yn rhan annatod o fywydau beunyddiol pawb.

Dros y ddwy flwyddyn nesaf rydym am wneud hyd yn oed mwy i ddod â'n portffolio cyfan yn fyw a chyfleu ei werth. Byddwn yn parhau i anelu at gael pawb sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC i fewngofnodi. Mae mewngofnodi yn elfen allweddol o bortffolio'r BBC, gan ddarparu'r data sydd eu hangen arnom i wneud i'n cynhyrchion ar-lein deimlo fel petaent yn rhan o gyfanwaith personol, cyson ac unigryw. Byddwn hefyd yn cymryd cam mawr ymlaen i wneud y BBC yn fwy personol a diddorol. Mae hyn yn golygu gwell argymhellion ar draws ein cynhyrchion ar-lein sy'n cyflwyno rhaglenni a straeon newydd, yn seiliedig ar weithgarwch ar sawl ap, nid dim ond un. Byddwn yn parhau i wella'r gwaith o hyrwyddo cynnwys a gwasanaethau'r BBC ar lwyfannau fel bod cynhyrchion llinellol ac ar alw yn gweithio gyda'i gilydd.

## 2. Gwyllo

Bu hon yn flwyddyn arall o lwyddiant creadigol eithriadol i'r BBC ar y teledu. Unwaith eto, mae ein gwylwyr wedi mwynhau: gwledd o gynnwys nodedig o'r radd flaenaf sy'n cymryd risgiau, sy'n cefnogi talent ar garreg y drws, ac sy'n gallu dwyn y wlad gyfan ynghyd a'i hannog i siarad.

Y flwyddyn hon, ein haddasiad o *His Dark Materials* gan Philip Pullman oedd y lansiad mwyaf ar gyfer cyfres newydd mewn unrhyw genre yn 2019. Cafodd gynulleidfa o 11.4 miliwn ar gyfartaledd ar draws pob sgrin. Gwylodd cynulleidfa o 18.5 miliwn ar gyfartaledd rifyn arbennig o *Gavin & Stacey* ar gyfer y Nadolig, sy'n ffigur aruthrol. Hon oedd rhaglen fwyaf y BBC, heblaw am ddigwyddiadau chwaraeon a chenedlaethol, ers i'r system fesur bresennol ddechrau yn 2010.

Roedd y bumed gyfres o *Line of Duty* yn enghraifft o deledu a gaiff ei wyllo ar adeg benodol na ellid ei golli, gyda chynulleidfa gyfartalog o 13.2 miliwn ar gyfer y bennod gyntaf ar draws pob sgrin. Cafodd *Seven Worlds, One Planet*, a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough, gynulleidfa gyfartalog o 9 miliwn ar gyfer pob pennod ar draws pob sgrin. Hon oedd y rhaglen ffeithiol a wylwyd fwyaf yn 2019 ar y BBC.

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn hon oedd ein sianel newydd, BBC Scotland. Yn ystod ei blwyddyn lawn gyntaf o weithredu, mae wedi parhau i fod yn llwyddiant. Cyrhaeddodd fwy o wylwyr yn yr Alban nag unrhyw sianel heblaw am BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5, gydag un o bob chwech o'r boblogaeth yn ei gwyllo bob wythnos. Mae ceisiadau iPlayer

i wyllo cynnwys wedi'i gomisiynu gan BBC Scotland a chynnwys wedi'i gydgomisiynu wedi mwy na dyblu ers ei lansio.

Mae ein hymrwymiad i gymryd risgiau a bod yn wreiddiol ar BBC Three wedi'i wobrwyo unwaith eto eleni hefyd. Heidiodd gwylwyr i wyllo *RuPaul's Drag Race* ar iPlayer, gyda 15 miliwn o geisiadau ar gyfer y gyfres, gyda bron dwy ran o dair gan y grŵp 16-34 oed. Yn y cyfamser, cafodd *This Country* fwy na 52 miliwn o geisiadau i gyd erbyn diwedd mis Mawrth, gan gyfateb i *Fleabag*, sydd wedi ennill gwobrau Emmy a Golden Globe, fel un o gyfresi comedi mwyaf BBC Three.

Roedd iPlayer ei hun yn un o brif flaenoriaethau'r BBC eleni, a hynny wrth wraidd ein strategaeth. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i'w drawsnewid yn brif wasanaeth cyrchfan fideo. I lawer, yn enwedig gwylwyr iau, dyma lle maent bellach yn gwyllo rhaglenni'r BBC fwyaf.

Am y tro cyntaf, mae twf iPlayer wedi gwneud iawn bron am y cwmp mewn ffigurau gwyllo teledu llinellol cyffredinol. Bu'n flwyddyn o dorri sawl record, gyda mwy o bobl nag erioed yn mewngofnodi – roedd cyfrifon lle mewngofnodwyd yn 2019/20 42% yn uwch na 2018/19 – a chafwyd cyfanswm o 4.8 biliwn o geisiadau am ein rhaglenni ar draws 2018/19.

Bellach mae 36% yn fwy o oriau i'w gwyllo. Mae'r gwaith o farchnata iPlayer a'r curadu oddi mewn iddo wedi datblygu. Y flwyddyn hon, gwnaethom hefyd lansio profiad iPlayer newydd i blant fel bod modd i deuluoedd a phlant ddod o hyd i ystod eang o raglenni difyr ac addysgol yn hawdd. Yn sgil y newidiadau hyn ehangwyd cyrhaeddiad iPlayer ac, mewn marchnad heriol, bu cynnydd sylweddol mewn ffigurau gwyllo.

Mae argyfwng y coronafeirws wedi cyflymu'r duedd hon yn aruthrol. Yn ystod y cyfyngiadau symud, cafodd BBC iPlayer bron i ddwy biliwn o geisiadau – 60% yn fwy na'r un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y cyfnod hwnnw torrodd iPlayer y record am y diwrnodau gorau erioed un ar ôl y llall. Y diwrnod y cyhoeddodd y Prif Weinidog y cyfyngiadau symud oedd y tro cyntaf i iPlayer weld dros 20 miliwn o geisiadau am raglenni mewn diwrnod. Yna torrwyd y record yn gyflym ar 13 Ebrill – gwelwyd *Killing Eve* yn dychwelyd a *The Nest* yn tynnu at ei therfyn – gyda 22.1 miliwn o geisiadau am raglenni, ac yna unwaith eto ar 28 Ebrill – 23.2 miliwn – a gafodd hwb yn sgil rhyddhau *Normal People*, gan ddangos y galw am ddrama o'r radd flaenaf yn ogystal â newyddion.



A thorrwyd y record unwaith yn rhagor ar 10 Mai – 24.1 miliwn – pan wnaeth y Prif Weinidog annerch y genedl am yr eildro.

Roedd pwysigrwydd cenhadaeth 'diddanu' y BBC yn ystod y cyfyngiadau symud hefyd yn amlwg iawn ar draws ein sianelau teledu wrth i'r cyhoedd geisio dihangfa, rheswm i chwerthin, a rhannu profiadau. Yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, cynyddodd ffigurau gwyllo Teledu'r BBC bron i 50% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd penodol ymhlith plant ac oedolion ifanc.

Wrth edrych ymlaen, y flaenoriaeth fydd achub ar bob cyfle posibl i wella iPlayer a sicrhau ei dwf, gan gynnwys y rhaglenni sydd ar gael a pha mor nodedig dydynt, datblygu cynnyrch, a gwaith marchnata a dosbarthu. Bydd hynny'n golygu bod mwy o raglenni ar gael am fwy o amser, bod mwy o bersonoli a churadu er mwyn ei gwneud hi hyd yn oed yn haws i bawb ddarganfod yr hyn sy'n berthnasol iddynt, a phrofiad i ddefnyddwyr sy'n datblygu'n barhaus. Byddwn yn rhyddhau mwy o'n cyfresi i gyd gyda'i gilydd ar ffurf 'bocs-sets' er mwyn gadael i gynulleidfaoedd benderfynu sut maent am eu gwyllo.

Rhan hanfodol o weithredu'r strategaeth hon fu gwneud trefniadau gyda'n holl ddeiliaid hawliau, a'r elfen olaf yw'r cytundeb newydd rhwng y BBC a PACT, sef y sefydliad masnach sy'n cynrychioli'r sector cyflenwi cynhyrchu annibynnol yn y DU. Golyga'r trefniadau hyn y gall y BBC drawsnewid yr hyn mae'n ei ddangos ar BBC iPlayer. Bydd yr holl gynnwys a gomisiynir gan y BBC ar gael ar BBC iPlayer am 12 mis yn awtomatig, a cheir fframwaith ar gyfer dangos rhaglenni am fwy na 12 mis.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, rydym wedi gwneud gwelliannau enfawr i'r profiad byw ar iPlayer, gan drawsnewid y ffordd rydym yn darlledu o ddigwyddiadau mawr fel Glastonbury a Wimbledon drwy gynnig amrywiaeth o ffrydiau byw i gynulleidfaoedd. Bydd hyn yn datblygu ymhellach dros y ddwy flynedd nesaf wrth inni gynnig cynnwys byw sydd wedi'i bersonoli hyd yn oed yn fwy o'r digwyddiadau hyn a mwy, gan gynnwys yr Ewros, Gemau Olympaidd Tokyo, Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, Pencampwriaeth Cwpan yr FA, a chystadleuaeth criced newydd, sef The Hundred, pan fyddant yn cael eu cynnal.

### 3. Gwranddo


Eleni mae'r BBC, unwaith yn rhagor, wedi cynnig ystod anhygoel o raglennu llafar a cherddoriaeth o'r radd flaenaf i'n holl gynulleidfaoedd.

3.6m

Cyfrifon BBC Sounds sy'n weithredol bob wythnos ar ddiwedd ei flwyddyn lawn gyntaf.



*Killing Eve, y ddrama hynod lwyddiannus*



4.8bn

Torrwyd record eleni o ran BBC iPlayer gyda chyfanswm o 4.8 biliwn o geisiadau am ein rhaglenni.

Yn 2019, gallai cynulleidfaoedd brofi Glastonbury mewn ffordd wahanol iawn, gyda BBC Radio Glastonbury ar BBC Sounds a darllediadau byw ar Radio 1, 1Xtra, Radio 2, 6 Music a 5 live. Cawsant gyfle i ddarganfod y gwaith a ailddiffiniodd gerddoriaeth glasurol a cherddorfaol pan ddychwelodd *Ten Pieces* ar thema 'Trailblazers'. A gallent fwynhau Year of Beliefs y BBC ar draws ein holl allbwn, gan daflu goleuni ar ffydd, cred a gwerthoedd mewn cymdeithas fodern.

Cafodd ansawdd ac amrywiaeth ein hallbwn eu cydnabod yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio eleni, lle enillodd y BBC 17 allan o'r 23 o wobrau. Radio 2 a enillodd y wobwr am yr orsaf genedlaethol orau, a BBC Radio Hereford & Worcester a enillodd y wobwr am yr orsaf leol orau yn dilyn ei darllediadau anhygoel o

lifogydd mis Chwefror. Hefyd, rhoddwyd gwobrau i Emma Barnett ar 5 live, Dotty a MistaJam ar 1Xtra a Greg James ar Radio 1, ac enillodd *This Classical Life* ar Radio 3 – a lansiwyd ym mis Ebrill a'i chyflwyno gan Jess Gillam, a gyrhaeddodd rownd derfynol BBC Young Musician – y wobwr am y Sioe Cerddoriaeth Arbenigol Orau.

Parhaodd ein hymrwymiad i feithrin talent newydd, boed hynny drwy BBC Introducing, New Generation Artists neu New Generation Thinkers. Yn y cyfamser, cynigiodd Radio 1 gyfle amhrisiadwy i dalent newydd a thalent sy'n datblygu fynd ar yr awyry dros y Nadolig, gyda 35 o gyflwynwyr newydd yn cael eu dethol o blith mwy na 1,100 o ymgeiswyr.

Mae rôl y BBC o ran sain fel y bu erioed: rhoi llwyfan i'r dalent orau



yn y DU, gan gyflwyno newyddion a straeon o'r radd flaenaf i'r DU a'r byd; creu cyfleoedd i artistiaid newydd o Brydain; a helpu dilynwyr i ddarganfod cerddoriaeth newydd a meithrin cydberthnasau â'r artistiaid hynny.

Heddiw, mae BBC Sounds wrth wraidd ein harlwy sain. Ein nod ar ddechrau'r flwyddyn oedd sicrhau mai Sounds a ystyriwyd fel y lle gorau i wrando ar holl sain y BBC – cerddoriaeth, podlediadau, a radio. Roeddem am ychwanegu cynnwys newydd, gwella profiad defnyddwyr ymhellach, a chynnyddu cyrhaeddiad a'r amser a dreuliyd gyda'r gwasanaeth.

Ac yntau bellach ar gael ar draws llwyfannau symudol, y rhyngwrwyd, unedau sain clyfar a setiau teledu clyfar, daeth blwyddyn lawn gyntaf BBC Sounds i ben gyda record o 3.6 miliwn o gyfrifon yn cael eu defnyddio bob wythnos, a oedd ymhell ar y blaen i'n targedau ar gyfer pob cynulleidfa, wrth hefyd gyflawni'r rhai ar gyfer cynulleidfaedd iau. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom reoli'r broses o drosglwyddo o iPlayer Radio yn llwyddiannus, gyda Sounds bellach yn denu nifer sylweddol uwch o ddefnyddwyr na'n gwasanaeth blaenorol.

Rhan hollbwysig o hyn fu'r ffordd mae'r BBC wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf fel comisiynydd podlediadau o'r radd flaenaf, gyda llwyddiannau fel *Tunnel 29*, *That Peter Crouch Podcast*, *You're Dead to Me* a *The Missing Cryptoqueen*. Mae Newyddion a'r World Service hefyd wedi profi llwyddiannau fel *13 Minutes to the Moon* a *Brexitcast*, *Newscast*, a *The Coronavirus Newscast* sy'n datblygu drwy'r amser.

Wrth i'r coronafeirws ddod i'r amlwg, gwelwyd cynnydd aruthrol mewn ffigurau gwrando'n fyw ar Sounds, gyda defnyddwyr yna'n mynd ymlaen i ddarganfod ei arlwy llafar ar alw a'r cymysgedd o gerddoriaeth o'r radd flaenaf. Fodd bynnag, gwyddom fwyfwy bod gwrando'n fyw yn un elfen yn unig o gyfres o opsiynau gwrando y mae cynulleidfaedd yn disgwyl eu cael. Mae'r ffordd y mae cynulleidfaedd, yn enwedig cynulleidfaedd iau, yn gwrando ar gynnwys llafar a cherddoriaeth yn newid. Mae'r cynnydd mewn ffrydio cerddoriaeth, podlediadau, a'r holl orsafoedd radio ar DAB ac ar-lein yn golygu bod mwy o ddewis nag erioed. Wrth i wrandawyr ddysgu arferion newydd a datblygu ymddygiadau a disgwyliaid newydd, mae angen i'r BBC fod ar y blaen o ran y newidiadau hyn er mwyn parhau i gynnig gwerth i bob cynulleidfa.

Er mwyn cystadlu mewn marchnad fyd-eang a ddominyddir gan dechnoleg, rhaid i BBC Sounds ddod o hyd i le arbennig ym mywydau ein gwrandawyr. Credwn y gall

wneud hynny drwy gyfuno'r cynnwys sain ar alw gorau ag arlwy gwrando'n fyw o'r radd flaenaf. Ein nod yw datblygu profiad defnyddwyr Sounds er mwyn ei gwneud hi'n haws i'w ddefnyddio a'i wneud yn fwy perthnasol yn bersonol iddynt, gan dorri tir newydd o ran fformatau gwrando o fewn Sounds, datblygu cynnwys cyffrous newydd, ynghyd â gallu darganfod y cynnwys trydydd parti gorau.

Credwn fod cyfle gwych i wneud Sounds yn nodedig ac yn glodwiw. Yn gyntaf, drwy wledd o gynnwys llafar ar alw, sy'n ddeniadol i wrandawyr podlediadau rheolaidd a hefyd i'r rhan fwyaf o wrandawyr yn y DU nad ydynt erioed wedi gwrando ar bodlediadau, neu nad ydynt yn gwrando arnynt yn rheolaidd. Nid dim ond y BBC sy'n cynhyrchu deunydd podlediadau gwych. Rydym wedi cyhoeddi y bydd Sounds yn gartref i'r podlediadau gorau nad ydynt yn eiddo i'r BBC, gan helpu cynulleidfaedd sy'n gyfarwydd â phodlediadau a'r rhai sy'n newydd iddynt i ddarganfod y cynnwys gorau a mwyaf perthnasol sydd ar gael, a darparu llwybr cadarn yn y DU i farchnad a all fod yn llwyfan i dalent o Brydain.

Yn ail, bwriadwn wneud BBC Sounds yn lle sy'n caru cerddoriaeth ac sy'n helpu gwrandawyr i garu cerddoriaeth. Byddwn yn gwneud hyn yn y ffordd arferol: caiff cynnwys ei guradu gan bobl sy'n caru cerddoriaeth a bydd yn canolbwyntio ar artistiaid – profiad sydd,

*Brexitcast* ar BBC Sounds



yn ôl gwrandawyr, yn wahanol i arlwy catalog cyfan gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth, ac a fydd yn ategu hynny.

Bydd y cynnwys hwn ar ffurf thema mewn rhai achosion, gan alluogi cynulleidfaedd i ddod o hyd i'r cynnwys gorau gan y BBC sydd wedi'i guradu fesul pynciau fel artist, digwyddiad neu naws, a bydd cymysgedd gwelw o gerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar dalent o Brydain a thalent sy'n dod i'r amlwg. Nawr yn fwy nag erioed mae cynulleidfaedd yn darganfod ansawdd ac ystod y gerddoriaeth y gall y BBC ei chynnig drwy lwyfan ar alw, ac mae'r gwaith o adeiladu ar hyn yn hanfodol i gyflawni ein rôl ym maes sain yn y dyfodol.

Yn drydydd, rydym am sicrhau bod Sounds yn cynnig y profiad gwrando ar radio gorau ar-lein. Bydd radio ac, yn arbennig, radio byw wrth wraidd BBC Sounds, gan dynnu sylw at fomentau byw drwy eu hyrwyddo o'r dudalen flaen a'u hategu â chynnwys ar alw.

Yn ogystal â sicrhau bod BBC Sounds yn barod ar gyfer y dyfodol, mae angen inni sicrhau y gall ein portffolio radio wasanaethu pob cynulleidfa hyd yn oed yn well. Er y dirywiad, mae radio llinellol yn dal i gyrraedd cynulleidfaedd ifanc sylweddol a bydd yn parhau i fod yn ffordd hanfodol o'u cyrraedd am flynyddoedd lawer.

## Rhoi ein strategaeth ar waith

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein portffolio, gan adlewyrchu arferion newidiol o ran darganfod cerddoriaeth a sicrhau bod yr arlwy yn iawn er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd mewn ffordd fwy cyfartal. Dysgw'n gwersi o gynnwys ar-lein y BBC sy'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd ifanc, a'r ffordd rydym wedi gweithredu drwy'r argyfwng, gan weithio hyd yn oed yn agosach fel portffolio er mwyn cynnig y gwerth gorau i gynulleidfaoedd, a diogelu'r allbwn nodedig o ansawdd y mae miliynau wrth eu boddau ag ef.

### 4. Newyddion – yn y DU, yn fyd-eang ac yn lleol

Y BBC yw prif wasanaeth newyddion y DU. Darparwn lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom addo diwallu anghenion newidiol y cyhoedd mewn cyfnod anodd ac ansicr, drwy hyrwyddo newyddion sydd o blaid cywirdeb ac sy'n ennyn ymddiriedaeth, ailymrwymo i ddiweddrydd, sy'n un o'n gwerthoedd craidd, a gwneud hyd yn oed mwy i sicrhau bod gwahanol safbwyntiau a lleisiau i'w clywed wrth drafod materion ar lwyfan cenedlaethol.

Heddiw, y BBC yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf o hyd o bell ffordd yn y DU (gweler tudalennau 20-21). Pan ofynnir am yr un ffynhonnell y mae cynulleidfaoedd fwyaf tebygol o'i dewis i gael newyddion diduedd a chywir, yr ymddiriedir ynddo, yn gyffredinol, mae'r BBC dros 40 pwynt canran ar y blaen i bawb arall. Unwaith eto, dangosodd y ffaith i 87% o oedolion yn y DU yn gyffredinol, ac 83% o oedolion ifanc, droi at BBC News am ganlyniadau Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019 mai atom ni y mae pobl yn troi ar adegau pwysig.

Roedd ein nod ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn syml: bod ar ochr y gynulleidfa. Golygai hynny sicrhau bod ganddi bopeth roedd ei angen arni i wneud penderfyniad. Dyna pam y gwnaethom Reality Check yn elfen greiddiol o'r sylw a roddwyd i'r digwyddiad, gan helpu

cynulleidfaoedd i wahaniaethu rhwng y gwir, y lled-wir a thwyllwbyodaeth.

Rhoddydwyd ein harweinwyr gwleidyddol dan y chwyddwydr yn fwy nag erioed, gydag amrywiaeth o ddadleuon gwych a chyfres hynod ddiddorol o gyfweiliadau. Gwnaethom fwy i wasanaethu cynulleidfaoedd boed hynny drwy *Newsbeat* neu *Newsnight*, *Electioncast* neu *BBC Breakfast*, *News at Ten* neu Instagram. Daethom yn agosach at gynulleidfaoedd nag erioed, gan roi sylw i'r pedair gwlad gyda rhaglenni o *BBC Breakfast* a 5 live i *News At Ten*, a defnyddiwyd ein gohebwy'r rhanbarthol i daflu goleuni penodol ar faterion gwahanol fel rhan o'n rhaglenni ar gyfer y DU gyfan.

Drwy gydol y flwyddyn dangosodd ein timau newyddion yr un ymrwymiad i gynulleidfaoedd – o gyfweiliad arbennig *Newsnight* â'r Tywysog Andrew i ymchwiliad cudd *Panorama* i achosion o gam-drin mewn ysbytai i *Crossing Divides* (gweler tudalennau 20-21). A phan ddigwyddodd argyfwng y coronafeirws, gwnaethom ad-drefnu ein holl allbwn yn seiliedig ar yr angen i gael newyddion, gwybodaeth a dadansoddiadau hanfodol ar adeg dyngedfennol.


Yn ogystal â pharhau i redeg ein gwasanaethau craidd, gwnaethom lansio rhaglennu penodol i helpu cynulleidfaoedd i ddeall y materion, gan gynnwys rhaglenni arbennig ar y coronafeirws

yn ystod oriau brig ar BBC One, a *Your Questions Answered* ar sianel BBC News. Gwnaethom ysgrifennu canllawiau cyngor, erthyglau manwl a thestun eglurhaol a oedd ar gael ar BBC News Online.

O ganlyniad, cyrhaeddodd ffigurau gwyllo'r newyddion ar y teledu eu lefelau uchaf ers 2003. Ein rhaglen newyddion ranbarthol am 18:30 oedd y rhaglen deledu fwyaf poblogaidd yn aml yn ystod yr wythnos. Yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth, gwnaeth naw o bob deg oedolyn droi at BBC News ar bob llwyfan. Roedd yr un peth yn wir am wyth o bob deg oedolyn ifanc. Daeth 81 miliwn o borwyr yn y DU, sef record newydd, at BBC News Online yn yr wythnos a ddechreuodd 16 Mawrth, 58% yn uwch na'r record blaenorol yn ystod wythnos Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019.

Ni allai'r argyfwng fod wedi dangos yn gliriach y galw mawr ymhlith y cyhoedd am newyddion cywir a diduedd, y

Y cyflwynydd newyddion George Alagiah



**468<sup>m</sup>**

Bellach, mae'r BBC yn cyrraedd 468 miliwn o bobl y tu hwnt i'r DU bob wythnos, 11% yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf.




gellir ymddiried ynddo. Ond gwnaeth hefyd dynnu sylw at y graddau y mae cynulleidfaoedd newyddion yn dibynnu fwyfwy ar wasanaethau ar-lein. Gan adlewyrchu'r newid hwn, rydym wedi amlinellu ein cynlluniau i ddarparu gwasanaeth newyddion a 'arweinir gan straeon', gan roi'r gynulleidfa wrth wraidd penderfyniadau am y straeon a gaiff sylw gennym a sut y rhown sylw iddynt.

Dewiswn straeon, nid yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer rhaglen, sianel neu lwyfan penodol, ond yn hytrach gan ystyried anghenion ein holl gynulleidfaoedd a llwyfannau. Mae ein brandiau traddodiadol a gaiff y gynulleidfa fwyaf yn rhan hanfodol o'r chwyldro hwn, ond gwyddom fod angen inni ddarganfod ffyrdd newydd o adrodd straeon ar draws ein llwyfannau digidol er mwyn cysylltu â phob cynulleidfa sy'n defnyddio cynnwys y BBC. Rydym am i'n newyddiaduraeth orau deithio ymhellach a chyrraedd mwy o bobl, yn fwy rheolaidd, mewn mwy o ffyrdd. Gwyddom hefyd fod angen i ni foderneiddio ein gwasanaethau lleol a rhanbarthol drwy sicrhau bod y gwasanaethau digidol yn greiddiol i bopeth a wnawn. Dyna pam rydym yn dysgu o'r gwerau yn ystod argyfwng Covid-19 i sicrhau bod ein harlwy i gynulleidfaoedd yn Lloegr yn fwy hyblyg ac yn fwy cydnaws â chymunedau, ynghyd â sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl.

Wrth feddwl am wasanaethau newyddion byd-eang y BBC, eleni dangoswyd bod ein gwerth o ran democratiaeth a rhyddid ledled y byd yn uwch nag erioed. Mae darpariaeth newyddion wedi dod yn arf allweddol wrth frwydro am ddylanwad byd-eang. Mae unigolion sy'n gweithredu dros Rwsia a Tsieina a gaiff eu hariannu'n dda a'u cefnogi gan y wladwriaeth yn gweld newyddion fwyfwy fel estyniad o ddylanwad y wladwriaeth a dull o amharu ar ddemocratiaeth.

Yn y cyd-destun hwn, caiff BBC World Service ei werthfawrogi ledled y byd am ddarparu newyddion annibynnol yr ymddiriedir ynddo. Cafodd ei gyfraniad at wella enw da a dylanwad Prydain dramor ei gydnabod gan y Llywodraeth dair blynedd yn ôl pan benderfynodd wneud ei chynnydd mwyaf erioed o ran buddsoddi yn y World Service. Diolch i'r buddsoddiad hwnnw o £86 miliwn y flwyddyn, yn ddiweddar gwnaethom gwblhau'r ehangiad mwyaf i'r World Service ers yr Ail Ryfel Byd ac mae bellach ar gael mewn 42 o ieithoedd.

Bellach, mae'r BBC yn cyrraedd 468 miliwn o bobl y tu hwnt i'r DU bob wythnos, 11% yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf. Gwyddom fod pobl o bob cwr o'r byd yn troi at y BBC am newyddion y gallant ymddiried ynddo,



Etholiad 2019



ac mae cryfder y BBC yn y byd yn un o gryfderau'r DU yn y byd. Credwn fod cyfle i'r BBC adeiladu ar y cryfder hwn bellach drwy ddyblu ei gyrhaeddiad o ran cynulleidfaoedd a chael mwy o effaith, a chyflwyno llais, gwerthoedd a dylanwad y DU i gymuned fyd-eang o un biliwn erbyn 2030.

Ar lefel leol, darparwn lais cryf i drefi, dinasoedd ac ardaloedd sydd wedi gweld dirywiad ym maes y cyfryngau a newyddiaduraeth dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethom helpu i ddwyn cymunedau ynghyd, yn enwedig ar adegau anodd ac argyfyngus, fel y llifogydd ar ddechrau 2020. Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd dros 1.1 miliwn o bobl wedi cysylltu â llinell gymorth coronafeirws radio lleol y BBC, sef *Make a Difference*, a lansiwyd i gysylltu'r rhai mewn angen â'r rhai a allai eu helpu.

Hefyd, chwaraewn rôl bwysig yn y gwaith o gefnogi cyfryngau lleol eraill – er enghraifft, drwy ein Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Leol. Yma, buddsoddwn hyd at £8 miliwn y flwyddyn mewn partneriaeth arloesol â 120 o gyhoeddwr newyddion lleol, gan ariannu 150 o ohebwy'r lleol ledled y DU. Mae'r newyddiaduraeth o'r fenter hon bellach yn cael ei chyhoeddi mewn dros 5,000 o leoedd bob wythnos.

\*\*\*

Bron i 100 mlynedd ers sefydlu'r BBC, mae ei genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu pob cynulleidfa mor berthnasol a gwerthfawr ag erioed. Ni all yr hyn a wna gael ei ddisodli gan raglenni a gwasanaethau y tu ôl i waliau talu a thanysgrifiadau sy'n dibynnu ar ble mae pobl yn byw na'u gallu i dalu. Yn ystod argyfwng cenedlaethol, mae'r BBC wedi

87%

Canran yr oedolion yn y DU ar y cyfan (83% ar gyfer oedolion ifanc) a wnaeth droi at BBC News i gael darllediadau o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol y DU.

ymateb yn gyflym ac yn ystwyth, er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd sydd wedi newid yn gyflym, ac addasu'r ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud rhaglenni. Mae pobl Prydain hefyd wedi troi at y BBC mewn niferoedd enfawr am eu bod yn ei ddefnyddio ac yn ymddiried ynddo. Ni fu gwerth parhaus darlledu cyhoeddus byth yn gliriach.



# Perfformiad cynulleidfaedd a chyd-destun y farchnad

## Y flwyddyn ddiwethaf parhawyd i weld newidiadau cyflym a sylweddol o ran y ffordd mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau, yn enwedig ymhlith cynulleidfaedd iau.

Ar ddechrau 2020, roedd gan 15 miliwn o gartrefi yn y DU wasanaethau fideo ar alw y maent yn tanysgrifio iddynt (SOVD) – 1.7 miliwn yn uwch na 2019 – gyda Netflix mewn 13 miliwn o'r cartrefi hyn. Dros y flwyddyn gwelwyd sawl gwasanaeth newydd yn cael eu lansio yn y DU, gan gynnwys Apple TV+ a Disney+. Ynglwm wrth hyn, bu gostyngiad pellach o ran faint o deledu a ddarllidir sy'n cael ei wlyio yn y DU, er i hyn ostwng i raddau llai yn 2019/20 nag yn y flwyddyn flaenorol.

Gwylodd oedolion ifanc 11 awr yr wythnos ar gyfartaledd, gan ostwng tua 75 munud o un flwyddyn i'r llall. I'r gwrthwyneb, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn defnyddio'r set deledu at ddibenion SVOD, chwarae gemau a YouTube, ymhlith eraill, a hynny tua 40 munud yr wythnos yn fwy, gan gyrraedd ychydig dros naw awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Wedi'i lywio gan Spotify, cynyddodd cyfraddau ffrydio cerddoriaeth gan oedolion ifanc hefyd, bron i awr yr wythnos i fwy na chwe awr a hanner yr wythnos ar gyfartaledd. Defnyddiwyd YouTube gan 85% o'r rhai dan 16 oed bob wythnos a threuliwyd tua phum awr yr wythnos yno ar gyfartaledd. Mae TikTok wedi datblygu'n ffenomenon byd-eang, gan gyrraedd uwchlaw 2 biliwn o lawrlwythiadau ledled y byd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, a sicrhau'r nifer mwyaf o lawrlwythiadau o blith unrhyw ap mewn chwarter, gyda dros 315 miliwn o achosion o'i osod.

Gan fod yr heriau hyn ar eu dwysaf ymhlith oedolion iau, gosododd y BBC dargedau ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar y gynulleidfa hon yn arbennig, a gan gydnabod y newidiadau ehangach hyn ym marchnad y cyfryngau.

Roedd y perfformiad a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r grŵp oedran hwn o fewn yr ystod darged a nodwyd yng Nghynllun Blynnyddol y BBC ar gyfer 2019/20. Defnyddiodd 80% o'r rhai 16-34 oed y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2019/20, yn unol â'r targed o 80%+, er bod cyrhaeddiad ar lwyfannau llinellol yn dal i fod am i lawr. Treuliodd oedolion 16-34 oed dros saith awr yr wythnos ar gyfartaledd yn defnyddio gwasanaethau'r BBC, uwchlaw'r ystod darged o 6-7 awr. Mae hyn yn golygu mai'r BBC, ar draws ei holl bortffolio, oedd brand y cyfryngau y treuliodd oedolion ifanc y mwyaf o amser cyfryngau gydag ef yn 2019/20.

Gwelodd Teledu'r BBC ar draws teledu llinellol ac iPlayer wedi'u cyfuno flwyddyn fwy sefydlog ymhlith y grŵp oedran hwn. Cynyddodd yr amser maent yn ei dreulio gyda gweddill gwasanaethau Ar-lein y BBC. Treuliwyd llai o amser gyda Radio'r BBC, i lawr yn fwy na Radio Masnachol, a gynorthwywyd gan ei arlwy ehangach ledled y DU.

Rhoddodd oedolion ifanc saith allan o ddeg i'r BBC ar gyfartaledd, o ran eu hargraff gyffredinol, a oedd hefyd yn unol â'r targed a osodwyd. Maent yn gadarnhaol iawn ynghylch cyflawni cenhadaeth y BBC – nododd 68% fod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu, addysgu a diddanu yn 2019/20, yn debyg i'r ddwy flynedd flaenorol, gyda 12% yn dweud ei fod yn aneffeithiol.\*

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai 16-34 oed hefyd o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni pob elfen o'r dibenion cyhoeddus. A dywedant mai'r BBC yw darparwr y cyfryngau sy'n gwneud y mwyaf i ddarparu cynnwys nodedig o ansawdd uchel, adlewyrchu pobl yn y DU, a helpu pobl i ddeall y byd a dysgu pethau newydd.


Eto i gyd, mae'r gystadleuaeth am amser, sylw a barn dda'r grŵp oedran hwn yn dal i fod yn ffyrnig. Er i'r rhai 16-34 oed dreulio mwy o amser cyfryngau gyda'r BBC nag unrhyw frand arall yn 2019/20 a bod defnydd o fewn yr ystod darged, roedd faint o amser a dreuliwyd yn is na'r flwyddyn flaenorol o ystyried natur gynyddol cystadleuaeth, ac roedd i lawr yn fwy yn gymesur o gymharu â grwpiau oedran hŷn. Felly, er bod y rhan fwyaf o'r farn bod y BBC yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus yn effeithiol, roedd y sgoriau a roddwyd ganddynt yn 2019/20 yn dueddol o fod yn is na'r rhai gan bobl dros 55 oed mewn amrywiaeth o fesurau.

Am y rhesymau hyn, fel y noda Cynllun Blynnyddol mwyaf diweddar y BBC, mae gan y BBC gynllun dwy flynedd i ymgysylltu'n fwy â phobl ifanc.


Ymhlith y rhai dan 16 oed, defnyddiwyd y BBC gan 81% o'r grŵp oedran hwn bob wythnos yn 2019/20. Mae hyn wedi parhau'n sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn, er bod pwysau aruthrol ar ddarlledwyr cyhoeddus o hyd yn gyffredinol i aros yn berthnasol i blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau yn arbennig, wrth i YouTube a Netflix barhau i dyfu.

Yn ogystal â'r targedau a osodwyd ar gyfer y rhai 16-34 oed yn 2019/20, roedd yna

Amser y pen bob wythnos i bob oedolyn (16+) (oo:mm)



Amser y pen bob wythnos i bobl 16-34 oed (oo:mm)



**Y prif frandiau y treuliodd oedolion a phobl 16-34 oed y rhan fwyaf o'u amser cyfryngau â nhw yn 2019/20**  
 Ffynhonnell: BARB (28 diwrnod), Arolwg Sefydliadau BARB, ONS, RAJAR, MIDAS (15+, 15-34), AT Internet, Ipsos MORI. Amser amcangyfrifedig ar y llwyfan. Gwrandao byr ar Heart a Capital.



dargedau yn canolbwyntio ar oedolion yn gyffredinol, yn anelu at gynnal y niferoedd sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos, a sgoriau gwerth am arian canfyddedig. Defnyddiodd 91% o oedolion y BBC bob wythnos yn ystod 2019/20, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol ac yn unol â'r targed o 90%. Roedd eu sgôr gyffredinol ar gyfer gwerth am arian hefyd o fewn yr ystod darged o bump neu chwech allan o ddeg.

Ar y cyfan roedd oedolion yn treulio mwy o amser cyfryngau gyda'r BBC nag unrhyw frand arall, gan ddefnyddio gwasanaethau'r BBC am fwy na 17 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Er bod hyn ychydig yn is, roedd yn llawer mwy sefydlog o un flwyddyn i'r llall na 2018/19 o gymharu â 2017/18.

# 91%

Targed:  
90%

## Cyrraedd y BBC cyfan o ran oedolion yn y DU

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

# 80%

Targed:  
80+%

## Cyrraedd y BBC cyfan o ran pobl 16-34 oed yn y DU

% y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio teledu, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

# 07:30

o:m

## Amser a gaiff ei dreulio gyda'r BBC cyfan gan bobl 16-34 oed yn y DU

Faint o amser cyfryngau y mae pobl 16-34 oed yn y DU yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Targed: 6-7 awr

# 7/10

Targed:  
7/10

## Argraff gyffredinol pobl 16-34 oed yn y DU

Argraff gyffredinol pobl ifanc 16-34 oed yn y DU o'r BBC (sgôr gymedrig allan o 10).

# 5/10

Targed:  
5-6/10

## Sut mae oedolion yn y DU yn graddio'r BBC o ran darparu gwerth am arian (sgôr gymedrig allan o 10).

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB, Arolwg Sefydliadau BARB, ONS, RAJAR, AT Internet, Kantar Media.

O ran cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus, mae 70% o oedolion yn dal i feddwl bod y BBC yn effeithiol wrth hysbysu, addysgu a diddanu yn 2019/20 (nododd 13% ei fod yn aneffeithiol)\*. Ar draws pob grŵp cynulleidfa ni waeth beth fo oedran, rhyw, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig na daearyddiaeth y bobl dan sylw, nododd y rhan fwyaf fod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni'r genhadaeth. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn y DU ar y cyfan hefyd o'r farn bod y BBC wedi cyflawni pob elfen o'r dibenion yn effeithiol, gyda'r sgoriau uchaf ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y DU a'r byd heddiw, ac ar gyfer ansawdd y cynnwys a'r gwasanaethau, fel oedd yn wir yn y ddwy flwyddyn flaenorol.

Mae'r sgoriau cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau cenhadaeth a diben yn ystadegol sefydlog o gymharu â'r ddwy flwyddyn flaenorol. Y flwyddyn hon bu cynnydd o ran lefelau ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gywirdeb a didueddrwydd BBC News, gyda chyfran uwch o bobl yn dewis BBC News fel y ffynhonnell y maent yn ymddiried ynnddi fwyaf, ac yn troi ati am newyddion diduedd a chywir yn 2019/20. Bu rhai gostyngiadau bach yn y sgoriau ar gyfer y diben creadigrwydd. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd y rhan fwyaf o oedolion yn y DU ar y cyfan yn dal i nodi bod y BBC yn effeithiol, sydd gryn dipyn yn uwch na lleiafrif bach a ddywedai ei fod yn aneffeithiol.

Er gwaethaf y canlyniadau cyffredinol hyn, ceir gwahaniaethau sylweddol yn y defnydd a wneir o allbwn y BBC rhwng gwahanol grwpiau cynulleidfaedd, ynghyd â'i effaith.

Mae'r nifer mwyaf o bobl yn dal i deimlo bod y BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion. Ond mae rhai o'r bobl a ddefnyddiai'r BBC i raddau llai o gymharu â'u grwpiau cymharol – grwpiau C2DE, cynulleidfaedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, y rhai yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd Lloegr a phobl iau – ymhlith y rhai a oedd yn tueddu i roi sgoriau effeithiolrwydd is. Yn ogystal ag adlewyrchu apêl gymharol arlwy'r BBC, gall lefel absoliwt y defnydd amrywio, yn rhannol, oherwydd graddau'r gystadleuaeth sydd wedi'i hanelu at grwpiau gwahanol, a chenedlaethau a chyfnodau bywyd gwahanol.

Ym mhob band oedran, rhyw, gradd gymdeithasol ac ardal o'r DU, ac ymysg cynulleidfaedd gwyn a chynulleidfaedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, roedd y gyfran a ddywedodd fod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni'r genhadaeth a phob diben yn 2019/20 gan amlaf yn uwch na'r gyfran a ddywedodd ei fod yn aneffeithiol. Roedd sgoriau effeithiolrwydd yn dal i fod yn is ymhlith grwpiau C2DE na rhai ABC1, ac ymhlith cynulleidfaedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o gymharu â chynulleidfaedd gwyn yn 2019/20.

Er mwyn cynrychioli'r cyhoedd yn well, mae'r BBC wedi gwneud Ymrwymiad i Amrywiaeth Greadigol er mwyn blaenoriaethu £100 miliwn o'r gyllideb gomisiynu bresennol dros dair blynedd o 2021/22 tuag at gynnwys amrywiol a chynhwysol, a tharged talent amrywiol gorfodol newydd o 20% ym mhob comisiwn rhwydwaith newydd o fis Ebrill 2021.

Wrth edrych ar y canlyniadau fesul ardal o'r DU, yn 2019/20 roedd sgoriau effeithiolrwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gadarnhaol ond yn is na chyfartaledd y DU ar draws amrywiaeth o fesurau. Yn yr un modd, rhoddodd oedolion yng Ngogledd Lloegr sgoriau effeithiolrwydd cadarnhaol ond is ar gyfer y rhan fwyaf o'r elfennau ar draws y dibenion o gymharu â chyfartaledd Lloegr.

O ran oedran, roedd sgoriau effeithiolrwydd pobl 35-54 oed yn gyson yn 2019/20 ar ôl mynd am i lawr y flwyddyn flaenorol. Caiff y dibenion newyddion a chynrychiolaeth eu sgorio'n gadarnhaol er yn is na'r grŵp 55+ oed.


Wrth edrych ar y flwyddyn i ddod, mae cynulleidfaedd o bob oedran wedi troi at y BBC yn ystod cyfyngiadau symud pandemig y coronafeirws, gan ddangos gwerth darlledu cyhoeddus. Ymhlith cynulleidfaedd iau y gwelwyd rhai o'r enghreifftiau mwyaf o'r cynnydd hwn. Mae'r cyfyngiadau symud wedi bod yn drobwyt i fideo ar alw. Mae'r defnydd o iPlayer wedi torri'r record, gyda bron i ddwy biliwn o geisiadau am raglenni rhwng diwedd mis Mawrth a dechrau mis Gorffennaf. Ar yr un pryd, mae SVOD wedi profi cynnydd aruthrol. Er mwyn helpu i gynnal effaith unigryw cynnwys y DU a darlledu cyhoeddus, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Blyneddol 2020/21, bydd y BBC yn anelu at fanteisio ar holl bortffolio'r BBC er mwyn parhau i fod yn rhan allweddol o fywydau cynulleidfaedd am flynyddoedd i ddod.

\* Ipsos MORI, 2,341 o oedolion 16+ yn y DU, Chwefror-Mawrth 2020. Sgôr gyfartalog o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw.

# Cyflawni ein dibenion cyhoeddus

Mae dibenion cyhoeddus y BBC wedi'u cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb ac maent wrth wraidd popeth a wnawn.

**O'r holl ddarparwyr cyfryngau (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol), pa un sy'n gwneud y mwyaf i/sydd â'r mwyaf o...**



- a. Helpu pobl yn y DU i ddeall y byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef
- b. Helpu pobl yn y DU i ddysgu pethau newydd
- c. Cynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl yn y DU
- d. Cynnwys a gwasanaethau creadigol i bobl yn y DU
- e. Cynnwys a gwasanaethau nodedig i bobl yn y DU
- f. Cynnwys a gwasanaethau perthnasol i bobl yn y DU
- g. Adlewyrchu bywyd mewn rhannau gwahanol o'r DU
- h. Adlewyrchu'r DU ledled y byd

Ffynhonnell: Ipsos MORI ar gyfer y BBC, 2,341 o oedolion 16 oed yn y DU, Chwefror – Mawrth 2020

**Ein cenhadaeth yn llawn, fel y nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn sy'n ddiuedd, o ansawdd uchel a nodedig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu."**

Mae pum diben cyhoeddus y BBC hefyd wedi'u cynnwys yn ein Siarter Frenhinol. Mae'r rhain yn amlinellu ein gwerthoedd wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae argyfwng iechyd y coronafeirws wedi rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar eglurder cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae'r genhadaeth honno wedi llywio ein hymateb ar bob cam.

Wrth i'r argyfwng ddigwydd, aethom ati i ad-drefnu ein hallbwn ar sail anghenion mwyaf dybryd ein cynulleidfaoedd – o newyddion a gwybodaeth yr ymddiriedir ynddynt i gymorth addysgol i'r celfyddydau a diwylliant, cynnwys i dynnu sylw ac i ddianc drwyddo. Tyrrodd y cyhoedd atom mewn ymateb i hyn.

**Diben gyntaf y BBC yw darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall y byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef.**

Heddiw, mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym rôl bwysig yn helpu i drechu'r gamwbybodaeth a'r dryswch sydd mor gyffredin erbyn hyn.

Mae BBC News yn dal i fod ymhell ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i gynulleidfaoedd ddewis yr un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati i gael newyddion sy'n ddiuedd a chywir y gellir ymddiried ynddo yn gyffredinol (gweler tudalennau 20-21).

Tanlinellwyd pa mor bwysig yw'r hyn a wnawn i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt ar gael i bawb yn ystod yr wythnos gyntaf pan ofynnwyd i bawb gadw pellter cymdeithasol ym mis Mawrth, pan ddefnyddiodd naw o bob deg oedolyn BBC News ar draws pob llwyfan, yn ogystal ag wyth o bob deg oedolyn ifanc. Mewn cyfnod anodd ac ansicr, mae ein cenhadaeth i hysbysu yn bwysicach nag erioed.

**Ail ddiben cyhoeddus y BBC yw cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu.**

Mae addysg wedi bod yn rhan annatod o'r BBC erioed. Efallai mai'r hyn sy'n dangos ein hymrwymiad orau yw'r ffordd y gwnaethom ymateb i'r ffaith bod ysgolion wedi cau drwy gynnig yr arlwy addysgol mwyaf yn ein hanes. Erbyn diwedd tymor yr haf, roeddem wedi cyhoeddi bron i 2,000 o 'Bitesize Daily Lessons' wedi'u

harwain gan y cwricwlwm ar-lein.

Mae ein hallbwn plant yn helpu ein cynulleidfaoedd ieuengaf i ddatblygu eu sgiliau darllen, dysgu a chymdeithasol mewn ffyrdd sy'n gyffrous, chwareus a hwyliog. Wrth iddynt dyfu a newid, mae cynnwys BBC Children yn tyfu ac yn newid gyda nhw. Mae'n tanio eu brwdfrydedd, yn eu galluogi i ganfod yr hyn maent yn angerddol yn ei gylch ac yn eu hysbrydoli i ddysgu – a gwneir hyn oll mewn amgylchedd a gaiff ei ddiifinio gan werthoedd ansawdd, diogelwch ac ymddiriedaeth.

Rydym yn parhau i drawsnewid yr hyn a wnawn ym maes addysg er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu. Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfleoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

**Ein trydydd diben cyhoeddus yw dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau.**

Mae'r BBC yma i greu rhaglenni a gwasanaethau gwych. Dyna pam mae cynulleidfaoedd yn troi atom ac yn ein gwerthfawrogi. Mae'r hyn rydym wedi'i gynhyrchu eleni – ar draws cynnwys ffeithiol, y celfyddydau, drama, adloniant, comedi, chwaraeon a cherddoriaeth – unwaith eto yn dangos ein hymrwymiad i gynnal y safonau cynhyrchu a golygyddol uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn.

Mae ymrwymiad y BBC i gynnwys Prydeinig cartref yn bwysicach nag erioed ar hyn o bryd. Mae gennym ddyletswydd i greu rhaglenni am bobl Brydeinig a diwylliant Prydain. Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau'r ffaith bod y cwmnïau byd-eang yn rhoi cymaint o ddewis iddynt, ond gwyddom hefyd eu bod am gael cynnwys lleol sy'n siarad â nhw'n uniongyrchol am eu bywydau pob dydd a'r hyn sy'n bwysig i'w cymunedau.

Dyna pam rydym yn parhau i sicrhau bod creadigrwydd, ansawdd a chymryd risgiau wrth wraidd y BBC. Yn y farchnad fyd-eang heddiw, dyna sy'n helpu i wneud y BBC yn unigryw: allbwn o ansawdd uchel ar deledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.

**Pedwerydd diben cyhoeddus y BBC yw adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU.**

Mae gennym ddyletswydd sylfaenol i adlewyrchu'r DU gyfan i'w hunan a sicrhau bod ei holl safbwyntiau a lleisiau yn cael eu clywed. Mewn cyfnod o raniadau, mae'r cyfrifoldeb hwn yn gynyddol bwysig.

Heddiw, mae dros hanner ein gwariant – a hanner ein timau – y tu allan i Lundain. Rydym wedi mwy na dyblu cyfran y rhaglenni teledu rhwydwaith a gaiff eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn degawd. Yn hyn o beth, nid oes neb yn gwneud mwy na'r BBC, ond mae'n rhaid i ni weithio'n galetach fyth i gyrraedd holl gymunedau'r DU. Mae'n rhaid i ni wneud mwy fyth i sicrhau bod safbwyntiau a lleisiau gwahanol yn cael eu cynrychioli, ar yr awyr ac ar y sgrin. Mae angen i'n rhaglenni gael eu creu ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae angen i'n gwasanaethau lleol a gwasanaethau'r gwledydd fod yn gwbl berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhobman. Ac mae'n rhaid i ni barhau i weithio er mwyn mynd i'r afael â'r heriau o ran canfyddiad a defnydd y gynulleidfa a wynebwn ar draws gwledydd, rhanbarthau a chymunedau amrywiol y DU, a grynhoir yn y tudalennau canlynol.

Rydym yn parhau i drawsnewid yr hyn a gynigir gennym i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac yn Rhanbarthau Lloegr. Rydym yn parhau i symud adnoddau, staff a gwasanaethau allan o Lundain a chefnogi'r diwydiannau creadigol ledled y DU. Ac rydym yn parhau i weithio'n galed i fod yn weithle cwbl gynhwysol, gyda gweithlu sy'n adlewyrchu'r DU gyfan.

**Ein pumed diben cyhoeddus yw adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.**

Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Bellach, maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y DU i gynulleidfa wythnosol o 468 miliwn o bobl ledled y byd.

Mae safle'r BBC fel y brand newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd yn arbennig o bwysig mewn oes lle mae'r cyfryngau yn llai rhydd nag yr oeddent ddeg mlynedd yn ôl mewn sawl rhan o'r byd. Mae twyllwbyodaeth a 'newyddion ffug' wedi datblygu i fod yn arf dewisol cyfundrefnau gormesol ym mhobman. Mae unigolion sy'n gweithredu dros Rwsia a Tsieina a gaiff eu hariannu'n dda a'u cefnogi gan y wladwriaeth yn gweld newyddion fel estyniad o ddylanwad y wladwriaeth a dull o amharu ar ddemocratiaeth.

Y canlyniad yw bod gwerth BBC News ledled y byd i ddemocratiaeth a rhyddid yn fwy nag erioed. Ac wrth i Brydain geisio ail-lunio ei hunaniaeth ryngwladol a meithrin cydberthnasau newydd â'r byd, mae rôl y BBC ar gyfer y DU a'n dylanwad dramor yn hollbwysig.

Mae'r astudiaethau achos a'r uchafbwyntiau a gaiff eu cynnwys ar y tudalennau nesaf yn dangos rhai o'r ffyrdd lle rydym wedi bodloni gofynion y pum diben cyhoeddus hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

1

Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall y byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef

→ Darllenwch fwy ar dudalennau 20-21

2

Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu

→ Darllenwch fwy ar dudalennau 22-23

3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

→ Darllenwch fwy ar dudalennau 24-29

4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig

→ Darllenwch fwy ar dudalennau 30-39

5

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

→ Darllenwch fwy ar dudalennau 40-41



# 1. Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall y byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef

Mae'r tudalennau hyn yn dangos y ffyrdd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaeth i ddarparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd dros y flwyddyn ddiwethaf

## Etholiad y DU

Roedd gan BBC News un nod cyffredinol ar gyfer Etholiad Cyffredinol dirybudd y DU – bod ar ochr y gynulleidfa. Ac er gwaethaf y dadleuon swmlyd ar y cyfryngau cymdeithasol, dangosodd ymchwil cynulleidfa mai'r BBC oedd y brand newyddion a sgoriwyd uchaf ac a ddefnyddiwyd fwyaf ymysg cynulleidfa oedd yn ystod yr etholiad.

Adlewyrchwyd hyn mewn ymchwil bellach, lle roedd mwy na hanner yr ymatebwyr o'r farn mai'r BBC oedd orau o ran ei sylw i'r ymgyrch etholiadol – gyda sgôr oedd bum gwaith yn uwch na'r cystadleuydd agosaf.

Ynghyd â'r cynnwys arferol – dadleuon, rhifyn arbennig o *Question Time*, cyfweiliadau ag arweinwyr – canolbwyntiodd y BBC ar ddarlledu o bob cwr o'r DU, gyda chynnwys arbennig o ddeg etholaeth ledled y DU.

Gwnaethom fwy nag erioed i wasanaethu ein holl gynulleidfa oedd – p'un a oeddent am gael eu gwybodaeth drwy *Newsbeat* neu *Newsnight*, *Electioncast* neu *BBC Breakfast*, *News at Ten* neu Instagram. Roedd hynny'n cynnwys canllawiau maniffesto syml a'r adnodd digidol cyntaf ar iPlayer i gynnig dadansoddiadau syml o faterion o bwys.

## Panorama – ymchwiliad cudd i'r sgandal camdriniaeth mewn ysbytai

Datgelodd ymchwiliad cudd ar gyfer *Panorama* gamdriniaeth arswydus yn Whorlton Hall, ysbyty preifat wedi'i ariannu gan y GIG ar gyfer oedolion agored i niwed ag awtistiaeth ac anawsterau dysgu. Bu'r gohebydd Olivia Davies yn gwneud gwaith ffilmio cudd a ddangosodd gleifion yn cael eu bwlio a'u bychanu gan y staff a oedd i fod i ofalu amdanynt. Roedd un claf, merch 20 oed, yn cael ei harteithio'n seicolegol, yn ôl arbenigwyr a fu'n gwyllo'r ffilim.

Cafodd y rhaglen effaith ar unwaith. Caewyd yr ysbyty. Ymddiheurodd y gweinidog gofal a'r rheoleiddwyr cenedlaethol, sef y Comisiwn Ansawdd Gofal. Cafodd deg aelod o staff eu harestio. Cafodd y mater ei drafod yn y Senedd,

cynhaliwyd deiseb dros newid ar-lein, ac mae ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i'r Comisiwn Ansawdd Gofal a darparwr preifat yr ysbyty.

Gwnaed y rhaglen hon wyth mlynedd ar ôl i *Panorama* ddatgelu'r gamdriniaeth ofnadwy a brofwyd gan gleifion mewn ysbyty arbenigol arall ar gyfer oedolion agored i niwed, sef Winterbourne View. O ganlyniad i'r ymchwiliad hwnnw, cafwyd addewid y byddai newidiadau yn cael eu gwneud, ond dangosodd yr ymchwiliad hwn fod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn dal i gael eu siomi gan y system.

## Y coronafeirws

Mae gwybodaeth gywir yr ymddiriedir ynddi yn hollbwysig mewn argyfwng iechyd y cyhoedd, ac mae rôl BBC News yn bwysicach nag erioed wrth roi sylw i bandemig y coronafeirws. Yn fuan ar ôl i ddifrifoldeb yr argyfwng ddod yn amlwg, cyhoeddodd BBC News ei gynlluniau i ddarparu gwasanaeth newyddion parhaus drwy symleiddio cynnwys a defnyddio llai o stiwdios. Bwriad hyn oedd mynd i'r afael â'r prinder staff a ragwelwyd a lleihau nifer y staff yr oedd angen iddynt weithio o'n hadeiladau.

Bu'r aelodau hynny o staff a allai weithio gartref yn gwneud hynny, a dechreuodd rhaglenni edrych yn bur wahanol wrth i'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol ddod i rym, gyda microffonau 'boom' yn amlwg iawn, cyfweiliadau o bell yn dod yn rhywbeth cyffredin, a dim cynulleidfa yn y stiwdio ar gyfer *Question Time*. Cwtgwyd ar y teithio a wnaed a chwaraeodd gohebwyr lleol fwy o ran o lawer.

Canolbwyntiodd BBC News ar egluro'r feirws a'i ganlyniadau i'w gynulleidfa, gyda slotiau 'Your Questions Answered' rheolaidd ac adnoddau egluro ar-lein a welwyd fwy na 60 miliwn o weithiau.

Darlledwyd sesiynau brifio dyddiol y Llywodraeth i'r wasg yn fyw ar raglenni *BBC News Special*. Datblygodd y podlediad poblogaidd *NewsCast* yn *The Coronavirus NewsCast*, gan gymysgu dadansoddiadau gan rai o enwau mwyaf BBC News â chyfweiliadau am fywyd ar ei newydd wedd.

Daeth yn amlwg ar unwaith fod cynulleidfa oedd yn troi at BBC News yn eu miliynau, gyda thraean o'r boblogaeth sy'n oedolion yn gwyllo'r *Six O'Clock News* bob wythnos ar ddechrau'r argyfwng – y cynulleidfa oedd ar-lein mwyaf erioed, a'r ffigurau uchaf erioed ar gyfer BBC Sounds.

8/10 2018/19  
8/10

Cyrhaeddiad BBC News ar draws y BBC Nifer yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos.

Ffynhonnell: Kantar Media

### Cyrhaeddiad BBC News fesul llwyfan

Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC **59%** 2018/19 **60%**

% yr oedolion yn y DU (16+) sy'n gwyllo Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Teledu'r BBC bob wythnos.

(Ffynhonnell: BARB, cyrhaeddiad yn seiliedig ar 3+mun) (I weld % yr oedolion sy'n gwyllo newyddion y BBC ar y teledu sy'n benodol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU, ewch i dudalennau 32-36)

Rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith Radio'r BBC **36%** 2018/19 **38%**

% yr oedolion yn y DU (16+) sy'n gwrandao ar raglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Rhwydwaith y BBC bob wythnos.

(Ffynhonnell: RAJAR, cyrhaeddiad yn seiliedig ar 15+mun, heb gynnwys bwletinâu nad ydynt yn rhan o raglen newyddion neu faterion cyfoes) (I weld % yr oedolion sy'n gwrandao ar orsafoedd Radio'r BBC sy'n benodol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU, ewch i dudalennau 32-36)

BBC News Online **42m** 2018/19 **33m**

Nifer y porwyr unigryw yn y DU ar gyfartaledd sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos.

**29%**

% yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos.

Ffynhonnell: cyrhaeddiad porwyr: AT Internet (Adobe DAX yn 2018/19); cyrhaeddiad pobl 16+: Compass gan Ipsos MORI

### Mae BBC News yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd

Teledu'r BBC **76%** 2018/19 **75%**

% y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (9% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 8%).

Radio'r BBC **83%** 2018/19 **78%**

% y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (6% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 8%).

Gwasanaethau Ar-lein y BBC **79%** 2018/19 **80%**

% y defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (7% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 8%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

## Crossing Divides

Roedd *Crossing Divides Live* yn arbrawf arloesol ar gyfer arlwy newyddion BBC Radio 5 live, gyda'r nod o feithrin gwell dealltwriaeth o bob safbwynt a barn.

Ar adeg lle mae'n gynyddol anodd dod i gytundeb, daeth 5 live â phobl sy'n anghytuno ac na fyddent byth yn cwrdd fel arfer efallai at ei gilydd, i ddysgu sut i wrando'n astud a thrafod materion pwysig fel newid hinsawdd, dosbarthiadau cymdeithasol, ffyrdd o fyw, cydraddoldeb, mewnfudo a Brexit wyneb yn wyneb ac yn unigol.

Cymerodd pobl o bob cefndir ac o bob cwr o'r DU ran mewn diwrnod o drafod, a ddarlledwyd ar 5 live, sianel BBC News, BBC World Service a BBC News Online. Roedd *Crossing Divides Live* yn uchelgeisiol, yn nodedig ac yn gymhellol.

## Newsnight: Prince Andrew interview

Ym mis Tachwedd, recordiodd Emily Maitlis rifyn arbennig anarferol o *Newsnight* o Balas Buckingham – cyfweiliad â'r Tywysog Andrew, yr oedd ei gyfeillgarwch â Jeffrey Epstein, a gafwyd yn euog o droseddau rhyw, yn gryn destun trafod. Roedd y cyfweiliad wedi cymryd misoedd i'w drefnu. Cafodd ganlyniadau pellgyrhaeddol.

Cafodd y cyfweiliad sylw ledled y byd a chyrrhaeddodd frig agenda newyddion y DU, hyd yn oed yng nghanol ymgyrch Etholiad Cyffredinol y DU.

Ddiwrnodau ar ôl y cyfweiliad, cyhoeddodd y Tywysog y byddai'n camu'n ôl o'i ddyletswyddau cyhoeddus.

Enillodd y cyfweiliad wobrau 'Scoop of the Year' ac 'Interview of the Year' yr RTS, enillodd Emily Maitlis wob'r 'Network Presenter of the Year', ac enillodd *Newsnight* wob'r 'Daily News Programme of the Year'.

Bythefnos yn ddiweddarach, siaradodd un o ddiodefwyr Epstein, Virginia Roberts Guiffre, ar *Panorama*, yn ei chyfweiliad cyntaf ar deledu Prydeinig.

**71%** 2018/19  
**70%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU/y byd heddiw (14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 15%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**63%** 2018/19  
**62%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn eu rhan nhw o'r DU (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 18%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**66%** 2018/19  
**62%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod Newyddion a Materion Cyfoes y BBC yn effeithiol o ran eu hysbysu am faterion y dydd fel y gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain (15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 17%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**54%** 2018/19  
**52%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd (25% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 28%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI


**69%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu newyddion a materion cyfoes cywir (aneffeithiol 15%).


Ffynhonnell: Ipsos MORI

O'r holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa un ffynhonnell ydych hi fwyaf tebygol o droi ati...


... i gael newyddion diduedd



... i gael y newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf




... i gael newyddion cywir



Ffynhonnell: Ipsos MORI ar ran y BBC, 1,013 o oedolion 18+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Mawrth 2020

## Oriau o faterion cyfoes (BBC One a BBC Two)



EIB Dug Caerefrog yn cael ei gyfsweld gan Emily Maitlis ar gyfer *Newsnight*



## 2. Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos ehangder y cynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc

### Newsround

Mae *Newsround* yn dal i fod yn un o gonglfeini ein harlwy i blant, sy'n cael eu newyddion ar-lein fwyfwy. Mewn ymateb i hynny, mae tîm *Newsround* wedi cymryd camau pellach i greu cynnwys ar gyfer cynulleidfa digidol yn gyntaf, gyda dwy eitem arbennig yn edrych ar y ffordd y mae plant yn byw yng nghysgod y wal sydd ar y ffin rhwng yr UD a Mecsico, a'r heriau unigryw i blant yn Ne Korea. Mae *Newsround* yn parhau i ddatblygu ei wasanaeth ar-lein, ac mae ei arlwy teledu yn parhau i fod yn gryf hefyd. Enillodd pennod arbennig ar yr Holocaust y wobwr 'Best Factual Programme' yn y BAFTAs Plant, ac rydym wedi gweld cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer yr athrawon sy'n dangos y bwletin boreol mewn ystafelloedd dosbarth, gyda niferoedd brig yn benodol ar ddiwrnodau newyddion pwysig fel Etholiad Cyffredinol y DU.

**999k**

Nifer y porwyr unigryw wythnosol a ymwelodd â gwefan *Newsround* ar gyfartaledd (2018/19: 604k)

Drwy gydol y flwyddyn, nododd plant mai newid hinsawdd oedd o'r diddordeb

**81%** 2018/19  
81%

**Y cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer plant dan 16 oed**

% y plant dan 16 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**84%** 2018/19  
85%

**Y cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer plant 0-6 oed**

% y plant 0-6 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**79%** 2018/19  
78%

**Y cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer plant 6-12 oed**

% y plant 6-12 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, radio neu wasanaethau ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

mwyaf iddynt, a darn pwysig arall ar gyfer *Newsround* eleni oedd arolwg a gynhaliwyd ynghylch pryderon pobl ifanc am yr hinsawdd, ynghyd â straeon cysylltiedig. Roedd yn enghraifft arall o newyddiaduraeth sy'n gosod yr agenda gan *Newsround*, a chafodd sylw gan rannau eraill o'r BBC a'r wasg ehangach. Mae'n dangos y ffordd y mae *Newsround* yn dal i gyflawni ei ddiben craidd; rhoi plant wrth wraidd y stori.

### A Week to Beat the World

Y flwyddyn ddiwethaf, lansiodd CBBC fformat arloesol ac uchelgeisiol yn hyrwyddo ymarfer corff, antur a diwylliant gan gyflwyno'r gynulleidfa i ffyrdd gwahanol o fyw ledled y byd. Dewisodd *A Week to Beat the World* chwe phlentyn o'r DU a oedd yn rhagori ym maes y campau gan eu herio i gystadlu yn erbyn plant lleol yn rhai o'r amgylcheddau anoddaf drwy gymryd rhan yn rhai o'r gemau mwyaf anarferol yn y byd.

Gan deithio i chwe gwlad wahanol drwy'r gyfres, bu'n rhaid i'r cystadleuwyr feistrolï campau yn amrywio o pitz, sef gêm bêl hynafol Faiaidd yn Guatemala a sumo yn Japan, i ddawnsio llewod ym Maleisia a gemau'r Massai yn Kenya. Yn ogystal â hyfforddi'n galed yn y disgyblaethau hyn, bu'r plant o Brydain yn byw ochr yn ochr â'u hyfforddwy'r a'u lletywyr gan wneud ffrindiau â'r plant lleol, p'un a oeddent yn blant o fafelâu Brasil neu'n farchogion nomadig ym Mongolia. Drwy eu profiadau,

**60%** 2018/19  
58%

Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cynnwys BBC Children ar y teledu, iPlayer ac ar-lein ymysg plant dan 16 oed.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**79%** 2018/19  
79%

Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cynnwys BBC Children ar y teledu, iPlayer ac ar-lein ymysg plant 0-6 oed.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**58%** 2018/19  
52%

Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cynnwys BBC Children ar y teledu, iPlayer ac ar-lein ymysg plant 6-12 oed.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**04:55** 2018/19  
05:01

Faint o amser y mae plant dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC bob wythnos

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**7/10** 2018/19  
7/10

Canfyddiad plant dan 16 oed o'r BBC: sgôr gymedrig allan o 10.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**60%** 2018/19  
61%

% y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu (15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**64%** 2018/19  
65%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd (17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 16%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

### A Week to Beat the World ar CBBC





**38%** 2018/19  
40%

**Bitesize: % y cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion cynradd**  
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell: YouGov, DJS

**73%** 2018/19  
75%

**Bitesize: % y cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion uwchradd**  
% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell: YouGov, DJS

**62%** 2018/19  
58%

**Bitesize: % y defnyddwyr ysgol uwchradd sy'n dweud bod Bitesize wedi eu helpu i gael graddau gwell.**

Ffynhonnell: YouGov, DJS

**83%** 2018/19  
82%

**Bitesize: % y defnyddwyr dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize wedi eu helpu i ddeall eu hastudiaethau/dysgu yn well.**

Ffynhonnell: YouGov, DJS



**15**  
**Gwobrau Plant yr Academi Brydeinig**

Enillom 15 allan o'r 19 o gategoriâu roeddem yn gymwys ar eu cyfer.



Super Movers ar BBC Teach

gallai ein cynulleidfa werthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng ein diwylliannau ac, yn hanfodol, y tebygrwydd sy'n ein huno.

### Super Movers

Mae Super Movers yn bartneriaeth arloesol rhwng BBC Education ac Uwch Gynghrair Lloegr sydd â'r nod o helpu athrawon ysgol gynradd i ysbrydoli plant i wneud mwy o ymarfer corff yn ystod eu diwrnod ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth y gall gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol drwy alluogi disgyblion i ganolbwyntio'n fwy, yn ogystal â chynyddu eu cymhelliad a'u helpu i fwynhau dysgu. Roedd cynnwys am ddim ar gael i athrawon drwy wefan Super Movers a oedd yn cynnig datrysiadau syml i helpu plant i ddysgu wrth iddynt symud, yn cynnwys ymarferion i gefnogi rhifedd a llythrennedd.

Fel rhan o gefnogaeth Uwch Gynghrair Lloegr gwelwyd y chwaraewyr a'r masgots yn cymryd rhan, a rhoddwyd pecynnau cit i ysgolion a wnaeth annog y defnydd o'r cynnwys a arweiniwyd gan y BBC. Cafodd yr ymgyrch sylw mewn rhannau eraill o'n hallbwn hefyd fel *BBC Breakfast*, *The One Show* a thrwy genhadon BBC Sport, Gabby Logan ac Alex Scott.

Mae BBC Education ac Uwch Gynghrair Lloegr yn parhau i gydweithio ar Super Movers ac mae'r holl gynnwys cyffrous bellach ar gael ar lwyfan BBC Teach, ac mae adnoddau newydd yn cael eu datblygu i helpu i gyfoethogi bywydau plant oedran cynradd ledled y DU.

**94%** 2018/19  
94%

% y plant sydd wedi defnyddio Super Movers sy'n dweud eu bod yn ei garu neu'n ei hoffi


Ffynhonnell: EdComs

**95%** 2018/19  
87%

% y rheini sy'n defnyddio Super Movers sy'n cytuno: 'mae fideos Super Movers wedi cael effaith gadarnhaol ar ddsygu fy mhientyn'

Ffynhonnell: EdComs

**CBBC**



### 3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau

**Mae'r tudalennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o gynnwys creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau a gynhyrchwyd ar draws y BBC y flwyddyn ddiwethaf**

#### **This Country**

Yn 2016, mentrodd BBC Comedy gyda'r brawd a chwaer Daisy May a Charlie Cooper, talent ysgrifennu ac actio newydd sbon â llais comig unigryw sydd wedi ennill sawl gwobr bellach. Mae eu cyfres lwyddiannus yn llawn calon a dealltwriaeth a gwerthfawrogiad personol dwfn o'r gymuned y mae wedi'i lleoli ynddi. Mae *This Country* yn portreadu rhan o'n cymdeithas na chaiff ei chynrychioli'n rheolaidd ar y sgrin, ac mae wedi mwy nag ennill ei phlwyf gyda chynulleidfaoedd. Ar draws y tair cyfres a phennod arbennig, sef *The Aftermath*, yn 2017, cafwyd 52 miliwn o geisiadau i wyllo *This Country* ar iPlayer erbyn diwedd Mawrth, sy'n golygu mai hon yw'r gomedi fwyaf poblogaidd ar BBC Three ers i'r sianel fynd ar-lein yn 2016 – mae'r ffigur hwn yn golygu ei bod wedi cyrraedd yr un lefel â *Fleabag*, sydd wedi ennill gwobrau Emmy a Golden Globe, ac mae'n dangos sut y gall brandiau rhaglen cryf dyfu ar-lein, ynghyd â gwerth hirdymor cynnwys wedi'i sgrripto i iPlayer.

#### **Criced**

Cafodd criced gryn sylw ar wefan ac ap BBC Sport yn ystod haf 2019, diolch i gymysgedd cyfoethog o sylwebaeth sain, clipiau fideo a blogio byw. Lloegr yn ennill gêm derfynol Cwpan Criced y Byd oedd uchafbwynt y flwyddyn chwaraeon, gan ddenu mwy na 4.8 miliwn o borwyr unigryw i'r safle. Yn y cyfamser, chwaraewyd un clip o Ben Stokes yng Nghyfres y Llundw fwy na 965,000 o weithiau.

Edrychwyd ar dudalen ar-lein gêm derfynol Cwpan Criced y Byd 40.1 miliwn o weithiau, sy'n ffigur rhyfeddol, ac roedd cyfanswm yr amser a dreuliyd gan gynulleidfaoedd arni yn 524,213 o oriau. Cafwyd 1.3 miliwn o geisiadau i wrando ar sylwebaeth *Test Match Special* (TMS) yn ddigidol y diwrnod hwnnw.

Dros gyfnod Cwpan Criced y Byd, cafwyd 30.6 miliwn o borwyr unigol i'r adran criced ar-lein; cafwyd 10.6 miliwn o geisiadau i wrando ar ddarllediadau TMS ar-lein; a chafodd y clipiau fideo eu chwarae fwy na 33 miliwn o weithiau – golygai hyn oll mai hwn oedd y digwyddiad mwyaf ar fideo heblaw am y Gemau Olympaidd a Chwpanau Byd pêl-droed y dynion.

Ar ôl Cwpan Criced y Byd cafwyd Cyfres y Llundw, a chafwyd ffigurau gwych hefyd ar gyfer gêm brawf Headingley, a enillwyd mewn amgylchiadau cyffrous gan Stokes ym mis Awst, gan ddenu 3.3 miliwn o borwyr unigryw i ddarllediadau byw BBC Sport. Hefyd, cafwyd 3.1 miliwn o geisiadau i wyllo clipiau fideo, ac 1.3 miliwn o geisiadau i wrando ar glipiau sain TMS.

#### **His Dark Materials**

Pan lanswyd addasiad hir-ddisgwyliedig BBC One o nofelau ffantasi clasurol Philip Pullman, cafwyd adolygiadau pum seren a ffigurau cynulleidfa enfawr, gyda chynulleidfa gyfartalog o 11.5 miliwn yn gwyllo ar draws pob sgrin. Hwn oedd y lansiad mwyaf ar gyfer cyfres newydd mewn unrhyw genre ar draws pob sianel yn 2019. Roedd cast *His Dark Materials* yn llawn sêr, a chafwyd canmoliaeth i'r perfformiadau, effeithiau gwledol moethus, ysgrifennu deallus a'r ffaith y gallai'r teulu cyfan wyllo'r ddrama. Roedd y gyfres yn boblogaidd ymysg pobl 16-34 oed, sef y gynulleidfa ieuengaf o blith holl ddrama'u newydd BBC One y flwyddyn ddiwethaf.



*His Dark Materials* ar BBC One

#### **% yr oriau a oedd yn rhaglenni gwreiddiol**



**78%** 2018/19  
79%

% yr oedolion (16+) yn y DU mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: BARB (bellach yn cynnwys 28 diwrnod)

**07:39** 2018/19  
07:46

Faint o amser y mae oedolion (16+) yn y DU mewn cartrefi â theledu yn ei dreulio gyda Theledu'r BBC bob wythnos (oo:mm).

Ffynhonnell: BARB (bellach yn cynnwys 28 diwrnod)

**61%** 2018/19  
63%

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: RAJAR

**09:04** 2018/19  
09:33

Faint o amser y mae oedolion (16+) yn y DU yn ei dreulio gyda Radio'r BBC bob wythnos (oo:mm).

Ffynhonnell: RAJAR

**54%**

% yr oedolion (16+) yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynhonnell: Ipsos MORI



## Podlediadau o'r radd flaenaf

Mae podlediadau wrth wraidd y ffordd rydym yn cyrraedd cynulleidfaoedd â chynnwys sain arloesol gan y BBC, yn enwedig pobl iau sy'n dewis gwrandao ar alw ac ar ffonau symudol fwyfwy. Y flwyddyn hon, gwnaethom anelu'n uwch o lawer yn greadigol ar BBC Sounds, gan gomisiynu mwy o gyfresi yn benodol ar gyfer y cyfrwng podledu. Rydym wedi cyflwyno lleisiau newydd i gynulleidfa ehangach drwy bodlediadau fel *Have You Heard George's Podcast?*, *Jacob Hawley on Drugs, After: Surviving Sexual Assault*, *United Kingdom* a *Fashion Fix*. Mae podlediadau newyddion a gwaith ymchwiliol wedi cyflwyno straeon a dadansoddiadau dwfn i wrandawyr mewn ffordd newydd, o *Brexitcast/Electioncast*, *The Next Episode*, *Manhunt* i *The Missing Cryptoqueen*.

Gall podlediadau addysgu a diddanu mewn ffordd unigryw, p'un a ydynt yn ddramâu sain fel *Forest 404*, yn gyfresi ffeithiol poblogaidd fel *Tunnel 29*, *13 Minutes to the Moon* a *You're Dead to Me*, neu'n deitlau sy'n galluogi gwrandawyr i dreulio amser gyda chyflwynwyr adnabyddus, fel *Match of the Day: Top 10* a *The Gemma Collins Podcast* yn ogystal â *That Peter Crouch Podcast*, *Fortunately with Fi and Jane* a *Tailenders*, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn y flwyddyn hon.

## BBC iPlayer

Cafodd BBC iPlayer ei flwyddyn orau erioed; gyda 4.8 biliwn o geisiadau i ffrydio rhaglenni yn 2019/20. Mae rhaglenni bellach ar gael i'w gwyllo am 12 mis o leiaf, mae'r dewis o focs sets o gyfresi wedi'i ehangu ac mae pob pennod o sawl cyfres newydd ar gael ar yr un pryd, gan olygu y gallai gwylwyr reoli pryd roeddent am wyllo. Ehangwyd yr arlwy byw drwy ddigwyddiadau cenedlaethol fel Wimbledon a Glastonbury, ac ym mis Mawrth, gwnaethom lansio profiad newydd i blant ar BBC iPlayer ar gyfer setiau teledu sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngwyd, gan gyflwyno'r rhaglennu gorau gan CBeebies, CBBC a rhaglennu addas arall y BBC, a phopeth yn yr un lle.

**83%** **84%**

16+

16-34

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth yn gyffredinol (9% o ddefnyddwyr 16+ oed a 9% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol) Ffynhonnell: Ipsos MORI

**83%** **84%**

16+

16-34

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol (8% o ddefnyddwyr 16+ oed ac 8% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol) Ffynhonnell: Ipsos MORI

**9.1m** **2.9m**

Cyfrifon i gyd

Cyfrifon pobl dan 35 oed

Cyrrhaeddiad iPlayer ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi  
Cyfrifon wythnosol cyfartalog sydd wedi mewngofnodi i iPlayer (2018/19: 6.4 miliwn i gyd; 2.0 miliwn o bobl dan 35 oed) Ffynhonnell: data AT Internet/BBC Account

**32.6m**

Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy iPlayer (18/19: 25.5 miliwn)

Ffynhonnell: data dal i fyny AT Internet/Sky

**12%**

% gwyllo teledu'r BBC drwy iPlayer (18/19: 9%)

Ffynhonnell: data dal i fyny BARB/AT Internet/Sky

**8/10** **8/10**

16+

16-34

Sgoriau defnyddwyr wythnosol o iPlayer (sgôr gymedrig) (2018/19: 16+: 8/10; 16-34: 8/10)

Ffynhonnell: YouGov

Diben o ran newyddion

**82%** **84%**

16+

16-34

Diben o ran dysgu

**82%** **82%**

16+

16-34

Diben o ran creadigrwydd/ansawdd

**84%** **82%**

16+

16-34

Diben o ran adlewyrchu/cynrychioli/gwasanaethu

**76%** **78%**

16+

16-34

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni pob diben cyhoeddus (O dan 10% o ddefnyddwyr 16+ oed ac 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol fesul diben) Ffynhonnell: Ipsos MORI



Podlediad llwyddiannus *Have You Heard George's Podcast?* ar BBC Sounds



### 3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau *parhad*

#### Seven Worlds, One Planet

Defnyddiodd y gyfres arbennig hon ar BBC One, a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough gan adrodd hanesion hynod am fywyd gwyllt a dangos ardaloedd gwyllt nas gwelwyd o'r blaen, y dechnoleg ddiweddaraf, gan ddatlu amrywiaeth bywyd ar bob cyfandir, ymddygiad hynod anifeiliaid, a rhywogaethau newydd. Gwylodd cynulleidfa gyfartalog o naw miliwn bob pennod ar draws pob sgrin. Hon oedd y rhaglen ffeithiol a wylwyd fwyaf ar y BBC yn 2019.

#### Drag Race UK

Roedd y fersiwn gyntaf o *RuPaul's Drag Race* yn y DU yn boblogaidd iawn ar BBC Three, gyda chynulleidfa oedd yn tyrru i'w gwyllo, ac enillodd wobwr adloniant gan yr RTS. Ymunodd Michelle Visage, Graham Norton ac Alan Carr â RuPaul fel beirniaid a choronwyd The Vivienne yn enillydd. Arbrofodd BBC Three drwy fynd ati, am y tro cyntaf, i rannu penodau newydd am 8pm bob nos Iau, gan olygu bod iPlayer yn gyrchfan ar gyfer teledu a gaiff ei wyllo ar adeg benodol, a chafwyd 15 miliwn o geisiadau i wyllo'r gyfres, gyda bron i ddwy ran o dair o'r rheini gan bobl 16-34 oed. Mwynhaodd llawer y rhaglen yn 'fyw' neu drwy ymuno â phartion gwyllo ledled y wlad gan greu rhaglen adloniant boblogaidd a gyflwynodd rywbeth newydd i'r BBC.

#### Year of Beliefs

Drwy gydol 2019, rhoddodd Year of Beliefs sylw i ffydd, credoau a gwerthoedd ym Mhrydain fodern gyda rhaglennu a oedd yn adlewyrchu cymhlethdodau bywyd yn yr 21ain ganrif ac yn cynnig lle i ddatlu a nodi achlysuron allweddol yn y calendr crefyddol. Cafwyd cyfresi mawr ar y teledu a'r radio, adroddiadau newyddion arbennig a chynnwys ar gyfer cynulleidfa oedd iau ar CBeebies, CBBC ac ar-lein, ynghyd â chynrychiolaeth ehangach o wyliau a ffydd ar draws ein holl rwydweithiau.




#### Change the Game

Gwnaeth y BBC yr ymrwymiad mwyaf yn ei hanes i chwaraeon menywod. Y nod oedd dathlu menywod ym myd y campau a dyrchafu chwaraeon menywod i'r brif ffrwd, gan gyflwyno mwy o chwaraeon i fwy o bobl a herio a newid syniadau blaenorol am chwaraeon menywod. Ym mis Mai gwnaethom lansio *Change the Game*, sef ymgyrch hynod lwyddiannus a fyddai'n rhoi cryn sylw i chwaraeon menywod ac athletwyr sy'n fenywod ar draws y BBC. Cwpan y Byd FIFA i Fenywod a Chwpan Pêl-rwyd y Byd oedd wrth wraidd yr ymgyrch, a oedd hefyd yn cynnwys Wimbledon, Pencampwriaethau Athletau'r Byd, Cyfres y Llundw i Fenywod, gêm derfynol Cwpan yr FA i Fenywod a Chwpan Solheim. Ychwanegodd ymrwymiad marchnata nas gwelwyd ei debyg o'r blaen a rhaglennu a gomisiynwyd yn arbennig ar y teledu, radio ac ar-lein at dymor o gynnwys a gododd broffil a safle chwaraeon menywod, yn ogystal â chreu arwyr newydd, gan annog pobl i siarad am y menywod sy'n serennu ym myd y campau.


Y flwyddyn nesaf, y BBC fydd yr unig gyrchfan ar gyfer twrnament Ewro 2021 UEFA i Fenywod wedi iddo sicrhau'r hawliau ar ei gyfer. Cyrhaeddodd ein darllediadau o Gwpan y Byd FIFA 2019 yn Ffrainc fwy na 28.1 miliwn o bobl ar y teledu yn unig. Denodd gêm gynderfynol Cwpan y Byd rhwng Lloegr ac UDA gynulleidfa o 11.7 miliwn ar ei huchaf, ac 1.7 miliwn o geisiadau ar iPlayer ac ar y safle chwaraeon.



#### Oriau o raglenni gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar draws oriau yn ystod y dydd ac oriau brig




#### Oriau o raglenni comedi, rhai yn ystod oriau brig



— Cwota Ofcom — Cyfanswm yr oriau a ddarparwyd

Race Across the World ar BBC Two





Jess Gillam yn cyflwyno *This Classical Life* ar BBC Radio 3

## ***This Classical Life***

Cyflwynydd *This Classical Life* yw'r sacsoffonydd Jess Gillam, a gyrhaeddodd rownd derfynol BBC Young Musician. Yn 21 oed, hi yw cyflwynydd ieuengaf yr orsaf erioed. Mae cerddorion sy'n meithrin eu crefft – o fyd cerddoriaeth glasurol a thu hwnt – yn ymuno â Jess i rannu'r hyn maent wedi ei ddarganfod o bob genre, a dangos y ffordd y mae cerddoriaeth yn llywio eu bywydau. Enillodd y rhaglen y wobr am y Rhaglen Cerddoriaeth Arbenigol Orau yng ngwobrau ARIA 2020, ac mae hefyd ar gael fel podlediad, fel rhan o ymdrech yr orsaf i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, sy'n chwilio am adloniant cerddorol newydd ysgogol ar draws pob genre.



## ***Race Across the World***

Cydiodd fformat cystadleuaeth deithio fyd-eang newydd epig ac uchelgeisiol, sef *Race Across the World*, yn nychymyg miliynau o wylwyr a bu'n llwyddiant anferth i BBC Two ymhlith beirniaid ac wrth i fwy o bobl ddod i wybod am y rhaglen. Yn y gyfres gyntaf dilynwyd pum pâr o deithwyr wrth iddynt rasio 12,000 milltir, ar draws dau gyfandir, 21 o wledydd a phedwar môr, o Lundain i Singapôr, heb hedfan na defnyddio ffonau deallus, cardiau credyd nac unrhyw agwedd arall ar fywyd modern. *Race Across the World* oedd y rhaglen adloniant ffeithiol fwyaf poblogaidd a lansiwyd ar BBC Two yn 2019, a denodd y bennod olaf gynulleidfa gyfartalog o 3.5 miliwn ar draws pob sgrin. Roedd y gyfres yn arbennig o boblogaidd ymysg gwylwyr iau. Dechreuodd yr ail gyfres ym mis Mawrth 2020 gyda phum pâr newydd yn brwydro i rasio ar hyd America Ladin, o Ddinas Mecsico i ddinas fwyaf deheuol y byd, Ushuaia, yn yr Ariannin.

### Ansawdd a natur nodedig y BBC fesul llwyfan

	Yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd	Natur nodedig
Teledu'r BBC	<b>72%</b> <small>2018/19 72%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (9% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 9%)	<b>70%</b> <small>2018/19 69%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (9% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 10%)
Radio'r BBC	<b>77%</b> <small>2018/19 75%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (8% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 7%)	<b>76%</b> <small>2018/19 73%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (8% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 8%)
Gwasanaethau Ar-lein y BBC	<b>70%</b> <small>2018/19 69%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (9% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 8%)	<b>66%</b> <small>2018/19 64%</small> defnyddwyr wythnosol sy'n nodi ei fod yn effeithiol (10% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 9%)

Ffynhonnell: Ipsos MORI





### 3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau *parhad*

#### Cyflwynwyr gwadd Radio 1 dros y Nadolig

Rhoddodd Radio 1 gyfle i dalent newydd a thalent sy'n datblygu ddariledu ar orsaf radio fwyaf y DU i bobl ifanc dros gyfnod y Nadolig yn 2019, gan ddewis o blith unrhyw un oedd wedi cael profiad blaenorol ar y radio, boed hynny ar radio cymuned, ysbyty, myfyrwyr neu radio lleol. Ymysg y rhai a ddewiswyd roedd Lucy Edwards, actifydd ac YouTubwr, a ddaeth yn gyflwynydd dall cyntaf Radio 1, a'r cyflwynydd a'r podlediwr Jacob Edward, a ddaeth yn gyflwynydd anneauaid cyntaf yr orsaf.

#### The Novels That Shaped Our World

Lansiwyd tymor blwyddyn o hyd o raglennu ar draws teledu a radio'r BBC yn nhymor yr hydref 2019, gan nodi 300 mlynedd ers i'r nofel gyntaf gael ei hysgrifennu yn Saesneg. Yn ganolbwynt i'r tymor, archwiliodd cyfres ar BBC Two ddylanwad tair elfen hanesyddol a chymdeithasol fawr ar y broses o greu nofelau: yr Ymerodraeth Brydeinig a chaethwasiaeth, lleisiau menywod, a phrofiad y dosbarth gweithiol. Tynnodd y penodau sylw at rôl llyfrau fel cyfrwng ar gyfer newid cymdeithasol, gan ysgogi newid mewn agweddau a chanfyddiadau.

Cynhaliwyd gŵyl i gyd-fynd â'r gyfres, a oedd yn cynnwys y BBC, llyfrgelloedd a grwpiau darllen, gan ganolbwyntio ar nodi'r 100 prif nofel sydd wedi effeithio ar ein byd diwylliannol dros y tair canrif ddiwethaf.

#### Gentleman Jack


Stori serch LGBT oedd wrth wraidd prosiect Sally Wainwright, sydd wedi ennill gwobrau BAFTA, gan adrodd stori wir nad yw'n adnabyddus y tîrfeiddianwr chwyldroadol Anne Lister, a chwaraewyd gan Suranne Jones. Cafodd y gyfres ei ffilmio ar leoliad yn Halifax a'r cyffiniau, gan gynnwys cartref go iawn Lister, Shibden Hall. Nodwyd bod *Gentleman Jack* yn gyfrifol am gynnydd o 20% mewn arosiadau mewn gwestai lleol, a gwelodd Shibden Hall deirgwaith yn fwy o ymwelwyr yn ail hanner 2019. Lansiwyd y gyfres wyth rhan ar BBC One i gynulleidfa gyfunol o 7.9 miliwn ar draws pob sgrin, gan olygu ei bod ymhlith y pum drama newydd fwyaf poblogaidd ar y BBC yn 2019.



Panel beirniaid 100 Novels That Shaped Our World



Y ddrama *Gentleman Jack* ar BBC One a enillodd wobwr RTS







**62%** <sup>2018/19</sup>  
63%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran gwreiddioldeb (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**61%** <sup>2018/19</sup>  
64%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig (15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 13%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**61%** <sup>2018/19</sup>  
65%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**68%** <sup>2018/19</sup>  
70%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (13% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 12%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**64%** <sup>2018/19</sup>  
67%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sydd at ddant pawb (15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 14%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

## 4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol


Mae'r BBC yn ymrwymedig i wasanaethu ei gynulleidfaedd ledled y DU, gan ddarparu cynnwys nodedig a pherthnasol o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a helpu i gynnal cyrhaeddiad a chynnig cyfrwng effeithiol i adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau.

### Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth o allbwn penodedig, traws-genre ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio a chynnwys ar-lein ar gyfer ei chynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

### Oriau o drafodion o Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon



**7/10** 18/19  
7/10

Y sgôr gyfartalog o ran argraff gyffredinol a roddodd oedolion yn y DU i'r BBC.

Ffynhonnell: Kantar Media



## Cyflenwi'r rhwydwaith

Caiff dros hanner y teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 50.7% o'r tu allan i Llundain a 20.8% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Y gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys

	2019	2018
<b>Llundain</b>	<b>49.3%</b>	49.3%
Yr Alban	9.1%	10.4%
Cymru	8.2%	6.3%
Gogledd Iwerddon	3.5%	3.1%
<b>Cyfanswm y gwledydd</b>	<b>20.8%</b>	19.8%
Canolbarth Lloegr	2.8%	2.2%
Gogledd Lloegr	14.0%	17.6%
De Lloegr	9.8%	8.6%
Aml-ranbarth*	3.3%	2.5%
<b>Cyfanswm y rhanbarthau heb gynnwys Llundain</b>	<b>30.0%</b>	30.9%
<b>Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau</b>	<b>50.7%</b>	50.7%
<b>Cyfanswm cyfan</b>	<b>100%</b>	100%

### Oriau o allbwn Radio Lleol\*\* a radio'r gwledydd y BBC

	2019	2018
Lloegr (ac eithrio Llundain)	250,281	236,870
Llundain	8,784	8,679
Yr Alban	11,844	11,888
Cymru	14,791	14,960
Gogledd Iwerddon	8,221	8,283

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.

\* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Llundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw ranbarth na gwlad.

\*\* Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw rhaglenni a gaiff eu hailddarlledu.

## Staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad

Rydym hefyd yn dal i fod yn ymrwymedig i leoli o leiaf 50% o'n cyflogein y tu allan i Llundain ac mae tua 52% wedi'u leoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd.

### % staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) (ac eithrio BBC Studios yn 2019)

Gwlad	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Lloegr (ac eithrio Llundain)	34	34
Llundain	48	48
Yr Alban	7	7
Cymru	7	7
Gogledd Iwerddon	4	4

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn nodi enghreifftiau o weithgarwch y BBC ym mhob un o wledydd y DU er mwyn helpu i gyflawni ei ddibenion. Mae gwahaniaethau o ran y defnydd a'r canfyddiadau o'r BBC mewn gwahanol rannau o'r DU ac mae'r BBC yn ceisio lleihau'r rhain. Er enghraifft, mae sianel BBC Scotland eisoes yn cyfrannu at gyflawni'r dibenion yn yr Alban, ac ym mis Gorffennaf y flwyddyn hon, cyhoeddwyd cynlluniau newydd i drawsnewid gwasanaethau lleol yn Lloegr. Yn y cyfamser, mae newidiadau i'r amserlen radio yng Nghymru a Gogledd Iwerddon wedi helpu i fynd i'r afael â gostyngiad yn y gynulleidfa sy'n gwrando ar BBC Radio Wales a BBC Radio Ulster.

# 57%

2018/19  
55%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (20% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 20%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 56%

2018/19  
56%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (20% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 20%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 56%

2018/19  
56%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (21% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 21%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 61%

2018/19  
61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n berthnasol iddyn nhw (19% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 19%. 2018/19: 18%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

# 64%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol mewn cymdeithas yn y DU (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Tu ôl i'r camera ar ddrama Trigonometry ar BBC Two



**4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad***

*Hidden (Craith) ar BBC One Wales ac S4C*

**Y BBC yng Nghymru**

**Roedd yn flwyddyn a ddominyddwyd gan Brexit ac Etholiad Cyffredinol y DU adeg y Nadolig a chynigiodd BBC Cymru arlwy cynhwysfawr mewn perthynas â'r ddau ar draws ei wasanaethau ac ar S4C. Dan arweiniad y Golygydd Gwleidyddol Felicity Evans, a'r Golygydd Materion Cymreig Vaughan Roderick, rhoddwyd sylw i bob agwedd ar y sefyllfa economaidd, wleidyddol a chymdeithasol bob awr o'r dydd.**

Y tu hwnt i newyddion, parhawyd i greu drama o Gymru. Roedd *The Left Behind*, a enillodd y wobwr am y Ddrama Unigol Orau gan yr RTS, yn gyfrif digyfaddawd o wreiddiau'r adain dde bellaf yng Nghymru a'r rôl y gall ffactorau economaidd-gymdeithasol ei chwarae o ran denu pobl i ddangos senoffobia a chyflawni troseddau casineb. Dychwelodd *Keeping Faith* am ail gyfres - y tro hwn ar BBC One ledled y DU - a pharhaodd i gael miliynau o geisiadau ar BBC iPlayer. A dychwelodd y ddrama dywyllach *Hidden* am ail gyfres ar BBC One Wales a BBC Four. Cafodd *His Dark Materials*, a gynhyrchwyd yng Nghymru, ganmoliaeth ryngwladol hefyd fel addasiad o nofelau Philip Pullman.

Rhoddwyd cryn sylw i gomedi y flwyddyn hon. Yn yr ail gyfres o *The Tourist Trap*, gwelwyd y cast llawn sêr yn dychwelyd i wneud hwyl ysgafn am ben ystrydebau a chanfyddiadau o'r Cymry. A chafodd *The Tuckers*, a ysgrifennwyd gan Steve Spiers ac y mae'n serenau ynndi, effaith ar unwaith wrth iddi ddychwelyd am gyfres gyntaf lawn ar ôl pennod beilot flwyddyn yn gynharach.

Cafwyd cyfleoedd hefyd i archwilio tirwedd a hanes Cymru. Rhoddodd y gyfres hanes naturiol, *Wales: Land of the Wild*, gyda Michael Sheen yn adrodd, gipolwg hynod i ni ar fywyd gwyllt a chefn gwlad Cymru, a rhoddodd *The 1900 Island* gipolwg unigryw ar fywyd mewn pentref pysgota ar droed y ganrif ddiwethaf.

Dychwelodd y gyfres uchel ei pharch *BBC Cardiff Singer of the World* hefyd, gan ddenu cystadleuwyr o bob cwr o'r byd.

Yn ein gwasanaethau sain, comisiynodd BBC Radio Cymru 12 o bodlediadau Cymraeg newydd ar gyfer BBC Sounds, gan ganolbwyntio i raddau helaeth ar gynulleidfaoedd iau, a chwaraewyd *Shreds*, prosiect arloesol rhwng ystafell newyddion BBC Cymru a thimau dramâu sain, fwy na 450,000 o weithiau ar BBC Sounds.

Y flwyddyn hon, gwnaethom lansio amserlen newydd ar BBC Radio Wales a helpodd i gynyddu nifer y gwrandawyr ac am ba hyd roeddent yn gwrandao ac roedd nifer gwrandawyr BBC Radio Cymru yn sefydlog. Er ei bod wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall, mae'r gyfran sy'n gwrandao ar radio rhwydwaith y BBC ac sy'n gwyllo teledu'r BBC yn uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Symudodd tua hanner staff BBC Cymru i'w ganolfan ddarlledu newydd yn Sgwâr Canolog Caerdydd cyn i'r coronafeirws amharu ar y broses o symud. Ar ôl cwblhau'r broses, bydd yn cychwyn pennod newydd yn hanes darlledu yng Nghymru.

Yng nghanol mis Mawrth, dechreuodd BBC Cymru ddelio ag effeithiau pandemig y coronafeirws. Canolbwyntiodd yr ymateb golygyddol cychwynnol ar ddarparu gwybodaeth gyhoeddus hanfodol am Gymru, yn ogystal ag adloniant ar Radio Wales a Radio Cymru yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud.

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru, darllenwch yr adroddiad ar dudalen 140.

**66%** 2018/19  
**70%**

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 12%).

**74%** 2018/19  
**66%**

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (11% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 11%).

**56%** 2018/19  
**48%**

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (29% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 23%).

**78%** 2018/19  
**81%**

**Cyrhaeddiad Teledu'r BBC**  
% yr oedolion yng Nghymru mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

**08:28** 2018/19  
**08:53**

**Amser Teledu'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yng Nghymru (oo:mm).

**69%** 2018/19  
**69%**

**Cyrhaeddiad Radio'r BBC**  
% yr oedolion yng Nghymru sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos.

**10:55** 2018/19  
**11:49**

**Amser Radio'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwrandao ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yng Nghymru (oo:mm).

**38%** 2018/19  
**39%**

**Gwasanaethau newyddion penodig Cymru ar y teledu**  
% yr oedolion yng Nghymru mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

**60%**

**Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC**  
% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u haildatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.

Drama glodwiw *Elizabeth is Missing*

## Y BBC yn yr Alban

**Yn ei blwyddyn gyntaf, cyrhaeddodd sianel BBC Scotland fwy o wylwyr yn yr Alban nag unrhyw sianel ddigidol arall, gydag un o bob chwech o'r boblogaeth yn ei gwyllo bob wythnos. Mae ceisiadau iPlayer i wyllo cynnwys wedi'i gomisiynu gan BBC Scotland a chynnwys wedi'i gydgomisiynu wedi mwy na dyblu ers ei lansio.**

Bydd sianel BBC Scotland yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn gwneud mwy i gynulleidfaoedd yn yr Alban ac yn helpu i wella canfyddiadau cyffredinol o'r BBC yn y wlad. Hyd yma, mae'r sianel wedi helpu i sicrhau nad yw'r nifer sy'n gwyllo Teledu'r BBC yn lleihau'n sylweddol: gwelwyd gostyngiad yn yr amser y mae Albanwyr yn gwyllo Teledu'r BBC yn 2019/20 (ynghyd â'r amser roeddent yn gwyllo teledu a ddarlledir yn gyffredinol) ond roedd y gostyngiad yn llai na'r flwyddyn ddiwethaf.

Mae ei chymysgedd cyfoethog o gynnwys newyddion, ffeithiol, adloniant, comedi, drama a chwaraeon wedi arwain at raglenni mor amrywiol â *Murder Trial*, *Inside Central Station*, *Jamie Genevieve #Unfiltered* a'r ddrama gomedi gyffrous, *Guilt*, a gomisiynwyd ar y cyd â BBC Two ac a alwyd gan The Herald yn "an appointment to view".

Roedd pêl-droed byw ar nos Wener yn boblogaidd iawn ymysg cynulleidfaoedd, a ategwyd gan y cipolwg amgen llawn dychan ar bêl-droed yn yr Alban a geir yn *A View from the Terrace*.

Hefyd ar y sianel cafwyd y darllediad llinellol cyntaf o ail gyfres y ddrama i fyfyrwyr *Clique*.

Ymysg yr uchafbwyntiau drama eraill yn ystod y flwyddyn roedd y ddrama gyffro gyfreithiol pedair rhan, *The Victim*, a gwelwyd Glenda Jackson yn dychwelyd i'r sgrin fach am y tro cyntaf ers 25 mlynedd yn y ddrama deimladwy a chymhellol *Elizabeth is Missing*.

Teithiodd y gyfres ddogfen nodedig ar gyfer BBC One, *Sacred Wonders*, ledled y byd i roi cipolwg ar safleoedd mwyaf cysegredig y byd; dychwelodd y gyfres boblogaidd *Trust Me, I'm a Doctor*; a bu cyfres newydd o *This Farming Life* yn dilyn bywydau gwaith cymunedol ffermio'r Alban.

Roedd yn flwyddyn brysur i'n timau newyddion, gyda chryn sylw i Etholiad Cyffredinol annisgwyl y DU ym mis Rhagfyr, Brexit ac argyfwng y coronafeirws. Dychwelodd *Debate Night* a oedd i'w groesawu ar sianel BBC Scotland a pharhaodd y sgysiaau ar bynciau llosg yr wythnos ar *Debate Night Extra* ar Radio Scotland.

Newidiwyd amserlenni Radio Scotland wrth i'r orsaf geisio adfywio ei harlwy newyddion. Datblygodd Radio nan Gàidheal raglenni i ddysgwyr a rhoddodd sylw i ddigwyddiadau cymunedol a cherddorol. A rhoddwyd cryn sylw i chwaraeon – yn enwedig pêl droed menywod – ar BBC ALBA.

Parhaodd *The Social* i gysylltu â chynulleidfaoedd iau a symudwyd ei gwaith ar artistiaid bachu i'r teledu, gyda phenodau arbennig o *Disclosure* a *Panorama*.

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban, darllenwch yr adroddiad ar dudalen 144.

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u haildatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.

**64%** 2018/19  
70%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 12%).

**61%** 2018/19  
69%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (16% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 13%).

**51%** 2018/19  
54%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (22% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 24%).

**79%** 2018/19  
81%

**Cyrhaeddiad Teledu'r BBC**  
% yr oedolion yn yr Alban mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

**08:16** 2018/19  
08:45

**Amser Teledu'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yn yr Alban (oo:mm)

**53%** 2018/19  
54%

**Cyrhaeddiad Radio'r BBC**  
% yr oedolion yn yr Alban sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos.

**06:53** 2018/19  
07:14

**Amser Radio'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwrandao ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yn yr Alban (oo:mm).

**44%** 2018/19  
45%

**Gwasanaethau newyddion penodedig yr Alban ar y teledu**  
% yr oedolion yn yr Alban mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

**58%**

**Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC**  
% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

**73%** Aneffethiol  
12%

% y defnyddwyr wythnosol sy'n oedolion sy'n nodi bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth gyffredinol yn yr Alban.

**75%** Aneffethiol  
16%

% y defnyddwyr wythnosol sy'n oedolion sy'n nodi bod sianel BBC Scotland yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol yn yr Alban.



#### 4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*

Mountain Vets ar BBC Two

### Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

#### Gwnaethom adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cymunedol a diwylliannol ar draws gwasanaethau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Gwnaethom adrodd ar faterion yn gysylltiedig â Brexit, etholiadau a gweld llywodraeth ddatganoledig yn dychwelyd yn Stormont. A gwnaethom archwilio digwyddiadau a gwaddol Y Trafferthion gyda rhaglenni a chyfresi nodedig, gan wneud defnydd effeithiol o BBC iPlayer i sicrhau bod y cynnwys hwn ar gael yn rhwydd.

Gwnaethom hefyd ailwampio'r amserlen ar BBC Radio Ulster/Foyle a gwneud nifer o newidiadau i fformatau, cyflwyniad a hyd rhaglenni, gan geisio cynnal ei natur nodedig a'i hapêl boblogaidd eang. Gwelwyd cyrhaeddiad Radio Ulster/Foyle yn sefydlogi yn dilyn gostyngiad y flwyddyn flaenorol.

Dathlodd BBC Radio Foyle ei phen-blwydd yn 40 oed gyda chyfres o ddarllediadau allanol a chyngerdd arbennig o gerddoriaeth a darlenniadau o'r Guildhall.

Gwnaethom ddangos holl gyffro a natur ysbennydd The Open yn Royal Portrush a chyflwyno allbwn rhwydwaith uchel ei fri gyda chyfres arall o *Line of Duty* a phroffil o Seamus Heaney ar *Arena*. Gwnaethom gyflwyno gwaith Cerddorfa Wlster i wrandawyr gartref a ledled y DU a chyfunodd ein hallbwn teledu lleol gomedi â thrafodaethau stiwdio pynciol, perfformiadau cerddorol, yn cynnwys *School Choir of the Year*, a rhaglenni dogfen. Gwnaethom ddangos bywyd a gwaith mewn cymunedau gwledig yn *Home Ground* a *Mountain Vets*, a rhannu prydfwerthwch Ardal Llynnoedd Fermanagh yn *The Chronicles of Erne*.

Gwnaethom adnewyddu ein partneriaeth lwyddiannus â Libraries NI a datblygu menter uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc ar y cyd â BBC Three a Northern Ireland Screen. Gwnaethom gefnogi amrywiaeth ieithyddol y rhanbarth drwy ddarledu rhaglenni mewn Gwyddeleg a Sgoteg Wlster a chomisiynu amrywiaeth eang o gynnwys o'r sector annibynnol, gan bwysleisio ein rôl yn helpu i gynnal y diwydiannau creadigol a'r economi ehangach yng Ngogledd Iwerddon.

Chwaraeodd ein gwasanaethau lleol ran hanfodol hefyd yn hysbysu cynulleidfaoedd am bandemig y coronafeirws. A chynigiodd rhaglenni fel *The Nolan Show* a *Talkback* fforwm hanfodol ar gyfer problemau a phryderon pobl. Cafodd hyn oll ei ategu gan gerddoriaeth, adloniant ac allbwn addysgol a chynnwys newydd am effeithiau'r coronafeirws ar fywyd pob dydd.

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon, darllenwch yr adroddiad ar dudalen 149.

**62%** 2018/19  
**65%**

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (15% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 14%).

**60%** 2018/19  
**60%**

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (17% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 16%).

**52%** 2018/19  
**50%**

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (23% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 25%).

**79%** 2018/19  
**81%**

**Cyrhaeddiad Teledu'r BBC**  
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

**06:45** 2018/19  
**06:53**

**Amser Teledu'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

**58%** 2018/19  
**60%**

**Cyrhaeddiad Radio'r BBC**  
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n gwrando ar Radio'r BBC bob wythnos.

**06:53** 2018/19  
**07:26**

**Amser Radio'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwrando ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yng Ngogledd Iwerddon (oo:mm).

**48%** 2018/19  
**50%**

**Gwasanaethau newyddion penodedig Gogledd Iwerddon ar y teledu**  
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

**45%**

**Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC**  
% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u haildatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.





Tim New Voices Radio Lleol y BBC

## Y BBC yn Lloegr

**Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddatblygu cynlluniau cyffrous i drawsnewid gwasanaethau'r BBC yn Lloegr a gwneud mwy i ailffocysu adnoddau ym mhob rhan o'r wlad, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ganolbarth a Gogledd Lloegr. Cymeradwywyd y cynlluniau gan y Bwrdd a chawsant eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020. Bwrriedir iddynt fod yn gam sylweddol tuag at fynd i'r afael â'r heriau a'r gwahaniaethau yn y canfyddiadau a'r defnydd o'r BBC ledled rhanbarthau Lloegr a ddangosir gan y data ar y tudalennau hyn.**

Ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar draws ein gwasanaeth. Ym mis Medi, lansiodd Radio Lleol y BBC 'New Voices' – y fenter fwyaf i ddod o hyd i dalent ers ei sefydlu 50 mlynedd ynghynt. Cynhaliodd y 39 o orsafoedd radio lleol glyweliadau agored yn eu hardaloedd. Gallai unrhyw un dros 18 oed fynd am glyweliad, ac nid oedd angen unrhyw brofiad darlledu. Daeth pob gorsaf o hyd i un llais newydd o leiaf i'w ddatblygu ond daeth y rhan fwyaf ohonynt o hyd i lawer mwy. Cafodd mwy na 421 o leisiau newydd eu darganfod i gyd ac maent wedi cael eu defnyddio ar orsafoedd fel cyflwynwyr, gohebwy'r neu gyfranwyr. Llwyddwyd i ddod o hyd i leisiau o gymunedau amrywiol na chânt eu gwasanaethu na'u cynrychioli'n ddigonol, a llwyddwyd yn benodol i ymgysylltu â grwpiau oedran iau, gyda 43% o'r rhai a gymerodd ran yn bobl ifanc 18-25 oed yn Nottingham er enghraifft.

Cyflwynwyd Upload ar draws Radio Lleol y BBC ar ddechrau 2020. Nod y llwyfan yw lansio gyrfaoedd awduron, comedïwyr a chreuwyr yn yr un modd ag y mae BBC Introducing Music wedi'i wneud i artistiaid fel Lewis Capaldi. Mae Upload, a lansiwyd yn BBC Bristol i ddechrau, yn galluogi pawb i rannu cynnwys – i hwb lle caiff ei dderbyn gan dimau o'r orsaf radio leol. Caiff cynnwys ei ddewis i gyfrannu at raglen wythnosol a gaiff ei darlledu ar radio lleol. Mae wedi denu lleisiau newydd o grwpiau iau a chymunedau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol.

Penododd BBC England Bennaeth Comisiynu Teledu yn 2019 gyda briff i ddatblygu a chyflwyno arlwy ehangach i'r gynulleidfa yn Lloegr ac adlewyrchu eu bywydau mewn ffyrdd newydd a chadarnhaol. Mewn partneriaeth â BBC Three, mae adran Comisiynu Teledu BBC England bellach yn cydariannu'r gyfres lwyddiannus *Angels of the North* o Gateshead a'r gyfres *Models: Street to Catwalk* o Fanceinion a lansiodd y fenter dalent Northern Voices gyda'r nod o hyrwyddo talent ddogfen ifanc yng Ngogledd Lloegr. Hefyd, gweithiodd adran Comisiynu Teledu BBC England mewn partneriaeth â sianelau eraill, yn cynnwys BBC Two a BBC Four, gan gyflwyno'r cyfresi cerdded ymdrwythol *Yorkshire Walks* ac *A Very British History*, sy'n adlewyrchu bywydau cymunedau lleiafrifol ledled Lloegr. Rydym yn parhau i feithrin partneriaethau ac yn gweithio gyda rhannau eraill o'r BBC er mwyn creu rhaglenni cyffrous newydd i'r gynulleidfa yn Lloegr.

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr, darllenwch yr adroddiad ar dudalen 153.

**71%** 2018/19  
**72%**

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU/nhw (12% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 12%).

**69%** 2018/19  
**71%**

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (13% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 12%).

**57%** 2018/19  
**57%**

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (21% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 21%).

**78%** 2018/19  
**79%**

**Cyrhaeddiad Teledu'r BBC**  
% yr oedolion yn Lloegr mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos.

**07:35** 2018/19  
**07:38**

**Amser Teledu'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos yn Lloegr (oo:mm).

**62%** 2018/19  
**63%**

**Cyrhaeddiad Radio'r BBC**  
% yr oedolion yn Lloegr sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos.

**09:15** 2018/19  
**09:44**

**Amser Radio'r BBC y pen**  
Amser a dreulir yn gwrandao ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos yn Lloegr (oo:mm).

**38%** 2018/19  
**39%**

**Gwasanaethau newyddion penodol Rhanbarthau Lloegr ar y teledu**  
% yr oedolion yn Lloegr mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos.

**53%**

**Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC**  
% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos.

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser y pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodol Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u haildatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.



## 4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*

Mae'r tablau ar y dudalen hon yn nodi canfyddiadau pobl mewn ardaloedd gwahanol o Loegr o ran eu barn ar ba mor effeithiol mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth, yn adlewyrchu pobl fel nhw ac yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd. Mae hefyd yn dangos sut maent yn defnyddio'r BBC ar draws teledu, radio ac ar-lein.

### % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>69%</b>	<b>74%</b>	<b>73%</b>	<b>67%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>15%</b>	<b>10%</b>	<b>12%</b>	<b>13%</b>
2018/19: Effeithiol/Aneffeithiol	72%/14%	69%/12%	76%/11%	72%/11%

### % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>52%</b>	<b>58%</b>	<b>59%</b>	<b>59%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>24%</b>	<b>17%</b>	<b>22%</b>	<b>21%</b>
2018/19: Effeithiol/Aneffeithiol	56%/23%	58%/20%	57%/19%	54%/20%

### % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>65%</b>	<b>71%</b>	<b>70%</b>	<b>69%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>15%</b>	<b>13%</b>	<b>12%</b>	<b>10%</b>
2018/19: Effeithiol/Aneffeithiol	69%/13%	71%/12%	74%/12%	69%/12%

### Cyrhaeddiad Teledu'r BBC: % yr oedolion mewn cartrefi â theledu mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>78%</b>	<b>78%</b>	<b>81%</b>	<b>74%</b>
2018/19	80%	80%	81%	75%

### Cyrhaeddiad Radio'r BBC: % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n gwrandao ar Radio'r BBC bob wythnos

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>59%</b>	<b>67%</b>	<b>73%</b>	<b>50%</b>
2018/19	61%	68%	73%	51%

### Gwasanaethau newyddion penodedig Rhanbarthau Lloegr: % yr oedolion yn Lloegr mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo'r cynnwys hwn ar Deledu'r BBC bob wythnos

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>40%</b>	<b>37%</b>	<b>43%</b>	<b>32%</b>
2018/19	42%	39%	43%	32%

### Teledu'r BBC: Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>07:44</b>	<b>07:23</b>	<b>08:47</b>	<b>06:24</b>
2018/19	07:56	07:36	08:25	06:32

### Radio'r BBC: Amser a dreulir yn gwrandao ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>08:34</b>	<b>10:12</b>	<b>11:42</b>	<b>06:48</b>
2018/19	09:03	10:50	12:11	07:08

### Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC: % yr oedolion mewn gwahanol rannau o Loegr sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos 2019/20

	Gogledd Lloegr 16+	Canolbarth Lloegr 16+	De Lloegr 16+	Llundain 16+
<b>2019/20</b>	<b>51%</b>	<b>50%</b>	<b>54%</b>	<b>58%</b>

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae pob ffigur cyrhaeddiad ac amser fesul pen yn seiliedig ar oedolion 16+. Cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yn seiliedig ar 15+ munud. Cyrhaeddiad gwasanaethau newyddion penodedig Teledu'r BBC yn seiliedig ar 3+ munud. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u haildatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.



## Cynrychioli a phortreadu

Mae'r BBC yn ymrwymedig o hyd i sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn modd dilys a bod eu straeon yn cael eu hadrodd drwy ein holl gynnwys, ar yr awyr, ar-lein ac ar y sgrin. Mae hyn yn ein helpu i ymateb i wahaniaethau o ran defnydd a chanfyddiadau o'r BBC ymysg grwpiau cynulleidfa gwahanol ac mewn rhannau gwahanol o'r DU.

### Cynrychiolaeth ar y sgrin/ar yr awyr

Mae ein Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn nodi ein fframwaith ar gyfer mwy o gynrychiolaeth ar yr awyr, ar y sgrin ac ar-lein – rydym yn mesur cynnydd yn ei erbyn mewn adroddiad blynyddol. Mae'r egwyddorion hyn yn rhan o'r ffordd rydym yn gweithredu: ar draws pob llwyfan, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, rydym yn mynd ati i chwilio am leisiau newydd, amrywiol i gyfoethogi ein dull o adrodd straeon, meithrin talent newydd i wneud gwahaniaeth, a gweithio gyda thalent sefydledig i ddangos eu gwaith gorau.

Y flwyddyn hon rydym wedi cydweithredu â Michaela Coel ar ei chyfres arloesol *I May Destroy You*, yn seiliedig ar ei phrofiad uniongyrchol o drais rhywiol, yn ogystal ag archwilio cydsyniad, hunaniaeth o ran rhywedd, a gan ddefnyddio cast du yn bennaf. Rydym wedi datblygu *Small Axe* gyda Steve McQueen, y cyfarwyddwr sydd wedi ennill Oscar – 5 ffilm rymus yn canolbwyntio ar gymuned India'r Gorllewin yn Llundain dros 20 mlynedd – a roddodd y cyfle i 14 o hyfforddeion o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig weithio ar y cynhyrchiad. Rydym wedi addasu nofel glodwiw Malorie Blackman *Noughts + Crosses*, gyda'r wyneb newydd Masali Baduza yn chwarae un o'r prif rannau, ac mae straeon go iawn fel *Sitting in Limbo* ac *Anthony* yn rhan greiddiol o'n hamserlen ar BBC One. Enillodd Glenda Jackson BAFTA am ei pherfformiad yn portreadu problemau heneiddio a dementia yn *Elizabeth is Missing*, ac rydym wedi datblygu straeon amrywiol ynghylch hiliaeth, straeon serch hoyw, byddardod, anabledd ac iechyd meddwl yn y dramâu parhaus *EastEnders*, *Casualty* a *Holby City*.

Mae adlewyrchu a chynrychioli ein cynulleidfaoedd yn ganolog i'r hyn a wnawn. Mae ein cynllun i Gomisynwyr Cynorthwyol yn helpu i sicrhau ffyrdd o feddwl, syniadau a chreadigrwydd mwy amrywiol sy'n llywio'r perfformiadau golygyddol a wnawn er mwyn cyflwyno



Y ddrama *Years and Years* ar BBC One



cynnwys mwy amrywiol ar y sgrin ac ar-lein. Y flwyddyn hon, gwnaethom adrodd straeon o bob cwr o'r DU sy'n taro deuddeg ag amrywiaeth o gymunedau; enillodd Mobeen Asahar wobwr RTS am y Cyflwynydd Gorau am ei gyfres ddogfen bwerus *HomeTown: A Killing* a oedd wedi'i lleoli yn Huddersfield, a oedd ymysg yr 20 rhaglen ffeithiol uchaf ymysg cynulleidfaoedd ifanc ar iPlayer; adroddodd David Olusoga hanes cenhedlaeth Windrush a'r driniaeth a gawsant gan lywodraeth Prydain yn *The Unwanted: The Secret Windrush Files*; ac edrychodd Sue Brown, y bardd a aned yn Birmingham, ar brofiad y gymuned Garbidaidd yn *The First Black Brummies* ar BBC Four. Mae The Asian Network wedi cynnal nosweithiau comedi yn Birmingham a Chaeredin i feithrin cydberthnasau ac i ddod o hyd i dalent newydd, ac mae Radio 4 wedi comisiynu *Doorstep Daughter*, golwg hynod ar brofiad trawsddiwylliannol o fagu plant. Mae BBC Sounds wedi comisiynu podlediadau sy'n cynrychioli grwpiau cynulleidfa amrywiol mewn ffordd ddilys, dealladwy a difyr, yn cynnwys *The Reality Tea*, *Comic Sanskrit* a *Brown Girls Do It Too*. System hunanfonitro

wirfoddol gan y BBC yw Prosiect 50:50 i gynyddu cynrychiolaeth menywod. Yn ystod yr ail Her 50:50 ym mis Mawrth 2020, cyrhaeddodd dwy ran o dair o'r setiau data 50% o gyfranogwyr benywaidd.

### Adlewyrchu pobl mewn ffordd ddilys

Fel darlledwr, rydym yn ceisio arwain drwy esiampl. Mae ail egwyddor ein Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd portread a dilysrwydd er mwyn adlewyrchu ein cynulleidfaoedd yn gywir. I'r perwyl hwn, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn nifer o brosiectau sy'n cefnogi cyfleoedd ar gyfer crewyr amrywiol a all adrodd straeon sy'n portreadu gwir ddyfnder ac amrywiaeth yr holl gynulleidfaoedd a wasanaethir gennym mewn ffordd ddilys. Mae cynlluniau meithrin talent fel *BBC Writersroom* wedi arwain at Ddramâu a Chomedïau newydd yn cynnwys: *The Left Behind*, sy'n canolbwyntio ar brofiad y dobarth gweithiol gwyn yng Nghymru, a *My Left Nut* o Belfast. Comisiynwyd Sophie Willan, enillydd bwrsari Caroline Aherne, i ysgrifennu cyfres *Alma's not Normal* a leolwyd yn Bolton, ei





## 4. Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol *parhad*

thref enedigol. Ac rydym wedi parhau i adlewyrchu anabledd mewn ffordd ddilys ar draws ein hallbwn, yn cynnwys castio Ruth Madeley, a aned gyda spina bifida, i chwarae Rosie, chwaer ieuengaf y teulu Lyons yn *Years and Years*.

Rydym yn cefnogi cynhyrchwyr a'r sector ehangach drwy ein Cronfa Amrywiaeth gwerth £2 filiwn, a'n partneriaeth Amrywiaeth â PACT. Mae ein hymrwymiad diweddar i fuddsoddi £100 miliwn tuag at gynrychiolaeth, talent a chwmnïau amrywiol yn adeiladu ar y sylfaen hon ac mae'n newid byd i'r diwydiant, gan ysgogi ein gwneuthurwyr rhaglenni i fod yn gynyddol amrywiol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Mae ein targed amrywiaeth newydd o 20% o gynrychiolaeth oddi ar y sgrin ar gyfer comisiynau newydd – gan ganolbwyntio ar symudedd cymdeithasol, anabledd ac ethnigrwydd – yn ategu'r ymrwymiadau ariannol ac yn sicrhau bod timau cynhyrchu yn adlewyrchu'r cynulleidfaoedd a wasanaethir gennym yn well.

Mae ein cangen fasnachol, BBC Studios, yn ymrwymedig i sicrhau gwell cynhwysiant ar draws ei holl gynnwys. Mae manteisio ar amrywiaeth ei dîm o ran ffyrdd o feddwl a syniadau wedi bod yn un o brif elfennau ei lwyddiant. Gwnaed ymdrechion ychwanegol ar draws ein holl genres er mwyn sicrhau bod ein hallbwn yn ddilys ac yn manteisio ar y talentau amrywiol a geir yn y sefydliad. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno rhaglenni fel *Brain in Gear*, *Famalam* a *Muzlamic* ar y teledu.

### Cynrychiolaeth leol

Rydym yn parhau i adlewyrchu pob agwedd newidiol ar fywyd cymunedol a rhoi llais i straeon wrth iddynt ddatblygu. Mae ein gorsafodd radio lleol yn cysylltu cynulleidfaoedd â digwyddiadau cymunedol lleol ac yn ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol ac mewn llyfdd gwahanol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n arloesol, yn berthnasol ac yn nodedig.

Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom lansio sianel BBC Scotland sydd wedi tyfu drwy gydol 2019/20 ac sydd bellach yn cyrraedd mwy o wylwyr ar gyfartaledd bob wythnos nag unrhyw sianel deledu arall yn yr Alban heblaw am BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5. Rydym wedi adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan barhau i adlewyrchu'r Alban fodern drwy raglennu nodedig, arloesol, o ansawdd uchel.

### Portreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar y rhwydwaith

Mae mwy na hanner gwariant y BBC a hanner ein timau y tu allan i Lundain. Rydym

### Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin: 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin	Gwirioneddol ar y sgrin
Benywaidd	54.7%	55.7%
Pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig	9.8%	26.8%
Anabl	5.8%	8.4%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	12.1%	11.5%
Trawsrywiol	0.2%	0.4%
Nifer y cyfraniadau*	220,358	78,576

\* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

### Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin: 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020

Mewnbyn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin
Benywaidd	46.2%
Pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig	23.0%
Anabl	5.2%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	6.1%
Trawsrywiol	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	480,696
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	89.3%

\* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni.

wedi mwy na dyblu cyfran y rhaglenni teledu rhwydwaith a gaiff eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn degawd. Rydym wedi adrodd straeon sy'n taro deuddeg yn lleol, ond sy'n dangos y gwledydd yn fyd-eang. Dathlodd cynulleidfa deledu fwyaf 2019 Nadolig teuluol clòs gyda *Gavin and Stacey* yn y Barri, De Cymru, ac roedd gwylwyr ar flaenau eu seddi gyda'r ddrama gyffro am eni plentyn ar ran rhywun arall *The Nest*, a oedd wedi'i lleoli yn Glasgow, a buont yn chwethin yn braf gyda chomedi dywyll BBC Two *Guilt*.

Gwnaethom adrodd straeon newydd arloesol o Ogledd Lloegr, fel *Years and Years* a oedd wedi'i lleoli ym Manceinion a *Gentleman Jack* a oedd wedi'i lleoli yn Halifax, yn ogystal ag adfywio'r lleisiau ar y gyfres hirsefydledig *Top Gear*. Rhaglen wedi'i lleoli mewn siop harddwch yn Gateshead yw *Angels of the North* ac mae'n rhoi cipolwg i wylwyr ar entrepreneuriaeth leol ac yn archwilio problemau iechyd meddwl mewn ffordd onest. Ac mae ein cyfres lwyddiannus o Ogledd Iwerddon *Spotlight on the Troubles* wedi ennill gwobrau yn y DU a thramor.

Ar y radio, mae Salford yn gartref balch i bodlediadau poblogaidd yn cynnwys *That Peter Crouch Podcast*, *End of Days* a *You Me and the Big C*.

### Cefnogi'r sector

Ochr yn ochr â'n llwyddiannau cynhyrchu, mae'r BBC yn parhau i gyfrannu at dwf economaidd ein gwledydd a'n rhanbarthau, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu talent, sgiliau a chwmnïau yn y pedair gwlad.

Y flwyddyn hon gwnaethom lansio ein Cronfa ar gyfer Cwmnïau Annibynnol Bach, gyda dwy ran o dair o'r cwmnïau a gefnogwyd yn dod o'r gwledydd a'r rhanbarthau, ac roedd gan eu chwarter arweinwyr o gefndiroedd amrywiol.

Fel rhan o'n hymateb i bandemig y coronafeirws, gwnaethom ddyblu maint y buddsoddiad a gaiff ei neilltuo. O ganlyniad, rydym bellach yn cynnig cymorth strategol i bron i gant o gwmnïau. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau sgrin lleol a chyfrff hyfforddi i helpu i ddatblygu busnesau, amrywiaeth a chynnwys i gynulleidfaoedd ifanc. Er enghraifft, cydweithiodd BBC Three a Northern Ireland Screen ar gynllun i ysgogi syniadau ar gyfer y sianel, sy'n sicrhau comisiwn ar ddiwedd y broses. Mae hyn wedi arwain at ddau beilot eisoes – un yn edrych ar rasio tractors cystadleuol ymhlith ffermwyr ifanc gan Alleycats sydd wedi'i lleoli yn Londonderry a rhaglen goginio sy'n pontio'r cenedlaethau gan Rare TV. Rydym yn dilyn y trywydd hwn yng Nghymru, yr Alban a gogledd Lloegr.

Mae'r data a roddir gennym ar y tudalennau hyn yn rhoi mwy o fanylion am y ffordd rydym yn mesur ac yn monitro ein cynnydd o ran cynrychioli a phortreadu. Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r rôl hanfodol sydd gennym yn cyfrannu at adlewyrchu a chynrychioli gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol.

Mae'r tablau ar y dudalen hon yn nodi canfyddiadau grwpiau cynulleidfa o ran eu barn ar ba mor effeithiol mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth, yn adlewyrchu pobl fel nhw ac yn gosod safon uchel ar gyfer ansawdd. Mae hefyd yn dangos sut mae'r grwpiau cynulleidfa hyn yn defnyddio'r BBC ar draws teledu, radio ac ar-lein.

#### % pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>69%</b>	<b>71%</b>	<b>79%</b>	<b>60%</b>	<b>68%</b>	<b>69%</b>	<b>73%</b>	<b>72%</b>	<b>57%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>14%</b>	<b>11%</b>	<b>10%</b>	<b>16%</b>	<b>12%</b>	<b>14%</b>	<b>12%</b>	<b>12%</b>	<b>15%</b>
2018/19: Effeithiol	70%	73%	79%	63%	69%	70%	74%	72%	69%
2018/19: Aneffeithiol	14%	11%	9%	16%	11%	13%	12%	12%	13%

#### % pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>54%</b>	<b>58%</b>	<b>61%</b>	<b>50%</b>	<b>53%</b>	<b>53%</b>	<b>61%</b>	<b>58%</b>	<b>43%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>23%</b>	<b>20%</b>	<b>19%</b>	<b>24%</b>	<b>23%</b>	<b>22%</b>	<b>20%</b>	<b>21%</b>	<b>26%</b>
2018/19: Effeithiol	55%	56%	62%	48%	51%	57%	59%	57%	48%
2018/19: Aneffeithiol	23%	19%	19%	24%	20%	22%	21%	21%	26%

#### % pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>Effeithiol</b>	<b>68%</b>	<b>69%</b>	<b>75%</b>	<b>60%</b>	<b>66%</b>	<b>67%</b>	<b>71%</b>	<b>70%</b>	<b>54%</b>
<b>Aneffeithiol</b>	<b>15%</b>	<b>11%</b>	<b>11%</b>	<b>16%</b>	<b>11%</b>	<b>16%</b>	<b>12%</b>	<b>13%</b>	<b>15%</b>
2018/19: Effeithiol	70%	71%	77%	61%	69%	68%	74%	71%	66%
2018/19: Aneffeithiol	13%	11%	9%	16%	11%	13%	12%	12%	10%

#### Cyrhaeddiad Teledu'r BBC: % pob grŵp cynulleidfa mewn cartrefi â theledu sy'n gwyllo Teledu'r BBC bob wythnos

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>2019/20</b>	<b>72%</b>	<b>75%</b>	<b>75%</b>	<b>72%</b>	<b>55%</b>	<b>79%</b>	<b>92%</b>	<b>77%</b>	<b>60%</b>
2018/19	73%	77%	77%	74%	58%	81%	93%	78%	63%

#### Cyrhaeddiad Radio'r BBC: % pob grŵp cynulleidfa sy'n gwranddo ar Radio'r BBC bob wythnos

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>2019/20</b>	<b>64%</b>	<b>59%</b>	<b>69%</b>	<b>52%</b>	<b>49%</b>	<b>60%</b>	<b>72%</b>	<b>64%</b>	<b>43%</b>
2018/19	66%	59%	70%	53%	51%	62%	72%	66%	45%

#### Cyrhaeddiad gwasanaethau Ar-lein y BBC: % pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio gwasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>2019/20</b>	<b>60%</b>	<b>47%</b>	<b>63%</b>	<b>42%</b>	<b>55%</b>	<b>62%</b>	<b>45%</b>	<b>54%</b>	<b>53%</b>

#### Teledu'r BBC: Amser a dreulir yn gwyllo Teledu'r BBC mewn cartrefi â theledu y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>2019/20</b>	<b>06:28</b>	<b>07:07</b>	<b>06:44</b>	<b>06:52</b>	<b>02:28</b>	<b>05:48</b>	<b>12:55</b>	<b>07:28</b>	<b>03:30</b>
2018/19	06:32	07:19	06:54	06:58	02:39	05:55	13:07	07:34	03:44

#### Radio'r BBC: Amser a dreulir yn gwranddo ar Radio'r BBC y pen, bob wythnos (oo:mm)

	Gwryw 16+	Benyw 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	BAME 16+
<b>2019/20</b>	<b>09:28</b>	<b>08:41</b>	<b>10:01</b>	<b>07:55</b>	<b>03:57</b>	<b>08:05</b>	<b>13:55</b>	<b>09:54</b>	<b>03:46</b>
2018/19	10:04	09:04	10:29	08:27	04:20	08:40	14:31	10:38	04:26

Ffynonellau: Ipsos MORI, BARB (28 diwrnod), RAJAR. Mae cyrhaeddiad Teledu'r BBC a Radio'r BBC yma ac ar dudalen 137 yn seiliedig ar 15+ munud. Dim ond amser a dreulir yn gwyllo'r teledu o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol y mae'r data BARB hyn yn ei fesur, sy'n golygu na chaiff yr amser a dreulir yn gwyllo ar alw ar ddyfeisiau eraill na chyn y darllediad neu fwy na 28 diwrnod ar ôl y darllediad ei gynnwys yn y ffigurau. Mae ffigurau BARB ar gyfer 2018/19 wedi'u hailddatgan i gynnwys ffigurau gwyllo o fewn 28 diwrnod i'r darllediad llinellol.

## 5. Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Mae'r dudalen ganlynol yn dangos y ffordd y mae'r BBC yn gweithio i hysbysu, addysgu a diddanu pobl ledled y byd. Y flwyddyn hon, cyrhaeddodd y BBC 468 miliwn o ddefnyddwyr ledled y byd bob wythnos, sef y nifer uchaf erioed – cynnydd o 11% ers y flwyddyn ddiwethaf. Mae gennym swyddfeydd mewn 58 o wledydd a 74 o ddinasoedd. Ymysg y rhain mae Newsgathering, BBC World Service, BBC Monitoring, BBC Global News a Media Action.

**468m**

cynnydd o 11%

**Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang**  
yn cynnwys BBC News a BBC Studios.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

**116m**

cynnydd o 96.2%

**Cyfanswm cyrhaeddiad digidol BBC World Service**  
Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

**351m**

cynnydd o 11.2%

**Cyrhaeddiad wythnosol BBC World Service**  
yn cynnwys teledu, radio, ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

**438m**

cynnydd o 12.5%

**BBC News**  
Cyfanswm y gynulleidfya wythnosol ryngwladol.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

**137m**

gostyngiad o 0.4%

**Cyrhaeddiad wythnosol teledu BBC World Service**  
Ieithoedd heblaw am Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

**160m**

gostyngiad o 1.5%

**Cyrhaeddiad wythnosol radio BBC World Service**  
Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfya Fyd-eang y BBC.

### Africa Eye

Mae buddsoddiad yn y World Service wedi galluogi'r BBC i greu llinyn ddogfen ymchwiliol lwyddiannus, sef Africa Eye, a aeth o nerth i nerth y flwyddyn hon, gan gyrraedd 7.8 miliwn o bobl bob wythnos. Mae'r math hwn o newyddiaduraeth yn un nad yw darparwyr newyddion lleol yn barod i'w gyflawni weithiau, neu na allant wneud hynny.

Cafodd *Sex for Grades*, ymchwiliad cudd a amlygodd achosion o aflonyddu rhywiol mewn prifysgolion yng Ngorllewin Affrica, effaith anferth yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Arweiniodd y ffilm at gryn sylw yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol ar ôl iddi gael ei darlledu.

Cafodd pedwar darlithydd a nodwyd yn y rhaglen ddogfen eu gwahardd dros dro a chafodd mwy o bobl eu gwahardd dros dro ym Malawi, Zambia a Kenya ar ôl i fyfyrwyr roi gwybod am athrawon yn sgil y ffilm.

Yn Nigeria, siaradodd ffigyrau gwleidyddol amlwg – yn cynnwys yr Arlywydd a'r Brif Foneddiges – am y mater. Cyflwynwyd y Gofrestr Troseddwyr Rhyw hirddisgwyliedig a chafodd bil ei ddrafftio a'i gyflwyno gan Senedd Nigeria a fydd yn troseddoli aflonyddu rhywiol mewn prifysgolion, a gefnogwyd gan 120 o seneddwyd.

### Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd

Yn ystod y flwyddyn, cydweithiodd y BBC ag Angelina Jolie a Microsoft Education i greu rhaglen newyddion wythnosol hanner awr o hyd i gynulleidfaoedd iau.

Mae *My World*, a ddarlledwyd ar BBC World News a BBC iPlayer, a ddosberthir mewn sawl iaith ledled y byd, yn defnyddio gohebiaeth fyd-eang BBC World Service i greu rhaglen i bobl ifanc yn eu harddegau, na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol yn aml gan y cynnwys newyddion sydd ar gael iddynt. Ceidw'r BBC reolaeth olygyddol lawn dros y cydgyhyrchiad hwn.

Mae BBC World Service hefyd wedi bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd iau, gyda thraean o'r gynulleidfa ar gyfer gwasanaethau BBC World Service nad ydynt yn Saesneg rhwng 15 a 24 oed.

Podlediad newyddion sain 60 eiliad bob awr yw *BBC Minute* a ddarlledir ar fwy na 40 o orsafoedd cerddoriaeth ledled y byd, yn ogystal ag ar lwyfannau digidol fel Spotify, Google, Apple ac Amazon Alexa. Caiff fersiwn Sbaeneg ei darlledu

**66%** 2018/19  
65%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol yn adlewyrchu'r DU i'r byd (12% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 2018/19: 13%).

Ffynhonnell: Ipsos MORI



Gohebu ar brotest newid hinsawdd



Yn y safle

**1af**

am Ymddiriedaeth, Annibyniaeth a Dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2019 (heb y DU)

Cafodd proses a methodoleg GAM eu gwella y flwyddyn hon, fel pob blwyddyn. Ymysg y gwelliannau eraill, am y tro cyntaf y flwyddyn hon, ni chaiff data arolwg eu defnyddio ar gyfer cynnwys sain digidol uniongyrchol – h.y. ar wefan World Service. Yn hytrach, daw'r data hyn bellach drwy broses dadansoddi digidol. Yn gysylltiedig â hyn, ond ar wahân, caiff yr holl ddefnydd sain digidol a theledu digidol ei adrodd yn y categori digidol o'r flwyddyn hon yn hytrach nag o fewn categori ehangach radio/sain a theledu. Mae'r categori radio y flwyddyn hon yn cyfeirio at gynnwys a ddefnyddir drwy SW/MW, FM, radio lloeren, DAB a radio ar deledu yn unig. Er mwyn deall perfformiad yn gywir y flwyddyn hon, mae niferoedd cyrhaeddiad y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu 'haddasu' lle y bo angen ac mae'r cynnydd neu'r gostyngiad wedi'u dangos yn erbyn y ffigurau hyn a addaswyd yn hytrach na'r ffigurau a adroddwyd y flwyddyn ddiwethaf.



ledled De America, gyda bwletin Saesneg arall yn cael ei gynhyrchu yn Delhi. Gall cynulleidfaoedd iau hefyd ymgysylltu â newyddiaduraeth *BBC Minute* drwy adnodd egluro ar ei gyfrif Instagram.

## Y coronafeirws

Mae'r coronafeirws yn argyfwng iechyd byd-eang, ac mae gweithrediadau newyddion byd-eang y BBC wedi chwarae rhan hanfodol yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol i filiynau o bobl ledled y byd, yn enwedig mewn gwledydd lle mae twyllwbyodaeth yn gyffredin.

Bu'r gohebwy'r yn gweithio mewn amodau cynyddol heriol wrth i'r coronafeirws ledaenu ledled y byd.

Rhoddyd cryn sylw i'r sefyllfa a darparwyd gwybodaeth fyw am ddatblygiadau allweddol ar 42 o safleoedd BBC World Service nad ydynt yn Saesneg yn ogystal ag yn Saesneg.

Darlledwyd *Coronavirus Global Update*, podlediad dyddiol newydd yn cynnwys adroddiadau a'r wybodaeth feddygol ddiweddaraf, ar y radio bob diwrnod. Roedd hefyd ar gael ar wefannau World Service, ac fe'i darparwyd am ddim hefyd i orsafoedd radio partner ledled y byd.

Gwelodd BBC Persian ei gyrhaeddiad digidol yn mwy na threblu wrth i'r argyfwng ddatblygu yn Iran. Gwnaethom gyflwyno rhaglen deledu ddyddiol newydd a oedd yn cyflwyno cwestiynau gwylwyr yn uniongyrchol i arbenigwr gwahanol bob diwrnod – gwasanaeth hanfodol mewn gwlad lle na cheir unrhyw ymgyrchoedd gwybodaeth iechyd y cyhoedd mewn gwirionedd.

Cafodd gwefan Saesneg ryngwladol y BBC ei chynulleidfa fwyaf erioed ym mis Mawrth, gydag ychydig o dan 180 miliwn o borwyr unigryw – cynnydd o 84% o un flwyddyn i'r llall. Gwelodd sianel newyddion rhyngwladol fasnachol y BBC, World News, gynydd dramatig mewn ceisiadau gan bartneriaid am gael eu cynnwys yn eu pecynnau tanysgrifio a chynyddodd ei chynulleidfa fyd-eang wythnosol 12.1% i 112 miliwn yn 2020.

Rhannodd BBC Global News, sy'n gweithredu allfeydd newyddion masnachol y BBC, ei rhestr hysbysebu am ddim â sefydliadau rhyngwladol a llywodraethol ledled y byd er mwyn rhannu negeseuon iechyd y cyhoedd â gwylwyr.

Cynhyrchodd *My World* gynnwys digidol ychwanegol am y pandemig. Rhannwyd hyn hefyd â Chlymblaid Addysg Fyd-eang UNESCO, gwefan sy'n cynnig adnoddau dysgu o bell i blant ledled y byd.

Ac nid dim ond mewn marchnadoedd cyfryngau datblygol y gwelwyd awydd am newyddion cywir, annibynnol. Cynyddodd cynulleidfaoedd BBC World News yn yr UD fwy na 50% dros y flwyddyn.

### Cyrhaeddiad BBC World Service bob wythnos ar bob llwyfan fesul gwasanaeth

	2019/20 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %		2019/20 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %
Afaan Oromoo	0.3	143.2%	Rwsieg	5.4	31.8%
Afrique	13.5	10.4%	Serbeg	0.6	326.9%
Amhareg	0.3	67.1%	Sinhala	0.9	-5.5%
Amhareg	0.3	67.1%	Somalieg	6.0	1.2%
Arabeg	42.2	-3.6%	Swahili	22.4	17.0%
Azeri	0.3	75.5%	Tamil	12.8	9.0%
Bengaleg	12.6	4.5%	Telugu	8.8	10.5%
Brasil	6.9	5.0%	Thai	1.7	0.1%
Byrmaneg	6.4	20.2%	Tigrinya	0.2	64.0%
Coreaidd	0.9	3.1%	Tsieina y DU	0.1	37.0%
Dari*	4.4	2.0%	Tsieineeg	2.7	140.2%
Fietnameg	2.7	104.4%	Twrceg	2.9	51.5%
Gahuza**	1.7	28.5%	Wcreineg	4.4	16.0%
Gujarati	3.7	19.9%	World Service Saesneg	96.7	7.6%
Hawsa	20.1	-15.0%	Wrdw	8.6	14.2%
Hindi	24.9	33.6%	Wsbeg	2.6	17.2%
Igbo	1.9	62.3%	Yoruba	4.3	165.9%
Indoneseg	5.2	13.6%			
Kyrgyz	3.1	1.1%			
Learning English***	2.3	1.0%			
Marathi	4.0	104.1%			
Mundo	10.7	40.2%			
Nepali	5.6	6.5%			
Pashto	10.4	2.2%			
Perseg	18.3	-0.1%			
Pidgin	6.0	-2.5%			
Punjabi	0.9	110.6%			

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn ddiweddiariad blynyddol o faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (teledu, radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu llwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswmiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service.

\* Caiff Dari ei hadrodd ar wahân i Berseg yn GAM 2019/20.  
 \*\* Gwasanaeth yn iethoedd Kinyarwanda a Kirundi ar gyfer rhanbarth Llynnoedd Mawr Affrica Is-Sahara.  
 \*\*\* Mae BBC Learning English yn addysgu Saesneg i gynulleidfaoedd byd-eang.

# 45m

cynnydd o 6.8%

**Cyrhaeddiad wythnosol bbc.com a'r cyfryngau cymdeithasol**  
 Deunydd digidol rhyngwladol Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC. Caiff bbc.com ei hariannu'n fasnachol.

# 112m

cynnydd o 12.1%

**Cyrhaeddiad wythnosol sianel deledu BBC World News**  
 Sianel newyddion fyd-eang cyfrwng Saesneg.

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC. Caiff sianel deledu BBC World News ei hariannu'n fasnachol.

# Yn y safle 1af

ar gyfer darparwr newyddion rhyngwladol am helpu i feithrin dealltwriaeth ehangach o'r newyddion.

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker 2019 (heb y DU)



Ystafell olygu BBC News

# Cyllid a gweithrediadau

Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac i ailgyfeirio gwariant a symleiddio gweithdrefnau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC mwy creadigol a chynaliadwy. Daw'r flwyddyn ariannol i ben mewn cyfnod aniscr, gyda phandemig byd-eang y coronafeirws yn cynyddu'r galw am gynnwys a gwasanaethau'r BBC ac yn cyflwyno sawl her weithredol ac ariannol.

## Datganiad Gwybodaeth Adrodd Anariannol

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalen 66); ein pobl (tudalennau 59 i 63); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo (tudalen 58). Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn ein model busnes (tudalen 70), ein prif risgiau (tudalen 95) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol, tudalennau 6 i 68).



David Mitchell in BBC  
*Two's Upstart Crow*



Sandra Oh yn *Killing Eve*

# Arolwg y Prif Swyddog Ariannol



**Y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar barhau i ail-greu'r BBC ar gyfer ein cynulleidfa oedd, gan sicrhau ein bod yn cynnig gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded**

**Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl gan atgyfeirio gwariant a symleiddio gweithrediadau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC sy'n fwy creadigol a chynaliadwy.**

Oherwydd ei amseru, ychydig iawn o effaith y mae'r coronafeirws wedi'i chael ar ein canlyniadau ariannol ar gyfer 2019/20. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau sylweddol yn 2020/21 a thu hwnt. Yn yr un modd â diwydiant ehangach y cyfryngau, mae'r argyfwng wedi cael effaith fawr ar ein gweithrediadau. Mae gweithgarwch cynhyrchu wedi dod i ben am y tro, mae digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol wedi cael eu canslo neu eu gohirio, ac mae'r sefydliad wedi gorfod datblygu er mwyn ymglyfarwyddo â ffyrdd newydd

o weithio. Mewn ymateb i'r pandemig, rydym wedi datblygu cynlluniau a fydd yn lliniaru'r effaith ar ein sefyllfa ariannol ac rydym wedi nodi bod angen i ni arbed swm ychwanegol o £125 miliwn yn 2020/21. Bydd angen i ni sicrhau arbedion pellach hefyd yn y blynyddoedd sydd i ddod yn ogystal â thargedau effeithlonrwydd sylfaenol sylweddol. Fel sefydliad, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod ffi'r drwydded yn rhoi gwerth am arian o hyd, gan gynnig cynnwys diddorol a gwasanaethau hanfodol yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn. Bydd y BBC a welir yn sgil yr argyfwng cenedlaethol yn wahanol, ond bydd yn parhau i ddarparu allbwn ardderchog ar gyfer cynulleidfa oedd.

## Crynodeb

Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar feithrin cydnherthedd er mwyn ateb yr heriau a wynebwn yn y flwyddyn sydd i ddod. Ein nod yw sicrhau ein bod yn rhedeg y sefydliad mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan ailgyfeirio cymaint o arian â phosibl i gynnwys a'n cynulleidfa oedd, a sicrhau bod y BBC yn gynaliadwy ac yn fwy creadigol. Rydym wedi gwneud llawer i sicrhau bod y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithlon a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Ers 2016/17, rydym wedi sicrhau £618 miliwn o arbedion cronol ac, yn 2020/21, rydym yn disgwyl y byddwn wedi arbed dros

Bu'n flwyddyn o wneud buddsoddiad penodol mewn cynnwys, gan gynnwys buddsoddi mewn dramâu a gafodd ganmoliaeth fawr a blaenoriaethau digidol gan gynnwys iPlayer a BBC Sounds.

Sicrhawyd £199 miliwn o arbedion blynyddol yn 2019/20.

Gwelwyd perfformiad masnachol cryf gan ein his-gwmnïau gyda thwf EBITDA o un flwyddyn i'r llall (sef enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) o 9%.

Mae gorbenion ar lefelau sy'n arwain y diwydiant o hyd, sef dim ond 5% o gyfanswm ein costau, gyda 95% yn cael ei gyfeirio at gynnwys a gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at y gynulleidfa.

Mae dyled net o £1,613 miliwn yn cynnwys balans arian parod gweithredu o £401 miliwn sydd ei angen er mwyn helpu i liniaru effaith y coronafeirws a'r broses o drosglwyddo i gasglu ffi'r drwydded gan unigolion cymwys dros 75 oed.





Cyllid a gweithrediadau

£800 miliwn i gyd, gan ragori ar ein targed flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl.

Yn ôl y disgwyl, a gyda'r lleihad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer incwm ffi'r drwydded i'r rhai dros 75 oed, mae canlyniadau'r flwyddyn hon yn dangos diffyg gweithredu o £122 miliwn ar gyfer y grŵp, o gymharu â diffyg gweithredu o £52 miliwn y flwyddyn ddiwethaf. Caiff y lleihad yn incwm ffi'r drwydded ei wrthbwyso'n rhannol gan lai o wariant ar y Gwasanaeth Cyhoeddus a pherfformiad gwell gan ein his-gwmnïau masnachol. Mae'r newidiadau a gynlluniwyd i gyllid ffi'r drwydded ac amseru'r gwariant ar gynnwys yn achosi amrywiadau yn ein canlyniadau blynyddol. Amcan ariannol y BBC yw sicrhau bod incwm a gwariant wedi'u mantoli yn y tymor canolig, gan sicrhau hylifedd digonol i reoli gwahaniaethau o ran amseru llifau arian parod a darparu swm cyfyngedig o arian wrth gefn ar ffurf cronfeydd ariannol wrth gefn.

Bydd angen rheoli a chynllunio arian parod yn ofalus yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i ni fynd ati i gasglu ffi'r drwydded oddi wrth unigolion cymwys dros 75 oed ac wrth i ni ymateb i bandemig y coronafeirws ac amgylchiadau ansicr eraill a fydd yn wynebu'r BBC yn y dyfodol agos.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hincwm a'n gwariant yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'n perfformiad masnachol a meysydd penodol fel cyfraniadau pensiwn a materion treth. Mae hefyd yn manylu ar ein perfformiad parhaus o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gyda £199 miliwn o arbedion pellach y flwyddyn hon.

**Incwm**

Mae'r lleihad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau i'r rhai dros 75 oed, a lleihad bach yn nifer y trwyddedau y talwyd amdanynt wedi arwain at ostyngiad o 5% yn incwm cyffredinol ffi'r drwydded i £3,520 miliwn o gymharu â £3,690 miliwn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn o ganlyniad i ffactorau sy'n ysgogi incwm ffi'r drwydded, gan gynnwys twf yn nifer y cartrefi, cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded a thwf economaidd. Y flwyddyn hon, derbyniwyd £253 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer y rhai dros 75 oed, o gymharu â £468 miliwn yn 2018/19. Gwrthbwysoyd y gostyngiad hwn yn rhannol gan y cynnydd yn chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a oedd yn gymwys i ffi'r drwydded, a arweiniodd at gynyddu ffi'r drwydded o £150.50 i £154.50.

Ymhlith yr incwm arall mae cyfraniad ein gweithrediadau masnachol ac incwm o werthiannau trydydd parti. Cydnabuwyd

incwm o £1,423 miliwn yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o £224 miliwn o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i dwf BBC Studios a chaffael grŵp UKTV ym mis Mehefin 2019. Mae'r canlyniadau, a gynhwyswyd yn flaenorol yng nghyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau, wedi'u cyfuno erbyn hyn yng ngrŵp y BBC.

**Gwariant**

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel a'n gwasanaethau digidol drwy ehangu'r rhaglenni sydd ar gael ar iPlayer a BBC Sounds. Caiff y buddsoddiad hwn ei ariannu gan gynlluniau arbed parhaus. Y flwyddyn hon, gostyngodd ein gwariant ar gynnwys Gwasanaeth Cyhoeddus 3% i £2,777 miliwn oherwydd digwyddiadau chwaraeon mawr yn y flwyddyn flaenorol. Gwariwyd 95% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys a'r gwaith o'i gyflwyno, gan gynnwys ein cyfraddau gorbenion ar 5% yn unig o gyfanswm y sylfaen costau.

**Arian parod a dyled net**

Cynyddwyd ein terfynau benthyca, a bennir gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), o 1 Ebrill 2019 oherwydd newidiadau cyfrifyddu gorfodol (IFRS 16: Prydlesau). O ganlyniad, nodwyd prydlesau

**Datganiad incwm cyfunol cryno**

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020


Dosbarthiad y datganiad incwm	Beth ydyw?	2020 £m	2019 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	<b>3,520</b>	3,690	Gostyngiad o 5% o ganlyniad i leihad a gynlluniwyd yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau teledu am ddim i'r rhai dros 75 oed.
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	<b>1,423</b>	1,199	Cynydd mewn incwm o ganlyniad i dwf yn reffeniw BBC Studios.
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>4,943</b>	<b>4,889</b>	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	<b>(5,093)</b>	(4,977)	Gwariant cynyddol o ganlyniad i dwf BBC Studios wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan arbedion a llai o wariant ar y Gwasanaeth Cyhoeddus.
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	<b>28</b>	36	Gostyngiad o gymharu â 2019 yn sgil cyfuno UKTV yn llawn.
<b>Diffyg gweithredu</b>		<b>(122)</b>	<b>(52)</b>	
Enillion ar waredu	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	<b>118</b>	36	2019/20 yn cynnwys ennil untro a gydnabuwyd wrth gaffael UKTV. Mae'r flwyddyn flaenorol yn cynnwys gwerthu busnes Good Food.
Enillion a cholledion eraill	Ennil net ar symudiadau mewn offerynnau ariannol	<b>(6)</b>	7	Newid yng ngwerth offerynnau ariannol deilliadol.
Costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	<b>(100)</b>	(65)	Cynydd o ganlyniad i'r taliadau cyllid ychwanegol sy'n deillio o brydlesau, pensiynau a phrisio offerynnau ariannol.
Trethiant	Rhwymedigaeth dreth net y BBC ar ei elw trethadwy	<b>(9)</b>	5	Cynydd yn y tâl treth a gostyngiad mewn credydau treth Teledu o'r Radd Flaenaf.
<b>Diffyg y Grŵp am y flwyddyn</b>		<b>(119)</b>	<b>(69)</b>	

## Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

- Mae'r cynnydd yn ffi'r drwydded wedi ariannu cynnwys ychwanegol ar gyfer teledu, radio ac ar-lein.
- Mae 5c o bob £1 yn cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaedd.
- Cost casglu ffi'r drwydded yw 3c am bob £1 a gesglir.

## Sut y caiff eich arian ffi'r drwydded misol ei wario

2019/20 £12.88 fesul cartref (2018/19: £12.54)



	Cyfanswm
Teledu	£6.83
2018/19	£6.92
Radio	£2.22
2018/19	£2.17
BBC World Service	£1.24
2018/19	£1.24
Gwasanaethau a chostau cynhyrchu eraill	£0.88
2018/19	£0.80
BBC Online	£1.24
2018/19	£1.08
Cost casglu ffi'r drwydded a diffyg pensiwn	£0.47
2018/19	£0.33

ychwanegol ar y fantolen. Cynyddwyd terfyn benthycu net y Gwasanaeth Cyhoeddus i £2,200 miliwn, y caiff £2,000 miliwn ohono ei neilltuo'n benodol ar gyfer prydlesau. Cynyddwyd terfyn benthycu Grŵp Masnachol y BBC i £500 miliwn, y caiff £150 miliwn ohono ei neilltuo'n benodol ar gyfer prydlesau. Caiff effaith yr amgylchedd newidiol a'r coronafeirws ei monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod terfynau benthycu yn briodol o hyd.

Mae benthyciadau o £204 miliwn yn yr is-gwmnïau masnachol a phrydlesau cyllid o £1,842 miliwn yn gwrthbwyso sefyllfa arian parod y grŵp i gyrraedd dyled net grŵp o £1,613 miliwn, ymhell o fewn ein terfynau benthycu. Mae Grŵp Masnachol y BBC mewn sefyllfa dyled net gwerth £65 miliwn o gymharu â sefyllfa cronfeydd net o £17 miliwn yn 2018/19.

Mae'r BBC yn cadw arian parod ar gyfer gweithrediadau o ddydd i dydd ac yn rheoli amseru llifau arian parod. Balans arian parod y grŵp ar ddiwedd 2019/20 yw £401 miliwn, sy'n ostyngiad o £67 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i'r lleihad yn y cyllid ar gyfer trwyddedau am ddim i'r rhai dros 75 oed.

Mae effaith ariannol uniongyrchol pandemig y coronafeirws yn cael ei rheoli. Bydd y camau lliniaru a nodwyd o ran y Gwasanaeth Cyhoeddus yn helpu i wrthbwyso effaith uniongyrchol penderfyniad y Bwrdd i ohirio'r broses o gasglu ffi'r drwydded gan y rhai dros 75 oed ddeufis i 1 Awst ac amseru difidendau o'r grŵp masnachol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddeall yn llawn yr effaith hirdymor ar y broses o gasglu ffi'r drwydded ac ar ein busnesau masnachol. Felly, rydym yn mabwysiadu dull cynllunio ariannol darbodur er

mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hollbwysig i gynulleidfaedd a sicrhau ein bod mewn sefyllfa ariannol iach.

### Is-gwmnïau masnachol


Roedd perfformiad ein his-gwmnïau masnachol yn galonogol unwaith eto er iddynt wynebu cystadleuaeth heriol yn y farchnad. Mae Grŵp Masnachol y BBC wedi sicrhau EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad) o £189 miliwn, sef cynnydd o 9% o un flwyddyn i'r llall. Llwyddodd pob un o'n his-gwmnïau masnachol i sicrhau'r cyfraddau adenillion masnachol a bennwyd gan Fwrdd y BBC. Mae'r cyfraddau hyn yn seiliedig ar feincnodau yn erbyn

cystadleuwyr masnachol tebyg ac rydym yn cyhoeddi'r targedau masnachol hyn yn unol â gofynion ein Siarter.

Gan adeiladu ar lwyddiant yr endidau cynhyrchu a dosbarthu integredig, mae BBC Studios wedi sicrhau twf o 14% mewn EBITDA i £181 miliwn, drwy greu a bod yn berchen ar gynnwys Prydeinig o ansawdd uchel. Mae grŵp UKTV wedi perfformio'n well na'r disgwyl hefyd o ran buddsoddiadau. Cwblhawyd y broses o gaffael UKTV ym mis Mehefin 2019 ar ôl dod i gytundeb â Discovery ar ddyfodol ei



Canolfan ddarlledu Sgwâr Canolog Caerdydd



fusnes sianel yn y DU, a bydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i greu cynnwys yn BBC Studios. Mae gwaith creadigol BBC Studios yn cael ei groesawu'n fawr, gan gynnwys comisiynau a sicrhawyd gan drydydd partion yn cynnwys darlledwyr o'r DU a brandiau byd-eang fel Amazon, Apple a Netflix. Mae llwyddiant BBC Studios yn ganolog wrth sicrhau y cynnig gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, drwy'r rhaglenni o ansawdd uchel a gynhyrchir a'i gyfraniad ariannol at y BBC.

Wynebodd BBC Global News farchnad newyddion rhyngwladol heriol; ar ben hynny, arweiniodd y coronafeirws at lai o werthiannau yn rhanbarth APAC, gan achosi gostyngiad mewn EBITDA o £8 miliwn i £2 filiwn.

Sicrhodd BBC Studioworks EBITDA o £8 miliwn drwy ddarparu cyfleusterau stiwdio a golygu i'r BBC a nifer mawr o gleientiaid allanol. Talodd y cwmni ail ddiidend i'r grŵp masnachol ar ôl ei ddiidend cyntaf erioed y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Tachwedd 2019, cyfranwyd at lansiad BritBox UK, sef cyd-fenter ag ITV sy'n cynnig arlwy fideo ar alw y tanysgrifir iddo. Mae'r gwasanaeth sydd wedi'i brisio'n gystadleuol yn cynnig mynediad i'r casgliad mwyaf o gynnwys Prydeinig sydd ar gael ar unrhyw lwyfan ffrydio, o sioeau a ddarlledwyd yn ddiweddar i hoff raglenni'r genedl o'r archifau. Rydym yn berchen ar 10% o'r busnes a, hyd yn hyn, rydym wedi cyfrannu dros 2,000 o oriau o gynnwys at y llwyfan. Mae rhagor o gynnwys wedi'i ychwanegu yn ystod y flwyddyn ac mae'r gwasanaeth a thansgrifiadau yn parhau i dyfu.

**Difidendau**

Mewn ymateb i'r coronafeirws, rydym wedi gofalu bod digon o hyblygrwydd ariannol yn y grŵp masnachol er mwyn sicrhau y gall ein cwmnïau masnachol liniaru effaith

dirywiad economaidd ac unrhyw fusnes rydym yn debygol o'i gollu. O ganlyniad, datganodd a thalodd Grŵp Masnachol y BBC ddiidend gostyngol o £3 miliwn i Grŵp y BBC y flwyddyn hon, sy'n ostyngiad sylweddol o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf (2018/19: £73 miliwn). Bydd hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i ddelio â chanlyniadau ariannol y coronafeirws ac yn caniatáu amser i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r busnes allu ymateb i'r farchnad newidiol. O fewn y Grŵp Masnachol, elw cyffredinol BBC Studios i'r BBC oedd £276 miliwn yn cynnwys buddsoddiad mewn rhaglennu a dididend a ddatganwyd.

**Casglu ffi'r drwydded**

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwylio neu'n recordio rhaglenni wrth iddynt gael eu dangos ar y teledu; yn gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fywy neu ar alw). Mae'r dull cyfredol o gasglu'r ffi yn parhau i fod yn deg, yn effeithiol ac yn rhoi gwerth da am arian ac rydym yn parhau i weithio gyda'r tlotaf mewn cymdeithas drwy ehangu'r cynllun talu hyblyg i'r rhai dros 75 oed i bobl sydd ar incwm is.

Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu casglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianeli talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol wedi ei roi ar contract i Capita Business Services Ltd. Dyma wythfed blwyddyn y contract

casglu cyfredol, sydd wedi sicrhau £200 miliwn o arbedion hyd yma. Disgwylir arbed cyfanswm o £215 miliwn mewn costau yn ystod y contract deng mlynedd, gan ryddhau mwy o arian i'w wario ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

**Datganiad ffi'r drwydded**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi paratoi datganiad refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG). Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EM yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: [www.nao.org.uk](http://www.nao.org.uk).

**Costau pensiwn**

Ar 31 Mawrth 2020, ailbrisiwyd y gwarged pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19 Buddiannau Cyflogeion) i £247 miliwn, o gymharu â diffyg o £530 miliwn flwyddyn yn ôl. Y rheswm dros y symudiad yn ystod y flwyddyn bresennol yw ennill net o £862 miliwn o ganlyniad i newidiadau yn y tybiaethau prisio a chyfraniadau a dalwyd, sef £159 miliwn. Caiff y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan dâl gweithredu blynyddol o £234 miliwn a chostau cyllid net o £10 miliwn. Mae'r enillion yn sgil newidiadau yn y tybiaethau prisio o ganlyniad i enillion sy'n ymwneud ag asedau'r cynllun, newidiadau mewn tybiaethau demograffig ac enillion actiwaraid a lywir gan newidiadau mewn tybiaethau ariannol.

'Cipolwg' ar ddyddiad penodol yw'r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y gost arian parod wirioneddol sy'n

**Perfformiad masnachol**

- Gwelwyd perfformiad masnachol cryf parhaus gan ein his-gwmnïau gyda thwf EBITDA o un flwyddyn i'r llall o 9%.
- Mae blwyddyn heriol o'n blaenau gydag effaith sylweddol y coronafeirws, economi wannach a marchnad newidiol.

	2019/20 EBITDA	2018/19 EBITDA	% newid o un flwyddyn i'r llall twf
<b>BBC STUDIOS</b>	<b>£181 miliwn</b>	£159 million	14%
<b>BBC NEWS GLOBAL</b>	<b>2 filiwn</b>	£8 million	(75%)
<b>BBC STUDIO WORKS</b>	<b>£6 miliwn</b>	£8 million	33%



gysylltiedig ag adennill y diffyg yn y cynllun pensiwn actiwaraid, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraid teirblwydd fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf ym mis Mehefin 2020 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,138 miliwn ar 1 Ebrill 2019 (o gymharu â £1,769 miliwn ar 1 Ebrill 2016). Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu newydd. Bydd y cynllun ad-dalu y cytunwyd arno, a fydd yn weithredol tan 31 Rhagfyr 2028, yn sicrhau bod buddiannau cronodig yr aelodau yn cael eu diogelu a bod talwyr ffi'r drwydded yn cael gwerth am arian. Caewyd y cynllun buddiannau diffiniedig i gyflogion newydd yn 2010.

Mae prisiad cyfrifyddu IAS 19 yn wahanol i'r prisiad actiwaraid oherwydd y gwahaniaeth yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i brisio'r rhwymedigaethau. Er bod y prisiad actiwaraid yn defnyddio cyfraddau disgowntio sy'n seiliedig ar giltiau, mae'r prisiad cyfrifyddu yn defnyddio cyfraddau disgowntio sy'n seiliedig ar fondiau corfforaethol credyd uchel – mae hyn yn arwain at brisiadau cyfrifyddu sy'n rhoi darlun ariannu mwy ffafriol ar y cyfan na'r hyn sy'n ofynnol ar sail actiwaraid.

### Costau pobl

Wrth gymharu pobl a gyflogwyd ar 31 Mawrth, mae lleihad o un flwyddyn i'r llall yn nifer y staff Gwasanaeth Cyhoeddus, sef 48 o staff cyfwerth ag

amser llawn i 19,430. Nifer cyfartalog y staff ar gyfer y flwyddyn oedd 19,572 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ceir rhagor o fanylion am ein pobl a nifer y staff yn ein hadran ar Ein Pobl ar dudalen 59.

Ar hyn o bryd, mae cyflogau cyflogres yn cyfrif am tua 20% o gostau gweithredu'r grŵp. Yn gynharach yn y flwyddyn, cyhoeddwyd cynlluniau arbed i foderneiddio ein hystafell newyddion mewn ymateb i anghenion newidiol y gynulleidfa. Bydd y fenter hon yn arwain at leihad yn nifer y staff yn 2020/21 fel rhan o gynlluniau i sicrhau £80 miliwn o arbedion cylchol o fewn BBC News. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2020, cyhoeddwyd y byddai gwaith ailstrwythuro yn mynd rhagddo yn y gwledydd a'r rhanbarthau mewn ymateb i'r her barhaus i sicrhau arbedion ym mhob rhan o'r sefydliad.

Ers dechrau argyfwng y coronafeirws, rydym wedi nodi nifer o gynlluniau arbed, y bydd rhai ohonynt yn effeithio ar ein cyflogion. Rydym wedi cyhoeddi y byddwn yn rhewi cyflogau uwch-reolwyr. Rydym hefyd, am y tro, wedi rhoi'r gorau i lenwi unrhyw rolau nad ydynt yn hanfodol i'r busnes ac wedi rhoi cyfle i'r staff newid eu patrymau gwaith drwy gynnig yr opsiwn i weithio llai o oriau a chymryd gwyliau di-dâl. Rydym wedi sefydlu rhaglen diswyddiadau gwirfoddol gyda'r nod y bydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion cyflym mewn ymateb i'r her ariannol gynyddol a hefyd i leihau unrhyw ddiswyddiadau gorfodol i'r eithaf yn y rhaglenni ailstrwythuro. Yn ogystal, bydd

diswyddiadau gwirfoddol yn rhoi cyfle i ni ad-drefnu a symleiddio strwythur y BBC.

### Strategaeth treth

Yn y BBC, rydym yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddifrif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth trethi'r DU a'r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da.

Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: <http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/bbc-tax-strategy-1920.pdf>

Yn 2017, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud ag atebolrwydd treth am daliadau i gyfryngwyr yn y sector cyhoeddus. Rydym yn ymrwymedig i ddatrys materion treth hanesyddol mewn achosion lle mae


## Arbedion effeithlonrwydd

- Cyflawnwyd £712 miliwn o arbedion cynaliadwy yn ystod y rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2017.
- Cyflawnwyd £618 miliwn o arbedion hyd yma i fynd i'r afael â'n heriau ariannol yn y dyfodol.

## Arbedion a gyflawnwyd yn 2019/20

- Arbedion effeithlonrwydd drwy brisio cynnwys a chytundebau aml-flwyddyn.
- Ffocws ar arbedion ac effeithlonrwydd ym maes cynhyrchu.
- Symleiddio llwyfannau, seilwaith a gweithrediadau.
- Ailnegodi prisiau contractau a rhoi busnes ar gcontractau allanol.

## Arbedion cronol (£m)



## Cyllid a gweithrediadau


cyflwynwyr, sydd wedi defnyddio cwmnïau gwasanaethau personol, yn wynebu cwestiynau gan Gyllid a Thollau EM erbyn hyn ynghylch eu statws cyflogaeth treth.

Mae ein cyfrifon blyneddol yn cynnwys darpariaeth o £12 miliwn (2018/19: £12 miliwn) i setlo'r rhwymedigaethau treth hyn. Mae cynnydd yn cael ei wneud gyda Chyllid a Thollau EM a chyflwynwyr i setlo'r rhwymedigaethau sydd wedi codi o ganlyniad i gamddosbarthu statws treth cyflwynwyr.

### Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Y flwyddyn hon, sicrhawyd £199 miliwn o arbedion ychwanegol er mwyn helpu i liniaru'r incwm a gollwyd o ffi'r drwydded a sicrhau bod modd buddsoddi mewn gwasanaethau. Sicrhawyd arbedion ym mhob maes, gyda ffocws ar gynnal ein gorbenion a'n costau cymorth sy'n arwain y diwydiant, sef 5% o gyfanswm ein sylfaen costau. Sicrhawyd arbedion drwy weithgarwch cynhyrchu, drwy ddileu achosion o ddyblygu a thrwy reoli contractau yn ofalus.

O ganlyniad i newidiadau yn y dull o bennu ffi'r drwydded, yn enwedig wrth ystyried bod y ffi wedi aros yn wastad rhwng 2010 a 2017, mae'r incwm o ffi'r drwydded 31% yn llai erbyn hyn na phe bai wedi cynyddu'n gyson yn unol â chwyddiant. Ar yr un pryd, mae'r BBC wedi ymgymryd â nifer o ymrwymadau newydd gan gynnwys ariannu'r World Service, S4C a BBC Monitoring. Drwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi cydbwysu'r angen i gynnal ansawdd a chyrraedd â'r angen i gynnal sylfaen costau effeithlon drwy nifer o raglenni rheoli costau cynhwysfawr ar draws y BBC. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebwn yn y dyfodol o ran gostyngiadau mewn incwm sylfaenol ac yn buddsoddi yn y gwaith o foderneiddio ein gwasanaethau drwy sicrhau £1 biliwn o arbedion cylchol rhwng 2016/17 a 2021/22.



Mae hyn yn rhagori ar ein targed gwreiddiol o £800 miliwn. Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targed hwn, gan sicrhau £618 miliwn o arbedion cronol hyd yn hyn.

Rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwneud y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithlon. Comisiynwyd Deloitte i ddiweddar dadansoddiad 2017/18 o effeithlonrwydd ein gorbenion, sef 'Benchmarking the BBC's overhead rate'. Gan ddefnyddio methodoleg gyson, nododd Deloitte fod gorbenion y BBC yn cyfrif am 5% o gyfanswm ein sylfaen costau ar gyfer 2019/20 a bod costau anuniongyrchol y BBC yn cyfrif am 17% o hynny. Ailgadarnhaodd hyn ein safle yn y chwarter uchaf o ran ein grŵp o sefydliadau cyfatebol, sef sefydliadau nid er elw a reoleiddir yn y DU (gorbenion) a chwmnïau telathrebu a chyfryngau rhyngwladol (costau anuniongyrchol). At

hynny, o ran y gyfradd gorbenion, daeth Deloitte i'r casgliad ein bod wedi cau'r bwlch rhyngom ni a'r sefydliad cymharol mwyaf effeithlon yn 2020, o gymharu â'r sefydliad cymharol mwyaf effeithlon yn 2017, ac wedi gwella ein safle perthynol yn ein grŵp o sefydliadau cymharol.

### Cynnwys

Rydym wedi canolbwyntio ar adolygu'r gwaith cynhyrchu sydd yn yr arfaeth er mwyn sicrhau arbedion wrth ddarparu cynnwys. Cyflawnwyd hyn drwy sicrhau effeithlonrwydd o ran cynllun y sefydliad a thrwy sicrhau mwy o incwm gan drydydd partion. Rydym wedi ailgymysgu'r gwaith sydd yn yr arfaeth er mwyn sicrhau y cynigir gwerth am arian, gan wneud arbedion ym meysydd chwaraeon, cynnwys ffeithiol a dramâu. Mae hyn wedi ein galluogi i lyncu cynnydd chwyddiannol mewn costau cynhyrchu, ailfuddsoddi yn y gwaith o gynhyrchu

### BBC Sounds yng ngwyliau Leeds a Reading 2019



rhaglenni a chynyddu'r cynnwys a ddarperir ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

### Eiddo

Rhan allweddol o'n strategaeth fusnes yw lleihau ein hystad eiddo a chreu amgylcheddau gweithio modern ac effeithlon i'n staff. Ers 2017 rydym wedi cau sawl eiddo ategol yn Llundain ac wedi canolbwyntio ar sicrhau bod eiddo craidd yn Llundain yn fwy effeithlon. Ym mis Ionawr 2020, amlinellodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol uchelgais i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n gweithio y tu allan i Lundain. Mae nifer o brosiectau eisoes ar waith er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun hwn, gan gynnwys hwb technoleg newydd yn Newcastle; symud tîm curadu BBC Sounds i Salford; ac ehangu'r Uned Hanes Naturiol ym Mryste. Byddwn yn parhau i ystyried sut y gallwn wella'r cydbwysedd rhwng ein staff yn Llundain a'n staff y tu allan i Lundain er mwyn gwireddu'r uchelgais hon.

Yn 2020, byddwn yn gweld timau olaf BBC Cymru yn adeoli i Sgwâr Canolog Caerdydd, gan leihau ein hól-troed eiddo yng Nghaerdydd bron 50%. Er bod y cyfyngiadau cyfredol o ran cadw pellter cymdeithasol yn effeithio ar gynlluniau, bydd amserlenni diwygiedig yn sicrhau bod cynnydd yn mynd rhagddo'n ddiogel. Rydym yn bwriadu cau rhai swyddfeydd ategol llai o faint ledled Lloegr yn 2020/21 ac, o ganlyniad i'r coronafeirws, rydym yn ailystyried y buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer y Ganolfan Ddarlledu yng Ngogledd Iwerddon o safbwynt ariannol, ond hefyd er mwyn myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu wrth weithio yn ystod y pandemig.

### Caffael

Rydym yn adolygu ein cyflenwyr gwasanaethau mawr ar gontractau allanol yn rheolaidd, sy'n cynnwys dadansoddi adroddiadau gan asiantaethau credyd masnachol allanol. Mae'r trefniadau cytundebol gyda'r cyflenwyr hyn yn cynnwys darpariaethau archwilio llyfr agored, yn ogystal â pharhad busnes cynhwysfawr a rhwymedigaethau ymadael. Ymhlith y gwasanaethau sydd ar gontractau allanol mae TG, rheoli cyfleusterau, casglu ffi'r drwydded a darllediadau daearol. Mae rheolwyr contractau cyflenwyr penodedig yn sicrhau bod contractau yn cael eu rheoli a pherfformiad yn cael ei olrhain yn gadarn yn erbyn gofynion busnes.

Drwy reoli'r portffolio yn ofalus, gan gynnwys gwneud penderfyniadau cyrchu a chaffael craff, yn 2019/20 sicrhawyd £99 miliwn o arbedion ar gontractau strategol mawr a £66 miliwn o arbedion pellach

wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae gweithio'n agos gyda chyflenwyr i wella perfformiad ac awtomatiaeth a thrawsnewid y broses gaffael wedi bod yn hanfodol wrth fynd ati i leihau gwariant.

### Technoleg

Maes arall lle mae'r BBC yn sicrhau arbedion sylweddol yw technoleg. Ar draws y portffolio technoleg, gwelwyd mentrau arbed yn rhagori ar dargedau, gyda buddiannau allweddol sy'n gysylltiedig â mentrau yn sicrhau £41 miliwn o arbedion yn 2019/20. Drwy gydol y flwyddyn, sicrhawyd buddiannau ac arbedion cytundebol ychwanegol drwy ailtrafodaethau pellach a fydd, dros y pum mlynedd nesaf, yn sicrhau £10 miliwn o arbedion ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ailflaenoriaethu cyllid a llwythi gwaith er mwyn cefnogi strategaeth ddigidol y BBC, gan ganolbwyntio ar ddatblygu iPlayer, BBC Sounds a BBC News.

### Edrych i'r dyfodol

Mae maes y cyfryngau yn y DU yn parhau i newid yn gyflym, gyda mwyfwy o gystadleuaeth gan wasanaethau ffrydio ar-lein newydd a phresennol. Rydym hefyd yn wynebu heriau cyllido o ganlyniad i chwyddiant uchel mewn meysydd fel drama a chomedi, yn ogystal â chystadleuaeth ym maes rhaglennu ffeithiol. Rydym am sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu'r allbwn y mae ein cynulleidfaoedd yn gofyn amdano.

Wrth ystyried effaith ddifrifol y coronafeirws hefyd, mae gwaith cynllunio gofalus yn hanfodol. Er nad yw'r sefyllfa yn unigryw i'r BBC, rydym yn wynebu ein heriau a'n penderfyniadau anodd ein hunain er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol a'r buddsoddiad sydd ei angen yn ein gwasanaethau. Yn 2020/21, rydym wedi nodi bod angen gwneud £125 miliwn o arbedion ychwanegol i wrthbwyso effaith yr incwm a gollwyd a'r gwariant ychwanegol yr aethpwyd iddo yn sgil y coronafeirws. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa a'r effaith ariannol a gaiff ar y BBC, a byddwn yn adolygu ac yn diweddarau cynlluniau yn unol â hynny.


Daeth setliad ffi'r drwydded, lle cafwyd lleihad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau am ddim i'r rhai dros 75 oed, i ben yn gyfan gwbl ym mis Mawrth 2020. Mewn ymateb i'r coronafeirws, cyhoeddodd Bwrdd y BBC ei fod wedi penderfynu gohirio'r broses o gyflwyno ffi'r drwydded ar gyfer y rhai dros 75 oed tan fis Awst 2020, gan arwain at gollodion o £70 miliwn. Er i ni baratoi ar gyfer y

newid drwy sicrhau arbedion i adeiladu cronfeydd arian parod wrth gefn, mae'r oedi ychwanegol wedi cael effaith sylweddol ar yr incwm a ragwelwyd ar adeg pan fo cyfyngiadau symud ledled y DU yn effeithio ar y broses o gasglu ffi'r drwydded.

Mae'r coronafeirws wedi effeithio ar y broses o gyflwyno cynnwys ac ar weithrediadau. Roedd yr effeithiau hyn yn sylweddol a chyflym. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi achosi oedi o ran gweithgarwch cynhyrchu ac wedi arwain at ohirio digwyddiadau chwaraeon mawr fel Gemau Olympaidd Tokyo Haf 2020. Er bod rhai digwyddiadau a chynyrchiadau, a'u costau, wedi cael eu gohirio tan 2021/22, mae angen cynnwys ychwanegol i gymryd lle'r digwyddiadau hyn, sy'n golygu y bydd yn rhaid mynd i wariant ychwanegol yn 2020/21.

Disgwylir i'r coronafeirws gael effaith sylweddol ar refeniw Grŵp Masnachol y BBC yn 2020/21, o ganlyniad i lai o weithgarwch cynhyrchu, colledion o ran gwerthiannau a dirywiad digynsail ym marchnad hysbysebu'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r grŵp masnachol wedi ymateb yn gyflym, gan nodi camau i leihau'r sylfaen costau ac ailamserlennu'r buddsoddiad a gynlluniwyd, a rhoi'r camau hynny ar waith. Bydd hyn yn golygu bod modd cynilo arian yn y byrdymor a gwneud y gorau o'n gallu i wneud cyfraniad ystyrlon a chynaliadwy i'r Gwasanaeth Cyhoeddus.

Mae'n amlwg y bydd 2020/21 yn flwyddyn heriol i'r BBC ac i'r economi ehangach. O ystyried graddfa a chymhlethdod yr effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael, byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein cynlluniau mewn ymateb i ddigwyddiadau. Byddwn yn parhau i symleiddio'r sefydliad, gan newid ein maint, ein strwythur a'n harferion gweithio. Byddwn yn defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'n mesurau argyfwng, a'r gwaith rydym yn ei wneud eisoes i sicrhau arbedion i'r busnes, i gyflwyno newidiadau ymarferol a chyflym. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein huchelgeisiau strategol a sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded ar yr un pryd.



**Glyn Isherwood**  
Prif Swyddog Ariannol  
2 Medi 2020



## Gwariant Darlledu Cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae arian ffi'r drwydded wedi'i wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws holl wasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd.

### Trwydded weithredu'r World Service

Ymrwymodd y BBC i ddiogelu ei wariant blynyddol ar y World Service am gyfnod o bum mlynedd o 1 Ebrill 2017 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddarlledwr cyhoeddus o fri yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rhaid i'r BBC wario o leiaf £254 miliwn y flwyddyn ar y gwasanaeth hwn dros y cyfnod hwn. Gan gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol, gwariwyd £261 miliwn (2019: £278 miliwn) ar drwydded weithredu BBC World Service.

### Arian grant y World Service

Yn 2016/17 dyfarnodd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad grant o £291 miliwn i'r BBC, i'w wario dros y pedair blynedd ddilynol, er mwyn ei helpu i ehangu'r World Service. Mae negodiadau â'r llywodraeth ynghylch ei buddsoddiad yn y World Service wedi arwain at ymestyn arian y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad hyd at ddiwedd mis Medi 2021.

### Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2020 £m	2019 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	348	355
Ffeithiol a Dysgu	239	259
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	41	52
Ffilm a Drama	356	333
Adloniant a Chomedi	196	175
Cynrychiadau Chwaraeon	58	76
Plant	83	83
Gwariant ar gynnwys teledu arall	288	366
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,609	1,699
Radio	494	504
Gwasanaethau ar-lein y BBC	238	214
<b>Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan</b>	<b>2,341</b>	<b>2,417</b>
Cerddorfeydd a grwpiau perfformio	29	29
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	22	22
Gwariant ar ddatblygu	70	67
Grant BBC World Service	92	93
Trwydded weithredu BBC World Service*	223	234
Gwariant ar wasanaethau eraill	436	445
<b>Cyfanswm gwariant ar gynnwys</b>	<b>2,777</b>	<b>2,862</b>
Costau dosbarthu	192	194
Cynnwys a chymorth dosbarthu	436	490
Cymorth cyffredinol	173	185
<b>Cyfanswm gwariant ar wasanaethau</b>	<b>3,578</b>	<b>3,731</b>
Costau casglu ffi'r drwydded	119	103
Rhwymedigaethau eraill (S4C, cyflwyno Band Eang)**	83	94
Monitro	5	6
Taliad gostwng diffyg pensiwn Darlledu Cyhoeddus	22	-
Costau Darlledu Cyhoeddus i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	205	165
Costau ailstrwythuro	37	25
<b>Cyfanswm gwariant Darlledu Cyhoeddus</b>	<b>4,049</b>	<b>4,124</b>
Aildosbarthu prydlesau***	(54)	(48)
<b>Gwariant Darlledu Cyhoeddus****</b>	<b>3,995</b>	<b>4,076</b>

\* Mae trwydded weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £31 miliwn (2019: £33 miliwn).

\*\* O dan delerau cytundeb ffi'r drwydded 2015, mae'r BBC wedi ymrwymo i helpu i dalu am gyflwyno band eang ledled y DU.

\*\*\* Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Darlledu Cyhoeddus fesul gwasanaeth, caiff llog prydles gyllidol ei gynnwys, er nad yw wedi'i gynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp.

\*\*\*\* Yn cynnwys cost yr ymgynghoriad dros 75 oed, sef £1.5 miliwn (2019: dim) sef ymarfer ymgynghori mwyaf y BBC erioed.

# Gweithrediadau masnachol

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn cefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae'r cwmnïau hyn yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ddarparu incwm i ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a chefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan rhyngwladol hefyd.

## Y meini prawf masnachol:

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd i gynulleidfaoedd ac maent yn cynyddu gwerth eiddo deallusol y BBC, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i'r diwydiant creadigol ehangach, yn y DU a thu hwnt. Maent yn gwneud hyn wrth hefyd hyrwyddo a diogelu brand ac enw da'r BBC ledled y byd, yn unol â'r meini prawf masnachol fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb:

1. rhaid i'r gweithgareddau weddu i'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus;
2. rhaid i'r gweithgareddau fod yn fasnachol effeithlon;
3. ni ddylai'r gweithgareddau beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC; ac
4. ni ddylai'r gweithgareddau, o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau masnachu na gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth, wyrddo'i'r farchnad na chreu mantais gystadleuol annheg.

Caiff is-gwmnïau masnachol y BBC eu goruchwylio gan y Bwrdd Daliadau Masnachol, sy'n gyfrifol am bennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, cytuno ar gynlluniau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion rheoliadol a chyfreithiol. Ceir adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol ar dudalen 104.

## Gweithrediadau masnachol

Mae gan y BBC dri is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyf sy'n ategu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC:

### BBC STUDIOS

BBC Studios – busnes cynhyrchu a dosbarthu'r BBC. Mae'n creu, yn buddsoddi, yn datblygu, yn cynhyrchu, yn masnacheiddio ac yn dosbarthu cynnwys sydd wrth wraidd amserlen y BBC, yn ogystal ag ar lawer o lwyfannau ac o amgylch y byd, gan gynnig gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy helpu i ariannu rhaglenni a difidendau arian parod. I gael gwybod mwy am weithgareddau BBC Studios, gweler tudalen 52.

### BBC NEWS GLOBAL

BBC Global News sy'n gweithredu sianel deledu 24 awr ryngwladol y BBC sef BBC World News a bbc.com. Mae'r sianel a'r wefan yn cael eu hariannu drwy hysbysebion a nawdd, yn ogystal ag incwm gan weithredwyr teledu y telir amdano sy'n cynnig y sianel. Darllenwch fwy ar dudalen 56.

### BBC STUDIO WORKS

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn y DU. Mae'n cefnogi darlledu cyhoeddus yn y DU drwy ddifidendau arian parod blynyddol. Darllenwch fwy am yr hyn mae Studioworks yn ei ddarparu ar gyfer y BBC ar dudalen 57.

BBC One's Seven  
Worlds, One Planet



## BBC Studios

### Trosolwg

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dechreuodd pandemig y coronafeirws achosi problemau cymdeithasol ac economaidd sylweddol ledled y byd, a chafodd effaith sydyn ar ddiwydiant byd-eang y cyfryngau y mae BBC Studios yn gweithredu o'i fewn. Y brif flaenoriaeth yw diogelu iechyd a llesiant ei bobl, a dyma sydd wedi llywio ymateb y busnes. Fodd bynnag, fel y dengys y trosolwg hwn, mae BBC Studios yn dechrau'r flwyddyn mewn sefyllfa ariannol gref. Gan edrych i'r dyfodol, bydd yr argyfwng hwn yn cael effaith sylweddol ar ei allu i gyflawni refeniw yn 2020/21, sy'n golygu y bydd angen cadw arian parod a chadw costau mor isel â phosibl.

Buddsoddodd BBC Studios y swm uchaf erioed mewn cynnwys a chafodd ei flwyddyn orau o ran gwerthu cynnwys. Ynghyd â chaffael UKTV, llwyddodd BBC Studios i gyflawni ei werthiannau a'i elw uchaf erioed (EBITDA).

Yn eil ail flwyddyn fel busnes a unwyd, sy'n darparu'r goreuon o blith creadigrwydd Prydeinig i gynulleidfaedd yn y DU a ledled y byd, mae'r canlyniadau hyn yn dangos llwyddiant wrth drawsnewid diwylliant a gweithrediadau BBC Studios, gan gyflawni sefyllfa gref ochr yn ochr â sefydliadau byd-eang eraill. BBC Studios Production oedd y crewr cynnwys newydd a gomisiynwyd fwyaf yn y DU yn 2019.

Cafwyd gwerthiannau o £1,388 miliwn (2018/19: £1,189 miliwn), i fyny 17%. Cynyddodd EBITDA (enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio: y mesur a ffefrir ar gyfer elw) i £181 miliwn (2018/19: £159 miliwn). Am y chweched flwyddyn yn olynol, roedd enillion i'r BBC, yn cynnwys didendau a buddsoddi mewn rhaglennu, dros £200 miliwn, gan gyrraedd eu lefel uchaf erioed, sef £276 miliwn (2018/19: £243 miliwn).

Cynyddodd buddsoddiadau mewn rhaglennu 19% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn rhannol o ganlyniad i fwy o gyfraniadau at gomisiynau'r BBC i'w mwynhau gan gynulleidfaedd yn y DU. Yn ystod y flwyddyn, roedd y rheini a ddarlledwyd yn cynnwys *Seven Worlds, One Planet*, gan Uned Hanes Naturiol glodwiw BBC Studios, a *His Dark Materials* a wnaed gan gwmni annibynnol.

Cytunwyd ar nifer o gytundebau cynnwys sylweddol, gan naill ai ddyfnhau partneriaethau a oedd yn bodoli eisoes neu ddechrau cydberthnasau newydd â photensial twf uchel.

Mae diwylliant yn faes ffocws pwysig, a denodd BBC Studios dalent greadigol newydd. Parhaodd i wireddu buddiannau sefydliadol y broses uno a chanolbwyntiodd ar fanteision masnachol a chynulleidfaol o adlewyrchu pob cynulleidfa yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â bwrw ati i wella amrywiaeth ei weithlu.

Cynyddwyd ymdrechion gan y busnes i leihau'r effaith amgylcheddol, ac ar ddiwedd y flwyddyn, sicrhaodd BBC Studios Ardystiad Cynaliadwy Albert 100% ar gyfer pob un o'i gynrychiadau yn y DU o'r flwyddyn ariannol newydd, a niwtraled carbon ar gyfer pob gweithrediad yn y DU, wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill 2018 drwy gyfuniad o leihau a gwrthbwysio. Ymrwymodd y busnes i ostyngiad hirdymor mewn teithio a fydd yn adlewyrchu'r gostyngiad a gyflawnwyd gan fesurau byd-eang yn ystod y cyfyngiadau symud.

### Dull gweithredu strategol

Ochr yn ochr â mesurau tymor byrrach i liniaru effeithiau pandemig y coronafeirws, mae strategaeth BBC Studios yn gynllun hirdymor i gynyddu refeniw ac EBITDA. Yn seiliedig ar ei ddiben 'Bold, British, Creative', uchelgais BBC Studios yw dod â straeon ardderchog ac ysbrydoledig â naws Brydeinig unigryw yn fyw. Drwy sicrhau bod pobl wrth wraidd y busnes, ac wedi'i gefnogi gan waith trawsnewid a buddsoddiadau parhaus, bydd yn canolbwyntio ar dri maes allweddol.

Yn gyntaf, cynhyrchu deunydd poblogaidd cynaliadwy a chreadigol drwy fuddsoddi'n gynnar mewn eiddo deallusol newydd a thrwy fanteisio mwy ar fformatau a rhaglenni llwyddiannus. Yn ail, drwy atgyfnerthu gwasanaethau – gan adeiladu ar lwyddiant BritBox yn rhyngwladol ac UKTV – a datblygu brandiau sianel byd-eang fel BBC Earth a CBeebies. Yn drydydd, targedu partneriaethau newydd a datblygu partneriaethau pwysig sy'n bodoli eisoes â chwmeriaid, gan weithredu mewn ffordd strategol a hirdymor i ariannu a datblygu cynnwys o ansawdd uchel i gynulleidfaedd ledled y byd.

### Cynnwys

Roedd y teitlau newydd a gyrhaeddodd gynulleidfaedd yn ystod y flwyddyn, ochr yn ochr â'r ffefrynnau llwyddiannus *Top Gear*, *DIY SOS*, *Doctor Who* a *Silent Witness* yn cynnwys *Seven Worlds, One Planet*, *Thatcher: A Very British Revolution*, *Sacred Wonders*, *A Fresh Guide to Florence with Fab 5 Freddy*, *Ladhood* a *For Love Or Money* i'r BBC, *Prince Charles: Inside the Duchy*

*of Cornwall* i ITV, *Good Omens* i Amazon a'r BBC a *The Edge of Science* i YouTube.

Yn gyffredinol, enillodd y busnes 77 o gomisiynau newydd (49 i'r BBC a 28 gan drydydd partion, gan gynnwys Apple a Netflix). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y busnes cynhyrchu wedi llwyddo i sicrhau cyfanswm o 53 o gomisiynau trydydd parti yn ystod ei dair blynedd fel stiwdio fasnachol i'r farchnad gyfan, gyda mwy na 700 gan y BBC, gan greu cyflenwad cadarn ar gyfer y dyfodol. Ymhlith cynrychiadau newydd nodedig y busnes roedd addasiad dyfodolaidd Terry Prachett *The Watch* i BBC AMERICA (cyd-fenter rhwng BBC Studios ac AMC Networks) a'r cydweithrediad â Jon Favreau *Prehistoric Planet* i Apple.

Mae'r gydnabyddiaeth i lwyddiant creadigol BBC Studios ym maes cynhyrchu yn y DU yn parhau, gyda 73 o wobrau a 202 o enwebiadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Cyfoethogwyd y tîm cynhyrchu drwy benodi uwch-

## UKTV

**Bu gan y BBC gyfranddaliadau yn UKTV ers 1997. Mae ei bortffolio poblogaidd o sianelau Prydeinig nodedig, fel Dave a Gold, yn cyfuno ei ddeunydd gwreiddiol ei hun – fel *Hypothetical* a *Dial M for Middlesbrough* – â ffefrynnau'r BBC, i ategu sianelau gwasanaeth cyhoeddus i BBC.**

Heddiw, mae cynnwys y BBC yn cynrychioli tua hanner amserlen UKTV a thua 60% o'r hyn a gaiff ei wyllo, sy'n golygu bod UKTV yn rhan o gylch rhinweddol sydd o fudd i dalwyr ffi'r drwydded a'r gymuned greadigol.

Ym mis Mehefin 2019, cymerodd BBC Studios reolaeth dros saith o sianelau UKTV a'i wasanaeth dal i fyny UKTV Play, gyda'r trefniadau perchennogaeth lwyr yn symleiddio'r ffordd y caiff hawliau'r BBC eu defnyddio yn y DU, ond yn cadw enw, swyddfa a diwylliant UKTV.

Roedd ei gyfran gyffredinol o'r gynulleidfa a'i gyfran o effeithiau masnachol yn gadarn yn ystod y flwyddyn, gan fod darpariaeth UKTV ym maes comedi, clasuron a chynrychiadau gwreiddiol yn denu cynulleidfaedd yn ystod cyfnodau ansicr. Mae'r busnes yn adeiladu ar ei enw da am gynnwys o ansawdd â theitlau fel *We Hunt Together*, *Traces* a *Meet The Richardsons*.



arweinwyr creadigol newydd o fewn genres allweddol drama, comedi a ffeithiol.

Ategir cangen gynhyrchu BBC Studios gan bortffolio safonol o gwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan gynnwys Sid Gentle, gwneuthurwr y gyfres *Killing Eve* a fu'n llwyddiant byd-eang, a Lookout Point, cynhyrchydd *Gentleman Jack*, ac addasiad o nofel epig Vikram Seth *A Suitable Boy* i BBC One. Mae'r busnesau hyn, sydd o dan berchenogaeth lwyr neu rannol, yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r buddsoddiad mewn cynnwys a gwerthiannau, gan gynyddu amrywiaeth y rhaglennu y gall BBC Studios ei chynnig i gwsmeriaid yn ogystal â gallu'r busnes i fuddsoddi mewn meysydd gan gynnwys deall cwsmeriaid a marchnata masnachol.

### Brandiau


Cafwyd perfformiadau cryf gan frandiau craidd BBC Studios yn ystod y flwyddyn. Datblygodd y cysylltiad amlwg rhwng cyflwynwyr newydd *Top Gear* gan gynyddu cynulleidfwr rhaglen. Cynyddodd nifer y gwylwyr ar gyfer cyfres 27 a 28 o gymharu â'r gyfres flaenorol, gan arwain at benderfyniad i symud y gyfres nesaf, sef cyfres 29, i BBC One. Mae'r brand yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd digidol sylweddol, a chafodd mwy na 500 miliwn o eitemau eu gwyllo ledled y byd ar YouTube yn ystod y flwyddyn ariannol. Parhaodd cyfres 12 *Doctor Who* â Jodie Whittaker i ddenu cynulleidfaoedd ifancach i BBC One, ac roedd ymhlith yr 20 rhaglen fwyaf poblogaidd i'r grŵp 16-34 oed. Gwylwyd mwy na 125 miliwn o eitemau'r brand ar YouTube yn ystod y flwyddyn hefyd.

Teitl nodedig diweddaraf Planet – *Seven Worlds, One Planet* – oedd y teitl ffeithiol a wylwyd fwyaf ar y BBC yn 2019. Bu'n llwyddiant rhyngwladol hefyd, a chafodd ei wyllo dros 180 miliwn o weithiau ar lwyfan Tencent yn Tsieina hyd yma. Yn y cyfamser, cynyddodd poblogrwydd brand BBC Earth, gan gyrraedd biliwn o ymweliadau â'i wefan yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

Mae'r brand plant *Bluey* yn mynd o nerth i nerth. Dyma'r rhaglen fwyaf poblogaidd i blant yn Awstralia bellach – mae'r gwobrau yn cynnwys Gwobr Logie, Gwobr AACTA ac Emmy Rhyngwladol ar ôl diwedd y flwyddyn – ac o ganlyniad i gytundeb â Disney a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, darlledwyd y teitl am y tro cyntaf ar Disney Junior yn yr UD ac wedyn ar Disney+ ddechrau 2020, ochr yn ochr â lansio digwyddiadau a nwyddau wedi'u brandio.



Famalam ar BBC Three, sydd wedi ennill gwobrau



Mae mwy na

# 700

o gomisiynau wedi'u hennill gan BBC Studios ers ei lansio

## Ffyrdd newydd o lunio cytundebau

**Mae prif gwsmeriaid BBC Studios yn cysylltu'r busnes â'i gynulleidfaoedd, gan ei helpu i ariannu cynnwys o'r radd flaenaf. Y BBC yw ei gwsmer mwyaf o ran cynnwys, ac mae cydberthnasau hirsefydledig â BBC AMERICA ac UKTV hefyd yn ategu hyn.**

Fodd bynnag, wrth i gostau cynhyrchu gynyddu, mae partneriaethau hirdymor a strategol â chwsmeriaid pwysig yn ein galluogi i fuddsoddi mewn rhaglennu premiwm i'w mwynhau gan wylwyr y BBC gartref a chan gynulleidfaoedd rhyngwladol – er enghraifft, cefnogir y rhan fwyaf o raglennu hanes naturiol y BBC gan bartneriaid hirsefydledig gan

gynnwys BBC AMERICA, PBS a Discovery yn yr UD, ZDF yn yr Almaen, FTV yn Ffrainc a CCTV9 a Tencent yn Tsieina.

Mae hyn yn galluogi'r busnes i gynllunio rhaglennu newydd uchelgeisiol sawl blwyddyn i'r dyfodol – gan symud y tu hwnt i gytundebau gwerthu trafodol unigol i gydberthnasau strategol eang sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Yn 2019, cytunodd BBC Studios ar bartneriaethau newydd neu estynedig â Discovery, HBO Max, ZDF ac Yandex, sy'n golygu y bydd y busnes yn cydweithio'n gynyddol â sefydliadau cyfryngau byd-eang eraill i ddsbarthu rhaglenni sy'n bodoli eisoes a chynhyrchu rhaglenni newydd sbon i'w cynulleidfaoedd, gan greu eiddo deallusol newydd i'r ddau barti.

**BBC Studios** *parhad*

**Marchnadoedd**

Yn y DU, roedd buddiannau perchenogaeth lwyr dros UKTV i'w gweld ar unwaith, wrth i'r tîm gyflawni blwyddyn gadarn iawn o ran cynulleidfaoedd a refereniw. Mae'r ddau fusnes bellach yn cydweithio'n llawer agosach, gan wireddu buddiannau strategol perchenogaeth lawn, cynyddu buddsoddiad UKTV mewn cynrychiadau gwreiddiol a symleiddio'r ffordd y mae BBC Studios yn rheoli ei hawliau yn y DU.

Cyfunodd y busnes ei weithrediadau rhyngwladol ym meysydd gwerthu cynnwys, gwasanaethau wedi'u brandio a busnesau atodol y tu allan i'r DU er mwyn ffurfio is-adran Global Distribution newydd, gan alluogi mwy o ffocws strategol ar bartneriaethau hirdymor mawr.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cyhoeddwyd cytundeb arwyddocaol â Discovery, fel y partner unigryw ar gyfer rhaglenni hanes naturiol nodedig y BBC drwy danysgrifiad i fideo-ar-alw (SVOD). Cytunodd gwasanaeth ffrydio newydd Warner Media, HBO Max, i ffrydio *Doctor Who*, a thrwyddeddodd 700 o benodau o gynnwys, gan gynnwys *Top Gear*; trefnwyd cytundeb cyd-ddatblygu a chyd-gynhyrchu â ZDF yn yr Almaen ar gyfer cynnwys ffeithiol nodedig ac wedi'i sgrïptio, a llofnodwyd cytundeb arloesol â chwmmi technoleg mwyaf Rwsia, Yandex, ar gyfer dros 100 awr o raglennu wedi'i sgrïptio.

Lansiodd BritBox UK, o dan berchenogaeth fwyafrifol ITV â chytundeb cyflenwi cynnwys gan BBC Studios, yn y DU ym mis Tachwedd. Ar ddiwedd y flwyddyn, rhannwyd perchenogaeth BritBox yng Ngogledd America yn gyfartal rhwng BBC Studios ac ITV, a chafwyd perfformiad arbennig o gryf, gan ddenu un filiwn o danysgrifwyr ym mis Mawrth 2020 ac ennill ei blwyf fel y gwasanaeth SVOD niche sy'n tyfu gyflymaf yn yr UD. Yn ystod yr un mis, cyhoeddwyd cynlluniau i lansio BritBox yn Awstralia.

**Adolygiad ariannol**

Mae canlyniadau ariannol BBC Studios ar gyfer y flwyddyn yn dangos cryfder y busnes a llwyddiant ei strategaeth, yn ogystal â natur ddidrafferth y broses uno a'r broses o gaffael UKTV.

Cyflawnwyd y lefelau uchaf erioed o werthiannau, EBITDA, buddsoddiad mewn cynnwys a gwerthiannau cynnwys.

Mae gwerthiannau wedi cynyddu 17% i £1,388 miliwn a chynyddodd EBITDA 14% i £181 miliwn.

Y sefyllfa ddyledion net ar ddiwedd y flwyddyn, heb gynnwys prydles, oedd £112 miliwn (2018/19: £46 miliwn) a'r llif arian parod rhydd oedd £94 miliwn (2018/19: £111 miliwn)\*.

\* Mae Llif Arian Parod (FCF) yn cynrychioli arian parod o weithgareddau gweithredu yn cynnwys prynu a gwerthu eiddo, peiriannau a chyfarpar a phrynu hawliau dosbarthu.

**Cynhyrchu a Dosbarthu**

Mae Cynhyrchu a Dosbarthu yn cynnwys rhaglenni a gaiff eu comisiynu gan ddarlledwyr a pherchenogion llwyfannau ledled y byd, a'u gwerthu iddynt, a chyfran BBC Studios o ganlyniadau ei gyd-fenter a'i gwmnïau cynhyrchu cyswllt, gwerthu formatau a chynhyrchion i ddefnyddwyr.

Mae'r busnes Cynhyrchu yn y DU yn parhau i berfformio'n dda, ac mae lefelau gweithgarwch o ran comisiynu i'w cyflwyno yn y dyfodol wedi cynyddu, fel y nodwyd uchod.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y busnes ar waith adfywio creadigol mewn perthynas â'i frandiau allweddol ac o ganlyniad, mae *Top Gear*, cyfres *Planet* y BBC ac *EastEnders* wedi mynd o nerth i nerth ac, fel y nodwyd uchod, mae'r cyflenwad ar gyfer busnes newydd yn gryf o ran trydydd partiön a'r BBC.

Mae portffolio cynhyrchu annibynnol BBC Studios yn parhau i dyfu o ran maint,

gan ddatblygu a chynhyrchu cyfresi sy'n dychwelyd a chyfresi gwreiddiol wedi'u sgrïptio a heb eu sgrïptio i sianelau darlledu cyhoeddus y DU yn ogystal â gwasanaethau yn yr UD a gwasanaethau SVOD. Hefyd, gwerthodd BBC Studios ei gyfran o 25% yn y cynhyrchydd annibynnol Two Cities Television i STV Productions.

Gwelwyd y lefelau refereniw mewn gwerthiannau cynnwys uchaf erioed eleni, gan gynyddu 7% o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn adlewyrchu perfformiad cryf o ran sicrhau a chyflwyno cytundebau partneriaeth cynnwys byd-eang fel y crybwyllwyd uchod. Mae'r rhan hon o'r busnes wedi elwa ar y lefelau uchaf o fuddsoddiad mewn cynnwys erioed. Llwyddodd y busnes cynhyrchion i ddefnyddwyr i gynnal ei ganlyniadau o un flwyddyn i'r llall er gwaethaf pwysau sylweddol yn y farchnad, gan adlewyrchu trefniadau rheoli cadarn a rheolaeth gadarn dros gostau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y busnes fuddsoddiad bach yn y llwyfan symudol ffurf fer Quibi ochr yn ochr â chomisiwn cyntaf ar gyfer cyfres hanes naturiol, *Fierce Queens*, a buddsoddiad ecwiti bach ar y cyd â sefydliadau darlledu cyhoeddus yn yr UD yn yr arbenigwyr podlediadau Pocket Casts.

**Gwasanaethau wedi'u Brandio**

Mae Gwasanaethau wedi'u Brandio BBC Studios yn cynnwys sianelau a gwasanaethau digidol i ddefnyddwyr â brand y BBC y tu allan i'r BBC, UKTV, cyfran BBC Studios o'r gyd-fenter a gweithrediadau cyswllt yn Britbox a BBC AMERICA, ac o wasanaethau digidol wedi'u brandio gan gynnwys BBC Player yn Asia.

Roedd perfformiad Gwasanaethau wedi'u Brandio yn ystod y flwyddyn yn gryf, a chafwyd twf mewn gwerthiannau ac EBITDA. Mae hyn yn adlewyrchu trefniadau cyfuno a pherfformiad cryf UKTV a thwf parhaus BritBox yng Ngogledd America.

Ar 5 Mehefin 2019, cymerodd BBC Studios reolaeth dros frand UKTV a'r rhan fwyaf o'i sianelau llinellol o gyd-fenter flaenorol â Discovery am bris prynu a ystyriwyd o £100 miliwn. Caiff £73m ychwanegol ei dalu, sy'n cynrychioli'r broses o gymryd cyfrifoldeb dros ddyledion a ariannwyd yn flaenorol gan Discovery ac effaith cydnabod yr ystyriaeth ar y gwerth presennol. Felly, mae'r canlyniadau yn adlewyrchu cyfnod o ddau fis o UKTV fel cyd-fenter deg-sianel 50:50, wedi'i ddilyn gan gyfnod o ddeg mis o berchenogaeth lwyr dros UKTV a'r saith sianel sy'n parhau.

**Perfformiad yn ôl elfen weithredu**

	Gwerthiannau (£ miliwn)		EBITDA (£ miliwn)	
	2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
Cynhyrchu a Dosbarthu	1,059	1,047	75	81
Gwasanaethau wedi'u Brandio	385	161	111	71
Dileadau	(56)	(19)	(5)	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,388</b>	<b>1,189</b>	<b>181</b>	<b>159</b>



*Seven Worlds, One Planet* ar BBC One

**53**

nifer y comisiynau a sicrhawyd gan drydydd partion ers ei lansio.

**1m**

BritBox – y gwasanaeth SVOD sy'n tyfu gyflymaf yn yr UD, sydd ag 1 filiwn o danysgrifwyr erbyn hyn.



### Blaenolwg

Mae cynnwys BBC Studios wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol a chadarnhaol i ymateb y BBC i'r pandemig, gan ddod â'r DU gyfan at ei gilydd i'w haddysgu, ei hysbysu a'i diddanu yn ystod cyfnod anodd a digynsail – gyda theitlau yn cynnwys *The One Show*, *Health Check UK*, *Horizon: Coronavirus Special*, *Big Night In a VE Day 75th anniversary*. Mae'r busnes hefyd wedi cefnogi cwsmeriaid drwy gynnig telerau trwyddedu gwell a mynediad cyffredinol i becynnau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

Gan edrych i'r dyfodol, blaenoriaeth gyntaf y busnes yw diogelu iechyd ei bobl a'u teuluoedd, gan gynnig cymorth helaeth i'r rheini sy'n gweithio gartref ac yn cydbwysu gofal plant, a ffocws ar gynnal llesiant o fewn hinsawdd ansicr, llawn straen.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar gymuned talent cynhyrchu lawrydd y BBC – hanfod y diwydiant creadigol ar y sgrin ac oddi arni – ac mae BBC Studios wedi gweithio i helpu'r unigolion hyn â nifer o fentrau. Cyfrannodd y busnes hefyd at gronfa rhyddhad brys yr elusen ffilm a theledu ar gyfer unigolion llawrydd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant.

Yn weithredol, bydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith ar nifer o feysydd busnes allweddol. Er bod y busnes yn parhau i weld galw am gynnwys premiwm, wedi'i ategu gan ddewisiadau cynulleidfaoedd a'r cynnydd parhaus mewn gwasanaethau, mewn meysydd eraill, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae sgil-ffaith mesurau cadw pellter cymdeithasol ar yr economi fyd-eang yn ddifrifol. Bu'n rhaid atal gwaith ffilmio, a fydd yn arwain at oedi wrth gyflwyno cynnwys i gomisiynwyr a chwsmeriaid, yn ogystal â chynyddu costau cynhyrchu

yn gyffredinol. Mae refeniw hysbysebu o dan bwysau sylweddol ledled y byd, yn sgil yr effaith andwyol ar hyder defnyddwyr a buddsoddiadau mewn busnesau.

Mae BBC Studios yn gweithio i leihau'r effaith ariannol gyffredinol drwy waith cynllunio gofalus a thrwy leihau gwariant dewisol er mwyn diogelu arian parod ac elw lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r effeithiau yn debygol o fod yn sylweddol, a bydd hyd yr argyfwng yn allweddol o ran maint yr effeithiau hynny.

Yn erbyn y cefndir hwn, bydd BBC Studios yn parhau i gyflwyno'r syniadau gorau i gynulleidfaoedd ledled y byd, gan drawsnewid y busnes i arwain y farchnad o ran ei ddull o ystyried cwsmeriaid a chanolbwyntio ar fesurau i ategu sicrwydd hirdymor ei adenillion i Grŵp y BBC.

## Seven Worlds, One Planet

**Aeth y gyfres Planet lwyddiannus ddiweddaraf – *Seven Worlds, One Planet* – ati mewn ffordd wahanol i ddod o hyd i straeon newydd gan ystyried pob cyfandir yn unigol.**

Cynhaliwyd 90 o sesiynau ffilmio mewn dros 40 o wledydd, gan ffilmio am gyfanswm o 1,794 diwrnod a chreu 2,260 awr o ddeunydd. Roedd technoleg arloesol yn allweddol: y camerâu delweddu thermol diweddaraf i ffilmio helpa bleiddiaid yn yr Eidal, a defnydd helaeth o ddroniau â chamêrâu 4K i ddangos tirweddau a ffilmio ymddygiadau mewn ffordd dawelach, fwy effeithlon â llawer llai o effaith amgylcheddol na hofrenyddion.

Yn Awstralia, ffilmiodd y tîm gorrnyn neidio a oedd newydd ei ddarganfod yn ymgymryd ag arfer paru rhyfedd iawn ac, am y tro cyntaf, ddingos yn llwyddo i hela cangarwod. Yn Chile, treuliodd y tîm chwe wythnos ar leoliad yn ffilmio helpa pwmaod lwyddiannus, ac yn amgylchedd ffyrnig Cefnfor y De, llwyddodd i ffilmio'r cynulliad mwyaf o forfilod mawr a ffilmwyd erioed yn Antarctica.

Y rhaglen oedd rhaglen hanes naturiol nodedig gyntaf y BBC i ennill ardystiad cynaliadwyedd Albert llawn, a dim ond 20% o gyllid y rhaglen a ddaeth o ffi'r drwydded, gyda'r gweddill yn dod gan gyd-gynhyrchwyr, adran Dosbarthu BBC Studios a chredydau treth y DU. Bu cynulleidfaoedd yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhaglen yn cyrraedd brig rhestr teitlau ffeithiol y BBC yn 2019 ac yn boblogaidd yn Tsieina a thu hwnt.



## BBC Global News

**BBC Global News yw is-gwmni newyddion masnachol y BBC ac mae'n gweithredu gwasanaethau teledu ac ar-lein Saesneg y BBC y tu allan i'r DU; BBC World News a bbc.com. Cenhadaeth BBC Global News yw cyflwyno newyddiaduraeth ddiudedd a dibynadwy'r BBC i gynulleidfa fyd-eang gynyddol, gan weithredu fel busnes cynaliadwy proffidiol ar yr un pryd.**

Yn 2019/20, cafwyd referniw cyson o fewn ein busnesau Hysbysebu, Gwerthu a Dosbarthu, gyda chyfanswm referniw o £115 miliwn. Arafwyd twf a chafwyd effaith andwyol ar broffidioldeb gan amodau heriol yn Asia-Basiffig, gan gynnwys pandemig y coronafeirws. Cyflawnodd BBC Global News EBITDA o £2 filiwn, gan gyflawni proffidioldeb am y bumed flwyddyn yn olynol. Cynyddodd referniw o weithgarwch busnes newydd yn sylweddol. Mae ein his-adran Partneriaethau Rhaglenni newydd, sy'n cydweithio â chymdeithasau rhyngwladol blaenllaw i gynhyrchu cynnwys sy'n canolbwyntio ar faterion neu ddiwydiannau penodol sy'n llywio cymdeithas, wedi ehangu'n gyflym ers ei lansio ddiwedd 2018/19, gan gyfrannu sawl miliwn o bunnoedd mewn referniw blyneddol, ac mae twf pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y blyneddoddes nesaf.

Cynyddodd cynulleidfa fyd-eang wythnosol BBC World News i 112 miliwn yn 2020, i fyny 12% o un flwyddyn i'r llall ac i fyny 48% ers 2014. Roedd twf yn arbennig o gryf yn yr UD lle cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol i 32 miliwn, i fyny 50% o un flwyddyn i'r llall. Gwellwyd profill y sianel yn yr UD o ganlyniad i bartneriaeth newydd â WETA, un o aelod-orsafoedd fwyaf PBS, i ddsbarthu rhaglenni BBC World News ar orsafoedd teledu cyhoeddus ledled America.

Ehangodd bbc.com ei gyrhaeddiad yn sylweddol, gyda'r nifer cyfartalog o borwyr misol yn cynyddu o 93 miliwn yn 2018/19 i 121 miliwn yn 2019/20, i fyny 29% o un flwyddyn i'r llall\*. Cynyddodd nifer y fideos a wylwyd ar wefan bbc.com a'r apiau hefyd, o 31 miliwn i 40 miliwn, i fyny 27% o un flwyddyn i'r llall\*. Cyflawnodd bbc.com record newydd am y gynulleidfa fisol ym mis Mawrth 2020, gan ddenu 179 miliwn o ymwelwyr (i fyny 27 miliwn o gymharu â'r cyrhaeddiad uchaf blaenorol) ac 1.5 biliwn o ymweliadau â thudalennau, wedi'u hysgogi gan arlwy coronafeirws y BBC. Cyrhaeddodd cyfanswm cyfun y fideos a wylwyd ar lwyfan bbc.com a llwyfannau wedi'u syndicetio 179 miliwn ym mis Mawrth 2020, gan gyflawni record arall. Ail-lansiodd bbc.com ei safle nodwedd BBC

Capital fel BBC WorkLife a chyflwynodd arlwy newydd, gan gynnwys Future Planet, sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Mae partneriaethau byd-eang oddi ar lwyfannau yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y strategaeth fasnachol a dosbarthu. Yn 2019/20, cafwyd cynnydd yn y defnydd oddi ar lwyfannau, gyda chynnwys bbc.com yn cyrraedd dros 26 miliwn o ddefnyddwyr ar gyfartaledd bob mis ar lwyfannau fel Apple News, MSN a Facebook Instant Articles. BBC News yw'r ffynhonnell newyddion a ddilyniwr fwyaf ar Facebook â thros 50 miliwn o ddilynwyr. Adnewyddodd BBC Global News gytundeb â Facebook i ddarparu rhaglen wythnosol, *Cut Through The Noise*, ar ei lwyfan gwyllo yn dilyn ei lwyddiant yn 2019/20, a llofnododd gytundeb â Quibi, y llwyfan fideo symudol ffurf fer newydd i ddarparu rhaglen newyddion rhyngwladol unigryw o'r enw *Around the World* o fis Ebrill 2020. Parhaodd twf sianel YouTube BBC News yn 2019/20, gan ddenu dros chwe miliwn o danysgrifwyr, sy'n golygu bod BBC News ymhlith y ffynonellau newyddion mwyaf ar YouTube.

Cafodd BBC Global News gydnabyddiaeth am ragoriaeth ei newyddiaduraeth gan ennill nifer o wobrau yn 2019/20, gan gynnwys Gwobr George Polk ym maes Newyddiaduraeth am *Inside China's Hidden Camps* a ddarledwyd ar BBC World News, a gwobr y Cyfryngau Teithio am raglen ddarlledu orau'r flwyddyn am raglen *The Travel Show* ar Gemau Paralympaidd Tokyo. Ar bbc.com, enillodd BBC Future wobwr Webby am yr Ysgrifennu Gorau (Golygyddol) ac enillodd BBC Reel Wobrau Telly arian am

dri o'i gynyrchiadau fideo, gan gynnwys y gyfres *Searching For Starlite* am ddyfeisio deunydd â'r potensial i newid y byd. Enillodd BBC Culture, BBC Reel a BBC Future oll wobrau Lovie, sy'n anrhydeddu'r deunydd gorau ar y rhyngwyllyd yn Ewrop.

### Blaenolwg

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ddramatig ar y marchnadoedd y mae BBC Global News yn gweithredu ynddynt, gan leihau cyllidebau hysbysebu a rhoi pwysau ychwanegol ar weithredwyr teledu â thâl a oedd eisoes yn wynebu heriau gan gystadleuwyr OTT ('over-the-top'). Ar yr un pryd, mae'r galw am allbwn BBC Global News yn uwch nag erioed wrth i ddarllenwyr a gwylwyr chwilio am ddarllediadau annibynnol y gellir ymddiried ynddynt am ddigwyddiadau sy'n newid y byd. Bydd BBC Global News yn adeiladu ar y twf hwn yn y gynulleidfa yn 2020/21, gan feithrin cydberthynas agosach â'i gynulleidfaedd ar-lein drwy ehangu ei broses cofrestru defnyddwyr. Er bod ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd y marchnadoedd hysbysebu a dosbarthu teledu ar-lein yn adfer, bydd pandemig y coronafeirws yn parhau i effeithio ar berfformiad ariannol BBC Global News yn ystod 2020/21. Mae BBC Global News yn bwriadu parhau i ymateb i'r effeithiau hyn drwy fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd referniw newydd a chyfleoedd referniw sy'n bodoli eisoes, parhau i ddatblygu ei arlwy golygyddol a chanolbwyntio ar reoli costau.

\* Gellir priodoli rhan o'r cynnydd mewn porwyr a fideos a wylwyd yn 2019/20 i ddull newydd ar gyfer mesur y cynulleidfaedd sy'n gwyllo cynnwys y BBC ar Google AMP.



Talking Business ar BBC World News





*Even Later... with Jools Holland and Mark Ronson*



**Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol dan berchenogaeth lwyr y BBC, sy'n darparu stiwdios teledu a gwasanaethau ôl-gynhyrchu i'r holl gwmnïau darlledu a chynhyrchu mawr yn y DU. Mae ein cyfleusterau yn Llundain yn gartref i rai o'r rhaglenni adloniant mwyaf poblogaidd yn y DU.**

Roedd 2019/20 yn flwyddyn nodedig, gyda chyfanswm yr incwm wedi cynyddu 8% o un flwyddyn i'r llall i £40 miliwn (2019: £37 miliwn) ac EBITDA o £8 miliwn (2019: £6 miliwn). Cafodd y cynnydd mewn gwerthiannau ei ysgogi gan y ffaith bod ein portffolio wedi cael ei ddefnyddio'n gadarn gan gleientiaid a oedd yn dychwelyd, yn ogystal â llu o fusnesau newydd. Bu'r oedi o ran gweld capasiti newydd yn agor yn y farchnad o gymorth i sicrhau perfformiad cadarn hefyd. Er bod rhwymedigaethau pensiwn uwch wedi effeithio ar broffidioldeb cyffredinol, mae'r costau ychwanegol hyn wedi cael eu llyncu, sy'n golygu y bydd BBC Studioworks yn dychwelyd difidend ariannol i'r BBC o £0.4 miliwn (2019: £0.8 miliwn).

Yn ystod y flwyddyn, ymestynnodd y busnes ei gytundeb prydles ag Elstree Studios hyd at 2024. Yn ei dro, buddsoddwyd hefyd mewn technoleg



newydd, gan atgyfnerthu ymrwymiad BBC Studioworks i ddarparu arlwy cyson a chreadigol wedi'i ategu gan offer o'r radd flaenaf.

Ymysg y cleientiaid newydd a gafwyd yn y 12 mis diwethaf mae:

- *Later... with Jools Holland* a *Take Off with Bradley & Holly* ar gyfer BBC One
- *Crazy Delicious*, *The Fantastical Factory of Curious Craft*, *Harry Hill's ClubNite* a *The Lateish Show with Mo Gilligan* ar gyfer Channel 4
- *Saturday Night Takeaway*, *Kate and Koji* a *Ball & Boe: A Very Merry Christmas* ar gyfer ITV

Mae'r ffaith bod *Saturday Night Takeaway* wedi symud i'r Ganolfan Ddarlledu yn golygu bod BBC Studioworks bellach yn darlledu'n fyw o'n cyfleuster yng ngorllewin Llundain saith diwrnod yr wythnos, gyda rhaglenni ITV yn ystod y dydd *Good Morning Britain*, *Lorraine*, *This Morning* a *Loose Women* yn darlledu yn ystod yr wythnos, ynghyd â *Sunday Brunch* ar Channel 4.

Yn yr un cyfnod, roedd y rhaglenni a ddychwelodd yn cynnwys:

- Darllediadau byw – *Strictly Come Dancing* a *Plant Mewn Angen* ar gyfer BBC One, *Peston* ar gyfer ITV a *The Last Leg* ar gyfer Channel 4
- Rhaglenni sgwrsio – *The Graham Norton Show* ar gyfer BBC One, *The Apprentice: You're Fired* ar gyfer BBC Two, *The Jonathan Ross Show* ar gyfer ITV a *The Great British Bake Off: An Extra Slice* ar gyfer Channel 4
- Rhaglenni cwis – *Pointless* ar gyfer BBC One, *The Chase* ar gyfer ITV, *Don't Hate the Playaz* ar gyfer ITV2 ac *A League of Their Own* ar gyfer Sky One
- Comedi – *Have I Got News For You* a *A Mock the Week* ar gyfer BBC One, *Celebrity Juice* ar gyfer ITV2 a *The Russell Howard Hour* ar gyfer Sky One
- Drama barhaus – *EastEnders* ar gyfer BBC One

Cafodd y tîm ôl-gynhyrchu flwyddyn gref hefyd, gyda chleientiaid yn cynnwys *Strictly Come Dancing*, *Strictly Come Dancing: It Takes Two*, *The Last Leg*, *Holby City* a *Saturday Night Takeaway*.

## Blaenolwg

Mae'r farchnad y mae BBC Studioworks yn gweithredu ynddi yn heriol o hyd. Mae'r prinder stiwdios yn y DU wedi arwain at adeiladu llawer o ddatblygiadau newydd ledled y DU. Wrth i gynrychiadau dreialu lleoliadau newydd ac wrth i Ddarlledwyr Cyhoeddus gyflawni eu cwotâu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, mae pwysau gwirioneddol i gadw busnes, denu cleientiaid newydd a pharhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae diffyg buddsoddi gan y diwydiant yng ngweithlu'r dyfodol hefyd wedi creu prinder sgiliau difrifol sy'n gwaethygu.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd effaith y coronafeirws a'r ffaith bod cynrychiadau wedi cael eu canslo yn effeithio'n negyddol ar berfformiad ariannol, ac ni ellir rhagweld i ba raddau y bydd hyn yn digwydd. Bydd BBC Studioworks yn parhau i fynd ati'n ddygn i reoli'r gwaith sydd yn yr arfaeth, cadw cleientiaid, ennill busnes newydd a gwneud penderfyniadau buddsoddi doeth er mwyn lliniaru unrhyw golledion, ynghyd â sicrhau cyflenwad parhaus ar gyfer y farchnad adloniant ysgafn ar y teledu.



# Sut rydym yn gweithredu

Mae'r adran hon yn nodi'r modd rydym yn gweithredu yn fewnol, gyda'n staff, ein cyflenwyr a'n cynhyrchwyr, ac yn allanol gydag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid, y cyhoedd, elusennau ac mewn partneriaethau. Mae'r BBC yn cydymffurfio'n wirfoddol â gofynion adrodd llywodraethu corfforaethol o dan adran 172 o'r Ddeddf Cwmnïau.

## Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a gwrth-lwgrwobrwyo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol pawb sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgcontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgcontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Gellir gweld y cod llawn yma: [downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC\\_Ethical\\_Policy.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC_Ethical_Policy.pdf)

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: [downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbcmsa2020.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbcmsa2020.pdf)

Rydym wedi ymrwymo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: [downloads.bbc.co.uk/foi/classes/policies\\_procedures/anti-bribery-policy.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/foi/classes/policies_procedures/anti-bribery-policy.pdf)



*Noughts + Crosses ar BBC One*



t**59**

Ein pobl

t**64**

Ymgynghoriadau

t**65**

Adroddiad ymgysylltu â chynulleidfaoedd

t**66**

Cynaliadwyedd amgylcheddol

t**67**

Gwaith elusenol

t**68**

Partneriaethau a mentrau cydweithredol



# Ein pobl

**Mae'r BBC ar ei orau pan fydd ein pobl yn gweithio gyda'i gilydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Y flwyddyn hon, rydym wedi ymwreiddio'r trawsnewid a gyflawnwyd dros y tair blynedd diwethaf ac wedi mynd gam ymhellach i ddarparu atebion cynhwysol ac arloesol er mwyn denu a datblygu'r dalent orau a'r arweinwyr gorau yn y diwydiant.**

## Diwylliant cynhwysol

Uchelgais y BBC yw creu diwylliant cynhwysol, gan ddatblygu a chefnogi arweinwyr a thalent wych sy'n gwneud eu gwaith gorau mewn sefydliad y mae'n syml ac yn hawdd gweithio gydag ef.

Yn 2016, gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, a phedair blynedd yn ddiweddarach rydym wedi cyflawni nifer o'n huchelgeisiau a'n nodau. Rydym wedi cyflawni ein targedau o ran staff ag anableddau, LGBTQ+ a chynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith y staff.

Gwyddom fod angen i ni wneud mwy i gyflawni ein targedau o ran rhywedd ac amrywiaeth ymhlith arweinwyr, a meithrin ymddiriedaeth ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn 2019/20, gwnaethom ymgynghori â'n pobl a'n rhanddeiliaid, gan wrando ar eu syniadau a gweithio gyda'n rhwydweithiau cyflogaion i feithrin ymddiriedaeth a chefnogi ein gweithlu yn well. Bydd ein strategaeth newydd, a gyhoeddir yn ddiweddarach y flwyddyn hon, ar waith tan 2023 a bydd yn adeiladu ar y syniadau hynny ac yn mynd i'r afael â'r heriau yn uniongyrchol. Rydym wedi mynd ati'n syth i geisio cyflawni ein huchelgais o greu sefydliad cwbl gynhwysol, ac mae'r mentrau allweddol yn cynnwys:

- rhaglen Cynghorwyr yr Uwch-dîm Arwain: ym mis Mawrth a mis Ebrill, gwnaethom benodi dau unigolyn o gefndiroedd a safbwyntiau gwahanol i bob un o'n timau arwain Gweithredol (ac un yr un ar gyfer tîm arwain Cymru a thîm arwain yr Alban) er mwyn ein helpu i wneud penderfyniadau a fydd yn llywio safle'r BBC yn y byd;
- dechrau gwaith i ddatblygu Pasbort Anabledd: 'dogfen fyw' y byddwn yn ei lansio yn 2020 i sicrhau y caiff addasiadau i'r gweithle eu teilwra a'u cynnal ar gyfer defnyddwyr unigol os byddant yn newid swydd neu os bydd eu rheolwr llinell yn newid;
- lansio BBC Elevate: menter a ddyluniwyd i roi cyfle i bobl anabl â phrofiad yn y diwydiant gael rhagor o brofiad o weithio ar sioeau blaenllaw'r BBC. Byddwn yn parhau i recriwtio ar gyfer y cynllun yn 2020.

## Ein cenhedlaeth nesaf

Yn 2019/20, roedd 2.4% o weithlu'r BBC naill ai'n brentisiaid neu'n hyfforddeion. Cawsom ein gosod yn y 9fed safle yn rhestr Top 100 Graduate Employers y Times (y safle cyntaf yng nghategori'r Cyfryngau) ac rydym hefyd yn cyflogi prentisiaid nad ydynt yn raddedig ym mhob un o'n meysydd busnes. Rydym wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Disgyblion sy'n Ymadael â'r Ysgol 2020, a nod ein rhaglenni lefel mynediad yw denu talent orau'r DU o'r cefndiroedd ehangaf. Yn 2019 gwnaethom recriwtio dros 25% o bobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a thros 15% a oedd wedi datgan anabledd.

## Gweithio hyblyg

Yn ystod 2019/20, rydym wedi buddsoddi ledled y DU ac yn rhyngwladol, gan greu dros 200 o rolau newydd ym meysydd cynnwys a digidol, i gefnogi twf BBC iPlayer, BBC Sounds, ein gwasanaethau digidol a'n hallbwn byd-eang. Rydym wedi gwrthbwysu hyn drwy derfynu 249 o rolau fel rhan o gynlluniau arbed ar draws holl Is-adrannau'r BBC.

Rydym wedi parhau i atgyfnerthu ein hybiau darlledu ledled y DU a'r byd. Yng Nghaerdydd, gwnaethom symud i Sgwâr Canolog, adeilad trawiadol newydd a fydd yn gartref i tua 1,000 o staff ar draws nifer o is-adrannau. Mae Pacific Quay yn Glasgow wedi dod yn gartref newydd i'r gweithlu Dylunio a Pheirianeg, gyda hwb Dylunio a Pheirianeg arall wedi'i gynllunio ar gyfer Newcastle yn y dyfodol.

Dramor, mae ein gwaith i ehangu'r World Service yn 2020 yn parhau i fod yn chwyldroadol, gan ddenu cynulleidfaoedd newydd ym mhob man.

## Gweithlu ystywyth a hyblyg

Mae gweithio hyblyg wrth wraidd ein huchelgais ar gyfer ein pobl. Mae gennym bolisiau tryloyw ar waith i alluogi staff i weithio mewn ffyrdd sy'n addas i'w bywydau a'u hymrwymiaadau. Rydym yn falch o nodi, hyd at ddiwedd 2019/20 (ym mis Mawrth 2020), y cafodd 96% o'r swyddi gwag newydd eu hysbysebu'n rhai lle gellid gweithio'n hyblyg O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud yn ystod pandemig y coronafeirws, bu'n rhaid i'r mwyafrif helaeth o'n pobl weithio o bell, wedi'u cefnogi gan dechnoleg effeithiol a chadarn, a'r polisiau gweithio gartref a llesiant cyflogaion gorau yn y maes. Ein nod yw adeiladu ar y profiad hwn er mwyn sicrhau bod gweithio hyblyg yn dod yn ystyriaeth gyntaf ar gyfer pob rôl yn y BBC.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd rhannu swydd, fel y dangoswyd gennym y ddiweddar wrth benodi Wendy Aslett a Rachel

Currie yn Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol y Grŵp ar sail rhannu swydd.

## Llesiant

Mae helpu staff i gynnal a gwella eu llesiant yn rhan hanfodol o'n strategaeth pobl, ac yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi parhau i fuddsoddi er mwyn gwneud y BBC yn lle iachach, hapusach a gwell i weithio. Rydym wedi cynyddu nifer y cabanau iechyd yn adeiladau'r BBC ac, ym mis Chwefror 2020, gwnaethom gyflwyno gwasanaeth meddygon teulu o bell. Hefyd, rydym bellach yn cynnig archwiliadau iechyd i weithwyr nos.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom guradu 'Wellbeing Live', sef wythnos o adnoddau a digwyddiadau ledled y DU. Mae ein hymrwymiad i ddarparu cymorth iechyd meddwl wedi parhau, ac mae gennym bellach fwy na 1,000 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sydd wedi'u hyfforddi ledled y DU, ynghyd â 75 arall yn ein swyddfeydd rhyngwladol. Mae ein Llwybr Trawma newydd yn cefnogi'r broses o nodi a thrin Anhwylder Straen Wedi Trawma.

Mae ein hymrwymiad at lesiant wedi bod wrth wraidd y ffordd rydym wedi cefnogi staff i ddelio â'r straen a achoswyd gan gyfyngiadau symud y DU mewn ymateb i'r coronafeirws, gyda Chasgliad Llesiant cynhwysfawr yn cael ei guradu gan Academi'r BBC a rhaglen iechyd meddwl newydd yn cael ei lansio, sef UnMind.

Yn ogystal â llesiant a gweithio hyblyg, rydym wedi rhoi cymorth ychwanegol i'n staff mewn nifer o feysydd eraill o ganlyniad i'r coronafeirws. Rydym wedi gwneud newidiadau i nifer o bolisiau (mewn meysydd fel treuliau, trafniadaeth a gwyliau) er mwyn ateb yr heriau a wynebir gan ein cyflogaion, ac rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn cyfathrebu â phawb. Mae galwadau wythnosol, sydd wedi galluogi'r staff i gael gafael ar aelodau o'r tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, wedi arwain at lefelau sylweddol o ymgysylltu a mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.

## Recriwtio

Mae ein prosesau recriwtio yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn deg, ac maent yn seiliedig ar fframwaith cyfweld ac asesu newydd. Erbyn hyn, mae gan ein Rhaglen Hyrwyddwyr Cyfweliadau dros 250 o hyrwyddwyr hyfforddedig wedi'u lleoli mewn dros 30 o leoliadau'r BBC yn y DU, sy'n cynnig safbwyntiau amrywiol i'n penderfyniadau ynghylch dethol ymgeiswyr llwyddiannus.



**Ein pobl** *parhad*

Gwnaethom lansio The BBC Talent Cloud yn llwyddiannus, sef cronfa ddata ddiogel sydd wedi'i hanelu at weithwyr llawrydd oddi ar yr awyr sy'n chwilio am waith neu gontract byrdymor gyda'r BBC yn y DU ac sy'n cwmpasu holl is-gwmnïau wasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC.

**Arweinyddiaeth**

Yn 2019, gwnaethom gyflwyno Ymrwymadau newydd ar gyfer Arweinwyr, gan nodi'r hyn a ddisgwylir gan holl arweinwyr y BBC mewn cyfres o weithdai 'Leadership Matters' ar draws y BBC i bron 2,000 o arweinwyr. Lansiodd tair rhaglen Datblygu Arweinwyr y BBC newydd (lefelau iau, canolig ac uwch), gan ddenu dros 750 o gynrychiolwyr, ochr yn ochr â chyrtsiau Arweinwyr y BBC byrrach, gan gyrraedd bron 2,000 yn ystod 2019/20. Ar gyfer uwch-arweinwyr y BBC, mae ein tîm o Hyfforddwy'r Gweithredol, sy'n cynnig cymorth un i un, wedi tyfu.

Rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth â'n harweinwyr, gan ddefnyddio tri phrif lwyfan (Ariel ar gyfer Arweinwyr, Uwch-gynadleddau Uwch-arweinwyr a Galwadau gan Arweinwyr Timau).

**Pob aelod o staff ac arweinwyr: 31 Mawrth 2020**

Gweithlu	31 Mawrth 2020	Targed 2020
Menywod (pob aelod o staff)	<b>48.3%</b>	50%
Menywod (arweinwyr)	<b>45.0%</b>	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	<b>10.2%</b>	8%
Anabledd (arweinwyr)	<b>8.6%</b>	8%
BAME (pob aelod o staff)	<b>15.7%</b>	15%
BAME (arweinwyr)	<b>12.3%</b>	15%
LGBTQ+ (pob aelod o staff)	<b>11.2%</b>	8%
LGBTQ+ (arweinwyr)	<b>11.2%</b>	8%

**Dysgu a datblygu**

Mae Academi'r BBC wedi parhau â'i rhaglen drawsnewid dros dair blynedd. Gall staff bellach fanteisio ar amrywiaeth o ffynonellau dysgu, o ystafelloedd dosbarth wyneb yn wyneb i rai rhithwir, podlediadau, gweminarau, dosbarthiadau meistr a llyfrgell o gynnwys digidol. Y flwyddyn hon, cafodd ymrwymiad yr Academi i ddylunio dysgu ei gydnabod yn genedlaethol drwy wobwr Aur yng nghategori 'Y Defnydd Gorau o Ddysgu Cyfunol' yn y Gwobrau Technolegau Dysgu.

Cynhaliodd yr Academi, mewn partneriaeth â'r is-adran Newyddion, Wyl Gohebwy'r Ifanc gyntaf erioed y BBC y flwyddyn hon. Cymerodd mwy na 1,000 o bobl ifanc o 77 o ysgolion ran

Mae staff y BBC (yn cynnwys cyflogeion sy'n gweithio i BBC Studios a meysydd masnachol eraill) bellach wedi'u mapio i 27 o deuluoedd o swyddi, wedi'u rhannu'n dri categori. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o nifer ein staff fesul teulu o swyddi.

Categori CPF	Nifer y staff CPF Mawrth 2020 Teulu o Swyddi CPF	Cyfanswm y Grŵp	
		Nifer y staff	CALI
<b>Cynnwys</b>	Comisiynu	212	206
	Cynhyrchu Cynnwys	2,419	2,276
	Newyddiaduraeth	6,254	5,700
	Cyflwynydd	561	480
	Rheoli Cynhyrchu	978	907
	Amserlennu Rhaglenni	203	195
	Ymchwil a Datblygu	190	182
	Cynhyrchu Technegol	2,066	1,916
	Technoleg, Systemau a Chyflenwi	2,990	2,908
<b>Cyfanswm Cynnwys</b>		<b>15,873</b>	<b>14,770</b>
<b>Cymorth Cynnwys</b>	Masnachol	276	265
	Masnachol, Hawliau a Materion Busnes	394	369
	Data a Dadansoddeg	150	144
	Rheoli Gwybodaeth ac Archifau	353	329
	Marchnata a Chynulleidfaoedd	712	645
	Adnoddau	146	136
	Hyfforddiant, Hyfforddeion a Phrentisiaid	430	425
<b>Cyfanswm Cymorth Cynnwys</b>		<b>2,461</b>	<b>2,313</b>
<b>Cymorth</b>	Rheoli a Gweinyddu Busnes	879	791
	Cysylltiadau Allanol	204	193
	Cyllid	507	492
	Codi Arian a Phartneriaethau	83	72
	Adnoddau Dynol a Chysylltiadau ac Ymgysylltu Mewnol	329	307
	Cyfreithiol	119	108
	Polisi a Strategaeth	132	126
	Caffael	102	100
	Rheoli Prosiect	540	516
	Ansawdd, Risg a Sicrwydd	95	93
	Gweithle	22	21
<b>Cyfanswm Cymorth</b>		<b>3,012</b>	<b>2,819</b>
<b>Cyfanswm Cyfan</b>		<b>21,346</b>	<b>19,902</b>
<b>Nifer y CPF</b>		<b>446</b>	<b>393</b>
<b>Tramor</b>		<b>2,837</b>	<b>2,834</b>
<b>Cyfanswm</b>		<b>24,629</b>	<b>23,129</b>

mewn gweithdai Gohebwy'r Ifanc ledled y DU a chynhaliodd dros 600 o ysgolion a grwpiau ieuencid eu gwyliau eu hunain.

Hefyd y flwyddyn hon cwblhawyd rhaglen hyfforddi Open Media, gydag 8,000 o staff yn cael hyfforddiant ar y system cynhyrchu newyddion newydd ers 2016 drwy gyrsiau wyneb yn wyneb neu ar-lein.

**Ymddiriedaeth a thryloywder**

Mae ymddiriedaeth a thryloywder wrth wraidd gwerthoedd y BBC.

Mae angen i ni ddenu, cymell a chadw'r bobl orau fel y gallwn barhau i wneud cynnwys gwych. Mae ein polisiau wrth wraidd yr uchelgais hwn ac maent yn ein galluogi i gydbwyso ein dymuniad i ddenu talent mewn marchnad hynod gystadleuol â'n cyfrifoldeb i sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Yn 2019/20, gyda chytundeb yr undebau a chefnogaeth ein staff, gwnaethom gwblhau cam terfynol y broses o ddiwygio ein polisiau, ein strwythur cyflogau a'n telerau ac amodau, gan sicrhau lefel heb ei hail o dryloywder a chysondeb. Nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Mai 2019 ('Managing the BBC's pay-bill') "the BBC has taken big steps in improving consistency and fairness and is well ahead of other organisations with regards to pay transparency".

**Ein polisiau newydd**

Mae ein cyflogeion bellach yn cael budd o amrywiaeth o bolisiau newydd sy'n gwella pob agwedd ar eu bywyd gwaith. Yn ogystal â pholisiau ar weithio hyblyg, amrywiaeth, llesiant, a dysgu a datblygu gwnaethom gyflwyno canllawiau clir a chyson ar iechyd a phresenoldeb, treuliau ac ymlyniadau. Mae'r pwys rydym yn ei roi ar gydbwysedd

iach rhwng bywyd a gwaith wedi llywio ein polisiau ar gyfer gweithwyr penwythnos a gweithwyr nos er mwyn cefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch.

### Cyflog

Caiff cyflogeion bellach eu mapio i 880 o rolau penodol ar draws 27 o deuluoedd o swyddi a saith band gyrfa. Mae gan bob swydd ystod cyflog glir, sy'n gyson â'r farchnad, gan sicrhau lefelau o dryloywder cyflogau sy'n arwain y diwydiant. Rydym yn defnyddio arbenigwyr annibynnol ac arolygon proffesiynol o gyflogau a buddion er mwyn llywio'r ystodau hyn, gan sicrhau bod cyflogeion yn cael cyflog teg a chystadleuol yn unol â rheolau a chanllawiau sy'n sicrhau cysondeb. Mae gennym fframwaith cymeradwyo a llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau ynghylch cyflogau eu herio a'u graddnodi ym mhob rhan o'r sefydliad.

Hefyd y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno gwybodaeth am ein cronfa ddata staff, 'PeopleView', i ddangos dosbarthiad cyflogau yn ôl rhyw ac ethnigrwydd ym mhob un o'n bandiau cyflog neu ystod cyflog swydd.

Rydym yn dal i fynd i'r afael â nifer bach o achosion cyflog cyfartal hanesyddol. Mae datrys yr achosion hyn yn flaenoriaeth o hyd.

### Y bwllch cyflog rhwng y rhywiau

Mae bwllch cyflog rhwng y rhywiau y BBC yn dal i fod y lleiaf yn y diwydiant, ac mae'n lleihau bob blwyddyn. Rydym yn dal i fod ymhell ar y blaen o ran y cyfartaledd cenedlaethol ac rydym yn cau'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfradd gyflymach na'r diwydiant a chyfartaledd y DU. Mae'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau canolrifol wedi lleihau y flwyddyn hon i 6.2% o ffigur y flwyddyn ddiwethaf, sef 6.7%, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol presennol, sef 17.3%. Yn y rolau lle mae gennym y nifer mwyaf o staff (Newyddiadurwyr, Uwchnewyddiadurwyr, Cynhyrchwyr, Uwchnewyddiadurwyr-gohebwr, Golygyddion Cynorthwyol), mae ein bwllch cyflog rhwng y rhywiau canolrifol yn llai na 3%.

### Cefnogi newid

Y flwyddyn hon, mae tîm Adnoddau Dynol y BBC wedi cefnogi nodau strategol y BBC, gan roi cipolwg ar brofiad ymarferol ein gweithlu a datblygu atebion arloesol sy'n llywio uchelgais y BBC i newid. Dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt, byddwn yn 'adeiladu un BBC' gyda phobl sy'n falch o weithio i ni, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cael pob cyfle i ffynnu yn amgylchedd perthnasol ac ysbrydoledig y BBC.

## Camau Gwirioneddol ym maes Amrywiaeth Economaidd-Gymdeithasol

### Lansiwyd rhwydwaith staff newydd ym mis Tachwedd 2019.

Sefydlwyd rhwydwaith Camau Gwirioneddol ym maes Amrywiaeth Economaidd-Gymdeithasol (RAISED) er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth cyflogeion y BBC o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, a chefnogi uchelgais y BBC i wneud cynnwys sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd o'r gefndiroedd hynny.

Mae'r rhwydwaith yn hyrwyddo buddiannau cynulleidfaoedd y BBC o gefndiroedd llai breintiedig, gan ddod

â llunwyr cynnwys y BBC yn agosach i'n holl gynulleidfa. Mae'n hyrwyddo'r ymdrech i recriwtio cydweithwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol nas gwasanaethir yn ddigonol ac yn hyrwyddo eu datblygiad gyrfa, ac mae'n hanfodol i gysylltu cydweithwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is â phenderfynwyr a llunwyr rhaglenni allweddol yn y BBC.

Dywed Prentis Newyddiaduraeth Ddigidol BBC Cymru, Miriam Barker, 30 oed:

"Fel merch hoyw, hil gymysg, dosbarth gweithiol, rydw i wedi teimlo nad yw'r BBC yn iawn i mi. Ond mae rhwydwaith RAISED y BBC wedi gwneud i mi deimlo fy mod yn perthyn yma ac y gallaf fod yn driw i mi fy hun. Mae'n sicr wedi fy nghyflwyno i gyfleoedd gwahanol ac wedi rhoi'r hyder i mi gamu ymlaen a rhoi cynnig ar bethau newydd."

### Tablau data

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i gefnogi'r wybodaeth yn yr adran hon.

### Cyfanswm nifer y staff cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2020)

	2020	2019
UK Public Service Broadcasting	19,572	19,231
BBC Studios	2,672	2,641
Busnesau masnachol eraill	505	456

**Cyfanswm y Grŵp** **22,749** **22,328**

O fewn y niferoedd cyfartalog hyn, mae 3,085 (2019: 2,907) o gyflogeion rhan amser wedi'u cynnwys ar sail cyfwerth ag amser llawn o 1,971 (2019: 1,840). Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y BBC nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn o 1,409 (2019: 1,350) o bobl ar gontractau achlysurol.

### Fframwaith Llwybrau Gyrfa

Caiff rolau cyflogeion eu mapio ar draws 27 o deuluoedd o swyddi a saith band gyrfa.

### Grŵp y BBC

Cyfwerth ag amser llawn (CALI)/Nifer y staff yn ôl Band CPF (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddwr a Phrentisiaid a Rhai Nad Ydynt yn CPF).

Band CPF	CALI		Nifer y staff	
	CALI	CALI (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	313	2%	402	2%
B	2,385	12%	2,586	12%
C	6,626	34%	7,193	34%
D	6,774	34%	7,211	34%
E	2,198	11%	2,306	11%
F	879	4%	905	4%
FP	103	1%	115	1%
SL	329	2%	333	2%

**Cyfan-sw m** **19,607** **100%** **21,051** **100%**

### Nifer yr uwch-arweinwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2019/20 Gwirioneddol	2018/19 Gwirioneddol
£50,000 – £99,999	44	52
£100,000 – £149,999	103	100
£150,000 – £199,999	73	63
£200,000 – £249,999	23	25
£250,000 – £299,999	3	3
£300,000 – £349,999	5	5
£350,000+	2	2

**Cyfanswm\*** **253** **250**

\* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn





## Sut rydym yn gweithredu

### Ein pobl *parhad*

#### Gwariant ar rolau ar yr awyr

	2019/2020		2018/2019*		Amrywiant £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	<b>40,750</b>	<b>26,993</b>	43,210	28,234	(2,460)
£40,000 – £100,000	<b>69,445</b>	<b>1,139</b>	65,184	1,083	4,261
£100,000 – £150,000	<b>12,731</b>	<b>103</b>	13,388	109	(657)
£150,000 – £500,000	<b>17,908</b>	<b>73</b>	18,162	75	(254)
£500,000 – £1m	<b>726</b>	<b>1</b>	610	1	116
£1m – £5m	<b>3,113</b>	<b>2</b>	3,001	2	112
<b>Cyfanswm</b>	<b>144,673</b>	<b>28,311</b>	<b>143,555</b>	<b>29,504</b>	<b>1,118</b>

\* Ailddatganwyd gwariant ar rolau ar yr awyr ar gyfer 2018/19 yn sgil adolygu cyflwyno Fframwaith Llwybr Gyrfa y BBC a'r adolygiad ar yr awyr. Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyr os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyr sylweddol (h.y. 80% neu fwy).

Yn ystod 2019/20, roedd gwariant ar rolau ar yr awyr yn cynrychioli 10% o gyfanswm y gwariant cynnwys creadigol mewnol (2018/19: 10%).

#### Taliadau diswyddo

Ein polisi o ran taliadau dileu swyddi yw un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog (uchafswm o 24 mis o gyflog i'r rhai a ymunodd cyn mis Ionawr 2013). Rhaid bod cyflogaion wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swydd i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Rydym wedi cadw cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo ac rydym yn aros am eglurhad pellach ar gap arfaethedig newydd y Llywodraeth o £95,000, a fydd, yn ôl yr hyn a ddeallwn, yn gymwys i'r BBC. Caiff taliadau dileu swyddi o fwy na £75,000 a phob taliad diswyddo arall eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch-reolwyr.

Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2019/20, gwnaethom un taliad yn lle rhybudd (PILON) i aelod o staff a adawodd y sefydliad. Cyflogai wedi'i gyflogi dramor oedd yr unigolyn hwn a gafodd PILON a thâl diswyddo o dan gyfraith leol ar ôl gadael y BBC.

Band taliadau	2019/2020		2018/19	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	<b>119</b>	<b>19</b>	162	25
£10,000 – £50,000	<b>2,928</b>	<b>103</b>	3,169	113
£50,000 – £75,000	<b>3,949</b>	<b>63</b>	3,407	56
£75,000 – £100,000	<b>5,284</b>	<b>61</b>	3,278	38
£100,000 – £150,000	<b>11,159</b>	<b>85</b>	7,820	64
Dros £150,000	<b>0</b>	<b>0</b>	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>23,439</b>	<b>331</b>	<b>17,836</b>	<b>296</b>

#### Hyfforddiant Academi'r BBC

Cyrhaeddiad	2019/20
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	<b>94,354</b>
Wyneb yn wyneb	<b>22%</b>
Ar-lein	<b>78%</b>
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	<b>95%</b>
<b>Cyfanswm yr oriau dysgu a datblygu wyneb yn wyneb ac ar-lein</b>	<b>258,468</b>
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALI	<b>1.82</b>
<b>Cyfanswm y defnydd ar-lein**</b>	<b>73,130</b>

Gwerth am arian	2019/20
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)***	<b>£12</b>
Cost dysgu a datblygu fesul CALI****	<b>£592</b>

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALI ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill.

\* Cyrsiau hyfforddi unigol wyneb yn wyneb ac ar-lein a gwblhawyd.

\*\* Cyrsiau unigol ar-lein a gwblhawyd a'r rhai â statws 'yn mynd rhagddo'.

\*\*\* Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi ac eithrio prosiectau mawr.

\*\*\*\* Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi wedi'i rannu â chyfanswm CALI.

## Gwybodaeth wedi'i darparu yn unol â Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n Hundebau Llafur cydnabyddedig yn ystod y 12 mis diwethaf i ymgorffori'r newidiadau i'r Telerau ac Amodau a mynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig. Rydym yn parhau i werthfawrogi ac adeiladu ar ein cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n hundebau. Ni fu unrhyw streiciau yn ystod 2019/20.

Fel rhan o Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC). Nodir y manylion hyn yn y tabl isod.

### Swyddogion undeb perthnasol

	2019/20
Nifer y swyddogion undeb	<b>326</b> <b>(CALI: 312)</b>
<b>Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster</b>	<b>Nifer y cyflogeion</b>
0%	<b>0</b>
1% – 50%	<b>319</b>
51% – 99%	<b>0</b>
100%	<b>7*</b>
Cyfanswm cost amser cyfleuster	<b>£706,997</b>
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB	<b>£1,203k</b>
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	<b>0.06%</b>

### Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	<b>80%</b>
---	------------

Darparwyd y wybodaeth hon ar sail niferoedd bras y cynrychiolwyr undeb hysbys.

\* Roedd saith cynrychiolydd undeb amser llawn (5.5 CALI)

### Nifer y cwynion mewnol

#### Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

	2019/20	2018/19
<b>Bwlio ac aflonyddu</b> Cwynion a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.	<b>92 o achosion ffurfiol</b> — 10 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 82 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 65 wedi'u cau — 16 yn mynd rhagddynt — 11 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 77 diwrnod	<b>86 o achosion ffurfiol</b> — 5 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol — 81 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu — 52 wedi'u cau — 24 yn mynd rhagddynt — 10 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 108 diwrnod
<b>Achosion o chwythu'r chwiban</b> Daw honiadau chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Expolink, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol dynodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau.	<b>Cyfanswm o 39 o achosion (yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll):</b> — 5 wedi'u cadarnhau — 21 heb eu cefnogi — 13 yn mynd rhagddynt	<b>Cyfanswm o 26 o achosion (amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll):</b> — 6 wedi'u cadarnhau — 14 heb eu cefnogi — 6 yn mynd rhagddynt

## Ymgynghoriadau



**Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC “ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â diddordeb” fel rhan o’n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae’n elfen allweddol o’n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.**

Yn 2019/20, gwnaethom gyhoeddi canlyniadau pedwar ymgynghoriad, ac mae manylion y rhain wedi’u nodi isod.

### **Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar gynigion i ymestyn argaeledd y cynnwys ar BBC iPlayer**

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom adrodd bod y BBC, fel rhan o Brawf Budd y Cyhoedd, wedi ymgynghori ar gynigion i drawsnewid BBC iPlayer o fod yn wasanaeth teledu dal i fyny llinol yn bennaf i fod yn gyrchfan i gynulleidfa oedd, lle y byddai rhaglenni’r BBC ar gael am gyfnod hwy. Roedd yr ymgynghoriad wedi gofyn am farn am werth posibl y cynigion i’r cyhoedd a’u heffaith gystadleuol bosibl. Daeth Bwrdd y BBC i’r casgliad bod y cynigion wedi bodloni’r Prawf Budd y Cyhoedd ac y byddent yn cael eu cyflwyno i Ofcom am benderfyniad terfynol.

Ym mis Awst 2019, yn dilyn Asesiad o’r Gystadleuaeth, gan gynnwys ymgynghoriad



pellach, cytunodd Ofcom y gellid gwneud y newidiadau arfaethedig, gan ddod i’r casgliad y byddent yn sicrhau gwerth sylweddol i’r cyhoedd dros amser drwy gynnig mwy o ddewis o ran cynnwys darlledu cyhoeddus a chynyddu ei argaeledd, ac y byddent yn helpu i sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn berthnasol yn wyneb arferion gwyllo sy’n newid. Hefyd, gofynnodd Ofcom i ni gyhoeddi metrigau pellach ar berfformiad BBC iPlayer. Felly, yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hon, rydym yn cyhoeddi cyrhaeddiad a chyfanswm oriau wythnosol BBC iPlayer ar gyfer defnyddwyr sydd wedi mewngofnodi, ei gyfran o’r holl achosion o wyllo teledu’r BBC, canfyddiadau defnyddwyr o BBC iPlayer, ac i ba raddau y maent yn teimlo ei fod yn helpu’r BBC i gyflawni ei genhadaeth a’i ddibenion. Caiff y data hyn eu cynnwys ar gyfer pob cynulleidfa a, lle bo gwaith mesur yn caniatáu, gynulleidfa oedd dan 35 oed/16-34 oed. Rydym yn adolygu ffynonellau’r data hyn yn barhaus wrth i’r gwaith o fesur BBC iPlayer barhau i ddatblygu.

Mae manylion yr ymgynghoriad hwn a’r penderfyniad ar gael ar-lein: [bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit](https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit)

### **Ymgynghoriad ar ddyfodol trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed**

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Bwrdd y BBC ei benderfyniad ar ddyfodol trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed – y byddai unrhyw un mewn cartref â rhywun dros 75 oed sy’n cael credyd pensiwn yn cael trwydded deledu am ddim.

Er mwyn helpu i lywio penderfyniad y Bwrdd, rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019, cynhaliodd y BBC ei

ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf erioed, lle rhannodd mwy na 190,000 o bobl a sefydliadau rhanddeiliaid eu barn â’r BBC.

Roedd yr ymgynghoriad wedi gofyn am farn ar amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys efelychu’r consesiwn cyfredol, adfer ffi drwydded gyffredinol, gostwng y consesiwn, codi’r trothwy oedran o 75 i 80 oed, neu ddefnyddio mesur Llywodraeth y DU ei hun mewn perthynas â thlodi ymhlith pensiwnwyr er mwyn rhoi trwydded deledu am ddim i unrhyw gartref lle mae rhywun dros 75 oed ac yn cael Credyd Pensiwn. Mae manylion am yr ymgynghoriad a phenderfyniad Bwrdd y BBC ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/age-related-tv-licence-policy-cy>

### **Ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig o Ganllawiau Golygyddol y BBC**

Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom gyhoeddi seithfed argraffiad o Ganllawiau Golygyddol y BBC, a hynny yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwedd 2018 ynghylch drafft diwygiedig o’r Canllawiau, a geisiodd farn am b’un a oedd y Canllawiau’n nodi safonau golygyddol priodol i’r rhai sy’n creu rhaglenni a chynnwys y BBC ac a oeddent yn adlewyrchu’n ddigonol y newidiadau ym myd y cyfryngau ers yr adolygiad diwethaf yn 2010. Mae Canllawiau Golygyddol y BBC ar gael yma: [bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/editorialguidelines](https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/editorialguidelines)

### **Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Fframwaith Cwynion y BBC**

Rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2020, gwnaethom gynnal ymgynghoriad yn ceisio barn ar nifer o newidiadau arfaethedig i Weithdrefnau Cwynion Golygyddol a Chyffredinol y BBC, sy’n rhan o Fframwaith Cwynion y BBC. Nod y newidiadau oedd sicrhau mwy o dryloywder o ran y ffyrdd rydym yn egluro ac yn cyfathrebu ein penderfyniadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio’r ymgynghoriad i ddiweddar’r Fframwaith Cwynion er mwyn ei gysoni â rheoliadau Ofcom mewn perthynas â Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alw a chanllawiau Ofcom ar ymdrin â chwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

Ym mis Mai 2020, cymeradwyodd Bwrdd y BBC y newidiadau arfaethedig a chyhoeddwyd Fframwaith Cwynion diwygiedig, sydd ar gael ar-lein: [bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/complaints-framework-amendments](https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/complaints-framework-amendments)



# Adroddiad ymgysylltu â chynulleidfaoedd

**Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni “asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaoedd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn ofalus ac yn briodol”. Mae gan y BBC lawer o ffyrdd o gyflawni hyn, gan gynnwys ymchwil helaeth i'r farchnad a Chanolfan Gyswilt 24 awr sydd ar agor 365 diwrnod y flwyddyn.**

Yn ogystal â'r gweithgarwch rheolaidd hwn, cyfarfu aelodau Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC â chynrychiolwyr cynulleidfaoedd ledled y DU:

1. Salford – pobl 25-45 oed – ffocws ar BBC Sounds a BBC iPlayer
2. Wrecsam – ystod oedran eang o 18 i 75 oed – ffocws ar Ogledd Cymru a BBC News
3. Belfast – pobl 35-55 oed – ffocws ar radio, gan gynnwys Radio Ulster
4. Caerwysg – pobl ifanc 18-26 oed – ffocws ar y gynulleidfa iau yn Ne-orllewin Lloegr
5. Llundain – pobl ifanc 18-35 oed – ffocws ar wasanaethau sain, gan gynnwys BBC Sounds
6. Glasgow – pobl 25-60 oed – ffocws ar BBC Scotland a sianel BBC Scotland

Roedd pob sesiwn yn cynnwys tua 20-25 o bobl, a thrafododd y cyfranogwyr eu defnydd o'r cyfryngau, eu hagweddau at y BBC a sut mae'n portreadu eu bywydau.

Themâu allweddol a godwyd gan y cynulleidfaoedd yn y sesiynau:

- **Mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwybod pwy sydd wedi comisiynu rhaglen** – mae safbwyntiau am ein gwasanaethau fel arfer yn ymwneud â'r cynnwys a gynigir ganddynt, a gall fod yn anodd dod o hyd i gynnwys pan fo cymaint o ddewis ar gael, a all lethu pobl. Mae priodoliad hefyd yn broblem gynyddol – mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwybod pwy sydd wedi gwneud rhaglen.
- **Mae gwyllo rhaglenni ar alw wedi dod yn beth cyffredin** – dywed bron pawb eu bod yn gwyllo llai o deledu byw nawr ac mae llawer yn honni eu bod yn troi at y gwasanaeth ar alw cyn pori drwy'r Canllaw Rhaglenni Electronig. Ystyrir yn aml mai Netflix yw arweinydd y farchnad, yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd iau..
- **Gwerthfawrogir iPlayer ar y cyfan**, ond mae pobl fel arfer yn ei ddefnyddio i ddod o hyd i rywbeth y maent eisoes yn gwybod amdano yn hytrach nag fel cyrchfan. Mae llawer yn cael siom ar yr ochr orau wrth weld yr hyn sydd yno –

ac mae llawer yn teimlo bod mwy o gynnwys nag erioed.

- **Mae llawer yn dal i fod yn wrandawyr radio ‘traddodiadol’** – ond maent yn gwrandao mewn ffyrdd gwahanol yn gynyddol (gan gynnwys podlediadau). Mae BBC Sounds yn ennill ei blwyf, ac mae'r rhai sy'n ei ddefnyddio yn gwerthfawrogi'r gallu i ddod o hyd i gynnwys newydd.
- **Parch cyffredinol i'r BBC** – ond mae cynulleidfaoedd iau yn enwedig yn teimlo ei fod ychydig yn 'hen ffasiwn' ac efallai'n fwy addas i gynulleidfa hŷn. Mae'r BBC yn aml yn cael ei gysylltu â rhaglenni ffeithiol, proffesiynol, aeddfed a difrifol.
- **Mae llawer am weld cynnwys ysgafnach gan y BBC** – ond maent am iddo aros yn driw i'w werthoedd, nid efelychu sianeli eraill, a chymryd mwy o risgiau a bod yn fwy beiddgar.
- **Awydd am fwy o gynrychiolaeth leol** – roedd yna frwdfrydedd dros raglenni/gwasanaethau lle y gallent 'adnabod yr acen' ac roedd newyddion lleol yn teimlo'n berthnasol ac yn benodol iddyn nhw, ond gall newyddion cenedlaethol roi'r argraff mai dim ond Llundain sy'n bwysig.


## Cynlluniau ar gyfer 2020/21

Rydym wedi cyhoeddi ein bod am ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd ym Mhrydain er mwyn clywed eu barn am y BBC wrth



iddo agosáu at ei ganmlwyddiant. Er y bydd ymgysylltu wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn heriol am ran helaeth o'r flwyddyn sy'n weddill, rydym wedi sefydlu model llwyddiannus o sesiynau 'Rhithwir Personol' ar-lein lle y gall staff y BBC glywed yn uniongyrchol gan aelodau o'r gynulleidfa gan ddefnyddio technoleg fideogynadleda. Mae'r sesiynau hyn, sy'n fwy personol mewn sawl ffordd gan ein bod yn siarad â phobl yn eu cartrefi neu eu gweithleoedd eu hunain, yn ffordd wych o sicrhau ein bod yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â chynulleidfaoedd ar adeg pan fo cyswilt 'personol' yn anodd.

*Trafododd y cyfranogwyr eu defnydd o'r cyfryngau, eu hagweddau tuag at y BBC a sut mae'n portreadu eu bywydau.*



# Cynaliadwyedd amgylcheddol

**Gwelwyd cynnydd aruthrol y flwyddyn hon yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion amgylcheddol a'u pryder amdanynt. Mae'r BBC wedi helpu i gynyddu'r ymwybyddiaeth hon ac wedi ymateb iddi drwy ein rhaglenni. Rydym yn dilyn ein strategaeth yn ymwneud â Darlledu Gwyrddach gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.**

Yn 2019, lansiodd y BBC Our Planet Matters, sy'n coladu ac yn hyrwyddo ein cynnwys amgylcheddol helaeth ac amrywiol ar y teledu, y radio ac ar-lein. Ymhlith yr uchafbwyntiau teledu roedd *Climate Change - The Facts*, a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough, *War on Plastic with Hugh and Anita*, a phennod o Panorama o'r enw *Climate Change: What Can We Do?*

Ar y radio, bu Greta Thunberg yn olygydd gwadd ar raglen Today ar Radio 4, cynhaliodd 5 live gyfres *Cool Planet*, gan gynnig cyngor ymarferol i wrandawyr a oedd yn dymuno lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd, ac ymddangosodd *My World* ar BBC World Service, gan gyflwyno materion amgylcheddol i gynulleidfa fyd-eang o bobl ifanc yn eu harddegau.

Ar-lein, mae rhestr chwarae Sustainable Thinking BBC Ideas yn cyflwyno safbwyntiau gweledigaethol ar ffyrdd o fyw nawr ac yn y dyfodol, ac mae BBC Sounds yn cyflwyno 'podlediadau gwyrdd' ar ffgyrau arloesol y mudiad amgylcheddol.

Nid rhywbeth ar gyfer rhaglenni ffeithiol a newyddion yn unig yw themâu gwyrdd. Heriodd cymeriad Bailey yn *EastEnders* agweddau amgylcheddol ac yn un o benodau *Doctor Who* gwelwyd y tîm yn mynd i'r afael ag effeithiau dinistriol newid yn yr hinsawdd ar y ddaear yn y dyfodol.

**Rydym wedi briffio 1,000 o gydweithwyr, wedi cynhyrchu ein rhaglenni mewn ffyrdd mwy cynaliadwy, ac wedi uwchraddio ein hadeiladau i fod yn fwy gwyrdd.**

Mae ein cwrs Reporting Climate Change yn parhau i ymgysylltu â newyddiadurwyr o bob rhan o'n hallbwn Newyddion ac mae sesiynau hyfforddi pwrpasol wedi'u cynnal ar gyfer timau gweithredol a golygyddol.

Dyfarwyd statws 'Rhagorol BREEAM' i Sgwâr Canolog Caerdydd, sef ein hadeilad newydd yng Nghymru, am yr ystyriaeth a roddwyd i'r amgylchedd wrth ei ddylunio a'i adeiladu. Ymhlith ei nodweddion mae'r defnydd o ddeunyddiau lleol a chasglu dŵr glaw. Mae gwaith wedi dechrau i osod

goleuadau sy'n arbed ynni yn Pacific Quay, Glasgow, ac rydym wedi gwagio dau adeilad, gan wella ein heffeithlonrwydd ynni.

Mae mwy na 100 o'r rhaglenni a ddarlledwyd gennym y flwyddyn hon wedi'u hardystio'n 'gynrychiadau cynaliadwy'. Defnyddiodd *Seven Worlds, One Planet* griwiau camera lleol er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn awyren, darparodd *Strictly Come Dancing* wasanaeth arlwygo cynaliadwy i'r cast a'r criw, a defnyddiodd *The Engineers* ddeunyddiau wedi'u huwchgylchu i adeiladu deniau delfrydol i blant.

**Mae ein partneriaethau â chwmnïau eraill yn y diwydiant yn torri tir newydd o ran cynaliadwyedd ym maes darlledu.**




Mae'r BBC a'n his-gwmni masnachol, BBC Studios, yn bartneriaid gweithredol yng Nghonsortium Albert BAFTA, a gydsefydlwyd gan y BBC bron i ddeng mlynedd yn ôl. Yn ddiweddar, cynhaliodd Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt gyfarfod, a fynychwyd gan uwch-

gomisiynwyr o'r BBC a darlledwyr mawr eraill yn y DU, i drafod sut y gall teledu gael effaith gadarnhaol ar y blaned. Rydym hefyd wedi gweithio gyda DPP, grŵp sy'n gweithredu ar draws y diwydiant cyfan, i hyrwyddo arferion cynaliadwy ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi.

**Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynydd o ran cyrraedd ein targedau.**

Yn dilyn gwelliannau i'n prosesau adrodd gwelwyd cynnydd yn nifer y cynrychiadau sy'n cwblhau ôl-troed carbon, gyda 95% o'r teitlau bellach yn mesur eu heffaith. Rydym yn parhau i gyrraedd ein targedau o ran lleihau carbon ar ôl prynu trydan adnewyddadwy i gyfateb i'r hyn a ddefnyddir ar y mwyafrif o'n safleoedd. Rydym yn gweithio gyda'n harlwywyr a gweddill ein cadwyn gyflenwi gyda'r nod o gyflawni ein hymrwymiad i gael gwared ar blastig defnydd untro o'n gweithrediadau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae ein defnydd o ynni wedi lleihau rhywfaint ond mae gennym lawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau.

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r targedau rydym yn anelu atynt erbyn 2022, ynghyd â'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma. Byddwn yn parhau i weithredu yn y meysydd hyn ac adrodd ar ein cynnydd yn flynyddol.

Targedau a mesurau gwyrddach y BBC	Targed/mesur erbyn 2022 (llinell sylfaen 2015/16)	Cynydd 2019/20 yn erbyn 2015/16
<b>CO<sub>2</sub>e</b> CO <sub>2</sub> e	Lleihau 24% <sup>1</sup>	Wedi lleihau 77%
 Ynni	Lleihau 10%	Wedi lleihau 1%
 Gwastraff	Lleihau 10%	Wedi lleihau 21%
	Ailgylchu 75%	Wedi ailgylchu 51%
	Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi	Gwastraff i safleoedd tirlenwi 12%
	Dim plastig defnydd untro erbyn 2020	Ar waith
 Rhaglenni	100% cyfrifiad albert 25% <sup>2</sup> o'r allbwn wedi'i ardystio gan albert	95% wedi'i gyfrifo 34% wedi'i ardystio 127 o raglenni

1 Mae'r targed i leihau CO<sub>2</sub>e yn dilyn methodoleg sy'n seiliedig ar wyddoniaeth sy'n mynd i'r afael ag allyriadau cwmpas 1 a 2 ac yn defnyddio dull dadgarboneiddio'r sector.  
2 Mae'r fethodoleg ar gyfer y targed hwn wedi'i diwygio yn 2019/20 er mwyn gwella cywirdeb.

Defnydd trydan y DU yn 2019/20 yn unol â chanllawiau adrodd SECR: 237,175 MWh. Defnydd nwy y DU yn 2019/20 yn unol â chanllawiau adrodd SECR: 74,461 MWh. Tanwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer trafnidiaeth yn 2019/20 yn unol â chanllawiau adrodd SECR: Diesel a phetrol a ddefnyddiwyd mewn ceir fflyd a cheir cwmni at ddibenion busnes: 746,622 o litrau; nid oes data ar gael ar danwydd a ddefnyddiwyd mewn ceir personol/hurio at ddibenion busnes. Mae'r data ar wastraff ar gyfer gwastraff y DU yn unig. Lle bo angen, oherwydd diffyg data, mae'r defnydd o ynni gan swyddfeydd rhyngwladol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyfartaleddau yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol.

Allyriadau nwyon tŷ gwyrdd 2019/20	Allyriadau 'gros'	Allyriadau 'net'
Allyriadau nwyon tŷ gwyrdd (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> e, cwmpas 1 a 2)	61,947	22,144
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO <sub>2</sub> e/cyfanswm incwm y grŵp £m)	12.5	4.5

Mae'r data ar nwyon tŷ gwyrdd ar gyfer safleoedd yn y DU a swyddfeydd rhyngwladol a reolir. Mae allyriadau 'gros' yn defnyddio ffactor cyfartalog grid ar sail lleoliad. Mae 'net' yn cyfrif am drydan adnewyddadwy a brynwyd yn y DU. Mae'r data wedi'u cynhyrchu yn unol â Safon Cyfrifyddu ac Adrodd Corfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwyrdd.

## Gwaith elusennol



*Mam yng ngogledd Zambia yn cael ei chyfweld ar gyfer rhaglen radio 'Natwampane' (Dod Ynghyd) BBC Media Action, sydd â'r nod o helpu i atal trais ar sail rhywedd yn y rhanbarth*

**Mae cynulleidfaoedd yn parhau i ymateb yn hael iawn i apelïadau elusennol a ddarlledir ar y BBC. Unwaith eto, mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu codi, arian y bydd unigolion, cymunedau a sefydliadau ledled y DU a'r byd yn elw arno. Mae ein cynulleidfaoedd yn cymryd rhan mewn pob math o ffyrdd creadigol.**

### Apelïadau a Ddarlledir gan y BBC

Ers 1923, mae'r BBC wedi cynnig amser ar yr awyr i elusennau. Mae hyn bellach yn digwydd drwy gyfrwng Apêl ar Radio 4 neu Apêl Lifeline ar BBC One. Mae proses gwneud cais chwarterol yn dewis 60 o elusennau bob blwyddyn sy'n ymwneud ag ystod eang o achosion. Gall cynulleidfaoedd ddarllen am effaith yr apelïadau hyn: [bbc.co.uk/charityappeals/what-your-money-does](http://bbc.co.uk/charityappeals/what-your-money-does). Llwyddodd Apêl Nadolig Radio 4 gydag eglwys St Martin-in-the-Fields i godi £4.2 miliwn, sef cynnydd o 21% ers y flwyddyn

flaenorol, er mwyn helpu pobl ddigartref yn The Connection at St Martin's a chynnig grantiau i bobl agored i niwed ledled y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, darlledwyd 11 o Apelïadau ar Radio Ulster a thair Apêl deledu Community Life. [bbc.co.uk/niappeals](http://bbc.co.uk/niappeals). Cododd BBC Radio Sheffield, ar y cyd â South Yorkshire Community Foundation, arian ar gyfer y rhai yr effeithiodd llifogydd mis Tachwedd arnynt.

### Plant mewn Angen y BBC

Ar hyn o bryd, mae Plant Mewn Angen y BBC yn ariannu tua 3,000 o brosiectau ac elusennau lleol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ddifreintiedig ledled y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, helpodd yr elusen i newid bywydau 600,000 o bobl ifanc. Ysbrydolodd y BBC niferoedd enfawr o bobl yn y DU i gefnogi Apêl Plant mewn Angen 2019, gan gynnwys dros dair miliwn o blant mewn tua 17,000 o ysgolion ledled y DU. Ymhlith rhaglenni

arbennig y BBC roedd Her Ricsio *The One Show*, *Countryfile Ramble*, *DIY SOS: The Big Build*, *Got It Covered*, yn ogystal â rhaglenni ar CBeebies a CBBC. Roedd ymdrechion codi arian Radio 2, gan gynnwys Her Carioci Rylan, yn uchafbwynt arall. Daeth y cyfan i ben mewn rhaglen Sioe Apêl fawreddog, a chodwyd cyfanswm o £47.8 miliwn erbyn diwedd y rhaglen. Am ragor o wybodaeth ewch i: [bbc.co.uk/Pudsey](http://bbc.co.uk/Pudsey)

### Comic Relief

Cafodd Sport Relief 2020 gefnogaeth ryfeddol gan bob rhan o'r gorfforaeth, yn cynnwys *The One Show*, *Catchpoint*, *Bargain Hunt*, *BBC Breakfast*, BBC Radio 1, her treiathlon arwrol BBC Radio 2 a *Beat Beethoven* BBC Radio 3. Ymgwymerodd tîm o enwogion dewr â thaith 100 milltir heriol dros bedwar diwrnod ar draws anialwch Namib fel rhan o raglen ddogfen *The Heat is On* y BBC. Yn ystod y noson hwyliog o deledu, gwelwyd enwogion yn dynwared sioeau poblogaidd yn cynnwys *Line of Duty* a *Killing Eve*. Darlledwyd ffilmiau apêl grymus i atgoffa'r gwylwyr o'r modd y mae eu rhoddion yn newid bywydau yn y DU a ledled y byd. Drwy gymorth y BBC, llwyddwyd i godi dros £40 miliwn ar y noson. Am ragor o wybodaeth ewch i: [comicrelief.com](http://comicrelief.com)

Daeth Plant mewn Angen a Comic Relief ynghyd ar gyfer The Big Night In, gan godi dros £70 miliwn (ar ddiwedd mis Ebrill) i helpu i gefnogi pobl agored i niwed o bob oed y mae argyfwng y coronafeirws wedi effeithio arnynt.

### Media Action

BBC Media Action yw elusen ryngwladol y BBC. Mae ei gwaith yn cefnogi cyfryngau annibynnol ar gyfer democratiaeth a datblygu, a ffyrdd creadigol o gyfathrebu sy'n helpu i achub bywydau, gwella iechyd, mynd i'r afael â chamwybodaeth a chreu cymunedau mwy heddychlon. Mae'n gweithio gyda mwy nag 20 o wledydd ac yn cyrraedd 84 miliwn o bobl bob blwyddyn.

Ymhlith y prosiectau y flwyddyn hon roedd ymateb brys byd-eang i bandemig y coronafeirws; cymorth a gydnabuwyd yn rhyngwladol ar gyfer ffoaduriaid Rohingya, a herio stigma ynghylch anableded yn Tanzania, Nigeria a Bangladesh.

Nid yw BBC Media Action yn cael ei hariannu gan ffi'r drwydded ac mae ei gwaith yn dibynnu ar gymorth hael rhoddwyr. Darllenwch fwy: [bbcmediaaction.org](http://bbcmediaaction.org)



# Partneriaethau a mentrau cydweithredol

**Mae gan y BBC ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er budd cenedlaethol. Yn 2019/20, roedd gan y BBC fwy na 350 o bartneriaethau, yn rhai bach a mawr, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi diwylliant ac economi greadigol y DU. Daeth partneriaethau o'r fath i'r amlwg yn ystod pandemig y coronafeirws. Dyma gipolwg arnynt.**

## Partneriaethau effaith yn ystod y pandemig

Ehangwyd Bitesize BBC Learning gyda chefnoogaeth mwy na 45 o bartneriaid i greu 14 wythnos ddigynsail o ddyddu yn y cartref i bob teulu, beth bynnag fo oedran y plentyn.

Daeth dwy brif elusen y BBC, Plant mewn Angen a Comic Relief, ynghyd am y tro cyntaf erioed i greu *The Big Night In*, a oedd wedi codi dros £70 miliwn erbyn diwedd mis Ebrill ar gyfer elusennau a phrosiectau lleol yn y DU.

Drwy ymuno â Global Citizen a Sefydliad Iechyd y Byd, yn ogystal ag enwogion o fyd cerddoriaeth gyfoes, helpodd y BBC i greu *One World: Together at Home*, sef teyrnged deimladwy i bob gweithiwr iechyd.

Aeth y BBC ati'n gyflym iawn i greu Culture in Quarantine gyda chefnoogaeth Arts Council England a llu o gyrff ariannu a chynhyrchu eraill, er mwyn cynnig llwyfan bywiog i'r celfyddydau yn ystod yr argyfwng.

Aeth menter Make a Difference Radio Lleol y BBC ati i gysylltu'r rhai anghennus â darparwyr ac asiantaethau: roedd mwy nag 1.1 miliwn o bobl wedi ymateb erbyn diwedd mis Mehefin 2020.

## Datblygu dysgu a sgiliau

Cefnogodd partneriaeth Academi'r BBC â'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd, a chynhaliwyd cyfres gynyddol o gyrsgiau mewn canolfannau yn Glasgow a Leeds i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau. Yn yr un modd, cynhaliwyd menter Dinasoedd Digidol yr Academi mewn nifer o leoliadau ledled y DU er mwyn cynnig cyfleoedd datblygu talent am ddim, gyda llu o bartneriaid yn y diwydiant.

Ailbennwyd ffocws ein perthynas hirsefydledig â'r Brifysgol Agored drwy gyflwyno mentrau newydd megis Our Planet Matters, sef prosiect pum mlynedd sy'n cyfuno rhaglennu nodedig ag ymgyrchoedd ysgolion a hyfforddiant galwedigaethol amgylcheddol.

## Diwylliant a'r economi greadigol

Y flwyddyn ddiwethaf, cafodd Ten Pieces, y pecyn addysg gerddorol poblogaidd i ysgolion, ei drawsnewid yn Ten Pieces Trailblazers, gan ofyn i fyfyrwyr ailystyried cerddoriaeth gerddorfaol ar gyfer y byd modern. Hefyd, daeth BBC Music Introducing Live ag 20,000 o bobl ifanc dan 30 oed ynghyd er mwyn helpu i hwyluso gyrfaedd yn y dyfodol ym myd cerddoriaeth a'r diwydiant creadigol.

O ran cerddoriaeth glasurol, partneriaethau cerddorfaol fu hanfod gweithgareddau cerddorol y BBC unwaith eto, gan gynnwys cynllun Music Exchange Undeb Darlledu Ewrop, a fu'n rhannu cyngherddau cerddoriaeth glasurol wedi'u recordio ledled Ewrop. Ymhlith y mentrau cydweithredol newydd roedd dau brosiect ar gyfer Radio 3, sef perthynas drawsatlantig â'r Amgueddfa Celf Fodern (MoMA) yn Efrog Newydd a New Generation Thinkers, wedi'i gefnogi gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Ym myd y celfyddydau ehangach, cydweithiodd Get Creative â phartneriaid ledled y DU – yn cynnwys gwyliau cenedlaethol newydd – i greu gŵyl naw diwrnod wych, gyda gweithgareddau yn amrywio o sesiynau dawns a throelli i baentio a chrochenwaith, a daeth Dance Passion â chwmnïau dawns blaenllaw ynghyd, yn cynnwys Birmingham Royal Ballet, Akram Khan ac ACE Youth, i greu 25 o ffrydiau byw yn dathlu ac yn archwilio dawns.

## Iechyd meddwl a llesiant

Cyflwynodd tymor Iechyd Meddwl arloesol y BBC ffigyrau adnabyddus fel Nadiya Hussain ac Alastair Campbell a'u straeon personol nhw eu hunain. Hefyd, cydweithiodd y BBC â'r Sefydliad Iechyd Meddwl, Public Health England a Mind i gydgyssylltu adnoddau a negeseuon i'r cyhoedd. O ganlyniad i'r tymor hwn a mentrau iechyd meddwl eraill yn 2019, cafodd Action Line 83,122 o alwadau ac ymweliadau ar-lein, sy'n nifer aruthrol. Iechyd meddwl a llesiant oedd thema Music Day hefyd, gan ddefnyddio cerddoriaeth i archwilio dementia a gweithio mewn partneriaeth â 100 o sefydliadau mawr yn y maes i gynnal dros 800 o ddigwyddiadau ledled y DU.

## Partneriaethau ledled y DU

Y flwyddyn hon, cafodd y diwydiant teledu ei atgyfnerthu yn y gwledydd drwy rym partneriaeth. Ymrwymodd

y BBC a Screen Scotland i ddarparu o leiaf dair drama deledu, tair rhaglen gomedi a thair cyfres ffeithiol o'r Alban bob blwyddyn. Yng Ngogledd Iwerddon, cychwynwyd ymgyrch newydd i bobl ifanc mewn cydweithrediad â BBC Three a Northern Ireland Screen. Ac yng Nghymru, dechreuodd y BBC gydweithio â Channel 4 ac S4C i greu canolfan gynhyrchu ddynamig ar gyfer gweithgarwch cynhyrchu rhaglenni ffeithiol, yn ogystal â pharhau ag It's My Shout, sef cynllun ffilmau byr bywiog ar gyfer talent newydd.

Gwnaethom barhau i gydweithio â llyfrgelloedd ym mhob un o wledydd y DU. Hefyd, ehangodd Archifau'r BBC ei bartneriaethau â'r sector, gan weithio gyda'r Llyfrgell Brydeinig, yr Archifau Gwladol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd a'r Amgueddfa Cyfryngau Genedlaethol ac eraill er mwyn galluogi pobl i gael gafael ar ein hystod eang o gynnwys archif.

## Partneriaethau a mentrau cydweithredol y BBC: cipolwg yn 2019/20

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif fentrau cydweithredol a phartneriaethau creadigol ar draws y BBC:


Maes y BBC	Nifer y partneriaethau/mentrau cydweithredol
Archif	19
Celfyddydau/Arts North	35
Academi (Birmingham)	10
Plant (Salford)	7
Cynnwys/Teledu	18
Dysgu (Salford)	70
Chwaraeon (Salford)	12
Newyddion	5
Cerddoriaeth	43
Radio	64
Ymchwil a Datblygu	46
Canolfannau Rhwydwaith Lloegr	15
Yr Alban	8
Cymru	16
Gogledd Iwerddon	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>374</b>

Mae'r data hyn yn cynnwys isadrannau sy'n gwneud rhaglenni, ymchwil a datblygu a hyfforddiant mewn canolfannau cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU. Nid ydynt yn cynnwys gweithgareddau gorsafoedd radio lleol unigol.

# Llywodraethu

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol.

*The Last Igloo ar BBC Four*



## t.70

### Bwrdd y BBC

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

## t.91

### Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor hwn yn adolygu ac yn goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

## t.74

### Adroddiad Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a roddwyd i aelodau Bwrdd y BBC, y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd Daliadau Masnachol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

## t.81

### Datgeliadau cyflogau

O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi enwau'r bobl hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu mwy na £150,000 o refeniw ffi'r drwydded.

## t.104

### Y Bwrdd Daliadau Masnachol

Y Bwrdd Daliadau Masnachol sy'n goruchwyllo gweithgareddau masnachol y BBC. Mae'n pennu strategaethau yn unol â nodau cwmni cyffredinol Grŵp y BBC, yn cytuno ar gynlluniau busnes ac yn sicrhau cydymffurfiaeth mewn materion reoleiddiol a chyfreithiol.

## t.105

### Canllawiau a Safonau Golygyddol

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol sy'n gyfrifol am safonau cynnwys yn y BBC.

# Bwrdd y BBC

## Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC, Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaethau'r BBC mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu'r cyfeiriad strategol i'r BBC ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Syr David Clementi ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Caiff y Cadeirydd a phedwar cyfarwyddwr anweithredol y gwledydd eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliad Gweinidogion. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard).

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, y Bwrdd Daliadau Masnachol a phwyllgorau ar gyfer pedair gwlad y DU.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ym mis Medi 2020.

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd Simon Burke o'r Bwrdd a phenodwyd Shirley Garrood yn gyfarwyddwr anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei le. Penodwyd Nicholas Serota yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol gan y Bwrdd. Ni fu unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd, yr Arglwydd Hall, ei fwriad i adael y BBC a phenodwyd Tim Davie yn ei le ar 1 Medi 2020.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau ar dudalen 90.



**Syr David Clementi**  
Cadeirydd



**Tim Davie CBE**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Olygydd



**Y Fonesig Elan Closs Stephens DBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod Cymru  
Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol



**Shirley Garrood**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



**Tanni Grey-Thompson, Y Fawnes Grey-Thompson DBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol



**Tom Iltis CBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg



**Ian Hargreaves CBE**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol



**Charlotte Moore**  
Prif Swyddog Cynnwys



**Steve Morrison**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod yr Alban



**Ken MacQuarrie**  
Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau



**Dr Ashley Steel**  
Cyfarwyddwr anweithredol  
Aelod Lloegr



**Syr Nicholas Serota CH**  
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth



**Francesca Unsworth**  
Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes

[Darllenwch fwy: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard](http://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard)



# Pwyllgor Gweithredol

**Er mwyn cefnogi a gweithredu gwaith y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.**

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaeodd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo materion Adnoddau Dynol a dylunio sefydliadol sy'n berthnasol i'r BBC cyfan. Mae hefyd yn trafod ac yn cymeradwyo'r holl bapurau perthnasol a drafodir gan y Bwrdd.

Ceir gwybodaeth am aelodaeth a threfniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2019/20 yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth ar dudalennau 74 i 80. Cyhoeddwyd aelodaeth newydd y Pwyllgor ym mis Medi 2020, ac mae'r manylion i'w gweld yn [bbc.com/aboutthebbc/whoarewe/exco](http://bbc.com/aboutthebbc/whoarewe/exco).

## Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 gyda'r nod o gynghori uwch-arweinwyr a sicrhau bod llais a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad, sydd fel arfer yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o 12-15 mis.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor gyngor ar syniadau a strategaethau presennol yn y sefydliad a heriodd y Bwrdd Gweithredol i fynd gam ymhellach a gweithio'n gyflymach i ailwampio iPlayer, comisiynu ar gyfer cynulleidfaeodd iau a chefnogi mentrau i ddenu staff newydd o gefndiroedd gwahanol. Canolbwyntiodd syniadau eraill ar arloesi yn y maes digidol ac atgyfnerthu'r ffocws ar gynulleidfaeodd iau yn yr allbwn Newyddion ac yn y cyfryngau cymdeithasol.

Hefyd, cymerodd y Pwyllgor ran mewn trafodaethau yn Uwch-gynhadledd Arweinyddiaeth y BBC a chyfrannodd at gyfarfodydd is-adrannol y Bwrdd ar gais.

## Aelodau Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Ar gyfer 2020	Ar gyfer 2019
Becca Bryers (Cadeirydd)	Hayley Reynolds (Cadeirydd)
Freya Bronwin	Sowda Ali
Malachi Butt-Mukete	William Allott
Aaron Cooper	Tom Bell
Beth Dinnall	Mairead Campbell
Jordan Dunbar	Sarah Corker
Emmanuella Kwenortey	Seren Jones
Lina Mar	Chinwe Kalu-Uma
Shannon McGowan	Junior Kassim
Louise Ogunnaike	Jordan Kenny
Madusha Pallawela	Luke Mason
Ahmed Razek	Waseem Punnu
Jacob Rickard	Jess Quayle
Ben Tattersall Smith	Owen Rawlings
Keely Watson	Ione Wells

## Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf 2020



# Adroddiad Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

## Rydym yn cydymffurfio ag arferion gorau llywodraethu corfforaethol

Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC wedi'i ddiffinio yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith ategol. Gellir darllen y Siarter a'r Cytundeb ar wefan y BBC yn: <https://www.bbc.com/aboutthebbc/governance/charter>.

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 ('y Cod'), lle y bo'n briodol. Mae hyn yn cyflwyno'r safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc a reoleiddir gan yr UE.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn cynnwys asesiad o berfformiad y Cadeirydd.]

Mae nifer o elfennau'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu y mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na nhw. Mae hyn yn gysylltiedig â'r canlynol:

- darpariaethau 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a gan gyd-fynd â'u diddordebau, nad ydynt yn gymwys o ystyried y ffaith nad oes gan y BBC rhanddeiliaid yn yr un modd â chwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae Dibenion Cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw.
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter
- darpariaethau 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â'r Cod.

## Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2019/20 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £17 miliwn (2018/19: £17 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi flynyddol y BBC i Ofcom, sef £10 miliwn.

## Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiad eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthycy a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion perthnasol y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

# Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth 2019/20

**Er y bu cryn dipyn o drafod o hyd ymysg y cyhoedd am arferion cyflog y BBC, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn falch o weld tystiolaeth glir a chadarn bod newidiadau diweddar a phrosesau newydd yn parhau i ymsefydlu'n effeithiol gan roi sylfaen gadarn i drefniadau cyflog a gwobrwyo'r BBC. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod heriau wrth i'r BBC geisio cydbwysu cyfyngiadau cyflog priodol â gofynion marchnadoedd creadigol a thechnolegol sy'n parhau i ehangu a datblygu'n gyflym, gan ddod yn gynyddol fyd-eang ar yr un pryd. Gwyddom hefyd y bydd y BBC yn gweithredu mewn marchnadoedd y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt yn sylweddol, gan gael effaith ar gyflogau a chymhellion hefyd.**

Y flwyddyn hon, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar drefniadau cyflog yn rhannau masnachol y Gorfforaeth, yn arbennig yn BBC Studios lle mae'r grymoedd marchnad cystadleuol hynny amlycaf. Rydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn parhau i gymell talent mewn ffordd sy'n cydnabod y gwaith a wneir gan yr unigolion hynny ond gan adlewyrchu, ar yr un pryd, y cyfyngiadau cynyddol ar gyflogau a ddisgwyllir ym mhob rhan o'r BBC yn gyffredinol. Y flwyddyn hon, rydym wedi goruchwyllo newidiadau i'r cynlluniau cymell perthnasol yn BBC Studios, gan geisio sicrhau bod y cyflogau a gynigir yn fwy cydnaws ag arferion y farchnad, ond gan gydnabod, ar yr un pryd, y disgownt effeithiol sy'n rhan annatod o weithio fel rhan o gorff cyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y cynlluniau hyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y cymhellion yn gydnaws â blaenoriaethau strategol BBC Studios a'r Grŵp ehangach a'u bod yn gystadleuol o fewn cyfyngiadau cyfansoddiad y BBC.

O ran elfen gwasanaeth cyhoeddus y BBC, rydym yn parhau i roi sylw gofalus i ddatblygu'r prosesau cyflog a gyflwynwyd yn ystod blynyddoedd diwethaf – fel y gwiriad cyflogau teg a'r Fframwaith Llwybrau Gyrfa. Mae'r prosesau hyn yn ceisio sicrhau y caiff cyflogau eu pennu'n briodol yn erbyn y farchnad a'u meincnodi'n fewnol mewn ffordd sy'n gyson, yn dryloyw ac yn deg. Rydym yn cydnabod bod achosion cyflog hanesyddol yn cael eu cyflwyno o hyd, sy'n anffodus, ac mae'n flaenoriaeth bwysig i'r Grŵp ymdrin â'r mater hwn. Fel Pwyllgor, rydym yn parhau o'r farn bod systemau cyflogau yn y BBC yn llawer mwy cadarn bellach ac y gallant ymdopi â chraffu o ran tegwch, tryloywder a chyflog cyfartal o ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2019/20, rydym wedi gwneud gwelliannau pellach o ran tryloywder drwy gyhoeddi siartiau dosbarthiadau cyflog newydd yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r BBC yw'r bwlch isaf yn y diwydiant o hyd, ac mae'n lleihau bob blwyddyn. Rydym yn sylweddol well na'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd, ac rydym yn cau ein bwlch yn gyflymach na chyfartaledd y diwydiant a'r DU. Gostyngwyd y bwlch canolrif y flwyddyn hon i 6.2% o ffigur y flwyddyn ddiwethaf, sef 6.7%, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.3%

ar hyn o bryd. Yn y rolau sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'n staff (Newyddiadurwr, Uwch-newyddiadurwr, Cynhyrchydd, Uwch-Newyddiadurwr-Gohebydd, Golygydd Cynorthwyol), mae ein bwlch yn llai na 3%.

Yn yr un modd, rydym wedi parhau i weithredu egwyddorion cyflogau teg y BBC a'r polisi ar gyflogau uwch-arweinwyr a nodwyd gennym yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf ac a gaiff ei ailddatgan ar dudalen 74. Yn 2019/20, parhaodd nifer yr uwch-arweinwyr i fod yn gyson, sef 253, gan gynrychioli 1.4% o gyfanswm y gweithlu. Mae bil cyflogau'r uwch-arweinwyr hyn wedi parhau'n gymharol gyson ar £37.5 miliwn. Ceir rhagor o fanylion am niferoedd staff cyffredinol ar dudalen 61 ac, yn ystod y flwyddyn hon, adolygodd y Pwyllgor dueddiadau o ran niferoedd staff dros amser, gan nodi'r meysydd lle y cafwyd ac y buddsoddiwyd mwy o adnoddau er mwyn cyflawni amcanion strategol y BBC, fel y cynllun i ehangu'r World Service drwy ddarparu gwasanaethau iaith ychwanegol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys datgeliad o wybodaeth am gyflogau ar gyfer y rheini a enillodd dros £150,000 o ffrî drwydded yn ystod y flwyddyn. Roeddem yn falch o weld cynnydd parhaus o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith yr enillwyr uchaf yn ystod y flwyddyn hon, gyda'r rhestr o gyflogion ar yr awyr bellach wedi'i rhannu'n 45% o fenywod a 55% o ddynion, i fyny o raniad 34%/66% ddwy flynedd yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o newidiadau staff ar lefel Weithredol wedi'u goruchwyllo gan y Pwyllgor. Rydym hefyd wedi treulio amser yn ystod y misoedd diwethaf yn ystyried data a chymharwyr y farchnad wrth bennu lefel gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd.

Cyfarfu'r Pwyllgor gyfanswm o bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chynnal busnes arall all-lein, ac rwy'n ddiolchgar i'n cyd-aelodau ar y Pwyllgor, Tanni Grey-Thompson a Steve Morrison, ac i David Clementi, am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ystyrlon a doeth yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom fwynhau cydweithio ag Elan Closs Stephens hefyd, fel Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol. Edrychaf ymlaen at ddatblygu'r gydbertynas honno y flwyddyn nesaf wrth i ni barhau i ystyried uwch-arweinwyr y BBC a gweithio gyda rheolwyr er mwyn sicrhau bod cyflogau yn y BBC yn parhau'n deg, yn dryloyw ac yn fater o ymddiriedaeth.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd cyfredol yn deillio o bandemig y coronafeirws ac fel rhan o'n gwaith ar gyfer 2020/21, byddwn yn ystyried yr effaith yn ofalus wrth wneud penderfyniadau ar gyflogau a chymhellion.

## Nicholas Serota

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth  
2 Medi 2020



# Adroddiad Cydnabyddiaeth

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blynyddyn ariannol 2019/20. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.**

Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sef archwilwyr statudol y BBC.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu strategaeth cydnabyddiaeth Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Tanni Grey-Thompson, Steve Morrison a Nicholas Serota. Bu Nicholas Serota yn cadeirio'r Pwyllgor ers 1 Awst 2018.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arferion y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asemiadau o'r farchnad, a chan PricewaterhouseCoopers LLP ar ddyfynio cymhellion ehangach mewn perthynas â'n his-gwmnïau masnachol.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch-reolwyr ym mis Medi 2012, ac mae'n gyfrifol am gysoni anghenion gweithredol y BBC o fewn y fframwaith strategol a bennir gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gydnabyddiaeth, iawndal neu bolisi buddiannau yn y polisi ar gyflogau uwch-arweinwyr, sy'n cynnwys adolygu a chymeradwyo cyflogau cyflogaion yn y Sector Cyhoeddus sy'n ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn).

## Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol

At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol.

O dan delerau'r Siarter, mae'r Bwrdd yn cynnwys deg cyfarwyddwr anweithredol (y Cadeirydd, pum penodai'r BBC a phedwar cynrychiolydd y Gwledydd) a phedwar aelod gweithredol – gweler tudalen 70 am ragor o fanylion. Nid yw'r aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi'i benodi eto.

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. Ceir gwybodaeth am lefelau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol ar dudalen 77. Yn ystod 2019/20, gwelwyd y newidiadau canlynol o ran aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol:

- Penodwyd Bob Shennan a Sarah Jones i'r Pwyllgor Gweithredol ar 8 Ebrill 2019 a 1 Mai 2019 yn y drefn honno.
- Ymddiswyddodd Valerie Hughes-D'Aeth fel Prif Swyddog Adnoddau Dynol gan roi'r gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ar 31 Hydref 2019. Penodwyd Wendy Aslett a Rachel Currie, sy'n rhannu rôl Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp, yn ei lle. Penodwyd y ddwy ohonynt i'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Tachwedd 2019.
- Ymunodd June Sarpong â'r BBC ym mis Tachwedd 2019 fel Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol ac mae'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol.

## Egwyddorion Cyflogau'r BBC

Parhawyd i roi ffocws ar gyflogau ar bob lefel yn y BBC, ynghyd â mwy o ffocws ar gyflog teg. Ymgwymerwyd â sawl menter er mwyn sicrhau bod ein Hegwyddorion Cyflogau Teg yn cael eu hymgorffori drwy'r sefydliad cyfan a rhoi fframwaith lle gwneir penderfyniadau teg a chyson ynghylch cyflogau.

1. Teg
2. Cyson
3. Tryloyw
4. Cystadleuol
5. Clir

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a thwf aruthrol ymhlith rhai cwmnïau newydd ym maes y cyfryngau, ffrydio a thechnoleg ddigidol sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Felly, rydym yn parhau i gydbwyso cyflogau cystadleuol yn y farchnad â'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffrif drwydded. Adlewyrchir y cydbwysedd hwn yn ein hystodau cyflog swydd a lywir gan y farchnad sydd, lle mae ffactorau allanol (y farchnad) yn eu cefnogi, yn parhau i fod yn is na'r farchnad.

Credwn y bydd yr Egwyddorion Cyflogau hyn yn sicrhau y gall y BBC barhau i apelio i bawb sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu cyhoeddus.

Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran Ein Pobl ar dudalen 60.

## Polisi cydnabyddiaeth uwch-arweinwyr

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffrif drwydded. Yn 2018, cytunodd y Pwyllgor y dylai egwyddorion cyflogau'r BBC fod yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr, ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yr egwyddorion cyflogau hyn yn gymwys fel y'u nodir yn y tabl ar y tudalennau canlynol.

Mae'r BBC wedi ymestyn ei Fframwaith Llwybrau Gyrfa a negodwyd â'r undebau i gynnwys band lefel gyrfa ychwanegol nas negodwyd â'r undebau, a elwir yn SL (uwch-arweinwyr). Mae hyn yn cynnwys ystodau cyflog swydd ar gyfer y swyddi uchaf. Wrth lunio polisi cyflogau'r BBC, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arfer gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran blynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a dim ond Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch-reolwyr all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch-arweinwyr, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch. Yn ystod 2019/20, parhaodd y BBC i roi'r dull gweithredu hwn ar waith mewn perthynas â chyflogau uwch-arweinwyr.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Y ffordd y mae'n gweithredu	Y cyfle mwyaf
<b>Cyflog sylfaenol</b>	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu cydnabyddiaeth dipyn yn is na'r farchnad gan na chynigir unrhyw gymhellion hirdymor yn y BBC.</p> <p>Ar gyfer uwch-arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd eu llywio gan gyfanswm arian parod (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) targed canolrifol y farchnad sy'n llywio penderfyniadau ar gyflogau.</p> <p>Ni thelir unrhyw uwch-arweinydd yn is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer ei rôl, ac mae ystodau cyflog yn dryloyw i'r uwch-arweinwyr a gweithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel cyflog sylfaenol cyfarwyddwr gweithredol neu uwch-arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Graddfa a chymhlethdod y rôl</li> <li>— Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau</li> <li>— Perfformiad a chyfraniad</li> <li>— Ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd</li> </ul> <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle bo unigolion uwchlaw uchafswm eu hystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd eu cyflogau yn cynyddu ymhellach.</p>
<b>Tâl amrywiadwy</b>	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a rhai uwch-arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffr'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni targed cyffredinol sy'n seiliedig ar gymysgedd o brif elw a llif arian eu busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2019/20, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant fonws targed o 40% ac uchafswm o 50%.</p>
<b>Buddiannau – Pensiwn</b>	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.</p>
<b>Buddiannau – Trafnidiaeth/teithio</b>	<p>Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Dilëwyd budd y lwfans car i uwch-arweinwyr yn 2012 i staff newydd sy'n ymuno.</p>	<p>Mae David Jordan yn cael lwfans car etifeddol; ni chaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol arall lwfans o'r fath.</p> <p>Mae rhai uwch-arweinwyr hefyd yn parhau i gael lwfans car etifeddol.</p> <p>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae'r Cadeirydd yn dilyn yr un trefniadau.</p>	<p>Nid oes unrhyw uchafswm penodedig gan mai budd hanesyddol ydyw, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.</p>
<b>Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat</b>	<p>Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.</p>	<p>Mae pob cyfarwyddwr gweithredol bellach yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.</p>	<p>Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol.</p> <p>Budd hanesyddol yw hwn.</p>



Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Y ffordd y mae'n gweithredu	Y cyfle mwyaf
<b>Contractau cyflogaeth a diswyddo</b>	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis o gyflog y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
<b>Cydnabyddiaeth arall</b>	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

**Pensiwn**

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogaeth o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogaeth rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogaeth o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogaeth 5% o enillion cymwys i NEST yn 2019/20 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogaeth eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn [bbc.co.uk/mypension/](http://bbc.co.uk/mypension/).

Cynllun	Cynllun Pensiwn y BBC – buddiannau diffiniedig				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
<b>Dyddiad y'i caewyd</b>	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
<b>Croniad</b>	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is.	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2019/20)
<b>Cyflog</b>	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa		
<b>Oedran pensiynadwy arferol</b>	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
<b>Cap ar enillion</b>	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989 heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £166,200	Wedi'i gapio ar £166,200	Wedi'i gapio ar £166,200	Wedi'i gapio ar £154,800	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,136 yf. Uchafswm enillion £50,000 yf. (2019/20)
<b>Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwysu</b>	Wedi'i gyfyngu i 1% yf.	Wedi'i gyfyngu i 1% yf.	Wedi'i gyfyngu i 1% yf.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
<b>Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)</b>	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 5%	5% o enillion cymwys (2019/20)

**Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd**

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2019/20. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gyntaf ar 3 Ebrill 2017 fel rhan o'r broses o weithredu Siarter a Chytundeb 2016, a amlinellodd drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y BBC.



Ceir manylion cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 70. Mae pob Cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at ei ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl isod. Dangosir pob ffi ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

### Bwrdd y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol	Buddiannau trethadwy <sup>1</sup>	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol</b>								
David Clementi <sup>2</sup>	16/02/2017	16/02/2021	2019/20 2018/19	£100 £100	£16 £13	£0 £0	£0 £0	£116 £113
Simon Burke <sup>3</sup>	03/04/2017	03/07/2019	2019/20 2018/19	£13 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£13 £38
Shirley Garrod <sup>3</sup>	03/07/2019	02/07/2023	2019/20 2018/19	£28 -	£0 -	£0 -	£0 -	£28 £0
Tanni Grey-Thompson	03/04/2017	02/04/2021	2019/20 2018/19	£33 £33	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£33 £33
Ian Hargreaves	03/04/2020	02/04/2023	2019/20 2018/19	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Tom Ilube	03/04/2020	02/04/2023	2019/20 2018/19	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Steve Morrison <sup>4</sup>	03/04/2017	02/04/2021	2019/20 2018/19	£38 £40	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £40
Nicholas Serota <sup>4</sup>	03/04/2017	02/04/2021	2019/20 2018/19	£38 £36	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £36
Ashley Steel	03/04/2017	01/12/2020	2019/20 2018/19	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Elan Closs Stephens <sup>4</sup>	20/07/2017	19/07/2020	2019/20 2018/19	£43 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£43 £38
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol</b>			2019/20 2018/19	£407 £399	£16 £13	£0 £0	£0 £0	£423 £412
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>								
Tony Hall <sup>2</sup>	03/04/2017	31/08/2020 <sup>5</sup>	2019/20 2018/19	£450 £450	£21 £25	£0 £0	£0 £0	£471 £475
Anne Bulford <sup>6</sup>	03/04/2017	31/03/2019	2019/20 2018/19	£0 £435	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £435
Tim Davie <sup>7</sup>	03/04/2017	31/08/2020 <sup>5</sup>	2019/20 2018/19	£400 £400	£2 £2	£40 £40	£200 £200	£642 £642
Ken MacQuarrie	03/04/2017	02/04/2021	2019/20 2018/19	£325 £325	£3 £2	£0 £0	£0 £0	£328 £327
Fran Unsworth <sup>6</sup>	01/04/2019	31/03/2021	2019/20 2018/19	£340 -	£2 -	£0 -	£0 -	£342 £0
<b>Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol</b>			2019/20 2018/19	£1,515 £1,610	£28 £29	£40 £40	£200 £200	£1,783 £1,879
<b>Cyfanswm y Bwrdd</b>			2019/20 2018/19	£1,922 £2,009	£44 £42	£40 £40	£200 £200	£2,206 £2,291

1 Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill.

2 Mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Yn ystod 2018/19 a 2019/20, roedd car a gyrrwr y Cadeirydd hefyd ar gael i bob cyfarwyddwr gweithredol arall ar sail ranedig.

3 Rhoddodd Simon Burke y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2019. Ymunodd Shirley Garrod â'r Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2019 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2018/19.

4 Cadeiriodd Steve Morrison y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor yr Alban yn ystod 2018/19, gan gael ffioedd ychwanegol fel Cadeirydd mewn perthynas â'r ddwy swydd hyn. Rhoddodd y gorau i fod yn Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 31 Gorffennaf 2018. Dangosir y ffioedd ar gyfer 2018/19 ar sail pro-rata. Penodwyd Nicholas Serota yn Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 1 Awst 2018. Dangosir y ffioedd ar gyfer 2018/19 ar sail pro-rata. Penodwyd Elan Closs Stephens yn Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol o 1 Ebrill 2019. Felly, yn 2019/20, cafodd ffioedd ychwanegol fel Cadeirydd mewn perthynas â'r swydd hon a'i swydd bresennol fel Cadeirydd Pwyllgor Cymru.

5 Mae rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn swydd barhaol ar y Bwrdd. Yn dilyn y cyhoeddiad yn mis Ionawr 2020, rhoddodd Tony Hall y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ar 31 Awst 2020. Penodwyd Tim Davie yn Gyfarwyddwr Cyffredinol newydd o 1 Medi 2020. Felly, daeth ei dymor blaenorol ar y Bwrdd fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios i ben ar 31 Awst 2020 a daeth yn aelod parhaol o'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 1 Medi 2020.

6 Rhoddodd Anne Bulford y gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2019, felly ni chofnodir unrhyw ffigurau ar gyfer cyfnod 2019/20. Penodwyd Fran Unsworth yn aelod o'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2019, felly ni chofnodir unrhyw ffigurau ar gyfer cyfnod 2018/19.

7 Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn gyfan gwbl gan reffeni masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae'r gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn ymwneud â'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn.



## Adroddiad cydnabyddiaeth

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2019/20, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a ddangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig. Er mwyn cael y symiau blynyddol llawn, cyfeiriwch at yr adran Datgeliadau ar dudalen 85.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer 2019/20 wedi cynyddu ers 2018/19, oherwydd y cynnydd yn nifer yr aelodau ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (18 o aelodau ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â 15 o aelodau yn 2018/19).

### Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn <sup>1</sup>	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tony Hall	02/04/2013	2019/20 2018/19	£450 £450	£21 £25	£0 £0	£0 £0	£471 £475
Tim Davie <sup>2</sup>	01/11/2012	2019/20 2018/19	£400 £400	£2 £2	£40 £40	£200 £200	£642 £642
Ken MacQuarrie	22/09/2016	2019/20 2018/19	£325 £325	£3 £2	£0 £0	£0 £0	£328 £327
Fran Unsworth	01/01/2018	2019/20 2018/19	£340 £340	£2 £2	£0 £0	£0 £0	£342 £342
Wendy Aslett <sup>3</sup>	01/11/2019	2019/20 2018/19	£63 -	£1 -	£8 -	£0 -	£72 £0
Kerris Bright <sup>4</sup>	18/06/2018	2019/20 2018/19	£360 £283	£0 £0	£6 £0	£0 £0	£366 £283
Rachel Currie <sup>3</sup>	01/11/2019	2019/20 2018/19	£63 -	£1 -	£3 -	£0 -	£67 £0
Valerie Hughes-D'Aeth <sup>5</sup>	01/08/2014	2019/20 2018/19	£200 £310	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£200 £310
Glyn Isherwood <sup>4</sup>	09/04/2018	2019/20 2018/19	£335 £318	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£335 £318
Sarah Jones <sup>3</sup>	01/05/2019	2019/20 2018/19	£255 -	£2 -	£0 -	£0 -	£257 £0
David Jordan	01/04/2018	2019/20 2018/19	£178 £171	£3 £8	£0 £0	£0 £0	£181 £179
Charlotte Moore	06/07/2016	2019/20 2018/19	£370 £370	£2 £2	£29 £32	£0 £0	£401 £404
Matthew Postgate	01/04/2016	2019/20 2018/19	£317 £310	£0 £0	£30 £31	£0 £0	£347 £341
James Purnell	19/03/2013	2019/20 2018/19	£315 £315	£0 £0	£32 £3	£0 £0	£347 £318
Gautam Rangarajan <sup>4</sup>	01/06/2018	2019/20 2018/19	£181 £146	£1 £1	£40 £26	£0 £0	£222 £173
June Sarpong <sup>6</sup>	01/11/2019	2019/20 2018/19	£75 -	£0 -	£0 -	£0 -	£75 £0
Bob Shennan <sup>3</sup>	08/04/2019	2019/20 2018/19	£303 -	£2 -	£33 -	£0 -	£338 £0
John Shield	01/04/2018	2019/20 2018/19	£220 £218	£0 £0	£1 £1	£0 £0	£221 £219
Clare Sumner	01/04/2018	2019/20 2018/19	£175 £170	£0 £0	£18 £17	£0 £0	£193 £187
Cydnabyddiaeth sy'n ymwneud â chyn-aelodau'r Pwyllgor Gweithredol <sup>7</sup>		2018/19	£435	£0	£0	£0	£435
<b>Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol</b>		2019/20 2018/19	<b>£4,925</b> £4,561	<b>£40</b> £42	<b>£240</b> £150	<b>£200</b> £200	<b>£5,405</b> £4,953

<sup>1</sup> Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogeion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig.

<sup>2</sup> Ariennir swydd Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn gyfan gwbl gan refferiw masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu. Teir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

- 3 Ymunodd Bob Shennan â'r Pwyllgor Gweithredol ar 8 Ebrill 2019. Ymunodd Sarah Jones â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Mai 2019. Penodwyd Wendy Aslett a Rachel Currie yn Gydgyfarwyddwyr Adnoddau Dynol y Grŵp gan ymuno â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Tachwedd 2019. Felly ni nodir unrhyw ffigurau ar gyfer cyfnod 2018/19.
- 4 Ymunodd Kerris Bright, Glyn Isherwood a Gautam Rangarajan â'r Pwyllgor Gweithredol ar 18 Mehefin 2018, 9 Ebrill 2018 a 1 Mehefin 2018 yn y drefn honno. Mae'r ffigurau a ddangosir ar gyfer 2018/19 ar sail pro-rata.
- 5 Gadawodd Valerie Hughes-D'Aeth y BBC ar 31 Hydref 2019.
- 6 Ymunodd June Sarpong â'r BBC ac fe'i penodwyd i'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Tachwedd 2019 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2018/19. Mae'n gweithio'n rhan-amser fel yr adlewyrchir yn y ffigur cyflog sylfaenol a ddatgelir.
- 7 Mae'r gydnabyddiaeth yn ymwneud ag Anne Bulford, a roddodd y gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19.

### Cyfanswm cydnabyddiaeth – Y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiliedig)

Bu cynnydd yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth flynyddol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn 2019/20, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn 2019/20 i 18 o aelodau (15 cyn hynny yn 2018/19).

Cyfanswm cydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000au)	2019/20	2018/19
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	<b>£5,405</b>	£4,953
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	<b>£423</b>	£412
<b>Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol</b>	<b>£5,828</b>	£5,365

### Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd) (archwiliedig)

	Oedran ar 31 Mawrth 2020	Adran	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2020 (neu ymddeol/gadael y Bwrdd os yw'n gynharach)	Pensiwn a gronwyd ar 1 Ebrill 2019 (neu ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau BD cyfarwyddwr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2019/20	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
Tim Davie	52	CAB 2011	21	18	9	40
Wendy Aslett	58	CAB 2011	19	18	4	8
Charlotte Moore	51	Buddiannau newydd	34	31	11	29
Matthew Postgate	45	Buddiannau newydd	38	35	12	30
Gautam Rangarajan	48	CAB 2011	20	17	9	40
Bob Shennan	58	CAB 2011	21	18	9	33

#### Nodiadau:

Mae Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Buddiannau Newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw.

Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Mae Wendy Aslett yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Hen Fuddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw.

Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Matthew Postgate â'r BBC ar 1 Mehefin 2005. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Mae Gautam Rangarajan yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiriedig yn yr adran Hen Fuddiannau ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ailymunodd Bob Shennan â'r BBC ym mis Chwefror 2009 ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr gweithredol ar 8 Ebrill 2019. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol. Mae'n aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Rhagfyr 2011 a throsglwyddodd ei fuddiannau blaenorol allan.

Mae'r pensiwn cronedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

### Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan

Yn 2011, cytunodd y BBC o'i wirfodd i nodi lluosrif yr enillion uchaf o'i gymharu â'r enillion gwasanaeth cyhoeddus canolrifol fel y cynigiwyd yn adroddiad Hutton, sef 'Fair Pay in the Public Sector'. Ers 2011, mae'r BBC wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol o'u cymharu ag enillion canolrifol staff y BBC ac enillion cyfarwyddwyr gweithredol o'u cymharu â ffigurau enillion canolrifol ers 2011. Mae'r grŵp sampl ar gyfer grŵp y cyfarwyddwyr gweithredol wedi newid ers 2018/19 yn sgil ehangu aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2019/20.

Mae canolrif staff y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi newid o 10.2 i 9.9 yn 2019/20.

	2020	2019	2018	2017	2016	2015	2014	2013	2012	2011
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	<b>9.9</b>	10.2	10.7	10.2	10.4	10.7	10.9	11	16.5	16.8
Enillion canolrifol y cyfarwyddwyr gweithredol	<b>6.9</b>	7.0	7.7	7.7	8.19	8.2	8.2	8.1	8.7	8.9

#### Nodiadau:

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyflog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr gweithredol.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys rolau ariennir yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC, fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2019/20 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Ni fu unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2019/20.



## Adroddiad cydnabyddiaeth

	2019/20 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2018/19
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	<b>£450</b>	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	<b>£45.5</b>	3.4%

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y rheoliadau adrodd newydd sy'n gymwys i gwmnïau rhestrredig mawr, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi gwybodaeth am y cymarebau rhwng cyflog Prif Swyddogion Gweithredol a chyflog cyfartalog aelodau o staff. Er mwyn adrodd mewn ffordd gyson ac o ystyried ein bod wedi penodi Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yn ystod 2020/21, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu'r dull o gyfrifo cyflogau cymharol ar draws y BBC gan anelu at gyhoeddi ffigurau y flwyddyn nesaf sy'n seiliedig ar ofynion y rheoliadau newydd.

**Taliadau diswyddo**

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

**Buddiannau allanol**

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

**Busnesau masnachol y BBC**

Yn ystod 2019/20, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan dri phrif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios
- BBC Studioworks
- BBC Global News

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refferiw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalu drwy ffi'r drwydded.

**Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwylio'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro. Roedd cynllun 2019/20 yn seiliedig ar ddau fesur ariannol allweddol ac amcanion personol fel a ganlyn:

- EBITDA, pwysoliad o 50% (66.6% o'r elfen ariannol);
- llif arian parod rhydd, pwysoliad o 25% (33.3% o'r elfen ariannol);
- amcanion personol unigol, pwysoliad o 25%.

Pennir targedau er mwyn sicrhau bod strategaeth fusnes hirdymor BBC Studios yn cael ei chyflawni, ac ar gyfer 2019/20 roeddent yn cynnwys 7.5% o dwf (EBITDA) a 5% o dwf (llif arian parod) fel targed, a 21% o dwf (ar gyfer y ddau fesur ariannol) fel uchafswm.

Nodir y targedau yn y tabl isod (nodir pob ffigur mewn £ miliynau).

	Trothwy	Targed	Uchafswm
EBITDA	£153.5	£165.0	£185.4
Llif arian parod rhydd	£48.1	£50.5	£58.1

Mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i uwch-rolau mewn meysydd masnachol allweddol, gyda chanrannau trothwy, targed ac uchafswm yn cael eu pennu yn ôl gradd. Ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios, mae cyflawni'r targedau uchod yn arwain at y taliadau unigol canlynol, yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac yn amodol ar ei gymeradwyaeth:

	Trothwy	Targed	Uchafswm
Bonws fel % o'r cyflog	16%	40%	50%

**Canlyniadau 2019/20**

Ar gyfer 2019/20, asesodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth alldro bonws BBC Studios yn erbyn y targedau a nodir uchod. Rhagorodd BBC Studios ar y targedau ar gyfer EBITDA a llif arian parod rhydd yn 2019/20. Arweiniodd hyn at daliad bonws o 50% (£200,000) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn.

# Datgeliadau cyflogau

## Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol

Ar y tudalennau canlynol, rhown fanylion yr unigolion hynny a gafodd fwy na £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn. O dan y Siarter, mae'n ofynnol i ni ond cyhoeddi'r symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed gan unigolion ar yr awyr am y gydnabyddiaeth a gawsant.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ragamcanu sut roeddem yn disgwyl i'r rhestr edrych y flwyddyn hon. Rydym bellach wedi cyflawni'r rhaniad rhagamcanol o 55:45 rhwng cyflogeion ar yr awyr gwrywaidd a benywaidd, sef gwelliant pellach sylweddol a ddangosir yn y rhestrau isod. Mae hyn yn welliant enfawr o gymharu â'r rhaniad o 76:24 pan adroddwyd ar hyn am y tro cyntaf yn 2016/17, ac yn welliant pellach o gymharu â'r rhaniad o 60:40 a nodwyd gennym yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y menywod ymhlith y 10 enillydd mwyaf wedi cynyddu i bedair, o gymharu â dim dair blynedd yn ôl, ac mae deg o fenywod ymhlith y 25 o enillwyr mwyaf erbyn hyn. Mae nifer y dynion sy'n ennill dros £500,000 wedi lleihau o dri i ddau, ac mae amrywiaeth y cyflogeion yn y rhestr wedi aros ar yr un lefel â'r hyn a ragamacanwyd yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf.

O un flwyddyn i'r llall, rydym wedi dangos y gallwn gyflawni ein rhagamcanion ar gyfer gwella a datblygu'r rhestr, ac rydym yn agosáu at raniad o 50:50 rhwng y rhywiau ac yn gweld cynnydd yn nifer y menywod ar frig y rhestr. Rydym yn disgwyl i'r duedd hon barhau, ond nid ydym wedi darparu rhagamcan ar gyfer 2020/21 gan fod y coronafeirws wedi gwneud yr amgylchedd cynhyrchu'n anwadal iawn ac, o ganlyniad i hynny, mae'n anodd rhagweld faint o waith fydd mewn nifer o feysydd, yn enwedig Chwaraeon.

Mae'n werth nodi hefyd ein bod yn dal i weithredu mewn marchnadoedd talent cystadleuol tu hwnt, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, gyda lefelau chwyddiant cyflogau yn aml ymhell uwchlaw'r lefel gyfartalog ar gyfer economi'r DU. Mae'r pwysau hyn, ynghyd â'r pwynt mynediad sefydlog o £150,000 ar y rhestrau, yn awgrymu y bydd mwy o unigolion yn ymddangos ar y rhestrau hyn dros amser. Pe byddai'r trothwy ar gyfer cynnwys unigolyn ar y rhestr yn gysylltiedig â chwyddiant, byddem yn disgwyl i'r niferoedd ar y rhestr fod yn gymharol wastad. Serch hynny, fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i fonitro cyfanswm bil cyflogau uwch-arweinwyr ac unigolion ar yr awyr a cheisio ei leihau yn gyffredinol.

## Tablau cyflog talent ar yr awyr

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC, gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o reffeniw ffi'r drwydded a wnaed i unigolion o dan gontract am wasanaethau. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r 10 agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

Datgeliadau cyflogau

**Tablau manwl ar gyfer cyflog talent ar yr awyrr**

Prifraglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflogau
<b>Newyddion a Materion Cyfoes</b>			
<i>Today</i>	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 40 pennod o <i>Political Thinking Panorama</i> ar Brexit Rhaglenni Etholiad Arbennig	£295,000 – £299,999
	Mishal Husain	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One 12 pennod o <i>From Our Home Correspondent</i>	£265,000 – £269,999
	Martha Kearney	Tua 140 o raglenni Rhaglen ddogfen ar Radio 4	£255,000 – £259,999
	Justin Webb	Tua 140 o raglenni	£250,000 – £254,999
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 10 pennod o <i>HARDtalk</i>	£250,000 – £254,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£275,000 – £279,999
<i>BBC News at Six</i> a <i>BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One a sianel BBC News Rhaglenni Noson Etholiad a Newyddion Arbennig	£465,000 – £469,999
	George Alagiah	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£325,000 – £329,999
	Sophie Raworth	c.180 presentation days for BBC One Rhaglen Etholiad	£275,000 – £279,999
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o <i>Question Time</i> Tua 50 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£450,000 – £454,999
<i>The Andrew Marr Show</i>	Andrew Marr	Tua 40 o raglenni Tua 20 o benodau o <i>Start the Week</i> Rhaglenni dogfen ar gyfer BBC One a Noson Etholiad	£360,000 – £364,999
<i>The Andrew Neil Show</i>	Andrew Neil	<i>The Andrew Neil Show, Politics Live</i> a <i>This Week</i> Rhaglenni Etholiad Arbennig a Noson Etholiad	£170,000 – £174,999
<i>Newsnight</i>	Emily Maitlis	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i> Rhaglenni dogfen a Rhaglen Etholiad	£370,000 – £374,999
	Kirsty Wark	Tua 80 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer <i>Newsnight</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Start the Week</i> a <i>Talking Books</i>	£215,000 – £219,999
<i>Victoria Derbyshire</i>	Victoria Derbyshire	Prif gyflwynydd ar <i>Victoria Derbyshire</i>	£215,000 – £219,999
<i>Westminster Hour</i>	Carolyn Quinn	Prif gyflwynydd ar <i>Westminster Hour</i> a chyflenwi ar PM	£150,000 – £154,999
<i>Sianel BBC News</i>	Clive Myrie	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£215,000 – £219,999
	Reeta Chakrabarti	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad Noson Etholiad	£180,000 – £184,999
	Ben Brown	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£165,000 – £169,999
	Simon McCoy	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£160,000 – £164,999
	Carrie Gracie	Sianel BBC News a gwaith ar leoliad	£155,000 – £159,999
	Jane Hill	Sianel BBC News, BBC One a gwaith ar leoliad	£150,000 – £154,999
	Joanna Gosling	Sianel BBC News a BBC One Cyflwynydd ar <i>Victoria Derbyshire</i>	
<i>BBC Breakfast</i>	Louise Minchin	Tua 180 o raglenni <i>Triathlon: World Series</i>	£215,000 – £219,999
	Naga Munchetty	Tua 180 o raglenni a chyflenwi ar <i>The Media Show</i>	£195,000 – £199,999
	Charlie Stayt	Tua 180 o raglenni	£190,000 – £194,999



Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflogau
Golygyddion a gohebwy'r ar yr awy'r	Laura Kuenssberg	Golygydd Gwleidyddol a Noson Etholiad Dwy raglen ddogfen ar BBC Two	£290,000 – £294,999
	Jon Sopel	Golygydd Gogledd America Cyflenwi ar <i>Today</i> BBC Radio 4	£235,000 – £239,999
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£220,000 – £224,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop	£210,000 – £214,999
	Amol Rajan	Golygydd y Cyfryngau Tua 40 o benodau o <i>The Media Show</i> Cyflenwi ar BBC Radio 2, <i>Start the Week</i> Rhaglenni dogfen Teledu'r BBC	£205,000 – £209,999
	Fergal Keane	Golygydd Affrica, rhaglenni dogfen Radio 4 a'r World Service	
	Simon Jack	Golygydd Busnes a chyflenwi ar <i>Today</i> BBC Radio 4	£190,000 – £194,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£185,000 – £189,999
	James Naughtie	Cyflwynydd a Gohebydd	£170,000 – £174,999
	John Pienaar	Dirprwy Olygydd Gwleidyddol a <i>Pienaar's Politics</i> Un bennod o <i>Panorama</i>	£165,000 – £169,999
	Orla Guerin	Gohebydd Rhyngwladol	£160,000 – £164,999
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd	£155,000 – £159,999
<b>Radio</b>			
BBC Radio 1	Scott Mills	Tua 210 o benodau o <i>The Scott Mills Show</i> Tua 20 o benodau o <i>The Scott Mills and Chris Stark Show</i> ar Radio 5 live	£345,000 – £349,999
	Greg James	Tua 180 o benodau o Raglen Frecwast Radio 1 <i>Teen Awards</i> a <i>Big Weekend</i> Radio 1 <i>Rewinder</i> ar Radio 4	£275,000 – £279,999
	Nick Grimshaw	Tua 190 o benodau o Raglen Amser Gyrru Radio 1 <i>Radio 1's Big Weekend</i>	£240,000 – £244,999
	Annie Mac	Tua 220 o benodau o <i>The Annie Mac Show</i> <i>Radio 1's Big Weekend</i>	£170,000 – £174,999
	Clara Amfo	Tua 190 o benodau o Raglen Canol Bore Radio 1 <i>Radio 1's Big Weekend</i>	£155,000 – £159,999
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 210 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i>	£1,360,000 – £1,364,999
	Steve Wright	Tua 220 o benodau o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> Tua 50 o benodau o <i>Steve Wright's Sunday Love Songs</i>	£475,000 – £479,999
	Ken Bruce	Rhaglen Canol Bore Radio 2 <i>Eurovision Song Contest</i> <i>Radio 2 Live in Hyde Park</i>	£385,000 – £389,999
	Jeremy Vine	Rhaglen ddyddiol ar Radio 2 Rhaglen Etholiad	£320,000 – £324,999
	Jo Whiley	Tua 180 o benodau o Raglen Gyda'r Nos Radio 2	£280,000 – £284,999
	Sara Cox	Tua 230 o benodau o Raglen Amser Gyrru Radio 2 <i>Radio 2 Live in Hyde Park</i>	£275,000 – £279,999
	Trevor Nelson	Tua 180 o benodau o <i>Rhythm Nation</i> Tua 50 o Raglenni ar y Penwythnos ar 1Xtra	£220,000 – £224,999

Datgeliadau cyflogau

Prifraglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflogau
BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast 5 live Tua 200 o benodau o <i>Your Call</i>	£300,000 – £304,999
	Emma Barnett	Tua 180 o benodau o <i>The Emma Barnett Show</i> Tua 20 o benodau o <i>Newsnight</i> Gwaith etholiad	£260,000 – £264,999
	Rachel Burden	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast 5 live Cyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> a <i>Your Call</i>	£175,000 – £179,999
	Nihal Arthanayake	Tua 190 o benodau o Raglen Prynawn Cynnar 5 live Tua 40 o benodau o <i>The Big Debate</i> ar Asian Network	£170,000 – £174,999
	Adrian Chiles	Tua 40 o benodau o <i>Chiles on Friday</i> Tua 40 o benodau o <i>Question Time Extra Time</i> Tua 20 o sioeau eraill ar 5 live	£155,000 – £159,999
BBC 6 Music	Lauren Laverne	Tua 210 o benodau o Raglen Frecwast 6 Music Tua 40 o benodau o <i>6 Music Recommend</i> Tua 30 o benodau o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4 Gwobr Gerddoriaeth Mercury	£395,000 – £399,999
	Shaun Keaveny	Tua 210 o benodau o Raglen Prynawn Cynnar 6 Music	£160,000 – £164,999
	Mary Anne Hobbs	Tua 230 o benodau o Raglen Canol Bore 6 Music Tua 50 o benodau o <i>6 Music Recommends</i>	£150,000 – £154,999
	Steve Lamacq	Tua 230 o benodau o Raglen Brynhawn 6 Music Tua 50 o benodau o <i>6 Music Recommends</i>	
Gorsafoedd gwahanol	Vanessa Feltz	Tua 200 o benodau o Raglen Frecwast Gynnar ar Radio 2 Tua 220 o benodau o Raglen Frecwast Radio London Cyflenwi ar gyfer Radio 2	£405,000 – £409,999
	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC One (Gogledd Iwerddon) <i>The Stephen Nolan Show</i> ar 5 live	£390,000 – £394,999
<b>Chwaraeon</b>			
Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day: Premier League</i> ac <i>FA Cup</i> <i>Sports Personality of the Year</i>	£1,750,000 – £1,754,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day: Premier League</i> ac <i>FA Cup</i>	£390,000 – £394,999
	Jermaine Jenas	<i>Match of the Day: Premier League</i> ac <i>FA Cup</i> <i>MOTDx</i> a <i>Friday Football Social</i>	£200,000 – £204,999
Criced	Jonathan Agnew	Cyfresi prawf rhyngwladol, undydd ac Ugain Pelawd Gohebydd Criced y BBC	£170,000 – £174,999
Tenis	Sue Barker	Wimbledon, Queen's, Twrnamaint Agored Awstralia Rowndiau Terfynol Taith y Byd yr ATP Rhaglenni dogfen y BBC	£200,000 – £204,999
	John McEnroe	Wimbledon Rhaglenni dogfen y BBC	£195,000 – £199,999
Gwahanol gampau	Mark Chapman	Tair pennod o 5 live Sport yr wythnos Uchafbwyntiau wythnosol o'r Uwch-gynghrair Rygbîr Gynghrair a'r NFL	£245,000 – £249,999
	Gabby Logan	Athletau <i>Premier League Show</i> a Chwpan y Byd y Menywod <i>Sports Personality of the Year</i>	£185,000 – £189,999
	Clare Balding	Wimbledon Seiclo a Marchogaeth Y Ras Gychod <i>Sports Personality of the Year</i>	£155,000 – £159,999

### Genres gwahanol a Theledu

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisiynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflogau
Teledu	Mary Berry	Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£215,000 – £219,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	Rhaglen ddyddiol ar BBC Radio Wales ac allbwn teledu arall ar gyfer BBC Cymru <i>Final Score</i> , rhaglenni pêl-droed eraill a'r Ras Gychod <i>Good Morning Sunday</i> ar Radio 2	£285,000 – £289,999
Newyddion a Chwaraeon	Dan Walker	<i>Football Focus</i> <i>BBC Breakfast</i>	£260,000 – £264,999
Newyddion a Radio	Tina Daheley	Rhaglen Frecwast Radio 2 a phodlediad <i>Beyond Today</i> Cyflenwi ar Newyddion BBC One a <i>BBC Breakfast</i> Tua 40 o benodau o <i>The Cultural Frontline</i> Rhaglen Etholiad a chyflenwi ar gyfer <i>Woman's Hour</i>	£255,000 – £259,999
Radio a Theledu	Graham Norton	Sioe wythnosol ar Radio 2 Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi Gwobrau Teledu'r Academi Brydeinig a Gwobrau Ffilm yr Academi Brydeinig	£725,000 – £729,999
	Claudia Winkleman	Sioe wythnosol ar Radio 2 Ffi Teledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£365,000 – £369,999

### Uwch-aelodau gweithredol

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £150,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru holl uwch-aelodau gweithredol y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o refferniw ffir drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflogau	Enw	Rôl
<b>Cyfarwyddwr Cyffredinol</b>		
£450,000 – £454,999	Tony Hall	Cyfarwyddwr Cyffredinol
<b>Pwyllgor Gweithredol</b>		
£370,000 – £374,999	Charlotte Moore	Cyfarwyddwr Cynnwys
£360,000 – £364,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£340,000 – £344,999	Francesca Unsworth	Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
£335,000 – £339,999	Glyn Isherwood	Prif Swyddog Ariannol
£325,000 – £329,999	Ken MacQuarrie	Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau
£315,000 – £319,999	Matthew Postgate	Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion
£310,000 – £314,999	Bob Shennan	Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp
£305,000 – £309,999	James Purnell	Cyfarwyddwr Radio ac Addysg
£280,000 – £284,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£220,000 – £224,999	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Corfforaethol
£180,000 – £184,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth
	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
£175,000 – £179,999	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
£165,000 – £169,999	Wendy Aslett	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp



Datgeliadau cyflogau

Cyflogau	Enw	Rôl
<b>Swyddogaethau Corfforaethol</b>		
£325,000 – £329,999	Bal Samra	Cyfarwyddwr Masnachol y Grŵp
£210,000 – £214,999	Dale Haddon	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£205,000 – £209,999	Shirley Cameron	Rheolydd Ariannol y Grŵp
£200,000 – £204,999	Anna Gronmark	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Newyddion a Materion Cyfoes
£195,000 – £199,999	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
	Gillian Taylor	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
£180,000 – £184,999	David Curley	Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol y Grŵp
	Noel Scotford	Cyfarwyddwr Systemau Adnoddau Dynol a Materion Busnes
£175,000 – £179,999	Chris Rowsell	Pennaeth Rheoleiddio
£170,000 – £174,999	Claudia Giles	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Phil Harrold	Ysgrifennydd Cwmni
£160,000 – £164,999	Pipa Doubtfire	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw
	Catherine Hearn	Cyfarwyddwr Adnoddau
	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol
	Simon Morrissey	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	David Attfield	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Nick Wilcox	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Isabel Begg	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
£155,000 – £159,999	Jessica Cecil	Un o gyfarwyddwyr y BBC
	Claire Paul	Uwch-bennaeth Arwain a Datblygu
	Tim Cavanagh	Cyfarwyddwr y Gweithle
£150,000 – £154,999	Alexis Hawkes	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Natasha Wojciechowski	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
<b>Dylunio a Pheirianneg</b>		
£215,000 – £219,999	Matt Grest	Cyfarwyddwr Llwyfannau
£205,000 – £209,999	Robin Pembroke	Cyfarwyddwr Cynhyrchu Cynnwys, Cynhyrchion a Systemau
£200,000 – £204,999	Stuart Page	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau Corfforaethol a Masnachol
£195,000 – £199,999	Chris Condron	Cyfarwyddwr Cynhyrchion Digidol
	Jatin Aythora	Prif Bensaer
	Gary Payne	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
£190,000 – £194,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Peirianyddol
£175,000 – £179,999	Andy Conroy	Rheolydd Ymchwil a Datblygu
	Dan Taylor-Watt	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau iPlayer a Sounds
£165,000 – £169,999	Sarah Hayes	Cyfarwyddwr Archifau'r BBC
	Richard Cooper	Rheolydd Dosbarthu Digidol
£160,000 – £164,999	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
£155,000 – £159,999	Claire Hetherington	Pennaeth Cynnyrch
	Grace Boswood	Prif Swyddog Gweithredu
	Ellie Runcie	Prif Swyddog Dylunio
	Sundar Srinivasan	Prif Arbenigwr Systemau

Cyflogau	Enw	Rôl
£150,000 – £154,999	John Parrott	Pennaeth Pensaerniaeth
	Gabriel Straub	Pennaeth Trawsnewid Technoleg
	Kirsten Mitchinson	Pennaeth Masnachol
	Matthew Percy	Pennaeth Pensaerniaeth
<b>Marchnata a Chynulleidfaoedd</b>		
£185,000 – £189,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
£175,000 – £179,999	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
<b>Y Gwledydd a'r Rhanbarthau</b>		
£240,000 – £244,999	Ian Haythornthwaite	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£195,000 – £199,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£190,000 – £194,999	Joe Godwin	Cyfarwyddwr Partneriaethau
	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£185,000 – £189,999	Donalda MacKinnon	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£165,000 – £169,999	Helen Thomas	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£155,000 – £159,999	Steve Carson	Uwch-bennaeth Comisiynu Aml-Lwyfan
£150,000 – £154,999	Chris Burns	Uwch-bennaeth Comisiynu Radio Lleol
<b>Gweithle</b>		
£150,000 – £154,999	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
<b>Cynnwys</b>		
£270,000 – £274,999	Piers Wenger	Rheolydd Comisiynu Drama
£225,000 – £229,999	Dan McGolpin	Rheolydd iPlayer a Rhaglennu
	Patrick Holland	Rheolydd BBC Two a BBC Four
£220,000 – £224,999	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
	Alison Kirkham	Rheolydd Comisiynu Ffeithiol
	Kate Phillips	Rheolydd Comisiynu Adloniant
	Shane Allen	Rheolydd Comisiynu Comedi
£215,000 – £219,999	Fiona Campbell	Rheolydd Sianel
£210,000 – £214,999	Rose Garnett	Rheolwr Comisiynu
£205,000 – £209,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu Drama
£175,000 – £179,999	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon, Teledu
£170,000 – £174,999	Manda Levin	Uwch-olygydd Comisiynu Drama
£165,000 – £169,999	Lindsay Currie	Pennaeth Amserlennu Portffolio
	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
£160,000 – £164,999	Cassian Harrison	Golygydd Sianel
£155,000 – £159,999	Jo Wallace	Uwch-olygydd Comisiynu Adloniant
£150,000 – £154,999	Ben Gallop	Pennaeth Chwaraeon, Digidol a Radio

Datgeliadau cyflogau

Cyflogau	Enw	Rôl
<b>Newyddion a Materion Cyfoes</b>		
£205,000 – £209,999	Kamal Ahmed	Cyfarwyddwr Golygyddol
£200,000 – £204,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
	Jamie Angus	Cyfarwyddwr Grŵp World Service
£180,000 – £184,999	Gavin Allen	Pennaeth Rhaglenni Newyddion
	Jonathan Munro	Pennaeth Casglu Newyddion
	Naja Neilsen	Uwch-reolydd Newyddion
£170,000 – £174,999	Mary Hockaday	Rheolydd World Service Saesneg
£165,000 – £169,999	Joanna Carr	Pennaeth Materion Cyfoes
	Sarah Ward-Lilley	Rheolwr Olygydd
£160,000 – £164,999	Jon Zilkha	Uwch-gyfarwyddwr Prosiect
£155,000 – £159,999	James Gray	Pennaeth Newyddiaduraeth
£150,000 – £154,999	Sarah Sands	Golygydd Newyddion Gweithredol
<b>Radio ac Addysg</b>		
£225,000 – £229,999	Alice Webb	Cyfarwyddwr Plant
£215,000 – £219,999	Graham Ellis	Rheolydd Cynhyrchu Radio
£200,000 – £204,999	Cheryl Taylor	Pennaeth Cynnwys Plant
£180,000 – £184,999	Jonathan Wall	Rheolydd Radio
	Alan Davey	Rheolydd Radio
£175,000 – £179,999	Helen Bullough	Pennaeth Cynhyrchu Plant
£155,000 – £159,999	Mohit Bakaya	Rheolydd Radio
<b>Cyn-aelodau o Staff*</b>		
£195,000 – £199,999	Ben Cooper	Rheolydd Radio
	Valerie Hughes-D'Aeth	Prif Swyddog Adnoddau Dynol

\* Mae'r adran hon yn cynnwys unigolion a adawodd y BBC yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 ac felly na fyddai cyflog blynyddol llawn wedi cael ei dalu iddynt



# Barn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ddatgeliadau cyflogau

## Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlleu Brydeinig, yn cydnabod bod Senedd y DU hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynnyddol y Gorfforaeth Ddarlleu Brydeinig (BBC) yn deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol i'r BBC (y Siarter Frenhinol) barhau i gyhoeddi enwau holl uwch-aelodau gweithredol y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl aelodau eraill o staff y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Cyflogau fel y'u nodir ar dudalennau 81 i 88 o Adroddiad Blynnyddol y BBC (y deunydd pwnc) (y "Datgeliadau Cyflogau").

Cynhelir fy ngwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

### Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Bwrdd y BBC yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl uwch-aelodau gweithredol y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno;
- enwau holl aelodau eraill o staff y BBC y talwyd mwy na £150,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r deunydd pwnc, ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth gynnal y gwaith hwn, rwyf i a'm staff wedi cydymffurfio â Safon Foesebol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

### Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Wrth gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol, cyflawnir y cyfryw weithdrefnau sydd eu hangen er mwyn cael gafael ar wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn mynegi barn ynghylch a yw'r Datgeliadau Cyflogau (y deunydd pwnc), ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC er mwyn llunio'r Datgeliadau Cyflogau, yn arbennig cyflawnder a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y datgeliadau, gan gynnwys:
  - croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio ar gyfer Grŵp y BBC sy'n ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
  - cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC;
  - adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol y talwyd cyflogau yn agos at y trothwy datgelu iddynt yn 2019-20.
- Cysoni datgeliadau staff â slipiau cyflog neu, lle na chaiff staff eu talu drwy gyflogres y BBC, cysoni gwariant â thystiolaeth arall megis contractau;
- Cysoni gwariant fesul unigolyn y talwyd mwy na £150,000 iddo o reffeniw ffi'r drwydded i'r band cyflog priodol;
- Ailgyfrifo nifer yr unigolion a gafodd eu cynnwys ym mhob band o £5,000;
- Adolygu'r sylwadau ategol ynghylch rhesymoldeb ac eglurder o ran y sail datgelu.

### Cyfngiadau annatod

Cynlluniwyd fy ngweithdrefnau sicrwydd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer gallu mynegi fy nghasgliad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn arbennig, wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC lunio nifer o farnau sy'n cyflwyno elfen annatod o risg.

### Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflogau a geir ar dudalennau 81 i 88 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

### Gareth Davies

#### Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Llundain SW1W 9SP  
3 Medi 2020

# Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

## Penodiadau i'r Bwrdd

Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a phwyllgorau'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys: y Cadeirydd, David Clementi; Nicholas Serota, yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol; Tim Davie, y Cyfarwyddwr Cyffredinol; a'r cyfarwyddwyr anweithredol Ashley Steel ac Elan Closs Stephens.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Fel rhan o'i waith y flwyddyn hon, gwnaeth y Pwyllgor adolygu a diwygio ei Gylch Gorchwyl er mwyn sicrhau y gallai ymdrin ag achosion o wrthdaro buddiannau ar y Pwyllgor yn fwy effeithiol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig o ran y cydbwysedd o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen, ac er mwyn datblygu strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau deirgwaith yn ystod y flwyddyn hon, gan gynnal ychydig o'i fusnes all-lein. Mae gwaith y Pwyllgor ar benodiadau wedi cynnwys recriwtio a phenodi Mai Fyfield yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd Daliadau Masnachol y BBC. Fel rhan o'i gyfrifoldebau am gynllunio ar gyfer olyniaeth ac asesu perfformiad, cynigiodd y Pwyllgor hefyd y dylid ailbenodi dau o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd y BBC, sef Ian Hargreaves a Tom Ilube, am gyfnod arall o dair blynedd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb am werthuso perfformiad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau cysylltiedig, gofynnodd y Pwyllgor Enwebiadau i Christopher Saul, adolygwr annibynnol, asesu perfformiad y Bwrdd ac is-bwyllgorau'r Bwrdd y flwyddyn hon. Yn ogystal ag adolygu'r gwaith papur cysylltiedig, roedd yr asesiad yn cynnwys cyfweiliadau, arolwg gwerthuso ac arsylwi ar rai cyfarfodydd. Ar ôl adolygiad cadarnhaol, mae argymhellion ychwanegol Christopher Saul bellach wedi cael eu hystyried gan y Bwrdd ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei gwblhau.

Y Pwyllgor Enwebiadau sydd wedi arwain y broses o recriwtio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd, ar y cyd â'r grŵp ehangach o gyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd, drwy gyfres o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

**Syr David Clementi**  
2 Medi 2020

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

	Bwrdd Cyffredin	Y Pwyllgor Archwilio a Risg Aelod	Y Pwyllgor Masnachu Teg Aelod	Y Pwyllgor Enwebiadau Aelod	Y Pwyllgor Cydnabyddia- eth Aelod	Safonau a Chanllawiau Golygyddol Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Lloegr Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Yr Alban Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Cymru Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Gogledd Iwerddon Aelod
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	11	5	3	3	4	5	3	3	3	3
<b>Cyfarwyddwyr anweithredol</b>										
David Clementi	11			3				3		3
Simon Burke	5 o 5	3 o 3								
Shirley Garrod	7 o 8	3 o 3	2 o 2							
Tanni Grey-Thompson	11				4	4				
Ian Hargreaves	10		3			5			3	
Tom Ilube	11	5	3				3			
Steve Morrison	10		1		3			3		
Nicholas Serota	10			3	4	5				
Ashley Steel	11	5		3			3			
Elan Closs Stephens	11			3					3	3
<b>Cyfarwyddwyr gweithredol</b>										
Tony Hall	11			1*		5				
Tim Davie	11									
Ken MacQuarrie	11						3	3	3	2
Fran Unsworth	11					5				3

\* Nid oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bresennol yn y cyfarfodydd ynghylch penodi ei olyniaeth.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

## Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Fe'm penodwyd yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC pan ymunais â'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019. Ers hynny, rwyf wedi mwynhau mynd i'r afael â'r ffordd y mae'r BBC yn gweithredu ac yn rheoli risg yn ei holl rannau lu. Wrth ymgymryd â'm rôl, rwy'n ddiolchgar am y cymorth a'r cyngor a gefais gan y cadeirydd ymadawol, Simon Burke, ac am y cymorth a gefais gan aelodau eraill y Pwyllgor a'r BBC yn gyffredinol.

Mae fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor – Tom Ilube ac Ashley Steel – yn ddiwyd, yn wybodus ac yn ymrwymedig i'r rôl a gyflawnwn. Rydym yn cael cyngor da, annibynnol a diduedd gan y timau archwilio mewnol a risg, yn ogystal â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd statudol y BBC. O ganlyniad, rwyf wedi fy modloni bod gan y Pwyllgor y sgiliau a'r gefnogaeth angenrheidiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar ei gylch gwaith i graffu ar y ffordd y mae'r BBC yn rheoli meysydd risg allweddol a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac archwilio cyfrifon y Grŵp, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n cael effaith sylweddol arnynt. Yn amlwg, bydd argyfwng y coronafeirws yn parhau i effeithio ar lawer o'r materion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a dechreuwyd ystyried y rhain ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, gan gynnwys y penderfyniad i gyhoeddi'r cyfrifon hyn yn ddiweddarach y flwyddyn hon na chynt.

Mae ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn hon wedi cynnwys:

- adolygu a sicrhau'r sail ar gyfer datganiadau Grŵp y BBC am fusnes gweithredol a hyfywedd;
- datblygu ein perthynas gyffredol â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cymeradwyo ei chynllun archwilio, cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt ei gwaith ym mhob cyfarfod, a chymeradwyo ymatebion y BBC i gamau gweithredu sy'n deillio o'i hadolygiadau gwerth am arian;
- adolygu rheoleidd-dra trafodion ariannol y BBC, gan gynnwys unrhyw faterion o bwys, a'r ffordd y cafodd y rhain eu cyflwyno yn y cyfrifon;
- goruchwylio risgiau a gwelliannau i'r prosesau mesur risg ac adrodd yn y BBC. Y flwyddyn hon, mae hyn wedi cynnwys adolygiad manwl o'r metrics risg sy'n cefnogi'r broses o adrodd i'r Bwrdd;
- parhau i oruchwylio risgiau yn yr is-gwmnïau masnachol, gan gynnwys sesiwn flynyddol i adolygu rheolaethau BBC Studios a chael sicrwydd yn eu cylch. Rydym hefyd wedi datblygu ein perthynas â'r Bwrdd Daliadau Masnachol, sy'n adolygu ac yn cymeradwyo'r cyfrifon ar ran is-gwmnïau masnachol y BBC;
- adolygiadau manwl penodol o feysydd risg, gan gynnwys: cadernid technegol a seiberddiogelwch, prosesau gwerthuso eiddo deallusol yn BBC Studios, rheoli ac archwilio swyddfeydd rhyngwladol y BBC, a gweithredu'r systemau sydd eu hangen i ddechrau casglu ffi'r drwydded oddi wrth bobl gymwys dros 75 oed;
- parhau i oruchwylio achosion ac adroddiadau chwythu'r chwiban yn y BBC yn rheolaidd;
- monitro gwaith y tim archwilio mewnol a'r canfyddiadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'i waith. Y flwyddyn hon, cwblhawyd 43 o archwiliadau ac adolygiadau sicrwydd, fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a chwblhawyd 158 o gamau gwella a oedd yn deillio o waith archwilio mewnol (mae'r Pwyllgor yn olrhain yr holl gamau gwella sy'n deillio o waith archwilio mewnol nes eu bod wedi'u cwblhau);
- rhoi prosiectau mawr ar waith ym mhob rhan o'r BBC a'u cyflawni, gan gynnwys prosiect E20. Gweler y manylion isod.

Un o'n meysydd ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn fu'r gwaith o fonitro a goruchwylio prosiectau mawr ym mhob rhan o'r BBC, y bydd tua 6-10 ohonynt ar unrhyw adeg benodol. Ystyriwyd y prosiectau penodol eu hunain a hefyd drosolwg ehangach o'r themâu, y materion a'r heriau roedd prosiectau o'r fath yn eu hwynebu yn y BBC. Rydym yn parhau i fonitro prosiect E20 – y rhaglen i adnewyddu a diweddarau set *EastEnders* – ac, yn ystod y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi treulio cryn dipyn o amser yn adolygu materion a phrosiectau sy'n ymwneud ag Uned Ffi'r Drwydded. Roedd hyn yn cynnwys y penderfyniad, a wnaed ym mis Rhagfyr, i ganslo'r gwaith o roi system rheoli cwsmeriaid newydd ar waith yn yr uned, oherwydd oedi annerbyniol a chostau cynyddol o gymharu â'r cynllun gwreiddiol.

Roedd y penderfyniad hwn yn un a ystyriwyd yn fanwl gennym a chomisiynwyd darn trylwyr o waith i ganfod beth ddigwyddodd o ran y prosiect penodol hwn a pha wersi y gellid eu dysgu ar gyfer prosiectau eraill o'r fath yn y BBC. Byddwn yn asesu'r ffordd y gweithredir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn yn parhau i roi sylw manwl i brosiectau allweddol, gan gynnwys gweithredu penderfyniad y Bwrdd ynglŷn â ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed.

Drwy gydol y flwyddyn, cyfarfuom bum gwaith i gyd, a amserwyd i gyd-daro ag adegau allweddol yn ystod cylch adrodd y BBC. Bu'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn bresennol ym mhob cyfarfod a bu aelodau Gweithredol yn bresennol fel y bo'n briodol. Hefyd, cynhaliwyd sesiynau preifat gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd allanol, a gyda'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd a'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol. Rwy'n fodlon bod y Pwyllgor yn cael mynediad da at y timau Archwilio Mewnol a Risg a bod materion a godir yn cael eu hystyried yn briodol, ar sail annibynnol.

Aseswyd effeithiolrwydd y Pwyllgor y flwyddyn hon fel rhan o adolygiad allanol cyffredinol y Bwrdd, a arweiniwyd gan Chris Saul. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad ac yn rhoi'r newidiadau ar waith y flwyddyn hon, gan gynnwys cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor er mwyn rhoi mwy o amser i ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnesau masnachol. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn hefyd yn adolygu ein perthynas â'r archwilydd allanol yn ffurfiol. Hyd yma, mae'r aeddfedrwydd a'r didwylledd a welir yn y ffordd y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystyried ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei gwaith gyda'r BBC wedi creu argraff arnaf.

Yn amlwg, bydd rhai heriau newydd ac unigryw yn codi yn y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni asesu effeithiau pandemig y coronafeirws a mynd i'r afael â nhw. Byddwn yn gweithio fel Pwyllgor i helpu'r BBC i adolygu a deall y risgiau sy'n codi yn ei sgil ac i sicrhau bod prosesau ar waith i ymdrin â nhw. Rwyf bellach yn edrych ymlaen at flwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor a'r cyfle i weithio gyda fy nghyd-aelodau i fonitro ac adolygu'r BBC a'i helpu i gyflawni er budd talwyr ffi'r drwydded.

**Shirley Garrod**

2 Medi 2020



## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

**Adroddiad y Pwyllgor Archwilio  
Rôl**

Prif ddiben y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am y canlynol:

- adolygu a goruchwyllo effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- goruchwyllo'r risgiau allweddol sy'n wynebu Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- adolygu gweithgareddau a risgiau is-gwmnïau masnachol y BBC, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol a bod sicrwydd yn annibynnol ac yn ddigonol.
- adolygu a herio, lle y bo angen, gamau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr o ran Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- goruchwyllo a phennu cyfeiriad gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, gan gyfarfod ag uwch-reolwyr Archwilio Mewnol yn breifat er mwyn trafod materion fel y bo angen;
- rhoi sylw priodol i ddisgwyliadau'r Senedd o ran rheoli adnoddau'r BBC, fel y nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adolygu cwmpas a strategaeth archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn;
- adolygu gweithdrefnau rheoli ansawdd yr archwilwyr a'r camau a gymerir gan yr archwilydd er mwyn ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- cyfarfod â'r archwilwyr allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilwyr;
- ystyried annibyniaeth yr archwilydd allanol;
- adolygu systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll a llygredd;
- adolygu trefniadau i'r staff godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill.

Mae Rheolau Sefydlog y Pwyllgor yn amlinellu ein cyfrifoldebau'n fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Fwrdd y BBC yn 2018 a'u hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Medi 2019. Maent ar gael ar ein gwefan: [downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk/arc-tor-sep-2019.pdf](https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk/arc-tor-sep-2019.pdf)

**Aelodaeth**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

Simon Burke (Cadeirydd – tan 2 Gorffennaf 2019)  
Shirley Garrood (Cadeirydd – o 3 Gorffennaf 2019)  
Tom Ilube  
Ashley Steel

Mae gan Shirley Garrood, Cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod o'r pwyllgor yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac uwch-gynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Cyfreithiol, Rheoli Risg, Cyllid a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr statudol y BBC, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn breifat, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, â'r Archwilwyr Mewnol a Risg, a'r archwilwyr allanol, yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, a'r flwyddyn hon bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd y BBC, a gynhaliwyd gan Chris Saul. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw.

**Cyfarfodydd**

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2019/20, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk](https://bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/auditandrisk). At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ei farn ar uniondeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynnyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

**Cywirdeb adroddiadau ariannol**

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol, nododd risgiau allweddol o ran camddatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafododd y risgiau hyn â'r archwilydd allanol fel rhan o gytundeb y cynllun archwilio allanol a hefyd ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd.

Nodir isod y prif feysydd lle mae angen llunio barn a sut y gwnaeth y Pwyllgor fynd i'r afael â hwy:

**Cydnabod Refeniw**

Mae risg na chaiff incwm ei gydnabod yn gywir yn unol â safonau adrodd ariannol. Mae natur y risg yn amrywio rhwng refeniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus a'r incwm masnachol. Ymdrinnir â refeniw ffi'r drwydded fel swm sy'n ddyledus gan adran berthnasol y Llywodraeth, sef yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn bennaf, ar sail y ffaith y caiff symiau a dderbynnir gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu drosodd.

Mae refeniw masnachol yn fwy cymhleth, gyda nifer o ffrydiau refeniw gwahanol, gan gynnwys gwerthu cynnwys i ddarllidwyr byd-eang, incwm tanysgrifiadau a refeniw o werthu cynhyrchion ffisegol a digidol. Oherwydd cymhlethdod telerau cytundebol, efallai y bydd angen llunio barn wrth asesu pryd y gellir cydnabod refeniw, sy'n seiliedig ar gyflawni rhwymedigaethau perfformiad a phryd y trosglwyddir rheolaeth i'r cwsmer.

**Ymateb y Pwyllgor** – Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau gan reolwyr ar unrhyw farn berthnasol neu gymhleth. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn adolygodd y Pwyllgor driniaeth gyfrifyddu refeniw masnachol a gynhyrchwyd gan Warner Media, yn bennaf mewn cysylltiad â Doctor Who, a refeniw a gynhyrchwyd gan Discovery, gan gynnwys cynnwys a oedd yn ymwneud â'r casgliad eiconig, Planet Earth.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol, ac mae'n hyderus bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a'u bod wedi rhoi rheolaethau addas ar waith.

**Eiddo**

Mae gan y BBC bortffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Gellir dosbarthu adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod yn eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a threfnau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen. Yn sgil mabwysiadu IFRS16 yn ystod 2019/20, bu'n rhaid aiddosbarthu asedau a symudiad perthnasol mewn gwerthoedd o gymharu â 2018/19.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau deilliannol sy'n gysylltiedig â strwythur sylfaenol pryddles y Ganolfan Ddarleddu yn agored i sensitifeddu o ran data'r farchnad yn ogystal ag addasiad i'r gyfradd disgownt er mwyn cyfrif am risg. O ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau net o £182 miliwn mewn perthynas â'r trefniant hwn. Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynydd yn amlygiad credyd y BBC i'r cyd-bartiön deilliannol dan sylw. Rhoddir cyfrif am y cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i ailddatblygu'r Ganolfan Ddarleddu, Daunus Limited, fel cyd-fenter yn dilyn asesu rheolaeth. Mae budd y BBC yn yr endid ar gost, ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion o leihad mewn gwerth.

Disgwylir i Ganolfan Ddarleddu BBC Cymru gael ei gwerthu o fewn 12 mis ac felly fe'i cydnabyddir fel ased a ddelir i'w werthu.

**Ymateb y Pwyllgor** – Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth. Yn benodol, adolygodd y Pwyllgor y driniaeth ddiwygiedig ar gyfer asedau eiddo o dan IFRS 16. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad reolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

**Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC**

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwarged o £247 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae angen llunio dyfarniadau allweddol ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddir wrth gyfrifo'r diffyg pensiwn. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir ar gyfer y prisiad gyfrifyddu diweddaraf yn seiliedig ar argymhellion actiwariaid ac maent o fewn amrediad derbynol yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Mae'r ansicrwydd economaidd presennol a pharhaus yn sgil pandemig y coronafeirws yn golygu bod technegau priso asedau sy'n dibynnu ar fewnbynau anweladwy yn llai sicr am fod gweithgarwch trafodiadol yn y farchnad yn is na'r cyffredin ar hyn o bryd.

**Ymateb y Pwyllgor** – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r cynllun pensiwn yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariaid annibynnol. Nododd y Pwyllgor y symudiad arwyddocaol ym mhrisiad y cynllun pensiwn ac roedd yn fodlon ar yr esboniadau a'r dadansoddiad a roddwyd gan reolwyr a chynghorwyr y cynllun.

**Darpariaethau ariannol a rhwymedigaethau wrth gefn**

Gwneir darpariaethau ariannol lle mae gan y BBC rhwymedigaeth ar hyn o bryd o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Mae darpariaethau gwerth £153 miliwn yn y datganiadau ariannol.

**Ymateb y Pwyllgor** – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl a thrafododd lefel y darpariaethau â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y

darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

**Prosiectau cyfalaf**

Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased a gyfalafir. Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth. Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr aseswyd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio.

**Ymateb y Pwyllgor** – Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys a oes unrhyw leihad mewn gwerth yn briodol, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol. Adolygodd y Pwyllgor y costau a'r cyfalafu a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Moderneiddio'r System Rheoli Ymgyrchoedd a ganslwyd.

**Y coronafeirws**

Gweithiodd y BBC gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i nodi a gweithredu arferion gorau sy'n cael eu datblygu ym maes adrodd ariannol ar ôl i'r coronafeirws ddod i'r amlwg ar ddiwedd 2019/20. Cafodd meysydd adrodd risg allweddol eu nodi a'u hasesu o ran effaith. Mae hyn wedi cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: offerynnau ariannol, pryddlesau a chontractau sy'n ymwneud ag eiddo, ymrwymeddiadau cynnwys a gwaith sy'n mynd rhagddo, hyfywedd partneriaid cynhyrchu annibynnol, ansawdd credyd dyledwyr ac effaith symudiadau cyfnewid tramor. Hefyd, aseswyd effaith y coronafeirws ar ansawdd ac amseroldeb gweithgarwch adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn llawn, a rhoddwyd rheolaethau a mesurau lliniaru ar waith fel y bo'n briodol.

**Ymateb y Pwyllgor** – Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddiadau manwl ar effaith y coronafeirws ar y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'u cynnwys ac mae'n hyderus bod rheolwyr wedi gweithredu mewn ffordd resymol.

Cadarnhaodd y rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamdatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac nad oedd unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd o hyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle y bo angen, â'r archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau hollbwysig a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddid Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan y rheolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol a gwmpasodd:

- ansawdd a derbynoldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadol;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;
- a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.



## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

**Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg Sicrwydd rheolaethau mewnol**

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y BBC, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd ym mhob rhan o'r Grŵp. Roedd y meysydd penodol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- y tueddiadau a'r themâu yn deillio o weithgarwch Archwilio Mewnol, a holi cynrychiolwyr Archwilio Mewnol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith. Cafodd crynodeb o bob archwiliad mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a graddau sicrwydd, ei adolygu gan y Pwyllgor;
- caiff camau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch annibynnol ynglŷn â sicrwydd, gan gynnwys gwaith archwilio mewnol ac allanol ac adolygiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, eu monitro gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilysol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;
- o ran meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu a fu'n destun canfyddiadau sicrwydd beirniadol, mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod gwaith dilysol a gwaith craffu addas ynglŷn â chwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- cymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygodd y dull o sicrhau cydymffurfiaeth;
- adroddiadau chwythu'r chwiban rheolaidd a'r diweddaraf am lefelau o dwyll a dwyn, ynghyd â'r systemau sydd ar waith i'w gostwng a'u hatal;
- caiff canfyddiadau a hynt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmnïau masnachol y BBC eu hystyried. Mae Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BBC Studios yn bresennol bob blwyddyn i roi sicrwydd ar amgylchedd rheoli'r is-gwmni hwn a'r ffordd y mae'n rheoli risg.

**Rheoli risg**

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC.

Yn benodol, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau a heriodd reolwyr ar risgiau strategol a gweithredol mawr y BBC, adolygodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rhoi gwybod am risgiau a'u goruchwyllo, ystyriodd feysydd risg a oedd yn dod i'r golwg a allai effeithio ar y BBC, a chynhaliodd adolygiad manylach o bynciau risg dethol.

Adolygwyd effaith y coronafeirws ar y BBC gan y Pwyllgor, gyda chyfeiriad penodol at iechyd a llesiant gweithlu'r BBC, yr effaith ar gynhyrchu ac allbwn, cadernid a diogelwch ein seilwaith a'r effaith ar sefyllfa ariannol y BBC.

Mae'r ffordd y mae'r BBC yn rheoli risg yn parhau i ddatblygu ac aeth y Pwyllgor ati i adolygu cynnydd a gwelliannau. Nodir yr asesiad o brif risgiau'r BBC ar dudalen 96.

**Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnol**

Caiff gwaith Archwilio Mewnol ei oruchwyllo gan y Pwyllgor. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyriwyd canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar archwiliadau â chanlyniadau anfodddhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain;
- adolygwyd y broses o ailgaffael y gyd-ffynhonnell o waith Archwilio Mewnol, a phenodiad y darparwr a ffeirir;
- ystyriwyd gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran eu hadnoddau a'u gallu.

- aseswyd effaith y coronafeirws ar y cynllun archwilio mewnol a chymeradwywyd newidiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol ac yn gymesur.

Hefyd, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, a'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

Cafodd asesiad annibynnol o effeithiolrwydd swyddogaeth Archwilio Mewnol ei ddilysu gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn 2019. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

**Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilwyr allanol Penodi ein harchwilwyr allanol**

O dan Siarter a Chytundeb 2016, penodwyd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

**Y berthynas â'r archwilwyr allanol**

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmpas ei gwaith a'i dulliau gweithredu. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt y flwyddyn hon mae:

- y broses archwilio allanol, gan gynnwys gofynion adrodd rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- cynnal trafodaethau preifat â'r archwilwyr heb fod rheolwyr yn bresennol;
- asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o feysydd risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2019/20, roedd hyn yn cynnwys gweithredu IFRS 16, priso'r cynllun pensiwn, cydnabod referniw masnachol ac effaith y coronafeirws ond nid oedd yn gyfyngedig i hynny;
- o ran y coronafeirws, adolygwyd effeithiau'r pandemig ar yr amserlen adrodd ariannol a'r datganiadau. Yn benodol, edrychwyd eto ar y tybiaethau a oedd yn sail i fusnes gweithredol a hyfywedd.

Cafwyd trafodaethau preifat â'r archwilwyr allanol heb fod rheolwyr yn bresennol.

**Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio**

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisïynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwyllo.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Ni chaiff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch-reoli yn y BBC.



# Risgiau a chyfleoedd

**Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'n dull o reoli risg gefnogi'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau strategol a'n hamcanion gweithredol.**

## Ein dull o reoli risg

Mewn amgylchedd allanol hynod heriol a chystadleuol, mae'n rhaid bod y BBC yn gallu rheoli ei risgiau, gan sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein dibenion cyhoeddus a rhoi gwerth i'n holl gynulliedfaoedd. Mae'n rhaid i ni barhau i gymryd ein cyfrifoldebau rheoliadol a statudol o ddifrif. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wraidd y broses o gyflawni ein dibenion a'n huchelgeisiau strategol, mae asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg wrth wraidd cyflawni'r hyn a wnawn.

Mae'r BBC yn cydnabod bod pandemig y coronafeirws wedi dwyn risgiau ond hefyd wedi cynnig cyfleoedd. Bu cryn alw am wasanaethau golygyddol craidd y BBC, sef newyddion, radio, sianelau llinellol y BBC ac iPlayer, ymhlith cynulleidfaoedd wrth i bobl geisio cael gwybodaeth am y sefyllfa ond hefyd cael eu difyrru yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r pandemig hefyd yn achosi heriau a risgiau sylweddol i ddiogelwch ein pobl, ein hadeiladau, ein sefyllfa ariannol a'n technoleg, sy'n cael eu monitro a'u rheoli ar sail amser real.

Mae rheoli risg yn hanfodol ym mhob rhan o'r BBC, lle mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ein huchelgeis creadigol a'n hawydd i wasanaethu ein cynulleidfaoedd, yn y DU ac yn rhyngwladol, a hefyd y ffordd rydym yn rhedeg y BBC.

## Rheoli risg – y sefyllfa bresennol

Mae'r BBC yn categorioedd ei brif risgiau yn ddau fath o risg:

- Risgiau strategol – bygythiadau i'n huchelgeisiau strategol;
- Risgiau gweithredol – bygythiadau i'n gweithgareddau gweithredol a'n hamcanion busnes.

**Llywodraethu** – Mae'r Bwrdd, yn uniongyrchol a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn cynnal adolygiad rheolaidd o brif risgiau strategol a gweithredol y BBC sy'n cael eu mesur a'u monitro drwy gyfres o fetrigau risg allweddol meintiol. Parheir i adolygu ac adnewyddu metrigau o bryd i'w gilydd.

## Rheoli risg – gwelliannau 2019/20

Mae'r broses o reoli risg yn y BBC yn parhau i ddatblygu. Yn 2019/20, gwnaethom y gwelliannau canlynol i'n fframwaith risg:

**Adroddiadau risg ychwanegol** – Mae adroddiadau risg i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys ffocws ar risgiau sydd wedi symud yn sylweddol yn ystod chwarter ac yn rhoi golwg glir ar risgiau a mesurau lliniaru sydd i ddod.

**Awydd i gymryd risgiau** – Cytunwyd ar ddatganiadau ansoddol am yr awydd i gymryd risgiau ar gyfer meysydd risg gweithredol allweddol, a drafodwyd ym Mhwyllgor Gweithredol y BBC a Phwyllgor Archwilio a Risg y BBC. Ar gyfer y meysydd risg hyn, mae metrigau a thargedau risg meintiol ar waith. Mae Pwyllgor Gweithredol y BBC wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a hwyluswyd ar berfformiad yn erbyn targedau o'r fath a bwriedir cynnal rhagor o sesiynau yn 2020/21.

**Cofrestrau risg** – Mae cofrestrau risg wedi cael eu datblygu ar gyfer nifer o feysydd risg allweddol, gan gynnwys amddiffyn a diogelu plant; diogelu data a threth.

**Gweithio ar draws y BBC** – Sefydlwyd Gweithgor Hyrwyddo Risg i'r BBC cyfan i drafod a rhannu egwyddorion a risgiau i'r gorfforaeth gyfan (o'r brig i lawr); meithrin dealltwriaeth o risgiau ar lefel is-adrannol (o'r gwaelod i fyny); a rhannu arferion rheoli risg da ymhlith yr is-adrannau ac oddi wrth y tîm rheoli risg canolog.

**Fframwaith risg** – Mae gwaith i ychwanegu at fframwaith rheoli risg i'r BBC cyfan yn parhau, sy'n ceisio sicrhau cysondeb a chynnwys proses o nodi a monitro a rhoi gwybod am risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**Risgiau sy'n dod i'r amlwg** – Gellir nodi risgiau newydd i'r BBC a risgiau sy'n dod i'r amlwg drwy nifer o brosesau a gweithgareddau, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'r is-adrannau, gwneud risg yn ystyriaeth ym mhapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol ac adolygu'r amgylchedd allanol. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, rydym wedi gwneud Diogelu Data yn brif risg yn ddiweddar; ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 102.

## Rheoli Risg – Cynlluniau 2020/21

Yn 2020/21, mae mentrau gwella allweddol yn cynnwys fframwaith risg i'r BBC cyfan sy'n rhoi darlun clir o risgiau corfforaethol ac is-adrannol; cyflwyno proses is-adrannol gyson o lunio adroddiadau ar risg; monitro'r broses o gwblhau camau rheoli risg sy'n deillio o'r cofrestrau risg a phrotocolau derbyn risg i'r BBC cyfan ar eu newydd wedd.

**Newid yn yr hinsawdd** – Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith ein gweithrediadau ar yr amgylchedd a dod yn fwy cynaliadwy. Dyma'r peth cywir i'w wneud yn ei hanfod ac mae ein cynulleidfaoedd yn disgwyl hynny gennym. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein dulliau gweithredu a'n gweithgareddau yn yr adran ar gynaliadwydded amgylcheddol yn yr adroddiad strategol ar dudalen 66.

## Pandemig y coronafeirws

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith eang ar ein holl dirwedd risg, a bydd hynny'n parhau. Ar ôl dechrau pandemig y coronafeirws ym mis Ionawr 2020, bu ein ffocws ar ddiogelwch a llesiant ein pobl, a chynnal allbwn o ansawdd a sicrhau model busnes a dull gweithredu ystwyth drwy gydol y camau nesaf o'r ymateb i'r hyn a oedd yn digwydd. Ym mis Mawrth, rhoddwyd strwythurau rheoli digwyddiad a chynlluniau parhad busnes ar waith ym mhob rhan o Grŵp y BBC.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein pobl, ein hallbwn a'n cynrychiadau, ein technoleg a'n sefyllfa ariannol fel y nodir yn gryno isod:

**Pobl:** Iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ein staff a'n cyfranwyr yn ein prif flaenoriaeth o hyd. Rydym wedi rhoi amrywiaeth eang o fesurau iechyd a diogelwch a mesurau eraill ar waith i gefnogi ein gweithlu a'n cyfranwyr.

**Allbwn a cynrychiadau:** Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddiwydiant y cyfryngau yn ei gyfanrwydd, gyda nifer mawr o gynrychiadau yn dod i ben dros dro, gohirio digwyddiadau byw, gan gynnwys chwaraeon, a chynnydd sylweddol yn y defnydd o gynnwys gan gynulleidfaoedd. Aeth meysydd allbwn allweddol ati i ddatblygu cynlluniau symlach a blaenoriaethu gwasanaethau, gan gydnabod lefelau staffio is a newidiadau ym mhattrwm defnydd cynulleidfaoedd ar yr un pryd. Mae aildechrau cynrychiadau a chyflwyno cynnwys newydd yn her o hyd yn sgil yr yswiriant cyfyngedig a oedd ar gael yn ystod y pandemig a'r gofynion i gadw pellter cymdeithasol.

**Technoleg:** Bu cynnydd sylweddol a chyflym iawn yn nifer y staff sy'n gweithio gartref ac sy'n defnyddio systemau'r BBC o bell. Er gwaethaf hyn, mae ein seilwaith technoleg a'n cadwyn ddarlledu wedi ymateb i'r her yn dda, ac ni nodwyd unrhyw broblemau mawr.

**Sefyllfa ariannol:** Mae nifer o ffactorau wedi cynyddu'r risgiau ariannol, gan gynnwys yr effaith ar incwm ffi'r drwydded o ganlyniad i heriau casglu yn ystod y cyfyngiadau symud, oedi cyn newid ffi'r drwydded am ddim i bobl dros 75 oed, colli incwm o ddigwyddiadau byw a ganslwyd a chostau suddedig oherwydd cynrychiadau a ganslwyd, gweithredu polisïau i gefnogi pobl sy'n gweithio yn ystod y cyfnod hwn a mwy o bwysau ar gostau oherwydd oedi cyn cyflwyno cynlluniau arbedion. Ymatebodd y BBC i'r heriau hyn yn gyflym ac yn ystwyth drwy ailgyllidebu ac ail-lunio rhagolygon ariannol a nodi arbedion ychwanegol ar gyfer y flywyddyn.

Rydym yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau iechyd ac asiantaethau'r llywodraeth ym mhob un o'n meysydd gweithredu, fel y gallwn ymateb i newidiadau i ganllawiau'r Llywodraeth ac ymaddasu. Byddwn yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr argyfwng i wneud y BBC yn gryfach.

Lle y bo'n briodol, rydym wedi cynnwys sylwadau ar y coronafeirws ym mhob un o'r prif risgiau a nodwyd ar y tudalennau canlynol.

## Risgiau a chyfleoedd

Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol ar y tudalennau canlynol.

### Allwedd i newidiadau risg: Newid mewn risg yn ystod 2019/20

- ▲ Mae risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- ▼ Mae risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

### Dibenion cyhoeddus

- 1 Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall y byd o'u hamgylch ac ymgysylltu ag ef.
- 2 Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu.
- 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau.
- 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU.
- 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

## Risgiau a chyfleoedd strategol

Noder: Caiff risgiau a chyfleoedd strategol eu mapio i'r dibenion cyhoeddus (1-5)

### 1. Cynulleidfaoedd a thirwedd y cyfryngau allanol

1 2 3 4 5 ▲

#### Beth yw'r risg?

Mae risg bod newidiadau i ymddygiad defnyddwyr yn barhaol a bod darparwyr SVOD digidol yn ymsefydlu yn y farchnad. Mae'r galw am gynnwys Fideo ar Alw ar bob llwyfan wedi cynyddu'n gyflym yn ystod cyfyngiadau symud pandemig y coronafeirws ac mae risg y bydd y BBC yn methu ag ymaddasu, manteisio a darparu cynnwys perthnasol o ansawdd uchel i holl dalwyr ffr' drwydded, gan gynnwys cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol (ieuenctid, y gwledydd a'r rhanbarthau a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig).

#### Beth yw'r effaith?

Nid yw cynulleidfaoedd yn parhau ar yr un lefel ar bob llwyfan. Nid yw'r BBC wedi'i werthfawrogi gan gynulleidfaoedd na chymdeithas ac nid ydym yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, gan gynnwys ieuenctid, y gwledydd a'r rhanbarthau a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Sefydlu BBC iPlayer fel gwasanaeth cyrchfan.
- Strategaeth llwybr i'r farchnad yn y DU gyda hawliau Fideo ar Alw 12 mis ar gyfer iPlayer.
- Parhau i fuddsoddi yn BBC Sounds.
- Sicrhau mai'r BBC yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU a'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth/newyddion am y coronafeirws o hyd.
- Cyflwyno'r arlwy addysgol mwyaf i blant ledled y DU er mwyn cefnogi dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm (Bitesize) mewn ymateb i'r coronafeirws.
- Creu rôl Cyfarwyddwr Amrywiaeth Greadigol er mwyn cefnogi'r broses o wneud y BBC yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol o'r gynulleidfa eang ac amrywiol y mae'n ei gwasanaethu, gan roi ffocws clir ar feysydd megis portreadu ar sgrin.
- Adnewyddu cynnwys i apelio i gynulleidfaoedd iau ac amrywiol.
- Cyflwyno cynnwys drwy lwyfannau digidol, h.y. cynnwys a gynigir ar iPlayer yn unig sy'n cael effaith wirioneddol ar bobl ifanc.
- Monitro metrigau cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyrhaeddiad, yr amser a dreulir gyda'r BBC, demograffeg cynulleidfaoedd ac adborth cynulleidfaoedd, er mwyn llywio penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn trafod perfformiad a thueddiadau.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae cynulleidfaoedd wedi bod yn newid yn gynyddol o deledu llinellol i lwyfannau SVOD ac o radio i wasanaethau ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau. Hefyd, bu cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad o ganlyniad i ddarllodwyr mawr newydd sy'n denu cynulleidfaoedd ar gyfradd gyflymach.

Mae'r galw am gynnwys Fideo ar Alw ar bob llwyfan wedi cyflymu'n sylweddol yn ystod cyfyngiadau symud pandemig y coronafeirws ac, fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21, mae'n rhaid i'n hymateb i'r newidiadau hyn fod yn gyflymach hefyd.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â gallu'r BBC i gadw ei gynulleidfaoedd ar deledu llinellol a radio oherwydd y tueddiadau hirdymor i gynulleidfaoedd symud i SVOD a gwasanaethau ffrydio digidol.

## 2. Creadigrwydd a chynnwys

2 3 4 5 ^

### Beth yw'r risg?

Mae cystadleuaeth oddi wrth ddarlledwyr eraill a chwmnïau cyfun mawr am gynnwys a thalent, sy'n cynrychioli amrywiaeth y DU, yn parhau i gynyddu. Mewn amgylchedd allanol o chwyddiant mewn costau a tharf digidol, mae risg na fyddwn yn sicrhau cyflenwad o gynnwys o'r ansawdd gorau o fuddsoddiadau, caffaeliadau a chydberthnasau. Mae darparu cynnwys diduedd yn yr amgylchedd presennol o dwyllwbyodaeth yn allweddol i gadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC. Mae risg hefyd na fydd BBC Studios yn datblygu ei lif o gynnyrch creadigol, yn ennill comisiynau allanol nac yn ymateb i'r gystadleuaeth ddwys am dalent creadigol.

Tarfu ar weithgarwch cynhyrchu oherwydd y coronafeirws a chryn ansicrwydd ynghylch pryd y bydd cynyrchiadau'n aildechrau'n llawn.

### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Buddsoddi mewn fformatau, cyfresi, cynhyrchion a gwasanaethau newydd ar gyfer teledu, radio ac ar-lein i bob cynulleidfa.
- Ymrwymo i bartneriaethau creadigol er mwyn sicrhau hawliau i gynnwys newydd.
- Dyblu ein buddsoddiad yn y Gronfa i Gwmnïau Annibynnol Bach mewn ymateb i'r coronafeirws.
- Ehangu partneriaethau creadigol BBC Three yn y gwledydd a'r rhanbarthau eraill.
- Cynnwys pwrpasol ar gyfer y pedair gwlad (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a buddsoddi o hyd yn ein canolfannau cynhyrchu y tu allan i Lundain, h.y. yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste a Birmingham.
- Ffocws ar ddenu a chadw'r dalent creadigol orau.
- Targedau amrywiaeth o ran talent ar yr awyr a rhaglenni ar waith, gan gynnwys Prosiect 50:50 i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ar y sgrin.
- Swyddogaeth a pholisi golygyddol hirsefydledig gyda gwaith monitro helaeth o ran tuedd, ymddiriedaeth, cywirdeb, cwynion ac adolygiad y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd o eithriadau.
- Arweinwyr creadigol a datblygu busnes yn BBC Studios i ganolbwyntio ar genres a chyfleoedd allweddol.
- Proses ymgynnig symlach â ffocws.
- Buddsoddiad mewn gweithgarwch datblygu ym mhob genre, gydag arweinwyr creadigol a datblygu busnes yn nodi cyfleoedd.

### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r gystadleuaeth am gynnwys, talent creadigol a'r tueddiadau sy'n parhau o ran chwyddiant mewn costau a hawliau.

### Beth yw'r effaith?

Mae llai o gynnwys o ansawdd uchel sy'n cynrychioli'r DU yn effeithio ar ein gallu i gadw cynulleidfaoedd mewn amgylchedd hynod gystadleuol. Mae methiant o ran didueddrwydd yn arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC ac at golli cynulleidfaoedd.

### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Y gystadleuaeth oddi wrth gwmnïau mawr am gynnwys a thalent yn parhau a hefyd risg gynyddol oherwydd llai o gynyrchiadau o ganlyniad i'r coronafeirws. Mwy o newydd-ddyfodiaid i'r farchnad sydd ag adnoddau buddsoddi a chyllid sylweddol. Parhawyd i weld heriau sylweddol o ran canfyddiad cynulleidfaoedd wrth roi sylw i bynciau a oedd yn sensitif neu'n hollti barn y cyhoedd, megis yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU a Brexit.



### 3. Cyrhaeddiad byd-eang

1 3 5 ▼

#### Beth yw'r risg?

Mae risg y bydd amgylchedd y farchnad lle mae mwy o ddewis i gynulleidfaoedd ac mae defnyddwyr yn troi at y cyfryngau cymdeithasol yn effeithio ar yr uchelgais i gyrraedd 500 miliwn o bobl yn byd-eang. Mae dibyniaeth y World Service ar syndicetio yn peri risg na fydd cynulleidfaoedd yn priodoli cynnwys i'r BBC. Daw buddsoddiad presennol y Llywodraeth yn y World Service i ben ar ddiwedd mis Medi 2021.

#### Beth yw'r effaith?

Anallu i gyrraedd targedau cynulleidfaoedd byd-eang a methiant y gynulleidfa i briodoli cynnwys yn gywir i'r BBC.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Parhau i fonitro allbwn, gyda chymorth ymchwil, er mwyn datblygu'r hyn a gynigir gennym a deall sut y gallwn barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd byd-eang, gan gynnwys demograffeg cynulleidfaoedd iau a benywaidd.
- Caiff contractau syndicetio eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf drwy bartneriaid dibynadwy yr ymddiriedir ynddynt.
- Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi'u syndicetio yn awgrymu twf sylweddol uwch o gymharu â llwyfannau digidol uniongyrchol ond mae hyn yn ychwanegu at yr her o sicrhau y priodolir cynnwys i'r BBC.
- Prosiect i ddeall ymddygiadau ac anghenion cynulleidfaoedd benywaidd yn eu defnydd o newyddion a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Cynnydd mawr yn niferoedd cynulleidfaoedd, yn cyrraedd 468 miliwn. Mae cyd-drafodaethau â'r Llywodraeth am ei buddsoddiad yn y World Service wedi arwain at estyniad i gyllid y Swyddfa Dramor a Chymanwlad tan ddiwedd mis Medi 2021. Cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr â gwefannau bbc.com yn ystod y pandemig, sy'n ddangosydd cadarn o newyddiaduraeth ddiuedd.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn adlewyrchu'r perfformiad yn niferoedd cynulleidfaoedd byd-eang a'r defnydd o bartneriaid dibynadwy yr ymddiriedir ynddynt.

### 4. Ein sefyllfa ariannol

1 2 3 4 5 ▲

#### Beth yw'r risg?

Y risg nad ydym yn rheoli a/neu'n gwrthbwyso'n effeithiol gost gynyddol cynhyrchu a darlledu'r allbwn creadigol o ansawdd uchel y mae ein cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl. O ran ffi'r drwydded, mae'r risgiau yn cynnwys ffi'r drwydded yn lleihau mewn amser real, cynnydd yn y nifer sy'n ceisio osgoi ei thalu, neu gost gynyddol ei chasglu. Ceir risg hefyd na fydd y BBC yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ei weithrediadau ac felly na fydd yn sicrhau hyd yn oed mwy o werth am arian.

Mae risg y bydd endidau masnachol y BBC yn methu ag ymateb i heriau'r farchnad a thrwy hynny'n lleihau enillion ariannol. Byddai'r risg o lai o refeniw o werthiannau hysbysebu endidau masnachol y BBC yn cael ei dwysáu gan ddirwasgiad economaidd.

Mae newidiadau andwyol yn y dyfodol i brisiad actiwaraid y cynllun pensiwn yn risg i sefydlogrwydd ariannol, fel y byddai unrhyw gynnydd arall mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 46. Byddai gostyngiad yn statws credyd y BBC yn cynyddu cost cyllido.

#### Beth yw'r effaith?

Bydd lleihad yn incwm ffi'r drwydded neu enillion endidau masnachol neu fethiant i weithredu mentrau arbed arian yn cael effaith negyddol ar wasanaethau a chwmpas yr hyn y bydd y BBC yn gallu ei gynnig i'w gynulleidfaoedd, ei staff a'i gyfranwyr – yn enwedig yn sgil y pwysau o ganlyniad i'r coronafeirws, a fydd yn parhau i gael effaith yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Monitro cyfraddau casglu ffi'r drwydded ac osgoi talu yn fanwl.
- Targedau arbedion aml-flwydd wedi'u diffinio.
- 94.5% o wariant rheoladwy wedi'i gwmpasu gan feincnodi.
- Cynllun arbedion newydd yn sgil effaith y coronafeirws a mesurau arbedion diwygiedig ar waith.
- Cynllun clir i reoli goblygiadau penderfyniad y Bwrdd i ohirio dechrau codi ffi'r drwydded ar bobl dros 75 oed tan fis Awst 2020.
- Cynlluniau ar waith i ddileu'r diffyg a gwneud y cynllun pensiwn yn hunangynhaliol erbyn 2028.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Statws credyd sefydlog heb newid sylweddol.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Erys yr heriau ariannol yn risg uwch i'r BBC. Gwelwyd gostyngiad yn refeniw ffi'r drwydded, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau i gonsesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed. Bu ffocws parhaus drwy gydol y flwyddyn ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac mae nifer o fentrau arbed arian yn dal i fod dan bwysau.

Mae'r coronafeirws wedi cynyddu'r risg ariannol oherwydd cau canolfannau cyswllt Capita sy'n effeithio ar y broses o gasglu ffi'r drwydded, oedi cyn newid consesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed a mentrau arbed arian. Mae lleihad sylweddol mewn gwerthiannau cynhyrchu a hysbysebu wedi effeithio ar enillion is-gwmnïau masnachol i Grŵp y BBC.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r heriau parhaus i refeniw ffi'r drwydded, incwm is-gwmnïau masnachol ynghyd â'r pwysau ar arbedion.

## 5. Ein pobl

1 2 3 4 5 >

### Beth yw'r risg?

Mae graddau'r newid gweithredol, sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau sylweddol. Mae ailddechrau cynlluniau arbedion is-adrannol yn cynyddu'r bygythiad o weithredu diwydiannol. Efallai y bydd mesurau ychwanegol megis y cynllun diswyddiadau gwirfoddol hefyd yn arwain at ansicrwydd i'r staff. Mae risg na allwn gadw cyflogeion mewn meysydd allweddol oherwydd heriau cyflog neu ymddieithrio yn sgil methiant i gyflawni ein targedau ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.

### Beth yw'r effaith?

Anallu i gadw a hurio talent a staff wedi ymddieithrio sy'n effeithio ar gynhyrchiant ac yn cynyddu'r posibilrwydd o weithredu diwydiannol. Materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys iechyd meddwl yn sgil cyfyngiadau symud estynedig.

### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Rhoi'r pwys mwyaf ar lesiant staff y BBC yn ystod pandemig y coronafeirws drwy gynnig mesurau adnoddau dynol ychwanegol a mesurau cymorth eraill.
- Cysylltu â staff yn helaeth, gan fonitro lefelau ymgysylltu drwy grwpiau ffocws ac arolwg o'r staff.
- Mae'r grŵp Newid a Gweithrediadau yn sicrhau bod newid busnes yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson a chydgyssylltiedig.
- Creu swydd Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu er mwyn helpu i gryfhau ymdrech y BBC i gynnig y lle gorau i weithio ynddo yn niwydiant y cyfryngau.
- Targedau amrywiaeth clir ar waith.
- Sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer talent amrywiol a rhoi Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth ar waith er mwyn sicrhau gwerthoedd ac ymrwymadau a rennir.
- Y Bwrdd yn rhoi cryn sylw i gyflog cyfartal a'r heriau o ran y bwllch cyflog rhwng y rhywiâu.
- Wedi lansio ein Rhaglen LGBTQ+ Allies a rhoi adnoddau i gefnogi cyflogeion sy'n mynd drwy broses drawsnewid ac arweiniad i arweinwyr timau a chydweithwyr.
- Cynyddu'r hyfforddiant ar-lein sydd ar gael i'r holl staff drwy Academi'r BBC yn ystod cyfnod y coronafeirws.
- Strwythurau gyrfa clir a gynigir drwy Fframweithiau Llwybrau Gyrfa'r BBC.
- Adolygu a moderneiddio telerau ac amodau gyda'r Cyd-undebau.
- Gweithio gyda'r staff a'r undebau, ar y cyd, drwy ddilyn strategaeth a chynllun cyfathrebu clir, er mwyn lleihau effaith newid ar ein pobl.

### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae'r Fframwaith Llwybrau Gyrfa i'r BBC cyfan wedi parhau i ymsefydlu yn ystod y flwyddyn gyfredol.

O safbwynt amrywiaeth a chynhwysiant, mae mesurau LGBT+ ac anabled i bob aelod o'r staff a phob rôl arwain wedi gwella o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac maent yn uwch na'r targedau. Bydd angen gwneud rhagor o waith i gyflawni targedau o ran amrywiaeth rhyw a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith arweinwyr.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y staff, gyda mwy nag 85% yn gweithio o bell. Daw'r risgiau cysylltiedig yn gliriach yn ystod y flwyddyn. Mae canlyniadau'r arolwg staff yn dangos ymateb cadarnhaol i'r camau a gymerwyd gan arweinwyr yn ystod pandemig y coronafeirws.

### Risg Weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud ag effaith hirdymor bosibl gweithio o bell yn ogystal ag effaith newidiadau a ragwelir o ganlyniad i roi cynlluniau arbedion 2020/21 ar waith.

## Risgiau a chyfleoedd gweithredol

### 1. Iechyd, diogelwch a'r amgylchedd ➤

#### Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant ein cyflogeion ac aelodau'r cyhoedd rydym yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r rhai y mae arnom ddyletswydd gofal iddynt yn cael eu peryglu o ganlyniad i un digwyddiad mawr neu dros gyfnod o amser. Mae'r coronafeirws wedi cynyddu'r risg gynhenid i iechyd a diogelwch aelodau o'r staff, cyfranwyr ac ymwelwyr.

Y risg na fyddwn yn cydnabod nac yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd drwy ddefnydd o ynni, cyfraniad allyriadau CO<sub>2</sub> ac ymagwedd gynaliadwy tuag at gynyrchiadau a gweithrediadau.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Proses asesu risg Iechyd a Diogelwch ar waith, a gefnogir gan archwiliadau monitro diogelwch a hyfforddiant.
- Rhoi mesurau a arweinir gan y Llywodraeth ar waith i wneud adeiladau'r BBC yn ddiogel mewn ymateb i'r coronafeirws.
- Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen.
- Rheolaethau amddiffyn plant yn cynnwys gwiriadau cefndir gorfodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, a gefnogir gan hyfforddiant gorfodol a pholisïau a monitro cydymffurfiaeth.
- Hyfforddiant arbenigol ar gael i staff mewn rolau risg uchel (a'u rheolwyr) a phob rôl yn destun asesiad risg trylwyr.
- Cynnal gwaith cynllunio senarios ac ymarferion efelychu gyda thimau rheoli allweddol.
- Adolygiadau parhaus o ddiogelwch ar safleoedd y BBC a lleoliadau darlledu allanol, a chysylltiadau agos ag awdurdodau diogelwch y DU a fforymau diogelwch traws-sector.
- Strategaeth 'Darlledu Gwyrddach' ar waith.
- Cymryd rhan yn rhaglen drawsgyfrwng Albert+.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud ag effaith ail don bosibl o'r coronafeirws yn ogystal â'r disgwyliadau y byddwn yn cyflawni targedau o ran cynaliadwyedd amgylcheddol.

### 2. Rheoli busnes a newid ▲

#### Beth yw'r risg?

Y risg na fyddwn yn rheoli ein gweithrediadau busnes na'n rhaglenni newid sylweddol yn effeithiol, gan effeithio ar gyflawni nodau strategol neu weithredol. Mae hyn yn cynnwys y Portffolio Prosiectau Allweddol, cynlluniau parhad busnes, cyflenwyr trydydd parti a phrosesau gwrth-dwyll.

Y risg nad ydym wedi cynllunio'n effeithiol nac wedi cymryd camau lliniaru i gyfyngu ar yr effaith ar weithrediadau a gwasanaethau os bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Noddwyr lefel uwch pob prosiect allweddol.
- Timau prosiect medrus ac ymroddedig sy'n cymhwyso disgyblaethau rheoli prosiect (Ffordd y BBC).
- Wedi gweithredu ar adolygiadau 'Set up for Success'.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â buddiannau busnes a chanlyniadau prosiectau allweddol.
- Gwario ar fonitro systemau caffael er mwyn sicrhau bod contractau ar waith gyda chyflenwyr, ac er mwyn asesu digonolrwydd y broses o reoli cyflenwyr er mwyn cyflawni gwerth am arian.
- Datblygu strategaeth a metrigau gwrth-dwyll gyda phrosesau ategol.
- Mae'r BBC wedi cymryd camau lliniaru, hyd y gellir, os bydd Brexit heb gytundeb.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud ag ailgynllunio a chyflawni'r Portffolio Prosiectau Allweddol.

#### Beth yw'r effaith?

Anallu i ofalu am iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl ein pobl, cyfranwyr ac ymwelwyr. Gall methiant yn hyn o beth hefyd achosi niwed i enw da'r BBC.

Canfyddiad negyddol ymhlith y cyhoedd a/neu ddirwyon rheoleiddiol am beidio â chyflawni ymrwymïadau i reoli ein heffaith ar yr amgylchedd.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae nifer y digwyddiadau o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn parhau'n isel ac o fewn y lefelau disgwylidig o ystyried maint y sefydliad, faint o weithgareddau a gynhelir ac amrywiaeth y gweithgareddau hynny. Erys hyfforddiant gorfodol yn faes â ffocws. Gwell lefelau o hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn amgylcheddau risg uchel. Mae adolygiad o weithdrefnau diogelwch wedi arwain at fwy o sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Mae'r coronafeirws wedi cynyddu'r risg gynhenid i iechyd a diogelwch aelodau o'r staff, cyfranwyr ac ymwelwyr yn sylweddol. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru pwysig wedi cael eu rhoi ar waith.

#### Beth yw'r effaith?

Mae'r BBC yn wynebu cost ariannol annisgwyl, effaith niweidiol ar ein henw da a/neu ymyrraeth reoleiddiol. Mae'r oedi cyn cyflwyno mentrau newid allweddol yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni amcanion strategol a gweithredol allweddol a hefyd ar gynaliadwyedd ariannol a morâl y staff.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae ein hymatebion i bandemig y coronafeirws wedi dangos trefniadau rheoli parhad busnes cadarn yn sgil digwyddiadau.

Mae'r gwaith o gyflawni rhaglenni mawr yn parhau'n her, yn enwedig o ystyried effaith y coronafeirws, gan gynnwys dargyfeirio adnoddau mewnol at weithrediadau craidd; ac anallu cyflenwyr trydydd parti a chontractwyr i ddarparu eu gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn hon, symudodd un o'n prosiectau mawr i'w gam cwblhau'n llwyddiannus. Mae'r ganolfan ddarlledu yn Sgwâr Canolog, Caerdydd bellach yn cynnig cyfleusterau digidol o'r radd flaenaf a ffyrdd newydd o weithio.

Mae risgiau uwch o dwyll yn ystod pandemig y coronafeirws yn cael eu hasesu er mwyn cael sicrwydd yn eu cylch.



### 3. Cydymffurfiaeth



#### Beth yw'r risg?

Y risg ein bod yn methu â chydymffurfio â safonau/ rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol a safonau/ rhwymedigaethau eraill (gan gynnwys gofynion mewnol e.e. cydymffurfiaeth olygyddol) sy'n berthnasol i'r BBC.

#### Beth yw'r effaith?

Os caiff y risg ym maes cydymffurfiaeth ei rheoli'n annigonol, gall arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Polisiau ar waith, sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol, a ategir gan hyfforddiant a chynghor gan arbenigwyr pwnc, a gwaith monitro ac adrodd manwl.
- Polisi golygyddol sefydledig ar waith, a gaiff ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.
- Prosesau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol Ofcom, a ategir hefyd gan adroddiadau a gwaith monitro.
- Monitro cwynion i Ofcom a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol, a chyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd.
- Timau arbenigol ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â gofynion o ran treth, gofynion cyfreithiol e.e. cyflogaeth, ymglyfreitha a gofynion cydymffurfiaeth reoliadol eraill.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae lefel uchel o graffu o hyd yn yr amgylchedd rheoleiddiol a diddordeb allanol mewn dyfarniadau golygyddol. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r rheoleiddwyr er mwyn bodloni eu gofynion, sydd wedi nodi eu bod yn deall yr heriau a wynebier yn ystod pandemig y coronafeirws. Yn ystod 2019/20, mae materion ynglŷn â chyflog cyfartal a thrafodaethau â CThEM hefyd yn parhau.

Mae effaith y coronafeirws ar amserlenni cynhyrchu a darlledu, yn anochel, wedi cael effaith ar allu'r BBC i gyflawni holl gwotâu Ofcom. Oherwydd amseriad y pandemig, cyfyngedig i ryw raddau yw'r effaith ar 2019/20, ond bydd yr her hon, yn ddi-os, yn parhau drwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â bodloni amrywiol ofynion rheoliadol yn ystod y pandemig.

### 4. Technoleg



#### Beth yw'r risg?

Y risg ein bod yn methu â darparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob sianel ddsbarthu a/neu ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd data'r BBC drwy ymosodiad seiber.

Y risg bod y niferoedd cynyddol o'n pobl sy'n gweithio o bell o ganlyniad i drefniadau cyfyngiadau symud y coronafeirws yn methu â gwneud hynny.

#### Beth yw'r effaith?

Methiant i ddarparu'r cynnwys y mae ein cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl, pryd y byddant yn ei ddisgwyl. Risg fasnachol sylweddol a risg sylweddol i'n henw da os caiff cynnwys ei ryddhau heb ei reoli.

Methiant ein pobl i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol a darparu ein gwasanaethau a'n gweithrediadau craidd.

#### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Nodi pwyntiau methu unigol a chymryd camau fel sy'n briodol.
- Cynlluniau adfer ar waith ac wedi'u profi.
- Monitro toriadau a glynu wrth amcanion amser adfer yn fanwl er mwyn sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau darlledu.
- Polisiau a gweithdrefnau helaeth ar waith er mwyn atal/canfod bygythiadau seiber a chydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn darparu cudd-wybodaeth am seiber-risgiau.
- Mae systemau monitro priodol ar waith i ddarparu gwasanaethau monitro bygythiadau ynghyd â'r gallu i reoli digwyddiadau.
- Cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar Ddiogelwch Data a Seiberddiogelwch i'r sefydliad.
- Technolegau a phrosesau newydd i hwyluso a gwella'r broses o weithio o bell, cymorth technegol a sêl bendith cyflogaion.

#### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae'r risg y caiff y BBC ei dargedu drwy ymosodiadau seiber maleisus a soffistigedig wedi parhau'n uchel. Mae mesurau lliniaru i ddiogelu seilwaith a data'r BBC ar waith.

Mae'r gadwyn ddarlledu wedi aros yn gadarn drwy gydol 2019/20. Mae toriadau sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd a mathau eraill o doriadau seilwaith TG wedi bod o dan y lefelau goddefiad isel a bennwyd.

Mae seilwaith TG y BBC wedi ymateb yn dda o ystyried y niferoedd cynyddol sydd wedi bod yn gweithio o bell.

#### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r BBC fel targed ar gyfer ymosodiadau seiber maleisus, soffistigedig a newydd.



## 5. Diogelu Data

### Beth yw'r risg?

Y risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth GDPR a diogelu data ac yn methu â diogelu'r data personol rydym yn eu prosesu ac yn eu trin.

### Beth yw'r effaith?

Os caiff y risg ynglŷn â diogelu data ei rheoli'n annigonol, gall arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill gan y rheoleiddiwr (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth). Gall hefyd arwain at ddiffyg arloesi, ac anallu i gefnogi nodau hirdymor y BBC a'i strategaethau data sy'n cael eu datblygu.

### Sut y caiff y risg hon ei rheoli (camau lliniaru presennol ac arfaethedig)?

- Polisiau a phrosesau sy'n cydymffurfio â gofynion GDPR ym maes diogelu data a phreifatrwydd, gan gynnwys hawliau gwrthrych data a pholisiau preifatrwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd.
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ddiogelu data i'r staff.
- Cadernid systemau TG.
- Mynediad at gyngor cyfreithiol mewnol ac allanol ar ddiogelu data.
- Goruchwyliaeth y Swyddog Diogelu Data.

### Sut mae'r risg hon wedi newid yn ystod 2019/20?

Mae'r proffil risg yn cynyddu oherwydd yr ymwybyddiaeth o hyd o hawliau unigolion o dan GDPR, a thuedd tuag i fyny sy'n parhau yn nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Fynediad at Ddata a chwynion i'r rheoleiddiwr.

Mae'r coronafeirws wedi cael effaith, o ystyried angen y BBC i brosesu data mewn categori mwy sensitif (data iechyd), yn enwedig mewn ymateb i gamau cynnar y pandemig.

### Risg weddilliol

Mae'r risg weddilliol yn ymwneud â'r newid sylweddol tuag at fwy o weithio oddi ar y safle yn ystod pandemig y coronafeirws a rôl gynyddol data a'r defnydd a wneir o ddata ym maes datblygu a phersonoli cynnyrch y BBC.

Noder: Nid yw'r risgiau na'r mesurau lliniaru a restrir yn cwmpasu pob un sy'n gysylltiedig â'r BBC ac nid yw'r rhifau cyfeirnod yn dynodi trefn blaenoriaeth. Gall risgiau ac ansicrwydd ychwanegol nad ydynt yn hysbys i'r rheolwyr ar hyn o bryd, neu yr ystyrir eu bod yn llai perthnasol ar hyn o bryd, hefyd gael effaith andwyol ar y BBC. Cedwir golwg ar y risgiau llai perthnasol hyn rhag ofn iddynt ddod yn fwy tebygol neu gael mwy o effaith.

### Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol yn parhau'n gyson â Chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adrodd Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ymgorfforir systemau rheoli risg o fewn pob is-adran, gyda phroses gydgyssylltu ganolog er mwyn nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau ar draws y BBC.

### Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddefnyddio nifer o d dulliau i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system o reoli risg a rheolaeth fewnol ym mhob rhan o'r BBC er mwyn asesu bod y lefel gyffredinol yn gadarn.

**Goruchwyllo risg:** Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am yr adolygiad manwl o brosesau risg a rheolaeth a'u goruchwyllo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2019/20 er mwyn craffu ar effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risg a'u goruchwyllo (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 91). Hefyd, cyflwynir adroddiad risg rheolaidd i Fwrdd y BBC.

**Archwilwyr Mewnol:** Parhaodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol â'i llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynhaliodd raglen o archwiliadau yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau hyn i uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff camau adferol eu holrhain hyd nes eu cwblhau.

**Archwiliadau allanol:** Mae canfyddiadau gwaith archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff unrhyw gamau gweithredu a argymhellir eu holrhain hyd nes eu cwblhau. Hefyd, parhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian. Rhoddir sicrwydd allanol hefyd ar ein trefniadau Masnachu Teg er mwyn sicrhau nad oes risg y bydd ein prosesau a'n harferion, pan fyddwn yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol a masnachu, yn ystumio'r farchnad. Goruchwylir y trefniadau hyn gan Bwyllgor Masnachu Teg y BBC.

**Chwythu'r chwiban:** Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddienw. Mae wedi'i estyn ac mae bellach ar gael mewn 13 o ieithoedd. Cafodd cyfarwyddwr anweithredol ei enwi yn y polisi fel yr enw cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

# Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r isafswm o 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'. Mae Bwrdd y BBC wedi ystyried yr asesiad dros gyfnod o dair blynedd.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 a chaiff y rhagolwg ei adolygu'n rheolaidd yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolwg cysylltiedig o lifau arian parod, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu'r paramedrau ariannol i'r BBC rhwng 2017/18 a 2021/22, y Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027 ac effaith pandemig y coronafeirws ar incwm ffi'r drwydded, costau a rhaglenni arbedion.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon o dudalen 95, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2020, o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar y BBC yn sgil pandemig y coronafeirws, gwnaethom gynnal profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd, gan ystyried incwm mewn perygl yn ogystal ag effaith ein cynllun ymateb i'r argyfwng.

Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthycu uchaf drwy fodelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy, ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthycu drwy gydol y cyfnod o dair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, gweithredu'r polisi incwm newydd i bobl dros 75 oed, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodwyd eisoes, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.



# Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol

Y flwyddyn hon oedd fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol. Mae'r Bwrdd wedi cael y dasg o lunio strategaeth yn unol â nodau cyffredinol Grŵp y BBC, cytuno ar gynlluniau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion rheoliadol a chyfreithiol. Mae'r incwm y mae'r BBC yn ei gael o ffynonellau masnachol yn bwysig fel ychwanegiad i'w arian cyhoeddus, yn ogystal â helpu i ddatblygu brand ac enw da'r BBC a hyrwyddo creadigrwydd Prydain yn fyd-eang. Felly, mae'n bleser gennyf nodi bod is-gwmnïau masnachol y BBC wedi cael blwyddyn arall o dwf cadarn er bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar bob rhan o'u gweithgarwch tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Cafodd BBC Studios, sydd bellach yn ei ail flwyddyn fel busnes cynhyrchu a dosbarthu cyfun, flwyddyn lwyddiannus, yn enwedig o ran ei fusnes cynhyrchu, a barodd i EBITDA gynyddu i £181 miliwn (2018/19: £159 miliwn). Roedd yn dda gennyf nodi i adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o BBC Studios, yn ei hadolygiad Gwerth am Arian cyntaf o is-gwmnïau masnachol y BBC, gydnabod bod rhesymeg glir dros uno BBC Worldwide a BBC Studios a bod y broses wedi'i gweithredu'n dda. Cytunodd y Bwrdd Daliadau Masnachol a Bwrdd y BBC â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod angen gwneud rhagor i fesur a dangos buddiannau anariannol yr uno. Felly, cytunwyd ar ddangosyddion perfformiad anariannol er mwyn helpu'r Bwrdd Daliadau Masnachol i asesu i ba raddau y mae BBC Studios yn ennill gwaith newydd ac yn creu eiddo deallusol newydd, gan sicrhau newid diwylliannol a rheoli risg.

Cwblhaodd BBC Studios y broses o gaffael UKTV, sy'n golygu bod gan y BBC reolaeth lawn dros bob un o'i sianelau yn y DU bellach. Mae UKTV, o dan ei Brif Swyddog Gweithredol Marcus Arthur, wedi adnewyddu ei strategaeth ac mae hon eisoes yn dangos arwyddion o lwyddiant, gyda chynnydd mewn refeniw ac EBITDA o un flwyddyn i'r llall, diolch i adnewyddiad creadigol yn ogystal â chynllun synergedd costau effeithiol.

Gwnaeth y busnes sicrhau neu estyn nifer o bartneriaethau cynnwys rhyngwladol pwysig â chwmnïau megis Discovery, Warner Media, ZDF yn yr Almaen a Yandex yn Rwsia. O dan y trefniadau aml-flwydd hyn, mae BBC Studios yn gweithio'n agos i ddatblygu a darparu cynnwys, gan roi mwy o sicrwydd hirdymor i'r busnes gynllunio buddsoddiadau ac incwm.

Lansiodd y BBC ac ITV BritBox UK ar y cyd, sy'n adeiladu ar ei lwyddiant yng Ngogledd America lle mae dros filiwn o danysgrifwyr bellach. Mae BritBox UK yn cyfuno goreuon darlledu cyhoeddus y DU, gyda chynnwys gan Channel 4 a Channel 5 ynghyd â llawer o'r uchafbwyntiau o archifau'r BBC ac ITV. Bydd BritBox yn ehangu i Awstralia yn ddiweddarach yn 2020.

Parhaodd y trawsnewidiad llwyddiannus ym musnes BBC Studioworks, a enillodd ei incwm mwyaf erioed (£40 miliwn yn 2019/20, o gymharu â £37 miliwn yn 2018/19) ac EBITDA (£8 miliwn yn 2019/20, £6 miliwn yn 2018/19). Penododd BBC Studioworks Brif Swyddog Gweithredol newydd yn ystod y flwyddyn hon, sef Andrew Moultrie, sydd wrthi'n cynnal adolygiad strategol i weld sut y gall y BBC fanteisio ar y galw cynyddol am le stiwdio yn y DU.

Mae Global News yn parhau i ddarparu gwasanaeth newyddion diduedd yr ymddiriedir ynddo i filiynau ledled y byd er ei fod yn gweithredu mewn marchnad heriol. Er i'r coronafeirws ddechrau cael effaith ar fusnes Global News yn gynt na gweddill y BBC, serch hynny llwyddodd i ennill £115 miliwn o werthiannau o gymharu â £114 miliwn y flwyddyn flaenorol a gwneud £2 filiwn o elw.

Ymunodd Mai Fyfield â'r Bwrdd Daliadau Masnachol y flwyddyn hon ac mae'n cyfrannu swm sylweddol o brofiad masnachol i'n trafodaethau.

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, daeth yr holl waith ar gynrychiadau i ben ar unwaith, a daeth incwm hysbysebu UKTV a Global News o dan bwysau. Mae aelodau fy Mwrdd a minnau'n ddiolchgar i'r holl dimau sy'n atebol i'r Bwrdd Daliadau Masnachol am yr egni a'r ymrwymiad a ddangoswyd wrth ymdrin â'r cyfyngiadau symud ac ailystyried sefyllfa eu busnesau.

Mae'r Bwrdd Daliadau Masnachol yn bwriadu chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu'r BBC i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Bydd llawer o'r ffocws ar gyfer 2020/21 ar strategaeth fyd-eang y BBC sydd wrthi'n cael ei datblygu, buddiannau masnachol y strategaeth hon a'r goblygiadau i BBC Studios; sicrhau sefyllfa ariannol fwy sefydlog i Global News; a goruchwylio'r broses o roi adolygiad strategol Studioworks ar waith.

## Elan Closs Stephens DBE

Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol  
2 Medi 2020

# Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Yn 2019/20, goruchwyliodd ein Pwyllgor waith diwygio manwl ar Ganllawiau Golygyddol y BBC ar ran Bwrdd y BBC. Lansiwyd y canllawiau diwygiedig ar 8 Gorffennaf a daethant i rym ar 15 Gorffennaf 2019, sef yr iteriad cyntaf o'r canllawiau o dan strwythur llywodraethu presennol y BBC.

Ers eu lansio, mae'r canllawiau wedi cael eu rhannu a'u trafod â staff y BBC yn y DU a ledld y byd. Mae cyfres o fodiwlau hyfforddiant ar-lein ar waith ac maent yn cael eu diweddarau er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r BBC yn gyfarwydd â'r canllawiau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth eu cymhwyso.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo proses gwynion y BBC ar ran y Bwrdd. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i Fframwaith a Gweithdrefnau Cwynion y BBC (fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a Bwrdd y BBC) rhwng 24 Chwefror a 3 Ebrill 2020. Cynigiodd yr ymgynghoriad hwn nifer o newidiadau gyda'r nod o wneud y broses gwyno yn fwy tryloyw yn sgil cwynion am sylw *BBC Breakfast* i ddigwyddiad pan gyhuddwyd yr Arlywydd Donald Trump o ddefnyddio iaith hiliol (Gorffennaf 2019). Roedd y cwynion yn canolbwyntio ar drafodaeth rhwng y cyflwynwyr Dan Walker a Naga Munchetty ar natur hiliol honedig sylwadau Arlywydd Trump. Cynigiodd yr ymgynghoriad newidiadau hefyd i sicrhau bod y Fframwaith yn unol â rheoliadau Ofcom ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alw a'i ganllawiau ar gwynion ynglŷn â Thegwch a Phreifatrwydd. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad eu trafod a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a Bwrdd y BBC a chyhoeddwyd Fframwaith Cwynion newydd, a ddaeth i rym ar 8 Mehefin 2020.

Un o flaenoriaethau sylfaenol Bwrdd y BBC yw sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu allbwn diduedd o ansawdd uchel, yn unol â'r Siarter. Mae'r Pwyllgor wedi monitro gwaith er mwyn ymchwilio i ganfyddiadau'r cyhoedd o ddiueddrwydd y BBC, eu deall a'u gwella. Didueddrwydd sydd wrth wraidd darlledu cyhoeddus y DU ac mewn oes a nodweddir gan gamwbybodaeth a pholareiddio gwleidyddol, mae rôl y BBC yn hollbwysig o ran cadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd a helpu pobl i ddeall materion o nifer o safbwyntiau. Wrth gyflwyno'r Canllawiau Golygyddol diwygiedig, ailbwysleiswyd hefyd fod didueddrwydd yn un o werthoedd craidd y BBC. Mae hyn wedi golygu hyfforddiant ychwanegol i'r rhai sy'n gweithio ym maes newyddion a materion cyfoes, a rhagor o ganllawiau i'r staff ar y didueddrwydd dyladwy sy'n ofynnol yn holl gynnwys y BBC.

Mae'r Canllawiau Golygyddol yn nodi bod yn rhaid i ddau berson bob tro wyllo neu wrando ar gynnwys y BBC a recordiwyd ymlaen llaw cyn ei ddarlledu. Er mwyn cefnogi'r safon uchel hon, mae'n rhaid cwblhau ffurflenni cydymffurfiaeth. Cynhelir hapwiriadau'n rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol. Cyflwynir adroddiad ar ganfyddiadau'r hapwiriadau hyn i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a, lle y cododd materion, mae'n ofynnol i is-adrannau'r BBC ymchwilio, a lle y bo angen, gymryd camau adferol.

Swyddogaethau craidd y Pwyllgor yw sicrhau bod proses gwyno'r BBC yn rhedeg yn effeithiol ac yn cyflawni targedau cyhoeddus ar gyfer amseroldeb, a thrwy hynny roi sicrwydd bod pob rhan o'r BBC yn dilyn y safonau ynglŷn â chynnwys a bennwyd yn y Canllawiau Golygyddol a Chod Darlledu Ofcom. Yn 2019/20, ymdriniwyd ag 87% o gwynion ar Gam 1 ac 85% o gwynion ar Gam 2 o'r broses gwyno o fewn terfyn amser y targed: deg diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 1; 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 cymhleth. Lle mae amseroedd ymateb wedi mynd islaw'r targedau, rhoddir gwybod i'r Bwrdd am hynny. Am y tro cyntaf, ni chyflawnwyd targed Cam 1 (93%). Gellid priodoli hyn yn bennaf i'r nifer mwyaf o gwynion a welwyd erioed yn ystod ymgyrch Etholiad Cyffredinol y DU yn 2019, pan roedd nifer y cwynion deirgwaith yn uwch na'r arfer (63,348 ar gyfer y cyfnod 6 Tachwedd – 16 Rhagfyr 2019). Rhoddwyd nifer o fesurau ar waith i reoli'r ôl-groniad o gwynion, gan gynnwys staff ychwanegol a symleiddio ymatebion i gwynion. Mae'r Pwyllgor wedi nodi perthynas sy'n datblygu rhwng y cyfryngau cymdeithasol a pheirianwaith cwyno ffurfiol y BBC.

## Ian Hargreaves

Cadeirydd  
2 Medi 2020

## Cwynion y BBC 2019/20:

### Ofcom:

Cwynion golygyddol o fewn y cylch gwaith: 212

Nifer y cwynion a gadarnhawyd: 1

.....

### Cam 2, Cwynion golygyddol:

759 – Atebwyd 85% ar amser (targed 80%)

.....

### Cam 1, Cwynion golygyddol a chyffredinol:

368,377 – Atebwyd 87% ar amser (targed 93%)



## Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

**Aelodaeth o'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol**

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol sy'n gyfrifol am safonau cynnwys yn y BBC. Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol a dau gyfarwyddwr gweithredol: Ian Hargreaves (Cadeirydd), Tanni Grey-Thompson, Nicholas Serota, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Francesca Unsworth, y Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes. Mae'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fel Prif Gynghorydd y Pwyllgor.

**Ofcom**

Yn ei ail adroddiad blynyddol ar y BBC, nododd Ofcom fod proses 'BBC First' (sydd â'r nod o sicrhau bod y BBC yn ymdrin â'r rhan fwyaf o gwynion yn uniongyrchol ac yn brydlon) yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond y byddai mwy o dryloywder yn gwneud proses gwyno'r BBC yn fwy effeithiol.

Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu hwn, dyfarnodd Ofcom fod y BBC wedi torri ei God Darlledu ar un achlysur. Dyfarnwyd bod pennod o *Sunday Politics* a ddarlledwyd ar BBC One ar 30 Ebrill 2017 yn gamarweiniol mewn ffordd berthnasol, oherwydd datganiad gan y cyflwynydd am gyfran y plant yn yr Alban sy'n gadael yr ysgol gynradd yn weithredol anllythrennog.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Ofcom ei asesiad o bennod *BBC Breakfast* ar BBC One ar 17 Gorffennaf, y cyfeiriwyd ati uchod. Daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd wedi torri'r Cod Darlledu ac nad oedd unrhyw seiliau dros ymchwiliad, ond mynegodd bryder ynghylch tryloywder proses y BBC o ymdrin â chwynion a gwnaeth argymhellion i'w gwella. Ar yr un pryd, comisiynodd Bwrdd y BBC ei adroddiad ei hun ar wersi a ddysgwyd o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn ynglŷn â *BBC Breakfast*. Arweiniodd rhai o'r argymhellion at newidiadau i'r Fframwaith Cwynion sydd, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, yn cael eu rhoi ar waith.

Yn unol â gofynion Ofcom, mae'r BBC yn parhau i gyhoeddi bob pythefnos fanylion cwynion ynglŷn â rhaglen lle y cyflwynwyd dros 100 o gwynion ac sy'n dod o dan gylch gwaith y Cod Darlledu. Cyhoeddir y bwletinâu hyn yn: [bbc.co.uk/contact/complaint-service-reports](https://www.bbc.co.uk/contact/complaint-service-reports). Ers mis Mehefin 2020, ategwyd yr adnodd hwn drwy gynnwys fersiynau â rhesymau llawn o ganfyddiadau a gadarnhawyd, a gadarnhawyd yn rhannol, a ddatryswyd a hefyd rai canfyddiadau o bwys arbennig nas cadarnhawyd. Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi ymatebion i gwynion o bwys yn: [bbc.co.uk/complaints](https://www.bbc.co.uk/complaints).

**Cwynion golygyddol a gwersi a ddysgwyd**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y mwyafrif o gynnwys y BBC yn cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yng Nghannllawiau Golygyddol y BBC. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor yr achosion difrifol canlynol o dorri'r Canllawiau Golygyddol:

Cynhyrchiad BBC Studios, *Inside the Foreign Office*, Tachwedd 2018. Dilynodd y rhaglen ddogfen hon waith un o adrannau mawr y Llywodraeth dros flwyddyn a oedd yn cynnwys ymddiswyddiad Boris Johnson fel yr Ysgrifennydd Tramor. Yn ystod ras arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol yn 2019, cafwyd adroddiad bod y BBC, ar ôl pwysau gan y Swyddfa Dramor, wedi dileu'r ffilm o Mr Johnson yn cyhuddo'r Ffrancwyr o fod yn "turds over Brexit." Er na wnaed cais penodol gan y Swyddfa Dramor, dylai'r penderfyniad gan y rhaglen i dymheru'r rhan hon fod wedi cael ei gyfeirio at y Polisi Golygyddol ac o fewn BBC Studios. O ganlyniad i hynny, cytunodd BBC Studios i edrych ar ei weithdrefnau uwchgyfeirio mewnol ei hun.

*Edge of Science*, BBC Earth YouTube, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2019. Cafwyd nad oedd y fersiwn estynedig a gyhoeddwyd wedi mynd drwy broses cydymffurfiaeth gan y BBC ac felly ei bod wedi torri Canllawiau Golygyddol y BBC. Roedd y ffaith bod y fersiwn wedi cael ei chyhoeddi gan drydydd parti a heb gyfeirio at dîm Cydymffurfiaeth Cynnwys BBC Studios hefyd yn mynd yn groes i'r broses y cytunwyd arni yng Nghannllaw Fframwaith Golygyddol BBC Studios. Cafwyd hefyd fod y rhaglen wedi torri Canllawiau Hysbysebu a Nawdd y BBC. Cymerwyd nifer o gamau er mwyn sicrhau na fydd y materion hyn yn codi eto.

Yn ogystal â'r achosion hyn o dorri'r Canllawiau Golygyddol, dyfarnodd Uned Cwynion y Bwrdd Gweithredol fod y safonau golygyddol wedi cael eu torri mewn 55 o achosion yn ystod y flwyddyn y mae a wnelo'r adroddiad hwn â hi (gan gynnwys 10 o achosion lle roedd y mater a arweiniodd at y gŵyn wedi'i ddatrys drwy gam gweithredu a gymerwyd gan yr is-adran berthnasol cyn i'r gŵyn gael ei huwchgyfeirio i Uned Cwynion y Bwrdd Gweithredol). Cyflwynir adroddiad ar bob achos difrifol o dorri'r Canllawiau Golygyddol a chwynion a gadarnhawyd/a gadarnhawyd yn rhannol/a ddatryswyd i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol, ynghyd â'r camau a gymerwyd.



# Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ledled y DU. Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

## Cymru

Bu'n flwyddyn bwysig i BBC Cymru Wales wrth iddo orffen y broses o symud i'w bencadlys newydd yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Cafodd y Pwyllgor ddiweddiadau rheolaidd ar gynnydd ac, unwaith i'r timau cyntaf symud i mewn, bu modd iddo gynnal ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020 yn yr adeilad newydd. Ar yr adeg hon hefyd defnyddiodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yr adeilad i annerch y BBC cyfan, fel mae'n ei wneud ar ddechrau blwyddyn newydd, gan fyfyrto ar bwysigrwydd cynhyrchu a chynrychioli pobl y tu allan i Lundain.

Gwnaeth y ffordd y rheolwyd y prosiect hwn argraff ar aelodau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, yn sgil Etholiad Cyffredinol annisgwyl y DU, gohiriwyd cam olaf y broses o symud o Landaf ac mae'r coronafeirws wedi amharu ar yr amserlen ymhellach ac yn anochel. Hefyd, effeithiodd ffyrdd newydd o weithio ar 80 o swyddi.

Aelodau Pwyllgor Cymru oedd Ian Hargreaves, Ken MacQuarrie, Rhodri Talfan Davies a Rhys Evans, gyda staff eraill yn ymuno fel y bo angen. Gwnaethom gyfarfod ddwywaith yng Nghaerdydd ac unwaith yn Wrecsam, lle cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu â'r gynulleidfa gan ganolbwyntio ar gynnwys Newyddion a Radio. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ganolbwyntio ar yr her o ddarparu gwasanaethau o ansawdd o fewn cyfyngiadau cyllidebol; mynd i'r afael ag arferion gwrandawr a gwyllo newidiol; a sicrhau hawliau chwaraeon pwysig am bris rhesymol. Roedd yn braf gweld dramâu fel *The Left Behind* a'r ail gyfres o *Keeping Faith a Hidden* yn ymddangos ar deledu rhwydwaith. A phan ddychwelodd *Gavin and Stacey* am rifyn arbennig adeg y Nadolig, gwnaeth hanner yr holl oedolion yng Nghymru wyllo o fewn cyfnod o saith diwrnod.

Creodd BBC Cymru bodlediadau yn y ddwy iaith a oedd ar gael i'w lawrlwytho ar BBC Sounds. Roedd *Shreds* – stori llofruddiaeth Lynette White – yn gyfres na ellid ei cholli a chydiodd podlediad llwyddiannus Elis James, *Dwy Iaith Un Ymennydd*, yn y dychymyg wrth i'r comediwr ystyried goblygiadau dwyieithrwydd. Unwaith eto, cydweithiodd y ddwy orsaf radio genedlaethol, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, â nifer o wyliau i gyflwyno cerddoriaeth fyw, digrifwyr a digwyddiadau pwysig yng Nghymru yn fyw ar y radio. Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn brysur i Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Ym mis Ionawr, bu'n cydweithio ag Opera Cenedlaethol Cymru i ail-greu'r cyngerdd pedair awr o hyd enwog a gynhaliodd Beethoven yn Fienna ym mis Rhagfyr 1808 i ddathlu 250 mlynedd ers geni'r cyfansoddwr gan werthu pob tocyn. Parhaodd BBC Cymru i ddarparu rhaglenni ar gyfer S4C yn cynnwys *Pobol y Cwm* a *Newyddion*. Ymysg y partneriaethau creadigol eraill roedd prosiect Gorwelion a gyflwynwyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, *It's My Shout* a *Film Cymru*.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyflwynwyd cyfyngiadau symud yng Nghymru oherwydd y coronafeirws. Daeth BBC Cymru Wales ynghyd i ddarparu newyddion a gwybodaeth y gellid ymddiried ynddynt, adloniant a deunyddiau addysgol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm Cymreig. Hoffwn i a'm cydaelodau ddiolch i Gyfarwyddwr Cymru a'i holl dimau am addasu eu ffyrdd o weithio er mwyn cyrraedd y genedl ar yr adeg anodd hon. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ddeall yr heriau fydd yn wynebu BBC Cymru Wales wrth iddo ymdrin â chanlyniadau pandemig y coronafeirws.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalennau 32 a 140 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Elan Closs Stephens DBE**  
Cadeirydd Pwyllgor Cymru  
2 Medi 2020

## Yr Alban

Roeddwn wrth fy modd yn gweld BBC Scotland yn derbyn dwy wobwr arbennig eleni. Rhoddwyd gwobr gyntaf Beirniaid RTS Scotland i sianel BBC Scotland am ei "chyflawniadau anhygoel" yn ei blwyddyn gyntaf. Rhoddwyd Gwobr RTS Scotland i Gyfarwyddwr BBC Scotland Donalda MacKinnon am ei chyfraniad "amhrisiadwy" i ddiwydiant teledu'r Alban; nododd y beirniaid fod gwaith Donalda wedi cael effaith sylweddol a hirdymor ar gynulleidfaedd a gwylwyr yn yr Alban.

Mae pandemig y coronafeirws wedi rhoi pwyslais newydd ar bwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus y BBC i gynulleidfaedd yn yr Alban. Darparodd timau newyddion friffiadau dyddiol byw gan Brif Weinidog yr Alban a Phrif Weinidog y DU i wylwyr a gwrandawyr, a chynyddodd cynulleidfaedd *Reporting Scotland* 52% ar gyfer y rhaglen amser cinio a 43% ar gyfer y rhaglen gyda'r nos. Darparwyd rhaglenni addysgol dyddiol ar sianel BBC Scotland ac iPlayer. Ymatebodd rhaglenni newydd fel *Reflections at the Quay* a *The Service* i anghenion cymunedau crefyddol amrywiol yr Alban, a defnyddiwyd technegau cynhyrchu arloesol i hysbysu a diddanu cynulleidfaedd gyda *Debate Night*, *Susan Calman's Socially Distant*, a *Shelf Isolation*.

Sianel BBC Scotland sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf yn yr Alban ar ôl y pum prif sianel ac mae'n denu cynulleidfa iau a mwy amrywiol na sianelau mwy sefydledig y BBC, felly mae'n ychwanegu cyrhaeddiad unigryw at bortffolio'r BBC. Mae *The Nine* hefyd yn denu cynulleidfa iau na rhaglenni newyddion eraill y BBC yn yr Alban. Ac nid dim ond y sianel linellol sy'n perfformio'n dda; bu perfformiad cynnwys BBC Scotland ar iPlayer yn wirioneddol wych, gyda cheisiadau i wyllo cynnwys a gomisiynwyd gan BBC Scotland a chynnwys a gomisiynwyd ar y cyd wedi mwy na dyblu ers ei lansio.

Mae BBC ALBA yn parhau i gysylltu â chynulleidfaedd Gaeleg a Saesneg, yn enwedig drwy ei rhaglennu chwaraeon a cherddoriaeth, ac mae Radio Scotland ar ei newydd wedd wedi ffynnu.

Mae digon o bethau i gynulleidfaedd edrych ymlaen atynt dros yr hydref, gan gynnwys: ail gyfres o'r rhaglen hanesyddol *Clash of the Clans* a rhaglen ddogfen ar glwb pêl-droed Hearts. Bydd sianel BBC Scotland yn darlledu penodau newydd o *Murder Case* a *Scot Squad*, yn ogystal â chyfres hanes cymdeithasol nodedig yn edrych ar y cyfnod rhwng 1970 a 2020, *Becoming Scotland*.

Fy nghydaelodau o Bwyllgor yr Alban oedd: Cadeirydd y BBC, David Clementi; Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau; Donalda MacKinnon, Cyfarwyddwr yr Alban; Ian Small, Pennaeth Polisi Cyhoeddus a Materion Corfforaethol yr Alban; a Steve Carson, Pennaeth Comisiynu Aml-Lwyfan yr Alban. Mae'r pwyllgor yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled yr Alban, gan gynnwys cyfarfod â chynrychiolwyr o'r gymuned fusnes, y diwydiannau creadigol ac academia, a gwnaethom barhau i ymgysylltu â chynulleidfaedd.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i Donalda MacKinnon sy'n ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Mae Donalda wedi darparu rwyngyddiaeth benigamp yn yr Alban ac mae hefyd wedi gwneud cymaint i helpu menywod i gamu ymlaen a datblygu yn y BBC.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalennau 33 a 144 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Steve Morrison**  
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban  
2 Medi 2020



## Gogledd Iwerddon

Bu datblygiadau gwleidyddol pwysig, a datblygiadau pwysig eraill, yng Ngogledd Iwerddon drwy gydol y flwyddyn, sydd i gyd wedi'u hadlewyrchu ar y BBC. Bu'n fraith cadeirio Pwyllgor y Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon yn ystod y cyfnod hwn.

Eleni, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan dimau'r BBC am bwysigrwydd cynnwys sy'n berthnasol yn lleol a'r ffordd mae cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn ymddiddori ynddo. Defnyddiwyd gwaith ymchwil i feithrin ein dealltwriaeth o anghenion, diddordebau ac ymddygiadau cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Ac rydym wedi ymddiddori mewn mentrau golygyddol pwysig, gan gynnwys y gyfres o raglenni am ddigwyddiadau a gwaddol y Trafferthion. Roedd yr allbwn hwn yn uchelgeisiol, yn olygyddol sensitif ac o werth anferthol i'r cyhoedd.

Fel rhan o'i waith, cafodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariadau ar anghenion buddsoddi a seilwaith ac allbwn lleol y BBC. Clywsom am strategaeth gomisiynu newydd BBC NI ar gyfer cynulleidfaoedd iau, gan weithio gyda'r sector annibynnol a BBC Three. Nododd y Pwyllgor sut mae'r gwaith hwn ac amrywiaeth o raglennu pellach, gan gynnwys drama a rhaglenni dogfen nodedig ar gyfer teledu rhwydwaith y BBC, yn cael budd o'r bartneriaeth ag NI Screen.

Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymweliad â Lisburn i glywed am bartneriaeth arloesol y BBC â Libraries NI a lansio adnodd archif newydd y BBC a fydd ar gael mewn llyfrgelloedd ledled y rhanbarth. Cawsom gyfle hefyd i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol yn y cyfarfod hwn. Clywsom farn pobl leol ymhellach am wasanaethau'r BBC drwy sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd yn Belfast ym mis Hydref.

Yn ystod y flwyddyn eisteddodd David Clementi, Elan Closs Stephens, Peter Johnston a Mark Adair ar y Pwyllgor hwn gyda mi. Ymunodd Fran Unsworth â'r Pwyllgor yn lle Anne Bulford. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith ymgysylltu a'u cefnogaeth, yn enwedig Elan sydd wedi cyflawni rôl anweithredol ar y Pwyllgor gydag ymroddiad mawr yn ogystal â'i chyfrifoldebau eraill ar y Bwrdd.

Gwyddom y bu pryderon am absenoldeb Aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon ar Fwrdd y BBC. Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am y penodiad hwn, ond mae angen cynnwys Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Gobeithio y bydd modd i broses benodi ddigwydd yn gyflym nawr bod datganoli ar waith eto, gan gynnig llais a safbwynt ychwanegol pwysig fel rhan o waith y Bwrdd ar ran holl gynulleidfaoedd y BBC.

Hefyd, gwyddom fod y BBC yn chwarae rôl bwysig ym mywyd diwylliannol a chymunedol Gogledd Iwerddon. Mae ei waith a'i wasanaethau bob amser yn datblygu. Eleni cawsom friffiadau am newidiadau i amserlen BBC Radio Ulster, rhoi strategaeth chwaraeon newydd ar waith a rhoi sylw i ddatblygiadau gwleidyddol yn Stormont a thu hwnt. Parheir i adolygu'r materion hyn a materion pwysig eraill, gan gynnwys effaith y coronafeirws, yn y flwyddyn i ddod wrth inni barhau i sicrhau bod straeon, lleisiau a thalent lleol yn cael eu hadlewyrchu ar draws rhwydweithiau'r BBC.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalennau 34 a 149 o'r Adroddiad Blynnyddol hwn.

### Ken MacQuarrie

Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon  
2 Medi 2020

## Lloegr

Dros y 12 mis diwethaf, mae Pwyllgor BBC England wedi bod yn monitro ac adolygu gwaith BBC England. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth fy nghydweithiwr Tom Ilube, sy'n gyfarwyddwr anweithredol, Helen Thomas, Cyfarwyddwr Lloegr ac aelodau eraill y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn adolygu cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer Lloegr. Maent wedi'u anelu at alluogi ein gweithrediadau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol, sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r dechnoleg ddiweddaraf ac, yn fwyaf pwysig, sicrhau ymhellach ein bod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd lleol.

Mae ein cysylltiad â chynulleidfaoedd yn hollbwysig. Un rhan fawr o waith y Pwyllgor yw cwrdd â gwahanol gynulleidfaoedd ledled y wlad i glywed eu barn am ein gwasanaethau yn uniongyrchol. Rydym wedi parhau i gynnal sesiynau rheolaidd gyda chynulleidfaoedd eleni, yn enwedig gydag aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn troi at y BBC rhyw lawer fel rheol. Cynhaliwyd cyfarfodydd y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymbria, Dyfnaint a Llundain, gan ymgysylltu â gwahanol oedranau a grwpiau ethnig ac economaidd-gymdeithasol amrywiol. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar adborth defnyddiol iawn gan gynulleidfaoedd, ac mae wedi cynyddu'r cyswllt wyneb yn wyneb â chymunedau lleol. Yn ei dro, mae hyn wedi llywio trafodaethau'r Bwrdd a'n strategaeth gyffredinol i gyrraedd cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol.

Mae wedi bod yn braf gweld gwerth ein hallbwn ar radio lleol, teledu rhanbarthol ac ar-lein i gynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'r ffordd mae'r allbwn hwn yn cysylltu cymunedau. Mae newyddiaduraeth leol yn cynhyrchu straeon gwreiddiol sy'n effeithio ar gymunedau, ac mae'n hynod werthfawr wrth ymateb i argyfwng cenedlaethol, fel llifogydd mis Ionawr. Yn fwy diweddar, ni fu hyn erioed mor amlwg ag yn ystod argyfwng y coronafeirws, lle mae gwasanaethau lleol ledled Lloegr wedi bod yn chwarae rhan allweddol yn darparu newyddion diogel yr ymddiriedir ynddo i gynulleidfaoedd o bob oed, ac maent wedi cysylltu cymunedau yn fwy nag erioed. Adlewyrchwyd y gwerth hwnnw mewn ffigurau cynulleidfa. Mae'r ffigurau hyn yn dangos pa mor bwysig yw ein gwasanaethau lleol ar y teledu, radio ac ar-lein i gynulleidfaoedd.

Uchelgais BBC England o hyd fydd gwasanaethu pob cynulleidfa ledled Lloegr. Ym mis Ionawr, lansiodd nifer o fentrau i gyflawni hyn yn cynnwys llu o raglenni wedi'u cyflwyno gan unigolion newydd ac amrywiol sydd wedi dod â chynulleidfaoedd gwahanol i radio lleol gyda'r nos. Mae rhai o'r cyflwynwyr hynny wedi mynd ymlaen i gyflwyno rhaglenni mewn rhannau eraill o radio lleol a chenedlaethol. Gwnaethom hefyd lansio BBC Introducing Upload – menter sy'n debyg i BBC Introducing ond ar gyfer y gair llafar yn hytrach na cherddoriaeth. Yn olaf, mae *Make A Difference* yn helpu cymunedau lleol i ddod ynghyd gyda'r nod o helpu'r rhai mewn angen. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod pandemig y coronafeirws.

Fel Pwyllgor, cawn ein calonogi gan arwyddion cynnar yr effaith ar gynulleidfaoedd, ac edrychaf ymlaen at dwf parhaus yn y flwyddyn i ddod.

### Dr Ashley Steel

Cadeirydd Pwyllgor Lloegr  
2 Medi 2020

# Adroddiad Masnachu Teg

**Yn ystod y flwyddyn hon, bu'n fraint cadeirio'r Pwyllgor Masnachu Teg wrth inni barhau i ddatblygu goruchwyliaeth a sicrwydd trefniadau masnachu a gwahanu'r BBC. Wrth i'r agweddau masnachol ar yr hyn a wna'r BBC ddod yn fwyfwy critigol a sylweddol, mae rôl y Pwyllgor yn hynod bwysig o hyd, gan sicrhau bod y rheolau a'r prosesau perthnasol yn cael eu dilyn. Hefyd, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu ein cydberthynas ag Ofcom, sy'n iawn i gymryd diddordeb agos yn yr hyn a wna'r BBC yn y maes hwn.**

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn glir, sef cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom, fel y'u nodir yn ei Fframwaith Gweithredu. Mae nifer o ddulliau a phrosesau ar waith i'n helpu i wneud hyn. Yn ystod y flwyddyn mae busnes y Pwyllgor wedi cynnwys:

- ystyried prosesau'r BBC ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Ofcom ac adolygu cydymffurfiaeth â'r rhain;
- derbyn adroddiad rheoli chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol, sy'n nodi gwaith ymgysylltu penodol â materion Masnachu Teg newydd a pharhaus ar draws y BBC;
- rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n rhan o'n cylch gwaith;
- adolygu a monitro targedau ar gyfer hyfforddiant Masnachu Teg ar draws y BBC; a
- cymeradwyo pob cyhoeddiad ac adroddiad perthnasol y mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu'n benodol er mwyn cydymffurfio â rheolau masnachu a gwahanu Ofcom.

Drwy'r flwyddyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein swyddogaeth sicrwydd a monitro risg. Rydym wedi gweithio gydag Archwilwyr Mewnol y BBC er mwyn rhoi cynllun sicrwydd manwl ar waith ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth amrywiol y BBC, a goruchwyllo meysydd eraill o'r system. Rydym wedi dechrau adolygu hyn yn rheolaidd ac rydym yn gweithio gydag Archwilwyr Mewnol y BBC er mwyn sicrhau ein bod yn monitro cydymffurfiaeth ac yn rhoi sicrwydd i'n hunain bod cydymffurfiaeth ar draws prif feysydd risg Masnachu Teg.

Fel rhan o hyn, mae hyfforddiant Masnachu Teg yn dal i fod yn hollbwysig. Gwnaethom gyflwyno hyfforddiant Masnachu Teg ar-lein lefel uwch newydd er mwyn sicrhau bod modd darparu hyfforddiant ledled y DU yn gyfartal. Hefyd, gwelsom fod cyfraddau cwblhau ar gyfer yr hyfforddiant yn gwella drwy'r flwyddyn, yn seiliedig ar y garfan flaenorol. Mae'r BBC bellach yn defnyddio system newydd i nodi anghenion hyfforddi yn seiliedig ar wahanol rolau, sydd wedi arwain at ddyblu nifer y cydweithwyr sydd angen cael yr hyfforddiant, gan sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Adolygwn y niferoedd sy'n cael y lefelau gwahanol o hyfforddiant yn rheolaidd a cheisiwn weithio gyda'r busnes ar atebion i'r meysydd hynny lle mae'n anos darparu hyfforddiant. Y ffocws yn y flwyddyn i ddod fydd sicrhau, hyd yn oed gyda'r cynnydd sylweddol hwn, fod cyfraddau cwblhau yn parhau mor uchel ag y maent wedi bod yn y gorffennol.

Ar y cyfan, teimlwn fod systemau a phrosesau'r BBC ar gyfer rheoli masnachu a gwahanu yn parhau i weithio'n dda. Cawn ddiweddariadau rheolaidd am unrhyw gwynion newydd ynghylch Masnachu Teg, neu gwynion sy'n mynd rhagddynt yn y maes, a nodwn na fu unrhyw gwynion newydd o'r math i'w hadrodd yn y flwyddyn. Ac mae'r farn hon wedi'i hategu gan waith Deloitte ar gyfer ei Sicrwydd Masnachu Teg blynyddol, annibynnol. Eleni roeddem yn falch o weld iddo nodi bod y BBC wedi sefydlu a chyflwyno system o reolaethau mewnol ynghylch cydymffurfio â'r gofynion Masnachu Teg. Cyflwynir ei adroddiad dros y dudalen.

Yn ôl yr arfer rwy'n ddiolchgar i aelodau eraill y Pwyllgor a oedd eleni yn cynnwys Ian Hargreaves, Steve Morrison a Shirley Garrod, a ymunodd â'r Pwyllgor fel aelod ym mis Gorffennaf, gan gymryd lle Elan Closs Stephens a adawodd y Pwyllgor ar ôl dod yn Gadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol. Hefyd, mae Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn parhau i'n cefnogi'n dda, a manteisiwn ar arbenigedd timau Polisi, Cyfreithiol a rhannau masnachol o'r BBC.

Fel y bydddech yn ei ddisgwyl efallai, rydym yn parhau i gael cyngor ac edrych am ffyrdd o atgyfnerthu rôl y Pwyllgor. Rydym wedi cael cyfraniadau gwerthfawr yn hyn o beth eleni drwy ein trafodaethau rheolaidd ag Ofcom a hefyd drwy waith Christopher Saul, a gynhaliodd werthusiad allanol eleni o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor.

Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod pan fyddwn yn datblygu ymhellach ein gwaith gyda gwahanol rannau o'r BBC, yn parhau i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni yn erbyn fframwaith Ofcom, yn ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid â diddordeb ar draws y diwydiant, ac yn parhau i sicrhau bod record y BBC o ran masnachu a gwahanu yn dal i fod mor gadarn ag erioed.

## Tom Ilube CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg  
2 Medi 2020



**Beth yw ystyr Masnachu Teg?**

Masnachu Teg yw'r ffordd y disgrifiwn ein prosesau a'n harferion, o fewn y BBC ac wrth ddelio â thrydydd partion, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau masnachol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau'n briodol ar wahân ac yn masnachu â'i gilydd ar sail marchnad. Golyga hyn na all y rhannau o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded roi mantais gystadleuol i weithrediadau masnachol y BBC nac unrhyw drydydd parti arall rydym yn ymwneud ag ef. Caiff y rheolau hyn eu goruchwyllo gan Ofcom, sy'n gosod y rheolau masnachu a gwahanu fel rhan o'i fframwaith cyffredinol ar gyfer y BBC, a gan bartion eraill fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n ceisio sicrhau bod unrhyw ddefnydd o arian ffi'r drwydded yn briodol ac yn bodloni ein gofyniad.

**Beth mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn ei wneud?**

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd er mwyn monitro a sicrhau gwahanu priodol rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn unol â'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau masnachol a bennwyd gan Ofcom. Sefydlwyd y Pwyllgor gan y Bwrdd yn wirfoddol i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac effeithlonrwydd masnachol i'r BBC wrth weithredu ei is-gwmnïau masnachol.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw goruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol ar gyfer masnachu a gwahanu rhwng yr is-gwmnïau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol\*. Ymhlith cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor mae'r canlynol:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom;
- parhau i adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddiol masnachu a gwahanu Ofcom;
- comisiynu a derbyn sicrwydd annibynnol blynyddol ynghylch rheolaethau cydymffurfio;
- ystyried a chymeradwyo cyhoeddi methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC;
- parhau i oruchwyllo hyfforddiant Masnachu Teg y BBC; a
- sicrhau bod methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cafodd y rheolau masnachu a gwahanu eu cyhoeddi gan Ofcom ym mis Chwefror 2019 ac maent yn rhan o fframwaith Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a rhai ei is-gwmnïau masnachol.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl weithgareddau masnachol yn cael eu cyflawni gan is-gwmnïau masnachol;
- bod unrhyw is-gwmnïau ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC yn weithredol;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar sail telerau masnachol hyd braich;
- bod is-gwmnïau yn gwneud enillion masnachol; a
- bod y BBC yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith o ran tryloywder, monitro ac adrodd ar weithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r fframwaith. I wneud hyn, mae tîm Polisi a Rheoleiddio Grŵp y BBC yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu at staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Mae'r hyfforddiant wedi parhau i gael ei ddiweddarau, ei ddiwygio a'i wneud yn fwy hygyrch i bob aelod o staff cymwys eleni, gan gynnwys drwy dargedu hyfforddiant lefel uwch at y cyflogeion hynny sy'n gweithio mewn meysydd lle mae'r risg uchaf o ran Masnachu Teg. Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg wedi goruchwyllo'r prosesau hyn a monitro cydymffurfiaeth â nhw.

Caiff y Pwyllgor ei frifio ynghylch cwynion Masnachu Teg a rheoleiddiol perthnasol a ddaw i law'r BBC ac y mae'n ymdrin â nhw. Rhoddir manylion am y rhain yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 105, er i'r Pwyllgor nodi na ddaeth unrhyw gwynion Masnachu Teg penodol i law yn ystod y flwyddyn.

**Sut mae'r Pwyllgor yn gweithio**

Yn 2019/20, roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol: Tom Ilube (Cadeirydd), Shirley Garrod, Ian Hargreaves a Steve Morrison. Ymunodd Shirley Garrod â'r Pwyllgor ar ddechrau ei thymor fel cyfarwyddwr anweithredol, ym mis Gorffennaf 2019, gan gymryd lle Elan Closs Stephens a wnaeth adael pan ddechreuodd ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Daliadau Masnachol. Yn ystod y flwyddyn, mynychwyd cyfarfodydd y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Polisi a'r Pennaeth Rheoleiddio, yn ogystal â'r Prif Swyddog Ariannol, Cwnsler Cyffredinol y Grŵp a chynghorwyr eraill fel y bo angen. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gyda phapurau hefyd yn cael eu cymeradwyo all-lein fel y bo angen. Ceir y tabl ar fynychu cyfarfodydd ar dudalen 90.

I gefnogi'r fframwaith, ac i sicrhau'r ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â rheoleidd-dra ac yn defnyddio arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn parhau i gomisiynu sicrwydd blynyddol gan gwmni annibynnol o'i wirfodd. Nodir yr Adroddiad Sicrwydd isod.

Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch-reolwyr perthnasol, ac ar ôl ystyried y canfyddiadau o ran Sicrwydd Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

\* Yn 2019/20 – BBC Studios, BBC Studioworks a Global News

# Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Barn am drefniadau Masnachu Teg

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i gydymffurfio â'r agweddau ar Fasnachu Teg mewn perthynas â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu a cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

## Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

## Ein hannibyniaeth a rheoli ansawdd

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moeseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill – cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyledus, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

## Ein cyfrifoldebau

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol inni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Cynhaliwyd asesiad seiliedig ar risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu ac ar gyfer pob un gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol. Fel rhan o'n gwaith archwiliwyd trefniadau prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwyso gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn gwyrddroi'r farchnad neu'n rhoi mantais gystadleuol annheg. Drwy ein gwaith, gwelsom ddiwylliant o ymgynghori ac atgyfeirio o ran materion Masnachu Teg.

## Cyfyngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfyngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Deloitte LLP

Llundain, y DU  
2 Medi 2020

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiliedig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod unrhyw dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- fod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo; a
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

### Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Caiff y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



Syr David Clementi

Cadeirydd  
2 Medi 2020



# Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymiadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymiadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y drwydded ac ymrwymiadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfa oedd.

*Brittany Howard yng ngŵyl  
BBC 6 Music 2020*



t. **121**

**Ymrwymiadau'r Cynllun  
Blynyddol**

Adolygiad manwl  
o'r ymrwymiadau a  
wnaed yng Nghynllun  
Blynyddol 2019/2020.

*Will Young ar Bedtime  
Stories CBeebies*

# Cydymffurfiaeth reoleiddiol

Noda'r tabl isod gydymffurfiaeth y BBC ag amodau rheoleiddiol Trwydded Weithredu Ofcom. Mesurir cydymffurfiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 oni nodir yn wahanol. Trefnir y gofynion isod yn ôl diben cyhoeddus.

Llwyddodd y BBC i fodloni pob un o rwymedigaethau ei Thrwydded Weithredu, â thri eithriad:

- darlledwyd 57 munud o newyddion ar 1Xtra ar ddau ddiwrnod ar ddiwedd mis Mawrth 2020;
- darlledwyd 22 awr a 50 munud o newyddion ar BBC Asian Network am bythefnos ym mis Mawrth 2020;
- darlledwyd 172 awr o gynnwys nad oedd yn newyddion ar BBC Two Wales yn ystod 2019/20.

Ym mhob achos, effaith y coronafeirws oedd yn gyfrifol am hyn. Rydym wedi ymgysylltu ag Ofcom ar ein cydymffurfiaeth â'r Drwydded Weithredu drwy gydol y pandemig.

## Diben Un: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
<b>BBC One</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion	1	1,520 (280 yn ystod oriau brig)	1,697 (293 yn ystod oriau brig)
Oriau o faterion cyfoes yn ystod oriau brig	1	45	63
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o faterion cyfoes	1,2	450 (106 yn ystod oriau brig)	569 (127 yn ystod oriau brig)
<b>CBBC</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
Oriau o newyddion		85	92
<b>BBC News</b>			
Mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
Mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU		✓	✓
<b>Radio 1</b>			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd ar ddiwrnodau'r wythnos		1	1
Dau fwletin newyddion estynedig (un yn ystod oriau brig) ar ddiwrnodau'r wythnos		✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
<b>1Xtra</b>			
Oriau o newyddion yn ystod y dydd ar ddiwrnodau'r wythnos	3	1	1 (57 munud am ddau ddiwrnod)
Dau fwletin newyddion estynedig ar ddiwrnodau'r wythnos		✓	✓
Bwletin rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau		✓	✓
<b>Radio 2</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		17 (3 yn ystod oriau brig)	17 (3 yn ystod oriau brig)
Bwletin rheolaidd		✓	✓
<b>Radio 3</b>			
Newyddion drwy gydol y dydd		✓	✓
<b>Radio 4</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		2,750	3,557
Adroddiadau dyddiol o drafodion y Senedd pan fo'r Senedd yn eistedd		✓	✓
<b>BBC Radio 5 live</b>			
% yr allbwn sy'n newyddion a materion cyfoes		75	76
Sylw helaeth i etholiadau lleol a chyffredinol, etholiadau siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, a sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol		✓	✓
<b>BBC 6 Music</b>			
Oriau wythnosol o newyddion		6	6
<b>BBC Asian Network</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes	4	24	24 (22 awr 50 munud am bythefnos)
<b>BBC Ar-lein</b>			
Darparu dolenni digonol i ddeunydd trydydd partion		✓	✓

Nodiadau

1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2019

2 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth

- 3 Cyflawnodd 1Xtra yr amod ar gyfer pob diwrnod ond dau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i'r amserlen er mwyn rheoli effaith pandemig y coronafeirws, darparodd 1Xtra 57 munud o newyddion y dydd ar ddau ddiwrnod ym mis Mawrth 2020
- 4 Cyflawnodd BBC Asian Network yr amod ar gyfer pob wythnos ond pythefnos yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i'r amserlen er mwyn rheoli effaith pandemig y coronafeirws, darparodd BBC Asian Network 22 awr a 50 munud o newyddion a materion cyfoes am bythefnos ym mis Mawrth 2020

### Diben Dau: Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
<b>BBC One</b>			
Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		45	55 (19 yn ystod oriau brig)
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o raglenni crefyddol	1	115	146 (13 yn ystod oriau brig)
<b>BBC Two</b>			
Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth, gyda rhywfaint yn ystod oriau brig		175	227 (68 yn ystod oriau brig)
<b>BBC Four</b>			
Oriau newydd o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth		175	224
<b>CBeebies</b>			
Amrywiaeth o gynnwys sy'n helpu plant cyn oedran ysgol i ddysgu		✓	✓
<b>CBBC</b>			
Oriau o ddrama		1,000	1,961
Oriau o raglenni ffeithiol		675	1,483
<b>BBC ALBA</b>			
Oriau wythnosol gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg		5	12
<b>Radio 1</b>			
Nifer y rhaglenni dogfen newydd		40	46
<b>1Xtra</b>			
Nifer y rhaglenni dogfen		40	47
<b>Radio 2</b>			
Oriau o raglennu celfyddydol		100	121
Oriau o raglenni dogfen newydd	2	130	130
Oriau o allbwn crefyddol gan gwmpasu sawl ffydd		170	191
<b>Radio 3</b>			
% yr allbwn byw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig		45	50
Nifer y perfformiadau byw neu berfformiadau a recordiwyd yn arbennig	3	440	942
Nifer y darnau o waith cerddorol newydd a gomisiynwyd		25	40
Nifer y rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol		35	42
<b>Radio 4</b>			
Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol	2	375	484
Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol ar gyfer sawl ffydd	2	200	203
<b>BBC 6 Music</b>			
Oriau o raglenni dogfen, traethodau a rhaglenni nodweddiadol llafar		520	542
<b>BBC Ar-lein</b>			
Cynnwys sy'n helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu ffurfiol ym mhob rhan o'r DU		✓	✓

#### Nodiadau

- Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- Ni chaiff ailddarllediadau eu cynnwys
- Eleni, rydym wedi cyfrif perfformiadau ar *Afternoon Concert* a *New Generation Artists* tuag at y cyfanswm hwn



Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

**Diben Tri: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau**

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
<b>Teledu</b>			
% yr oriau sy'n rhaglenni gwreiddiol	1,2		
BBC One		75	85
BBC One yn ystod oriau brig		90	99
BBC Two		75	90
BBC Two yn ystod oriau brig		90	95
BBC Four		75	88
BBC Four yn ystod oriau brig		60	86
BBC News		90	98
BBC Parliament		90	97
CBBC		72	81
CBeebies		70	74
BBC ALBA		75	94
BBC Scotland		75	98
<b>Oriau o raglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig</b>			
BBC One	2,3	4,000	4,258
BBC Two		2,200	2,749
CBBC		400	406
CBeebies		100	120
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o raglenni comedi, rhai yn ystod oriau brig	4	300	354 (218 yn ystod oriau brig)
<b>Radio</b>			
<b>Radio 1</b>			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		45	52
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	5	50	52
Oriau wythnosol o gerddoriaeth arbenigol		60	66
Nifer y sesiynau newydd byw neu a recordiwyd yn y tri mis blaenorol (heb gynnwys ailddarllediadau)		175	182
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	6	✓	✓
Nifer yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr	7	2	2
<b>Radio 2</b>			
% y gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU		40	51
% y gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd, gyda chyfran helaeth gan artistiaid newydd neu artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU	8	20	26
Oriau o gerddoriaeth fyw		260	260
Oriau o gerddoriaeth arbenigol		1,100	1,249
Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy	6	✓	✓
<b>BBC Radio 5 live</b>			
Nifer y digwyddiadau chwaraeon â sylwebaeth fyw	9	20	21

**Nodiadau**

- 1 Cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys holl raglenni'r BBC a gomisiynwyd, gan gynnwys ailddarllediadau
- 2 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2019
- 3 Nid yw rhaglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf yn cynnwys ailddarllediadau
- 4 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- 5 Roedd 41% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2019 gan 'artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- 6 Gan ystyried sawl gwaith y'i chwaraeir a maint y rhestr chwarae, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig
- 7 Yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol oedd 24-Hour LOL-a-thon Radio 1 gyda Scott a Chris a Teen Heroes Radio 1
- 8 Roedd 20% o'r ychwanegiadau at restr chwarae Radio 2 yn ystod 2019 gan 'artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU'
- 9 Y chwaraeon oedd: athletau, para-athletau, bocsi (dynion a menywod), criced (dynion a menywod), beicio ffordd, pêl-droed (dynion a menywod), Formula One, golff (dynion a menywod), rasio ceffylau, MMA, pêl-rwyd, rygbi'r undeb (dynion a menywod), rygbi'r gynghrair, snwcer, nofio a thenis

**Diben Pedwar: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig**

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
<b>Teledu Rhwydwaith</b>			
Amrywiaeth addas o raglenni a wnaed y tu allan i ardal yr M25	1	✓	✓
<b>% yr oriau a wnaed yn... mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu</b>			
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)	1	50	62
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		30	38
Yr Alban		8	15
Cymru		4	5
Gogledd Iwerddon		2	3
<b>% y gwariant a wnaed yn... mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu</b>			
Y DU (y tu allan i ardal yr M25)	1	50	51
Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)		28	29
Yr Alban		8	9
Cymru		5	8
Gogledd Iwerddon		3	4
<b>BBC One</b>			
Oriau o newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol drwy gydol y dydd	1	4,300 (2,100 yn ystod oriau brig)	4,790 (2,309 yn ystod oriau brig)
<b>BBC One a BBC Two</b>			
Oriau o raglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1,2	5,969	6,334
Amrywiaeth addas o raglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol	1,2	✓	✓
% y rhaglenni a wnaed yn y lleoliad perthnasol	1,2	95	99
Oriau o raglennu nad yw'n newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod oriau brig	1,2	579	616
Oriau o raglennu nad yw'n newyddion o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol y naill ochr i oriau brig	1,2	195	297
<b>BBC One Scotland</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		290	367
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		155	237
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
<b>BBC One Wales</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		275	341
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		65	223
<b>BBC Two Wales</b>			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion	3	175	172
<b>BBC One Wales a BBC Two Wales</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru	2	✓	✓
<b>BBC One Northern Ireland</b>			
Oriau o newyddion a materion cyfoes		310	410
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		90	108
<b>BBC Two Northern Ireland</b>			
Oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion		60	177
Rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
<b>BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon	2	✓	✓
<b>BBC Parliament</b>			
Oriau o drafodion o Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon		300	518
<b>Radio Rhwydwaith</b>			
% gwariant gorsafoedd radio rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25	4, 5	33.3	38
% gwariant Radio 3 y tu allan i ardal yr M25	4	40	44
<b>BBC Ar-lein</b>			
Newyddion a gwybodaeth i ranbarthau Lloegr		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn ranbarthau Lloegr		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i'r Alban		✓	✓
Cynnwys Gaeleg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yn yr Alban		✓	✓



Cydymffurfiaeth reoleiddiol

	Nodyn	Cwota	Cyflawnwyd
Newyddion a gwybodaeth i Gymru		✓	✓
Cynnwys Cymraeg		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Nghymru		✓	✓
Newyddion a gwybodaeth i Ogledd Iwerddon		✓	✓
Cynnwys Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster		✓	✓
Sylw i chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon		✓	✓
<b>Gwasanaethau'r Gwledydd a'r Rhanbarthau</b>			
<b>BBC Scotland</b>			
Amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban		✓	✓
Amrywiaeth addas o raglenni yn cynnwys newyddion yr Alban	1	✓	✓
% ei raglenni gwreiddiol a ddangoswyd gyntaf a wnaed yn yr Alban	1	90	99
Oriau o newyddion yn ystod oriau brig	1, 6	212	273
<b>BBC ALBA</b>			
Newyddion byw bob noson o'r wythnos, gan gynnwys oriau brig, ac adolygiad hirach o'r newyddion ar benwythnosau		✓	✓
<b>Radio Lleol y BBC</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	7, 8	60	65
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	7	100	100
Newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir drwy gydol y dydd	7	✓	✓
Cynnwys nad yw'n newyddion sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau a wasanaethir	7	✓	✓
Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol	8, 9	95	124
BBC Radio Guernsey – oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	112
BBC Radio Jersey – oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		80	91
BBC Radio Somerset – Oriau wythnosol o raglenni gwreiddiol, a wnaed yn lleol		70	107
<b>BBC Radio Scotland</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	90
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		50	63
Sawl rhaglen eithrio ranbarthol bob diwrnod o'r wythnos, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, gan gynnwys rhaglenni cymunedol fin nos		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
<b>BBC Radio nan Gàidheal</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		40	49
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Newyddion mynych yn ystod y dydd, yn enwedig yn ystod oriau brecwast brig ac oriau brig yn ystod y prynhawn yn ystod yr wythnos ac oriau brig ar benwythnosau		✓	✓
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r Alban		✓	✓
<b>BBC Radio Wales</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	71
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100]
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes	10	32	42
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
<b>BBC Radio Cymru</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar		60	68
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar		100	100
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		23	25
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Gymru		✓	✓
<b>BBC Radio Ulster</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		35	40
<b>BBC Radio Foyle</b>			
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes		20	23
<b>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</b>			
% yr allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n gynnwys llafar	2	60	71
% yr allbwn brecwast yn ystod oriau brig sy'n gynnwys llafar	2	100	100
Cynnwys a cherddoriaeth sy'n arbennig o berthnasol i Ogledd Iwerddon	2	✓	✓
Oriau o raglennu mewn iaith leiafrifol frodorol, gan gynnwys allbwn Gwyddeleg a Sgoteg-Wlster	2	240	264

Nodiadau

- 1 Mesurwyd ar draws blwyddyn galendr 2019
- 2 Mesurwyd ar draws y ddau wasanaeth
- 3 Canslwyd digwyddiadau chwaraeon ar fyr rybudd oherwydd y coronafeirws, gan arwain at y diffyg hwn
- 4 Mae ffigurau Radio 3 yma yn cynnwys gwariant ar y Grwpiau Perfformio

- 5 Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau gan Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a BBC Radio 5 live  
 6 Mesurwyd rhwng 19.00 a 22.30 o ystyried bod y sianel yn gweithredu'n bennaf o 19.00 gyda'r nos  
 7 Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC. Roedd pob gorsaf yn cydymffurfio ag amod y drwydded  
 8 Y ffigur a roddir yw'r ffigur cyfartalog ar gyfer y gorsafoedd perthnasol  
 9 Yn gymwys i holl orsafoedd Radio Lleol y BBC, heblaw am BBC Radio Guernsey, BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset  
 10 Eleni, rydym wedi cynnwys sioe ffonio i mewn Jason Mohammad fel cynnwys newyddion a materion cyfoes

	Nodyn	Cyflawnwyd	Cyflawnwyd
<b>Amrywiaeth</b>			
<b>Mae'n rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad ar y ffordd y mae wedi gwneud y canlynol:</b>			
Ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol yn y DU	1	✓	Gweler tudalennau 30-39 ac adroddiad y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCOP)
Gwasanaethu'r ystod o gymunedau amrywiol yn y DU a darparu cynnwys iddynt		✓	Gweler tudalennau 30-39/adroddiad DCCOP
Cynrychioli'r ystod o gymunedau amrywiol yn y DU yn gywir		✓	Gweler tudalennau 30-39/adroddiad DCCOP
Portreadu'r ystod o gymunedau amrywiol yn y DU mewn ffordd ddilys		✓	Gweler tudalennau 30-39/adroddiad DCCOP
Codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen cymunedau amrywiol y DU		✓	Gweler tudalennau 30-39/adroddiad DCCOP
<b>Mae'n rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad ar foddhad cynulleidfaoedd:</b>			
Sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol	2	✓	Gweler tudalennau 30-39 a 119
Sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y DU ar sgrin ac ar yr awyr	2	✓	Gweler tudalennau 30-39 a 119
Sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau	2	✓	Gweler tudalennau 30-39 a 119
Y camau y bydd eu hangen er mwyn gwella boddhad cynulleidfaoedd lle mae grwpiau cynulleidfa penodol yn anfodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn		Dd/G	Gweler tudalen 119
Y camau y mae wedi'u cymryd ac effaith y camau hynny er mwyn gwella boddhad cynulleidfaoedd lle roedd grwpiau cynulleidfa penodol yn anfodlon ar berfformiad y BBC yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol		Dd/G	Dd/G
<b>Mae'n rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad ar amrywiaeth yn y gweithlu:</b>			
Amrywiaeth yr holl staff a gyflogir mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU gan gynnwys nifer y staff yn ôl gwahanol nodweddion amrywiaeth	1	✓	Gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb (EIR)
Lefel swydd y cyfryw aelodau o staff	3,4	✓	Gweler EIR
Math o swydd y cyfryw aelodau o staff	3,5	✓	Gweler EIR
I ba raddau y mae'r BBC wedi gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau ar gyfer amrywiaeth yn y gweithlu		✓	Gweler tudalennau 59-60
<b>Mae'n rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad ar y canlynol:</b>			
Ei gynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau ar gyfer cynrychioli a phortreadu ar y sgrin ac ar yr awyr		✓	Gweler tudalennau 37-38/adroddiad DCCOP
Ei gydymffurfiaeth â'r cod ymarfer Comisiynu Amrywiaeth		✓	Gweler adroddiad DCCOP

## Nodiadau

- Yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol
- Gan roi ystyriaeth benodol i gynnwys a ddangoswyd gyntaf ar draws pob genre
- Rydym wedi cyflwyno adroddiadau pellach i Ofcom yn benodol ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU er mwyn bodloni'r amodau hyn
- Mae'n ofynnol i'r BBC gyflwyno adroddiad ar y cyfryw staff yn ôl y categorïau canlynol: aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol, uwch-reolwyr, rheolwyr canol/iau ac aelodau o staff nad ydynt yn rheolwyr. Nid oes digon o aelodau Bwrdd ac aelodau anweithredol i ni gyflwyno adroddiad ar eu hamrywiaeth yn unol â pharagraff 2.51 o'r Drwydded Weithredu. Rydym yn cyflwyno adroddiad ar lefel swydd ein staff yn yr EIR a drwy gyflwyniadau pellach i Ofcom yn ôl band cyflog, ac yn mapio'r wybodaeth i categorïau Ofcom fel a ganlyn: A-C – staff nad ydynt yn rheolwyr; D-E – rheolwyr canol/iau; F-SL – uwch-reolwyr.
- Mae'n ofynnol i'r BBC gyflwyno adroddiad ar y cyfryw staff yn ôl y categorïau canlynol: rhaglennu, comisiynu, technegol/peirianeg, gwerthu/marchnata a swyddogaethau cymorth/gweinyddol

**Boddhad cynulleidfaoedd o ran y ffordd y caiff cymunedau amrywiol yn y DU eu hadlewyrchu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu**

Mae angen i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn ariannol o ran y ffordd y caiff cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan eu hadlewyrchu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu. Dengys canfyddiadau arolwg 2019/20, yn ôl band oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, ardal o'r DU, ac ymysg cynulleidfaoedd gwyn a chynulleidfaoedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, fod y gyfran a ddywedodd fod y BBC yn effeithiol mewn perthynas â'r mesurau hyn yn uwch yn amlach na'r gyfran a ddywedodd ei fod yn aneffeithiol. Mewn rhai grwpiau cynulleidfa, er bod y mwyafrif neu'r rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod y BBC yn effeithiol, roedd y gyfran hon o bobl a ddywedodd fod y BBC yn effeithiol yn is na'u grŵp cymharol. Mae hyn yn nodi nad yw rhai grwpiau cynulleidfa yn teimlo cymaint o foddhad â'r BBC yn hyn o beth nag erail. Roedd hyn yn wir am gynulleidfaoedd C2DE o gymharu â chynulleidfaoedd ABC1; cynulleidfaoedd BAME o gymharu â chynulleidfaoedd gwyn; cynulleidfaoedd o dan 55 oed o gymharu â chynulleidfaoedd 55+ oed; yng Ngogledd Lloegr o gymharu â Lloegr yn gyffredinol; ac ar gyfer rhai mesurau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon o gymharu â chyfartaledd Lloegr, ac am bobl anabl o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Yn ogystal, roedd pobl yng Nghymru yn rhanedig o ran pa mor effeithiol y mae'r BBC yn adlewyrchu eu rhan nhw o'r DU.





# Materion rheoleiddiol eraill

## Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol ai peidio. Os ydynt, mae'n ofynnol i ni gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd, sydd wedyn yn gorfod cael ei gymeradwyo gan Ofcom cyn y gall y newid gael ei wneud.

Ym mis Ebrill 2019, cymeradwyodd Bwrdd y BBC y Prawf Budd y Cyhoedd ar gyfer y cynlluniau i gynyddu argaeledd cynnwys ar BBC iPlayer. Yn dilyn ei asesiad cystadleuaeth, penderfynodd Ofcom ym mis Awst 2019 y gallai'r BBC fwrw ati â'i gynlluniau.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi cynnal tri asesiad manwl o ba mor sylweddol oedd newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU. O'r rhain, penderfynodd y BBC nad oedd yr un yn sylweddol:

- Lansio ap Own It i gefnogi pobl ifanc ar-lein;
- Cynorthwyydd llais digidol newydd y BBC, 'OK Beeb';
- Datblygu BBC Sounds ymhellach, gan gynnwys cyfuno podlediadau trydydd parti a gwasanaeth ffrydio cerddoriaeth cyfyngedig.

## Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol ai peidio. Yn ystod 2019/20, gwnaethom asesu a oedd cyfranogiad y BBC yn BritBox yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Penderfynodd Bwrdd y BBC ym mis Mai 2019 nad oedd yn newid sylweddol. Ym mis Medi 2019, yn dilyn ymgynghoriad, cytunodd Ofcom nad oedd angen Prawf Masnachol.

## Cwynion rheoleiddiol

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, ar sail dull gweithredu BBC First. Eleni, cawsom un gwyn ynghylch materion cystadleuaeth. Ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch gofynion perthnasol eraill nad oeddent yn olygyddol.

Mater	Gwasanaeth	Dyddiad y gwyn	Canlyniad a datrysiaid	Dyddiad y canlyniad
Caffael hawliau chwaraeon	Radio 5 live a 5 live sports extra	8 Awst 2019	Heb dorri gofynion cystadleuaeth	2 Hydref 2019

# Ymrwymadau'r Cynllun Blynyddol

O dan y Siarter, mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol. Fel rhan o'r Cynllun Blynyddol, gwnaethom 106 o ymrwymadau cyhoeddus i wneud y BBC yn nodedig. Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau neu ganlyniadau penodol o ran ein gwasanaethau a ddiwyddodd yn ystod 2019/20. Cyflawnodd y BBC holl ymrwymadau perthnasol y Cynllun Blynyddol yn 2019/20.

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC One</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu amrywiaeth llawer ehangach o genres yn ystod oriau brig o gymharu ag unrhyw sianel gymaradwy	DO
Uchelgais creadigol	Darlledu o leiaf ddwy gyfres uchelgeisiol, nodedig ffeithiol newydd (yn amodol ar amserlenni)	DO – 3
<b>BBC Two</b>		
Uchelgais creadigol	Darlledu o leiaf dair cyfres ffeithiol boblogaidd newydd	DO – 3
<b>BBC One a BBC Two</b>		
Uchelgais creadigol	Darlledu o leiaf 25 o gyfresi drama newydd	DO – 26
	Darlledu o leiaf ddeg cyfres gomedi newydd	DO – 15
	Darlledu o leiaf 220 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth (gan gynnwys ailddarllediadau a chaffaeliadau), gyda rhai ohonynt yn ystod oriau gwyllo brig	DO – 282
	Darlledu o leiaf 90 awr o raglenni dogfen newydd	DO – 121
<b>BBC Three</b>		
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Bydd mwy na 90% o gomisiynau ffurf hir yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU	DO – 98%
Uchelgais creadigol	Darlledu o leiaf ddwy gyfres newydd heb eu sriptio	DO – 6
<b>BBC Four</b>		
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Darlledu o leiaf 60 awr o raglenni ffeithiol gwreiddiol	DO – 106
<b>CBBC</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill	DO
	Cyflwyno rhaglenni newydd er mwyn gwasanaethu carfanau ifancaf a hynaf y gynulleidfa: 6-9 oed a thros 10 oed	DO
Uchelgais creadigol	Cefnogi iechyd meddwl a lles plant yn y DU drwy amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael ar CBBC, a thrwy ap Own It	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin	DO
<b>CBeebies</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu ystod ehangach o genres na sianelau teledu plant eraill	DO
Uchelgais creadigol	Cyflwyno rhaglenni newydd er mwyn ysgogi diddordeb yn y byd naturiol ymysg gwylwyr ifanc	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Adlewyrchu'r amrywiaeth o blant yn y DU er mwyn sicrhau bod pawb yn gweld eu hunain a'u bywydau'n cael eu cynrychioli ar y sgrin	DO
<b>BBC News</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i newyddion chwaraeon manwl dyddiol	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	BBC News fydd y sianel newyddion â'r cyrhaeddiad mwyaf yn y DU	DO

## Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>BBC Scotland</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Cynnwys a fformatau newydd ac arloesol, ynghyd â thalent gyflwyno newydd, gan ddiffinio'r sianel	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Bydd rhaglenni dogfen yn cynnwys cyfres sy'n archwilio'r Alban yn yr oes sydd ohoni ( <i>Modern Lives</i> ), dathliad hanner canmlwyddiant Scottish Ballet, Street Symphony Emeli Sandé a golwg bersonol unigryw ar yr Alban drwy lygaid y rapiwr a'r sylwebydd cymdeithasol Darren McGarvey ( <i>Loki</i> ).	DO
	Bydd <i>Children of the Devolution</i> yn dathlu 20 mlynedd ers sefydlu Senedd yr Alban a cheir cyfle i gael golwg fanwl ar fywyd beunyddiol yn Ysbyty Plant Brenhinol Aberdeen.	DO
	Comedi newydd: <i>Limmy's Vines</i> a <i>Newsjack T</i>	DO
	Darllediad llinellol cyntaf ail gyfres y ddrama i fyfyrwyr <i>Clique</i>	DO
Uchelgais creadigol	Yn ogystal â'r rhaglen newyddion newydd am naw o'r gloch, <i>The Nine</i> , byddwn yn lansio nifer o raglenni newyddion a materion cyfoes eraill, gan gynnwys <i>Debate Night</i> , gan ddarparu llwyfan i gynulleidfaoedd holi gwneuthurwyr penderfyniadau'r Alban, a <i>Seven Days</i> , golwg wythnosol yn ôl dros y straeon a fu yn y newyddion. A byddwn yn rhoi'r cyfle i bobl yr Alban leisio barn ar ddigwyddiadau diweddar yn <i>The People's News</i>	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Byddwn yn arddangos digrifwyr newydd yn <i>The Comedy Underground</i> ac yn cyflwyno fformatau newydd â rhaglenni fel <i>May Contain Nuts</i> . Bydd y sianel hefyd yn croesawu hen ffefrynnau <i>Scot Squad</i> , <i>Landward</i> , <i>The Beechgrove Garden</i> a <i>River City</i>	DO
<b>BBC ALBA</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Mae darllediadau newydd, rheolaidd o bêl-droed a rygbi domestig a rhyngwladol yr Alban, a Chwpan Pêl Droed y Byd i Fenywod yn haf 2019, yn debygol o fod yn un o uchafbwyntiau blwyddyn o chwaraeon menywod.	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau drwy fentrau'r cyfryngau digidol a chomedi	DO
<b>Radio 1</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Mesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 1 a gorsafoedd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymysgedd nodedig o gerddoriaeth	DO – gweler Nodyn 1
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Adrodd ar ystod a dyfnder y gefnogaeth a roddir i gerddoriaeth newydd ar Radio 1 a Radio 2 drwy ddadansoddi'r rhestrau chwarae a gyhoeddir ganddynt; a chymharu perfformiad yn erbyn rhestrau chwarae gorsafoedd masnachol allweddol	DO – gweler Nodyn 2
Uchelgais creadigol	Byddwn yn lansio rhaglen gerddoriaeth arbenigol proffil uchel newydd gyda'r nos yn ystod yr wythnos ym mis Ebrill, gyda Ricky, Melvin a Charlie, a fydd yn anelu at gynnig dewis amgen cymhellol i gynulleidfaoedd ifanc yn hytrach na theledu a gwasanaethau ffrydio gweledol	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Bydd rhestr chwarae Radio 1 yn cyflwyno cerddoriaeth newydd fwyaf cyffrous y DU, gan gefnogi artistiaid nad ydynt wedi cael llwyddiant yn y siartiau eto. Bydd Brit List yn arbennig yn sicrhau ymrwymiad parhaus i artistiaid sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y flwyddyn	DO – gweler Nodyn 3
<b>1Xtra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Lansio rhaglen cerddoriaeth ac adloniant newydd hwyr y nos wedi'i chyflwyno gan Snoochie Shy. Gan anelu at ddatlu pob agwedd ar ddiwylliant cerddoriaeth ddu, bydd y rhaglen yn cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth newydd, yn ogystal â darparu cyfleoedd i DJs a dylanwadwyr gwadd archwilio eu genres penodol yn fanwl	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Hyrwyddo artistiaid newydd o'r DU nad ydynt yn cael llawer o gefnogaeth gan y cyfryngau prif ffrwd. Yn ystod y dydd, daw o leiaf 35% o'r gerddoriaeth gan artistiaid o'r DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod o leiaf 50% yn newydd	DO – 50% gan artistiaid o'r DU yr oedd 80% ohono yn newydd
Uchelgais creadigol	Anelu at ddatblygu partneriaethau newydd a chyflwyno lleisiau newydd i'r rhwydwaith drwy linyn 1Xtra Chat – ein hafan ar gyfer trafodaethau hyf hwyr y nos	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Mae rhaglenni 1Xtra yn targedu oedolion ifanc, gan anelu'n arbennig at apelio i gynulleidfaoedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig nas gwasanaethir yn ddigonol	DO

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>Radio 2</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Mesur y gorgyffwrdd o ran y 100 o ganeuon a chwaraeir fwyaf ar Radio 2 a gorsafoedd masnachol allweddol bob mis er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig cymysgedd nodedig o gerddoriaeth	DO – gweler Nodyn 4
	Chwarae cymysgedd fwy nodedig o gerddoriaeth na darparwyr cymaradwy, gyda rhestr chwarae yn ystod y dydd sy'n cynnwys amrywiaeth ehangach o ganeuon	DO
	Darlledu cymysgedd eang o genres a rhaglenni, yn cynnwys 500 Words, yn ogystal ag allbwn cerddoriaeth arbenigol o jazz, cerddoriaeth werin, canu gwlad, 'blues', canu'r enaid ac R&B.	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Rhoi llwyfan i artistiaid newydd a threftadaeth o'r DU yn ogystal ag artistiaid BBC Introducing	DO
Uchelgais creadigol	Parhau i hyrwyddo artistiaid newydd a threftadaeth, gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau byw o bob cwr o'r DU, fel Radio 2 Live in Hyde Park, Radio 2 Folk Awards a Gŵyl Jazz Cheltenham.	DO
	Gweithio mewn partneriaeth â CBBC, gan ddarlledu o'i Summer Social yn Lerpwl i gynulleidfa deuluol, yn ogystal â'n All Star Party, gan gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ledled y DU	DO
	Darlledu amrywiaeth o raglenni dogfen nodedig, gan gynnwys cyfres ar gyfansoddwyr caneuon gyda Gary Barlow, a chyfres ar Hip Hop a Dawns	DO
	Darlledu tymor Gweithredu Cymdeithasol ar ffrwythlondeb ymhlith dynion a menywod ym mis Tachwedd	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Cynnal ei ffocws golygyddol ar wrandawyr dros 35 oed	DO
<b>Radio 3</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Parhau i arloesi gan gyflwyno rhaglenni newydd fel rhan o'r amserlen, gan gynnwys: sioe glasurol newydd hwyr y nos yn ystod yr wythnos	DO
	<i>Late Junction</i> estynedig ar ddydd Gwener	DO
	Newidiadau pellach i raglenni cerddoriaeth y byd a jazz	DO
	Parhau â'i rôl o ran drama unigryw a heriol	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Parhau i hyrwyddo talent newydd – boed hynny drwy New Generation Artists, New Generation Thinkers neu BBC Introducing. Caiff cynlluniau eu datblygu ar gyfer tymor ar yr awyr sy'n dychwelyd sy'n rhoi sylw i dalent ifanc	DO
Uchelgais creadigol	Parhau i ddarlledu perfformiadau a recordiadau penodol o wyliau a neuaddau cyngerdd ledled y DU, o Wyl Jazz EFG Llundain i Wyl Cerddoriaeth Gyfoes Huddersfield ac o Wyl Ryngwladol Caeredin i Aldeburgh	DO
	Yn 2020, ymunwch â'r dathliadau byd-eang i gofnodi 250 mlynedd ers geni Beethoven, gyda darllediadau 'Composer of the Week' drwy gydol y flwyddyn ac amrywiaeth o raglennu darlledu cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd themâu a thymhorau sy'n ysbrydoli rhaglenni yn 2019 yn cynnwys ysbrydoliaeth byd natur ar gyfansoddwyr ac artistiaid yn dilyn tymor teiran llwyddiannus <i>Into the Forest</i> yr orsaf yn 2018	DO
<b>Radio 4 a BBC 4 Extra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Comisiynu drama glasur a chyfoes uchelgeisiol gan ddramodwyr newydd a sefydledig ar yr awyr ac ar ffurf ddigidol i gynulleidfa ar alw	DO
	Gan gyflwyno campwaith comig Thackeray, Vanity Fair, ar ffurf gwbl newydd, y digrifwr Al Murray, un o ddisgynyddion uniongyrchol Thackeray, fydd yr adroddwr craff ond annibynadwy. Bydd y ddrama pump rhan <i>Moon</i> yn cynnig disgrifiad amser real o'r daith fwyaf hanesyddol yn hanes dynoliaeth. Dros gyfnod o ddiwrnod dros wyl banc yr haf, caiff <i>In Search of Lost Time</i> gan Proust ei ailadrodd mewn ffordd rymus ar Radio 4.	DO
	Cyflwyno Comedy Playhouse â 12 sript eithriadol gan gymysgedd o awduron sefydledig a newydd; a bydd Gwobr Comedi Newydd y BBC Radio 4 unwaith eto yn ceisio dod o hyd i sêr comedi'r dyfodol	Cyflwynodd Comedy Playhouse 11 sript
	Bydd Radio 4 a BBC Sounds yn creu cyfanswm o dros 530 awr o ddrama a 240 awr o gomedi	DO – 534 awr o ddrama a 277 awr o gomedi
	Byddwn yn darlledu 55 awr o gomedi a 55 awr o ddrama bob wythnos ar Radio 4 Extra	DO – 66 awr o ddrama a 67 awr o gomedi





## Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
Uchelgais creadigol	Parhau i ddarledu dadansoddiadau a gwybodaeth ffeithiol nodedig am yr hyn sy'n digwydd yn y DU a sefyllfa Prydain yn y byd	DO
	Yn ystod yr hydref, darlledu cyfres nodedig sy'n ystyried y gydberthynas symbiotig rhwng celf a gwyddoniaeth, a sut mae'r ddau wedi cydfodoli, cydweithredu a gwrthdaro dros y canrifoedd	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Comisiynu mwy o bodlediadau arloesol sy'n datgelu'r byd mewn goleuni newydd. Yn dilyn llwyddiant <i>The Ratline</i> y flwyddyn ddiwethaf, bydd Radio 4 yn cyflwyno'r rhaglen a'r podlediad nesaf yn y gyfres <i>Intrigue</i>	DO
<b>BBC Radio 5 live a 5 live sports extra</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Amrywiaeth ehangach o chwaraeon ar 5 live a Sports Extra nag unrhyw wasanaeth cymaradwy arall yn 2019/20, gan gynnwys Cwpan Pêl-droed y Byd i Fenywod, Cwpan Criced y Byd, Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan Pêl-rwyd y Byd, Wimbledon, Pencampwriaeth Golff Agored Prydain, Cyfres y Llundw a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad	23 o ddiwyddiadau chwaraeon â sylwebaeth fyw – gweler Nodyn 5
	Bydd 5 live yn parhau i adrodd hanes taith y DU tuag at Brexit a thu hwnt drwy raglenni gwleidyddiaeth hygyrch a difyr fel <i>Question Time Extra Time</i> , <i>The Emma Barnett Show</i> , <i>Pienaar's Politics</i> a <i>Brexitcast</i> , mewn darllediadau allanol o bob cwr o'r DU, ac yn rhoi llais i'n gwrandawyr drwy alwadau a chwestiynau	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Bydd 5 live yn rhoi cyfle i bobl leisio barn o bob cwr o'r DU drwy ein rhaglen ffonio i mewn ddyddiol <i>Your Call</i> , a thrwy raglenni fel <i>5 live Breakfast</i> ac <i>Afternoon Edition</i> a fydd yn mynd ar grwydr	DO
Uchelgais creadigol	Bydd 5 live yn adrodd straeon y DU a bydd yn parhau i adrodd mwy o straeon o fwy o leoedd nag unrhyw ddarlledwr arall drwy agenda nodedig, amrywiaeth ehangach o leisiau a chymorth gan wrandawyr i lywio'r cynnwys bob dydd	DO
	Bydd 5 live yn parhau i gyflwyno digwyddiadau newyddion a chwaraeon mawr mewn ffordd frwdfrydig a bywiog, gan uno ar draws rhaglenni i greu radio byw cofiadwy	DO
	Yn 2019/20, bydd 5 live yn parhau i lywio'r sector podlediadau â'i allbwn arloesol a chreadigol	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Cyfres newydd gan enillydd Gwobr Podlediadau Newydd Rachael Bland, y gyfres glodwiw <i>You, Me and the Big C</i> yn dychwelyd a phodlediad y BBC i fenywod Prydeinig du, <i>The Sista Collective</i> , ynghyd â chyfres newydd yn ymchwilio i droseddau go iawn	DO
	Bydd 5 live yn parhau i adolygu ei hamserlenni, ei thalent a'i chyfranwyr ar yr awyr er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y DU	DO
<b>BBC 6 Music</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Bydd o leiaf 30% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn newydd	DO – 43%
	Parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cerddoriaeth newydd ac amgen o'r DU a thu hwnt	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Hyrwyddo lleoliadau ar lawr gwlad yn y DU drwy ei hallbwn gan gynnwys digwyddiadau byw fel y 6 Music Festival ac Wythnos Lleoliadau Annibynnol	DO
Uchelgais creadigol	Rhoi llwyfan i amrywiaeth o gerrig milltir a digwyddiadau, yn cynnwys dathlu 50 mlynedd ers glanio ar y lleuad, diwrnod i ddathlu Diwylliant Clybiau'r DU, taith o amgylch lleoliadau annibynnol yn y DU a darllediadau o'r Manchester International Festival, The Great Escape Festival, Gŵyl Jazz Cheltenham, Bluedot a SXSW	DO
	Archwilio'r celfyddydau gyda nifer o gyfresi sy'n canolbwyntio ar ffilm, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol, yn ogystal â thymor Art is Everywhere, lle caiff cynulleidfaoedd eu hysbrydoli i greu a rhannu eu celf eu hunain	DO
<b>BBC Asian Network</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Comisiynu cyfres o bodlediadau diddorol a threiddgar, gan gynnwys fersiwn ffurf fer o'n rhaglen trafod pynciau llosg hwyr y nos yng nghwmni Mobeen Azhar	Gwnaethom ehangu ein hamrywiaeth arfaethedig o bodlediadau newydd
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Parhau i roi llwyfan i sain Asiaidd Prydeinig, gydag o leiaf 30% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid a chynhyrchwyr o'r DU	DO – 37%
Uchelgais creadigol	Yn dilyn ymweliadau llwyddiannus â Mumbai a Karachi yn 2018, rydym yn gweithio ar wythnos debyg o raglenni trochi i ddathlu is-gyfandir India yn yr hydref	DO

\* Roedd hyn yn cynnwys yn benodol sylwebaeth ar gyfer Cwpan Pêl-droed y Byd i Fenywod, Cwpan Criced y Byd, Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan Pêl-rwyd y Byd, Pencampwriaeth Golff Agored Prydain, Cyfres y Llundw a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad, yn ogystal â sylwebaeth fyw o athletau, para-athletau, bocsi (dynion a menywod), criced (dynion a menywod), beicio ffordd, pêl-droed (dynion a menywod), Formula One, Formula E, golff (dynion a menywod), rasio ceffylau, hoci iâ, MMA, pêl-rwyd, rygbi undeb (dynion a menywod), rygbi'r gynghrair, snwcer, nofia a tennis.

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Cynnig cymysgedd eang o raglenni cerddoriaeth a llafar sy'n anelu'n bennaf at ddifyrru cynulleidfaoedd o Asiaid Prydeinig ifanc ac ymgysylltu â nhw	DO
<b>BBC Radio Scotland</b>		
Uchelgais creadigol	Ehangu arlwy aml-lwyfan brand Young Traditional Musician of the Year BBC Radio Scotland i sianel newydd BBC Scotland a pharhau i adfywio'r amserlen yn seiliedig ar waith ymchwil diweddar i'r gynulleidfa	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Lansio amrywiaeth o bodlediadau 'digidol yn gyntaf' yn unol â thema olygyddol yr orsaf ond wedi'u hanelu at gynulleidfa iau	DO
<b>BBC Radio nan Gàidheal</b>		
Uchelgais creadigol	Adolygu ei hamserlen gan anelu at adfywio'r amserlen yn ystod y dydd yn yr wythnos, gan barhau i ddatblygu talent a chynyddu mynediad at y gynulleidfa drwy greu synergeddau rhwng llwyfannau a fformatau darlledu newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes	DO
<b>BBC Radio Wales</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darllediadau gwleidyddol pellgyrhaeddol o ddadl Brexit ar raglenni allweddol, gan gynnwys <i>Good Morning Wales</i> , <i>Good Evening Wales</i> a <i>Sunday Supplement</i>	DO
	Darllediadau helaeth, gan gynnwys sylwebaeth fyw o bob un o gemau Cymru yng Nghwpan y Byd Rygbi'r Undeb 2019 yn Japan	DO
Uchelgais creadigol	Parhau i gefnogi diwylliant Cymru, gan gynnwys partneriaethau â Gŵyl Gomedï Machynlleth a Gwobrau Gwerin Cymru	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Denu cynulleidfaoedd iau drwy greu podlediadau a chynnwys wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer BBC Sounds	DO
<b>BBC Radio Cymru</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Ehangu gweithgareddau hyrwyddo ac effaith olygyddol ein hail wasanaeth radio Cymraeg newydd – BBC Radio Cymru 2 – er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r dewis o raglennu sydd bellach ar gael i gynulleidfaoedd	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Ar yr adeg hon o ddadlau gwleidyddol a chyfansoddiadol sylweddol, darparu lle yn ein hamserlen wythnosol ar gyfer cyfweiliadau hirach a manylach â'r lleisiau gwleidyddol a chyhoeddus amlycaf yng Nghymru	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Creu cynnwys Cymraeg gwreiddiol wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer BBC Sounds, mewn amrywiaeth o genres, gyda phwyslais ar apelio i unigolion 18-34 oed	DO
<b>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Ffocws ar chwaraeon byw ar bob llwyfan	DO
	Adfywio'r amserlen gyffredinol a datblygu talent newydd	DO
	Creu cynnwys wedi'i dargedu ar gyfer podlediadau yn unol â blaenoriaethau BBC Sounds	DO
	Rhyddhau deunydd archif a dathlu dyddiadau hanesyddol (40 mlynedd ers sefydlu Radio Foyle a hanner canmlwyddiant Y Trafferthion)	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Allbwn ychwanegol er mwyn rhoi llwyfan i'r Bencampwriaeth Golff Agored o Royal Portrush	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Canolbwyntio ar fireinio talent a chyfranwyr gyda phwyslais penodol ar sicrhau lleisiau amrywiol ar draws yr orsaf	DO
<b>Radio Lleol y BBC</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Darlledu rhaglen BBC Introducing fel rhan o amserlen pob gorsaf er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i dalent newydd	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Ffocws cynyddol ar greu podlediadau ar gyfer BBC Sounds	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Darparu allbwn yn gysylltiedig â ffydd a moeseg ar ddydd Sul	DO
	Manteisio ar lwyddiant The Social yn yr Alban a The Sesh yng Nghymru i'n helpu i nodi a datblygu talent a syniadau newydd drwy gyflwyno'r model ledled Lloegr yn 2019/20	DO – cyflwynwyd menter talent New Voices
	Bydd rhaglenni newydd gyda'r nos yn targedu cynulleidfaoedd iau, mwy amrywiol	DO

## Ymrwymiadau'r Cynllun Blynyddol

Diben	Ymrwymiad y BBC	Cyflawnwyd
<b>Gwasanaethau Ar-lein y BBC</b>		
Cymysgedd o genres ac allbwn gwahanol	Parhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys i gynulleidfaoedd ar bob un o'n gwasanaethau ar-lein. Yn ystod y flwyddyn hon, byddwn yn anelu at sicrhau bod mwy o'r cynnwys perthnasol o holl wasanaethau Ar-lein y BBC ar gael ar y gwasanaethau mwyaf er mwyn cynnig amrywiaeth ehangach o gynnwys i gynulleidfaoedd allu dewis ohono	DO
Allbwn gwreiddiol o'r DU	Parhau i ddarparu dolenni i straeon allanol gan ddarparwyr newyddion lleol a rhanbarthol, gan eu cynnwys fel rhan o'n tudalennau pynciau Newyddion newydd y bwriedir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn hon	DO – rydym yn darparu dolenni lleol a rhanbarthol ar bob un o'n tudalennau lleol
	Edrych ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi'r diwydiant ehangach drwy gynnal ei gynnwys neu gyfeirio ato ar wasanaethau Ar-lein y BBC. Parhau i weithredu canllawiau golygyddol er mwyn sicrhau ein bod yn cysylltu allan o'n straeon lle bo hynny'n olygyddol briodol	DO – rydym yn asesu ein darpariaeth dolenni digonol yn dilyn adolygiad Ofcom o allbwn BBC News Ynghyd â'n Canllawiau Golygyddol, mae gennym ganllawiau pellach ar ffyrddiau a dolenni
Uchelgais creadigol	Parhau i ddatblygu a gwella iPlayer (yn unol â'n cynlluniau presennol) a'n cynnyrch sain newydd BBC Sounds	DO
	Dechrau adfywio'r gwasanaethau mawr ar wasanaethau Ar-lein y BBC, gan gyflwyno mwy o'r cynnwys o fewn llai o wasanaethau a rhoi profiadau mwy personol, bywiog, rhyngweithiol a pherthnasol i gynulleidfaoedd. Parhau i ddatblygu ein harlwy dysgu ar-lein drwy'r gallu dysgu deallus a gyflwynwyd y flwyddyn ddiwethaf	DO
	Parhau i wella ein cynnwys, gan ganolbwyntio ar y cynnwys sy'n cael yr effaith fwyaf ac arloesi â phodlediadau a chynnwys digidol arall	DO
Amrywiaeth o gynulleidfaoedd	Ehangu ein gallu i ddefnyddio data mewngofnodi er mwyn personoli ein harlwy ar draws ein gwasanaethau digidol, gan dynnu sylw at y cynnwys gorau sydd fwyaf perthnasol i gynulleidfaoedd	DO
	Parhau i arwain y ffordd wrth ddatblygu sut olwg sydd ar ddarlledu cyhoeddus a sut mae'n teimlo ar-lein, yn arbennig drwy ystyried nodweddion argymhellion gwasanaeth cyhoeddus	DO

**Nodiadau**

- 1 Yn ystod 2019/20, y goryffwrdd misol cyfartalog rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 1 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Capital London, Kiss and Radio X oedd 26 o ganeuon
- 2 Ychwanegwyd 380 o draciau at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2019, yr oedd 154 ohonynt gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU. Ychwanegwyd 145 o draciau at restrau chwarae Capital Network, yr oedd 31 ohonynt gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg o'r DU
- 3 Roedd 62% o'r traciau a ychwanegwyd at restr chwarae Radio 1 yn ystod 2019 gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg Ychwanegwyd chwe artist o'r DU at Brit List Radio 1 yn 2019/20
- 4 Yn ystod 2019/20, y goryffwrdd cyfartalog rhwng y 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Radio 2 a'r 100 o ganeuon a chwaraewyd fwyaf ar Heart London, Magic a Smooth oedd saith cân.
- 5 Mae hyn yn benodol yn cynnwys sylwebaeth o Gwpan Pêl-droed y Byd i Fenywod, Cwpan Criced y Byd, Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan Pêl-rwyd y Byd, Pencampwriaeth Golff Agored Prydain, Cyfres y Lluadw a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad yn ogystal â sylwebaeth fyw o athletau, para-athletau, bocsio (dynion a menywod), beicio ffordd, pêl-droed (dynion a menywod), Formula One, Formula E, golff (dynion a menywod), rasio ceffylau, hoci iâ, MMA, pêl-rwyd, rygbi'r undeb (dynion a menywod), rygbi'r gynghair, snwcer, nofio a thennis.

# Dyletswyddau Cyffredinol

Mae'r Siarter yn nodi nifer o Ddyletswyddau Cyffredinol sy'n gymwys i'r BBC. Cydymffurfiodd y BBC â phob un o'i Ddyletswyddau Cyffredinol yn 2019/20. Nodwyd y mesurau i adrodd arnynt yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2019/20.

## 1. Gweithredu er budd y cyhoedd

Rhaid i'r BBC weithredu er budd y cyhoedd, gyda'r nod o wasanaethu ei gynulleidfaeidd nid dim ond fel defnyddwyr, ond hefyd fel aelodau o gymdeithas ehangach, gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n ceisio hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaeidd ynghyd â chyflawni dibenion cyhoeddus ehangach. O ganlyniad, rhaid i'r BBC sicrhau bod buddiannau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol) penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r genhadaeth neu'r dibenion yn gorbwysu'r costau (boed yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol); ac yn ystyried buddiannau a chostau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol	DO
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau lle rydym wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb neu gyda Fframwaith Gweithredu Ofcom neu Drwydded World Service	DO – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ar faterion golygyddol y BBC a'r nifer cyffredinol o gwynion a wnaed	DO – gweler yr adroddiad ar Ganllawiau a Safonau Golygyddol
Byddwn yn cyhoeddi data mesur perfformiad, yn cynnwys data ar gyflawni'r dibenion cyhoeddus	DO

## 2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rhaid i'r BBC asesu safbwyntiau a buddiannau'r cyhoedd a chynulleidfaeidd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r BBC wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau amrywiol y cyhoedd a chynulleidfaeidd, yn cynnwys talwyr ffi'r drwydded, ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hystyried wrth iddo wneud ei benderfyniadau.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol ar safbwyntiau cynulleidfaeidd ynghylch y BBC fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol	DO
Byddwn yn cynnal tua chwe digwyddiad wyneb yn wyneb gyda chynulleidfaeidd ac yn adrodd ar y canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y BBC, a chaiff pedwar ohonynt eu cynnal gan Bwyllgorau Gwledydd y Bwrdd	DO – gweler yr Adroddiad Ymgysylltu â Chynulleidfaeidd

## 3. Effaith ar y farchnad

Mae gan y BBC ran hanfodol i'w chwarae ym marchnad cyfryngau a darlledu'r DU. Yn ogystal â gwasanaethu cynulleidfaeidd yn uniongyrchol drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau, gall gyfrannu at y farchnad yn fwy eang, er enghraifft drwy hyrwyddo cystadleuaeth, cefnogi cadwyni cyflenwi ac annog arloesedd ym mhob rhan o'r sector. Rhaid i'r BBC ystyried yn benodol effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn y DU. Drwy gydymffurfio â'r ddyletswydd hon rhaid i'r BBC (a) ceisio osgoi effeithiau andwyol diangen ar gystadleuaeth a (b) hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol a gynllunnir	DO – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol nifer y cwynion rheoleiddiol a gafodd eu cadarnhau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt	DO – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	DO – dim
Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd	DO – gweler <a href="https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit">https://www.bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation/iplayerpit</a>

## 4. Bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol

Rhaid i'r BBC gynnal safonau uchel o fod yn agored a cheisio sicrhau'r tryloywder a'r atebolrwydd gorau posibl. Rhaid iddo gyhoeddi cofnodion y Bwrdd, penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i gylch gwaith/gwasanaethau, a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau. Mae hefyd angen i'r Bwrdd ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â diddordeb.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau strategol, cynlluniau creadigol a chyllideb y BBC ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau	DO – gweler <a href="http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annual-plan/annual-plan-2020-21.pdf">http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annual-plan/annual-plan-2020-21.pdf</a>
Byddwn yn cyhoeddi'r canlynol ar ôl y digwyddiad perthnasol: Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd: — Penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i'r cylch gwaith creadigol, cynllun gwaith a newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau a gweithgareddau masnachol — Cofnodion cryno cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd	DO – gweler <a href="http://bbc.com/aboutthebbc">bbc.com/aboutthebbc</a>



## Dyletswyddau Cyffredinol

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb manwl o berfformiad yn erbyn ein cwotâu rheoleiddiol; manylion ariannol llawn a chyfrifon; a gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb	DO
Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r datgeliadau cyflog sy'n ofynnol o dan y Siarter mewn perthynas â chyflogau dros £150k, ynghyd â'n cyfundrefn wirfoddol o ddatgelu cyflogau chwarterol a threuliau ar gyfer uwch-reolwyr	DO – gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth
<b>5. Partneriaeth</b>	
Bydd y BBC yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn yr economi greadigol, er budd y cyhoedd. Dylai greu partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau o bob maint, yn cynnwys rhai masnachol ac anfasnachol, o bob cwr o'r DU. Dylai partneriaethau fod yn deg ac yn fuddiol i bawb gan briodoli a chydabod partneriaid yn briodol.	
Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi data perfformiad ar allbwn a gweithgarwch partneriaethau allweddol, yn cynnwys ar yr amrywiaeth o bartneriaethau sydd gan y BBC, yr amrywiaeth o bartneriaid, ehangder daearyddol, ac effaith	DO – gweler Partneriaethau
<b>6. Amrywiaeth</b>	
Rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig gyfan drwy ei allbwn, y ffordd y caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu, ac yn nhrefniadaeth a rheolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU.	
Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data manwl ar amrywiaeth ein holl staff, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb blynnyddol.	DO – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a dadansoddiad o'n bylchau cyflog ar gyfer grwpiau eraill	DO – gweler yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
Byddwn hefyd yn cyhoeddi data mesur perfformiad, a gasglwyd wrth gyflawni ein pedwerydd diben cyhoeddus	DO – gweler tudalennau 30-39
<b>7. Technoleg</b>	
Rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesedd technolegol, a chynnal rôl arweiniol mewn gwaith ymchwil a datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddo geisio gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a rhannu, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ei wybodaeth a'i dechnolegau ymchwil a datblygu.	
Cyflawnwyd	Cyflawnwyd
Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn adran Ymchwil a Datblygu'r BBC yn unol ag amcanion hirdymor y BBC	DO
Byddwn yn parhau i rannu unrhyw wybodaeth yn deillio o waith ymchwil a datblygu, er enghraifft gan ddefnyddio papurau gwyn y diwydiant a chynulliadau proffesiynol perthnasol, gan gynnwys cyrff safonau. Byddwn yn defnyddio ein presenoldeb ar y we ac yn gymdeithasol i danlinellu negeseuon allweddol i gynulleidfa ehangach	DO
<b>8. Stiwardio arian cyhoeddus</b>	
Mae'r BBC yn stiwardio arian cyhoeddus yn drylwyr yn unol â'r egwyddorion canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>— Rheoleidd-dra – Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth</li> <li>— Priodoldeb – Dylai'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC gyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus, llywodraethu cadarn a rhoi ystyriaeth briodol i ddisgwyliadau'r Senedd (gan gynnwys disgwyliadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), a rannwyd â'r BBC yn ffurfiol</li> <li>— Gwerth am arian – Rhaid i drefniadau caffael, prosiectau a phrosesau gael eu gwerthuso a'u hasesu'n systemataidd er mwyn rhoi hyder ynghylch darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosiect, gan ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd, ac nid i'r BBC yn unig</li> <li>— Dichonoldeb – Dylai cynigion sy'n defnyddio arian cyhoeddus gael eu rhoi ar waith yn gywir, yn gynaliadwy ac yn unol â'r amserlen fwriadedig</li> </ul>	
Mesur	Cyflawnwyd
Barn archwilio Gwir a Theg gan archwilwyr allanol y BBC	DO
Byddwn yn adrodd ar ein dulliau o ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar gydymffurfio â'r Siarter, er mwyn sicrhau bod y trafodion a geir yn natganiadau ariannol y BBC wedi'u cymhwysu at y dibenion fel y'i bwriadwyd a'u bod yn cydymffurfio â'r fframweithiau perthnasol sy'n eu llywodraethu	DO

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cydymffurfio ag amodau cyllido fel rhan o gytundeb cyllido ar wahân, e.e. arian grant i'r BBC World Service	DO
Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r adolygiadau Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu bartion eraill a gomisiynwyd	DO

### 9. Arweiniad ac arfer gorau

Mae'n rhaid i'r BBC ystyried canllawiau cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli materion cyrff cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn archwilio ein cydymffurfiaeth wirfoddol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da yn seiliedig ar nod cyffredinol cydymffurfio â'r Cod lle y bo'n bosibl	DO – gweler Llywodraethu
Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Cod; meysydd lle nad yw'r Cod yn berthnasol i'r BBC; meysydd lle mae'r Siarter yn drech na'r Cod; a meysydd lle nad yw'r BBC yn cydymffurfio	DO – gweler Llywodraethu
Byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb blynyddol, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	DO – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Caiff datganiad blynyddol am gasglu ffi'r drwydded ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'i osod gerbron Senedd y DU	DO
Byddwn yn parhau i gydymffurfio ag arfer gorau wrth gynnig hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion fel mesurau gwrth-lwgrwobrwyo, diogelu data ac amddiffyn plant	DO

### 10. Dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â gweithgareddau masnachol

Mae angen i weithgareddau masnachol y BBC weithredu er budd y cyhoedd, ymgysylltu â'r cyhoedd, a sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw. Ni ddylent wyrdroi'r farchnad nac ennill mantais gystadleuol annheg.

Mesur	Cyflawnwyd
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn parhau i: adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom; comisiynu archwiliad annibynnol blynyddol; adolygu, ystyried a chymeradwyo methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC; adrodd ar hynt yn Adroddiad Blynyddol y BBC; ac adolygu cydymffurfiaeth barhaus y gweithgareddau masnachol â'r Pedwar Maen Prawf Masnachol	DO
Byddwn yn dilyn ein polisi cyhoeddedig ar newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol	DO
Mae ein fframwaith cwynion yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch methiant i fodloni unrhyw ofynion o ran gweithgareddau masnachol	DO
Byddwn yn cyhoeddi newidiadau sylweddol posibl sydd ar droed i wasanaethau masnachol yng Nghynllun Blynyddol y BBC, yn dibynnu ar faterion cyfrinachedd masnachol	DO
Byddwn yn cynnal y prawf masnachol ar gyfer unrhyw newid sylweddol arfaethedig i'n gweithgareddau masnachol, ac yn cyhoeddi'r newid arfaethedig unwaith y byddwn wedi gwneud hynny	DO
Byddwn yn parhau i hyfforddi staff allweddol ar gydymffurfiaeth â'r rheolau Masnachu Teg	DO
Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Ofcom, gan nodi perfformiad ariannol ein his-gwmnïau masnachol a nodi methodolegau manwl ar gyfer prisiau trosglwyddo o fewn ein grŵp	DO – gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Ddaliadau Masnachol a Llawlyfr Masnachu'r Grŵp
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ynghylch cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran gweithgareddau masnachol o dan y Siarter a'r Cytundeb neu yn Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'n hymateb i gwynion o'r fath	DO – dim
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	DO – dim
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn adrodd ar ei waith yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bob blwyddyn	DO – gweler yr Adroddiad Masnachu Teg

# Gwasanaethau mynediad

## Disgrifiadau sain

	Oriau disgrifiadau sain		Cyfanswm oriau	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC One	1,985	1,925	8,904	22.3	22.0	20.0	20.0
BBC Two	2,433	2,644	8,904	27.3	30.3	20.0	20.0
BBC Four	1,467	1,419	3,256	45.1	44.6	20.0	20.0
CBBC	1,926	1,995	5,177	37.2	39.2	20.0	20.0
CBeebies	1,484	1,447	4,785	31.0	30.8	20.0	20.0
BBC Scotland	501	50	2,025	24.8	28.3	20.0	20.0
<b>Cyfanswm llinellol</b>	<b>9,797</b>	9,479	<b>33,050</b>				

	Rhaglenni â disgrifiadau sain		Cyfanswm y rhaglenni	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC iPlayer <sup>1</sup>	9,108	8,826	59,522 <sup>2</sup>	15.3	15.8	Dd/G	Dd/G

## Dehongli drwy iaith arwyddion

	Oriau dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm oriau	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC One	493	458	8,904	5.5	5.2	5.0	5.0
BBC Two	458	459	8,904	5.1	5.3	5.0	5.0
BBC Four	210	202	3,256	6.4	6.4	5.0	5.0
CBBC	266	270	5,177	5.1	5.3	5.0	5.0
CBeebies	270	252	4,785	5.6	5.4	5.0	5.0
BBC Scotland <sup>3</sup>	102	0	2,025	5.0	0.0	5.0	5.0
BBC News	520	507	8,904	5.8	5.8	5.0	5.0
<b>Cyfanswm llinellol</b>	<b>2,318</b>	2,147	<b>41,954</b>				

	Rhaglenni wedi'u dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm y rhaglenni	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC iPlayer <sup>1</sup>	2,940	2,612	59,522 <sup>2</sup>	4.9	4.7	Dd/G	Dd/G

## Isdeitlau

	Oriau ag isdeitlau		Cyfanswm oriau	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC One	14,577	14,354	14,589	99.9	99.9	100	100
BBC Two	9,335	9,492	9,342	99.9	99.9	100	100
BBC Four	3,255	3,178	3,256	100	100	100	100
CBBC	5,175	5,089	5,177	100	100	100	100
CBeebies	4,785	4,699	4,785	100	100	100	100
BBC Scotland	2,024	175	2,025	100	100	100	100
BBC News	8,902	8,736	8,904	100	100	100	100
BBC Parliament	1,504	1,629	8,904	16.9	18.6	Dd/G	Dd/G
<b>Cyfanswm llinellol</b>	<b>49,557</b>	47,352	<b>56,982</b>				

	Rhaglenni wedi'u hisdeitlo		Cyfanswm y rhaglenni	Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2019/20	2018/19		2019/20	2018/19	2019/20	2018/19
BBC iPlayer <sup>1</sup>	54,915	51,533	71,570	76.7	76.5	Dd/G	Dd/G

### Nodiadau

- 1 Ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y rhaglenni sydd ar gael ar BBC iPlayer, heb gynnwys cynnwys S4C a World Service. Ar gyfer y pum prif sianel ddarlledu, gan gynnwys y gwledydd ac amrywiadau rhanbarthol, caiff yr holl gynnwys ei isdeitlo, caiff disgrifiadau sain eu darparu ar gyfer 20% ac mae iaith arwyddion ar gael ar gyfer 5%. Mae'r cynnwys hwn yn cynnwys fersiynau ag isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion oll ar gael ar BBC iPlayer, a rydym yn cyflawni'r un lefelau ar gyfer rhaglenni BBC Three. Mae BBC iPlayer yn cyfuno'r prif sianelau darlledu hynny a sianelau eraill lle darperir llai o wasanaethau mynediad, felly mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer BBC iPlayer yn is na'r prif sianelau darlledu.
- 2 Nid yw cyfanswm nifer y rhaglenni yma yn cynnwys fersiynau disgrifiadau sain ac iaith arwyddion o raglenni. Mae'r fersiynau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau isdeitlo.
- 3 Yn sgil trafod amserlennu gydag Ofcom, dechreuodd BBC Scotland ddarlledu fersiynau o raglennu ag iaith arwyddion ar 29 Ebrill 2019.

# Elfen o gystadleuaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a chynhyrchwyr allanol, boed yn gynhyrchwyr annibynnol ai peidio, ar gyfer cynhyrchu cynnwys teledu, radio ac ar-lein. Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr elfen o gystadleuaeth mewn teledu yn yr Adroddiad Cyflenwi Teledu, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn: <http://downloads.bbc.co.uk/commissioning/site/bbc-commissioning-supply-report-2019.pdf>.

Fel sy'n ofynnol o dan y Siarter a'r Cytundeb erbyn 31 Rhagfyr 2019, rydym wedi dileu'r warant fewnol ar gyfer rhaglenni plant, rhaglenni chwaraeon a rhaglenni materion cyfoes nad ydynt yn rhai newyddion ar y teledu.

Llwyfan	Targed cystadlu	Cystadleuaeth hyd yn hyn	Dyddiad cwblhau	Cyflawnwyd
Teledu <sup>1</sup>	100% o'r oriau perthnasol	62%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith
Radio <sup>2</sup>	60% o'r oriau perthnasol	48%	31 Rhagfyr 2022	Ar waith
Ar-lein <sup>3</sup>	100% o'r gwariant perthnasol	62%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith

## Nodiadau

- 1 Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau ei fod yn sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r rhaglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae ein halltro yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd neu a ddarparwyd ar BBC iPlayer yn 2019, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at 31 Rhagfyr 2019.
